



Cyfarfod

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Dyddiad ac Amser

1.00 y.h., DYDD MAWRTH, 3YDD CHWEFROR, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 27 Ionawr 2026)

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Geraint Wyn Parry
Arwyn Herald Roberts
Meryl Roberts

Ioan Thomas
Menna Baines
Huw Rowlands

Edgar Wyn Owen
Elfed Wyn ap Elwyn

Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Wendy Cleaver
Richard Glyn Roberts

Angela Russell
Elwyn Jones

Aelodau Lleyg (6)

Elwyn Rhys Parry
Carys Edwards
Hywel Eifion Jones
Peter Barnes
Paul Millar Mills
Dewi Lewis

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried

4. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR

5 - 8

I ystyried yr adroddiad a chynnig sylwadau

5. CYLLIDEB 2026/27

9 - 58

I graffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet argymhell cyllideb 2026/27 i'r Cyngor Llawn

6. STRATEGAETH GYFALAF 2026/27 (YN CYNNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYG)

59 - 97

I ystyried unrhyw risgiau sy'n codi o'r strategaeth cyn i'w chyflwyno i'r Cyngor llawn i'w derbyn.

7. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

98 - 154

I dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 29 Medi 2025 hyd 25 Ionawr 2026, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

8. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2025/26

155 - 159

I nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2025/26, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.

9. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

160 - 189

I dderbyn a chymeradwyo cynnwys y Mandad a'r Siarter Archwilio Mewnol, i'w gymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol yn ei weithrediadau.

10. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A'R CYNLLUN 190 - 210
ARCHWILIO BLYNYDDOL 2026/27

I dderbyn a chymeradwyo cynnwys y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2026/2027, i'w cymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol yn ei weithrediadau.

11. ADRODDIAD AROLYGAETHAU ESTYN A AROLYGAETH GOFAL 211 - 226
CYMRU

I ystyried a derbyn yr adroddiad.

12. TREFNIADAU AR GYFER COMISIYNU GWASANAETHAU - 227 - 250
CYNGOR GWYNEDD

I adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor

I sicrhau bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt.

13. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU - LLETY DROS DRO, 251 - 299
ARGYFWNG HIRDYMROR?

Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar adroddiad(au) sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru

- Llety dros dro, argyfwng hirdymor?

14. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR 300 - 302

I ystyried y flaen raglen

PWYLLGOR	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	3 CHWEFROR 2026
TEITL	GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR WEITHREDU PENDERFYNIADAU BLAENOROL Y PWYLLGOR
AWDUR	DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID
GWEITHREDIAD	ER GWYBODAETH

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o sut mae adrannau’r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau’r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio, fel bod modd i'r aelodau gael sicrwydd fod eu penderfyniadau yn cael sylw.
- 1.2 Mae hyn yn cyfrannu at roi sicrwydd i'r aelodau fod trefniadau llywodraethu’r Cyngor yn gweithredu’n effeithiol.
- 1.3 Mae’r eitem hon yn gyfle i holl aelodau’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y penderfyniadau a wnaed. Lle mae’r gweithrediad wedi ei gwblhau, neu lle nad oedd gweithrediad pellach yn angenrheidiol, mae’r llinell yn cael ei dynnu o’r tabl ar ôl i’r Pwyllgor ystyried y mater.

2. PENDERFYNIADAU ERS SEFYDLU’R CYNGOR NEWYDD (MAI 2022)

Cyfarfod 5 Medi 2024

Eitem	Penderfyniad	Diweddariad
GWEITHREDU PENDERFYNIADAU’R CYNGOR	Derbyn cynnwys yr adroddiad. Nodyn: Ychwanegu i’r daflen penderfyniad: Bod angen cynnal sesiwn gwybodaeth ar y maes digartrefedd i aelodau’r Pwyllgor ddeall y maes yn well ac i ddeall y rhesymau pam fod costau yn y maes mor uchel	Wedi ei ddisodli gan eitem fwy diweddar yn dilyn sylw ym Mhwyllgor Ionawr – gweler y rhan perthnasol o’r adroddiad isod – Adroddiad Archwilio Cymru – Llety Argyfwng.

Cyfarfod 10 Hydref 2024

Eitem	Penderfyniad	Diweddariad
ARCHWILIO CYMRU: GOFAL BRYNS AC ARGYFWNG: ‘LLIF ALLAN O’R YSBYTY – RHANBARTH GOGLEDD CYMRU’	- Derbyn cynnwys yr adroddiad - Cyflwyno diweddariad ar yr argymhellion ymhen 12 mis	Mae bwriad i gyflwyno eitem i’r Pwyllgor ym mis Mai 2026.

Cyfarfod 16 Ionawr 2025

ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU - 'CYNALIADWYEDD ARIANNOL LLYWODRAETH LEOL' AC 'ADOLYGIAD O GYNALIADWYEDD ARIANNOL – CYNGOR GWYNEDD'	• Derbyn yr adroddiad Cenedlaethol a Lleol • Derbyn ymateb y Cyngor i'r argymhellion Nodyn: • Yn dilyn derbyn cefnogaeth a chanllawiau CIPFA, Rhaglen Waith yr ymateb i'w gyflwyno i'r Pwyllgor erbyn Mawrth 2026 • Adroddiadau Perfformiad fydd yn cael eu cyflwyno i Bwyllgorau Craffu i arddangos bod y gofynion statudol yn cael eu cyfarch	Disgwylir i'r pwyntiau gweithredu yma gael eu cwblhau yn unol â'r cynllun gweithredu addasedig yn dilyn terfynu adroddiad CIPFA.
---	--	---

Cyfarfod 6 Chwefror 2025

ADRODDIAD ARCHWILIAD ARBENNIG – GOFAL CARTREF	• Derbyn a nodi'r cynnydd i ganfyddiadau arolwg Archwilio Mewnol a'r drefniadau Gofal Cartref y Cyngor • Croesawu'r Rhaglen Waith drylwyr sydd mewn lle i wella'r ddarpariaeth • Bod angen diweddariad pellach ymhen 12 mis ar gynnydd a llwyddiant y rhaglen waith	Disgwylir i'r pwynt gweithredu perthnasol gael ei gwblhau yn amserol.
--	---	--

Cyfarfod 9 Hydref 2025

ARGYMHELLION A CHYNNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL	• Derbyn yr adroddiad Nodyn: Derbyn adroddiad cynnydd o'r Archwiliad 'Llif allan o'r Ysbyty', Gwanwyn 2026	Mae bwriad i gyflwyno eitem i'r Pwyllgor ym mis Mai 2026.
--	---	--

Cyfarfod 15 Ionawr 2026

GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR	• Derbyn cynnwys yr adroddiad Nodyn: • Derbyn diweddariad ar eitemau 5/9/24 (cynnal sesiwn gwybodaeth ar y maes digartrefedd) a 10/10/24 (diweddariad ar argymhellion Archwiliad Gofal Brys: Llif Allan o'r Ysbyty) erbyn y cyfarfod nesaf	Mae adroddiad gan Archwilio Cymru yn berthnasol ag yn eitem ar wahân ar raglen y cyfarfod yma
--	---	--

CYNLLUN YMATEB I'R ADRODDIAD CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER	• Derbyn manylder y Cynllun Ymateb • Yn diolch i'r Swyddogion am eu gwaith ac yn croesawu bod y Cynllun Ymateb yn cael ei drafod mewn sawl fforwm • Bod angen crynodeb / blaen dudalen syml a phendant o'r prif bwyntiau gweithredu • Bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y camau sydd wedi eu gweithredu neu sydd yn cael eu hystyried fel ymateb addas a phriodol â'r sefyllfa • Cais gan y Pwyllgor i Estyn gydnabod gwendidau eu hadroddiad ar drefniadau diogelwch y Cyngor, Mehefin 2023 • Bod Trefniadau Canu'r Gloch a Threfniadau Diogelu angen bod ymysg y gorau - croesawu adolygiadau i'r polisïau hyn - angen diweddariad ar y gwaith, yr amserlen a'r modd maent yn cael eu mabwysiadu Nodyn: Cais i adolygu paragraff olaf 2.5 o'r Cynllun Ymateb: 'Ymchwiliad i Ddigwyddiadau 2019 sydd wedi bod yn destun sylw gan y wasg' – angen mwy o gyd-destun am yr ymchwiliad annibynnol a gwblhawyd a beth oedd y penderfyniad dros beidio rhannu'r adroddiad / casgliadau. Cais i osod cyd-destun i ganmoliaeth Estyn i drefniadau diogelu'r Cyngor (Mehefin 2023). Y geiriad fel y mae yn amhriodol o ystyried y methiannau a ddaethpwyd i'r amlwg yn ddiweddarach.	Bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried gan y Cyngor llawn ar 5 Chwefror.
CYLLIDEB REFENIW 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2025	• Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2025 o'r Gyllideb Refeniw • Nodi sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.	Dim Gweithrediad Pellach
RHAGLEN GYFALAF 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2025	• Derbyn yr adroddiad a chytuno ar yr argymhellion i'r Cabinet eu hystyried	Dim Gweithrediad Pellach

TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION	• Derbyn yr adroddiad • Nodi'r cynnydd, y sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt Trosolwg Arbedion Nodyn /Awgrym Cynnig cefnogaeth wedi ei dargedu ar gynlluniau nad yw'r Adrannau yn gallu eu gwireddu	Bydd hyn o dan adolygiad parhaus
POLISI LLEIHOU TRETH CYNGOR O DAN ADRAN 13A(1)(C) O DDEDDF CYLLID LLYWODRAETH LEOL 1992	• Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol • Croesawu penderfyniad y Cabinet i gymeradwyo'r Polisi • Croesawu bod y Polisi o dan adolygiad parhaus a bod modd i'w addasu wrth i unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu newid mewn amgylchiadau gael eu cyflwyno. Nodyn / Awgrym Ail eirio paragraff 3.3 atodiad 2 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb i atgyfnerthu'r datganiad Ychwanegu twristiaeth gynaliadwy fel maes blaenoriaeth i baragraff 4.5, Adroddiad Cabinet	Bydd y pwyntiau hyn yn derbyn ystyriaeth wrth adolygu'r Polisi
ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU – LLETY DROS DRO, ARGYFWNG HIRDYMOR?	Gohirio tan gyfarfod 3 Chwefror 2026	Eitem i'w drafod fel rhan o raglen y cyfarfod yma.
BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR	• Derbyn y rhaglen waith hyd Chwefror 2027	Dim Gweithrediad Pellach

3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys y tablau uchod a chynnig unrhyw sylwadau.

CYFARFOD:	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD:	3 CHWEFROR 2026
TEITL:	CYLLIDEB 2026/27
PWRPAS:	Cyflwyno'r gyllideb y bwriedir ei argymell gan y Cabinet i'r Cyngor i'w graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
GWEITHREDIAD:	Craffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet argymell cyllideb 2026/27 i'r Cyngor llawn
AELOD CABINET:	CYNGHORYDD HUW WYN JONES
SWYDDOG CYSWLLT:	DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID

1. Yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig ac yn dod i gasgliad ynglŷn â'r gyllideb i'w gynnig i'r Cyngor, fydd yn cynnwys argymhelliad ynglŷn â'r cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2026/27 (gweler y penderfyniad a geisir ar flaen yr adroddiad Cabinet atodol).
2. Bydd y gyllideb yn cynnwys rhaglen o gynlluniau arbedion cyflwynir yn Atodiad 3, ynghyd â 'bidiau' ychwanegir at y gyllideb sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 2.
3. Rhoddir ystyriaeth i nifer o'r risgiau ariannol a'r camau perthnasol i sicrhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol, yn Atodiad 10.
4. Byddwn yn hysbysu'r Cabinet o gasgliadau a sylwadau'r Pwyllgor pan yn cyflwyno'r adroddiad ar 10 Chwefror.
5. Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet ar yr opsiynau.
6. Nid rôl y Pwyllgor yw mynegi barn ar yr hyn dylai maint yr arbedion neu lefel y Dreth Cyngor fod, ond i sicrhau fod y Cabinet a'r Cyngor yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt, fel bod y penderfyniad sydd yn cael ei gymryd yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

7. Yn gryno, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fodloni ei hun fod y wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno yn yr adroddiad yma a'i atodiadau, yn ddigonol i alluogi'r Cabinet wneud argymhelliad ar gyllideb arfaethedig, ac i'r Cyngor ddod i benderfyniad ar sail yr wybodaeth fydd yn cael ei gyflwyno iddynt.

Atodiad:

Cyllideb 2026/27 (adroddiad Cabinet 10/02/2026)

Cyfarfod:	Cabinet
Dyddiad:	10 Chwefror 2026
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet dros Gyllid
Pwnc:	Cyllideb 2026/27
Swyddog Cyswllt:	Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

CYLLIDEB 2026/27

Y Penderfyniad a geisir

Argymell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2025) y dylid:

1. Sefydlu cyllideb o £379,866,050 ar gyfer 2026/27 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £264,009,390 a £115,856,660 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynydd o 5.32%).
2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £40,179,430 yn 2026/27 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27.
- 1.2 Gosodir y gyllideb hon mewn cyfnod ble mae awdurdodau lleol Cymru yn parhau i wynebu heriau ariannol, lle nad yw'r ychwanegiad i'r setliad yn cwrdd â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau.
- 1.3 Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cynnydd grant Llywodraeth o 4.1% ar gyfer 2026/27, sy'n cyfateb i gynnydd gwerth £10.4m mewn ariannu allanol. Yn ogystal â hynny, mae sail y setliad am 2024/25 wedi cynyddu o £5.4m i adlewyrchu trosglwyddo cyfrifoldebau i'r setliad, sydd hefyd yn arian ychwanegol wedi ei gynnwys yn y grant.
- 1.4 Erbyn 2026/27, byddai angen cynyddu ein gwariant o £23.3m er mwyn "sefyll yn llonydd" (mae manylion yn rhan 3 isod). Mae hyn yn cynnwys £9.9m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (mae manylion o'r 'bidiau' unigol yn Atodiad 2).

- 1.5 Gwelir yn yr adroddiad hwn fod pwysau galw ar wasanaethau yn ogystal â phwysau chwyddiant. Mae cyllideb 2026/27 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymhell cynnydd o 5.32% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Mae rhagolygon yn awgrymu bydd pwysau pellach wrth anelu i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2027/28.
- 1.6 Mae'r gyllideb ddrafft wedi cael ei hystyried gan fwyafrif aelodau'r Cyngor mewn sesiwn briffio sefyllfa ariannol a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2026, ac wedi ei graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 3 Chwefror. Swyddogaeth y Cabinet yw argymhell cyllideb gytbwys a phriodol i gyfarfod y Cyngor ar 5 Mawrth ar gyfer 2026/27.
- 1.7 Mae cyllideb 2026/27 yn cynnwys arbedion sydd wedi eu hadnabod wrth osod cyllideb 2024/25 a 2025/26.
- 1.8 Eleni rydym yn cynnig sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £40.2m yn 2026/27, fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 4.
- 1.9 Mater i'r Cyngor Llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor ar gyfer 2026/27 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2026/27, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2025/26.

2. GRANT LLYWODRAETH CYMRU

- 2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad terfynol i ariannu awdurdodau lleol ar gyfer 2026/27 fel a ganlyn:

Grant Cynnal Refeniw 2025/26 – 2026/27		Cyfanswm Awdurdodau Cymru £	Cyngor Gwynedd £
Grant y Llywodraeth 2025/26		6,273,340,560	253,588,760
Grant y Llywodraeth 2026/27		6,555,644,540	264,009,390
	Cynnydd £	282,303,980	10,420,630
	Cynnydd %	4.5%	4.1%

Mae manylion pellach am y setliad terfynol ar gael yma –

[Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: terfynol 2026 i 2027 | LLYW.CYMRU](#)

- 2.2 Mae ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru yn y tabl uchod yn dangos fod Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd grant o £10.4m erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr cymharol 2026/27 i adlewyrchu addasiadau yn y sylfaen drethiannol a throsglwyddiadau i'r setliad), sy'n gynnydd o 4.1%, tra bod y cyfartaledd ledled Cymru yn 4.5%.
- 2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla dyrannu grant llywodraeth leol, megis poblogaeth y sir, nifer disgyblion yn ein hysgolion, a nifer hawl wyr cymorth incwm.

3. GWARIANT REFENIW'R CYNGOR – 2026/27

3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd mewn gwariant fydd angen er mwyn “sefyll yn llonydd” yn 2026/27.

Gofynion Gwario Ychwanegol

	£	£
Cyllideb Sylfaenol		356,815,330
Chwyddiant Cyflogau Staff	8,298,980	
Lleihad Cyfraniad Pensiwn Cyflogwr	(3,364,290)	
Chwyddiant Arall (cyflenwyr)	6,075,390	
Ardollau (Tân, APCE, CNC a CBC)	528,810	
Demograffi	(846,000)	
Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau	9,910,580	
Cynnydd Premiwm Cartrefi Gwag Hir Dymor	893,700	
Addasiadau Cyllideb Amrywiol	(328,460)	
Llog ar Falansau	(89,090)	
Rhyddhau Llawr Setliad 2025/26	(1,571,530)	
Gwrthdroi Grant YG Cyflogwr 2025/26	3,632,950	
Trosglwyddiadau i'r Setliad	163,820	
Cyfanswm net yr ychwanegiadau		<u>23,304,860</u>
Cyfanswm gofynion gwario 2026/27 cyn arbedion		<u><u>380,120,190</u></u>

3.2 Cyllideb Sylfaenol 2025/26

Er mai £357m yw gwariant net 2025/26, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £608m, oherwydd ein bod yn derbyn llw o grantiau penodol gwerth £167m ac yn codi incwm cyffredinol o £84m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

3.3 Chwyddiant Cyflogau £8.3m

Daethpwyd i gytundeb ar gyflogau'r gweithlu (ar wahân i athrawon) ar gyfer Ebrill 2025 i Fawrth 2026 drwy gytuno cynnydd o 3.2%. Yn unol â'r mwyafrif o awdurdodau lleol eraill, roeddem wedi cyllidebu'n ddarvoudus ar gyfer cynnydd o 3.5%, gyda'r cytundeb terfynol ychydig yn is na'r hyn oedd wedi ei gyllidebu amdano.

Mae'r gyllideb yma yn neilltuo amcan gynnydd yng nghytundeb tâl 2026/27 o 4% ar gyfer athrawon a 3.4% ar gyfer gweddill y gweithlu (athrawon o Fedi 2026, gweddill y gweithlu o Ebrill 2026).

3.4 Lleihad Cyfraniad Pensiwn Cyflogwr (£3.4m)

Lleihad mewn cyfraniad pensiwn y cyflogwr yn sgil yr ailbrisiad tair-blyneddol.

3.5 Chwyddiant Arall £6.1m

Mae hwn yn swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer ystod eang o newidiadau yn ddibynnol ar raddfa chwyddiant meysydd penodol. Mae'r prif feysydd lle gwelir cynnydd yn cynnwys:

- Cartrefi Gofal Preswyl Annibynnol £1.4m
- Gofal Di-breswyl £1.5m:
 - Llety Cefnogol £916k,
 - Gofal Cartref £301k,
 - Gwasanaethau eraill £281k
- Ynni (Trydan a Nwy) £692k
- Cynnydd prisiau eraill:
 - Yswiriant £177k
 - Trethi eiddo £150k

3.6 Ardollau £529k

Bydd yr ardollau a delir i'r cyrff perthnasol yn cynyddu fel a ganlyn rhwng 2025/26 a 2026/27:

- | | |
|--|-------|
| • Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | £458k |
| • Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | £44k |
| • Cyfoeth Naturiol Cymru (Ardollau Arbennig) | £7k |
| • Cydbwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd | £20k |

Mae'r cynnydd net o £458k i ardoll Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyfateb i 0.42% o gynnydd yn y dreth cyngor.

3.7 **Demograffi (£846k)**

Lleihad mewn nifer disgyblion o fewn ysgolion uwchradd (£659k) a cynradd (£637k), tra bo cynnydd mewn niferoedd disgyblion o fewn ysgolion arbennig £450k.

3.8 **Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau £9.9m**

Mae Atodiad 2 yn cynnwys manylion pob cais unigol am wariant ychwanegol sy'n deillio o bwysau ar y gwasanaethau.

Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £9.9m am adnoddau parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Gofynnir i bob adran i adnabod unrhyw wariant rhaid i'r Cyngor gyflawni er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid yw'r drefn yma ar gyfer datblygiadau newydd dymunol, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu ei hun wrth i ni adolygu patrymau gwariant y flwyddyn gyfredol. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, ac wedyn y Cyngor yn gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Mae'r eitemau sydd wedi eu rhestru yn Atodiad 2 wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet. Ymhellach, cyflwynwyd grynoded o'r ceisiadau gwariant hyn yn y Seminar Cyllideb a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2026.

3.9 **Cynnydd Cyfradd Premiwm Cartrefi Gwag Hir Dymor £894k**

Yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2025, penderfynodd y Cyngor Llawn i godi premiwm o 150% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy. Ar sail y data presennol, rhagwelir cynnyrch Treth Cyngor ychwanegol o £894k, gyda'r incwm hynny wedi ei glustnodi ar gyfer cynlluniau tai, cynlluniau cymunedol ac i fynd i'r afael â heriau cynyddol casglu'r Premiwm.

3.10 **Rhyddhau Llawr Setliad 2025/26 (£1.6m)**

Yn dilyn setliad terfynol hwyr ar gyfer 2025/26, penderfynwyd defnyddio'r gyllideb ar gyfer ariannu bidiau un-tro gwasanaethau 2025/26 a darpariaeth risg. Gellir rhyddhau'r gyllideb yma wrth baratoi cyllideb 2026/27.

3.11 **Gwrthdroi Grant Yswiriant Gwladol Cyflogwr 2025/26 £3.6m**

Gosodwyd Cyllideb 2025/26 ar y sail y byddai'r Llywodraeth yn ariannu'n rhannol y gost ychwanegol yn dilyn cynnydd i'r trothwy a'r gyfradd yswiriant gwladol a delir gan gyflogwyr. Derbyniwyd grant yn 2025/26 a chyllideb ychwanegol fel rhan o setliad 2026/27, felly gellir gwrthdroi'r targed incwm grant.

3.12 Ystyriaethau Eraill (£418k)

Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau i wahanol gyllidebau ar draws y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys effaith cynnydd mewn derbyniadau llog o (£90k) mewn dychweliadau wrth fuddsoddi balansau a llif arian y Cyngor, a gostyngiad cost o (£329k) oherwydd ystyriaethau cyllidebol eraill.

4. ARBEDION PRESENNOL SYDD WEDI EU CYMERADWYO'N FLAENOROL

4.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu £47m o gynlluniau arbedion ers 2015/16.

4.2 Ar 20 Chwefror 2024, bu i'r Cabinet gymeradwyo gwerth £5.2m o arbedion ar gyfer cyllideb 2024/25 ymlaen. Gwelir proffil y rhaglen yma yn Atodiad 3, sy'n dangos fod gwerth £343,090 o'r arbedion wedi eu proffilio ar gyfer 2026/27. Bu i'r £5.2m yn ei gyfanrwydd ei weithredu yng nghyllideb 2024/25, gydag arbedion y blynnyddoedd dilynol yn cael eu pontio o gronfeydd. Felly, nid yw arbedion 2025/26 a 2026/27 yn cynorthwyo i leihau'r bwlch ariannol yn y blynnyddoedd hynny.

4.3 Mae cynlluniau arbedion gwerth £320k yn deillio o raglenni arbedion blaenorol i'w tynnu o gyllidebau adrannau eleni. Yn ôl yr arfer, clustnodir darpariaeth arbedion er mwyn ymdrin â sefyllfaoedd ble mae'r arbediad yn llithro, gwerth y ddarpariaeth eleni ydi £66k ac felly £254k o arbedion sydd ar gael i lenwi bwlch 2026/27.

4.4 Mae gwerth yr arbedion fesul adran wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol.

Arbedion sydd eisoes wedi eu rhaglennu	
	£
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	143,090
Adran Amgylchedd	200,000
Adran Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	91,000
Adran Addysg	98,500
Adran Gwasanaethau Corfforaethol	50,000
Cynlluniau arbedion wedi eu cymeradwyo 2025/26 wedi ei broffilio i 2026/27	81,000
Is-Gyfanswm	663,590
Llai: Darpariaeth Arbedion	(66,360)
Arbedion Cynlluniedig Presennol 2026/27	597,230

5. BWLCH ARIANNU 2026/27 A'R DRETH CYNGOR

- 5.1 Fe welir o Rhan 3 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion a thoriadau) ar gyfer 2026/27 yn £380.1m. Nodwyd yn rhan 2 fod y grant oddi wrth Llywodraeth Cymru am fod yn £264m.
- 5.2 Fel eglurwyd yn rhan 4 uchod, mae cyfanswm o £254k o arbedion a thoriadau sydd eisoes wedi eu cymeradwyo i'w ddefnyddio i leihau'r bwlch ariannu.

Sefydlu Cyllideb 2026/27	
	£
Cyllideb Sylfaenol 2025/26	356,815,330
Gofynion Gwario Ychwanegol	<u>23,304,860</u>
Gofynion Gwario 2026/27 cyn Arbedion	380,120,190
Llai Incwm Grant Refeniw Llywodraeth Cymru	<u>(264,009,390)</u>
Bwlch i'w lenwi gan Dreth Cyngor ac arbedion pellach	<u>116,110,800</u>

- 5.3 Golyga hynny fod bwlch gweddilliol o £116m sydd angen ei lenwi.
- 5.4 Gwerth £254k o arbedion sydd wedi eu cymeradwyo yn flaenorol ar gyfer 2026/27 (gweler Rhan 4 uchod), sydd ar gael ac yn cyfrannu tuag at lenwi'r bwlch ariannol.

Bwlch i'w lenwi gan Dreth Cyngor ac Arbedion	116,100,800
Llai Arbedion presennol eisoes wedi eu cymeradwyo	(254,140)
Bwlch gweddilliol o'r Dreth Cyngor	<u>115,856,660</u>

- 5.5 Ceir mwy o wybodaeth am yr arbedion a'r toriadau yn Atodiad 3.
- 5.6 Argymhellir cyfarch gweddill y bwlch drwy'r Dreth Cyngor. Byddai cynyddu'r Dreth ar anheddau unigol o 5.32% yn cynhyrchu £115,856,660 o incwm, a byddai hyn y ddigonol i lenwi'r bwlch.
- 5.7 Bydd hyn yn £7.4m o incwm Treth Cyngor ychwanegol o'i gymharu â chyllideb 2025/26. Mae hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £101.48 i eiddo mewn Band D, neu £1.95 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 7.01% ar gyfer 2026/27) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.
- 5.8 Mae gwybodaeth gefndirol a'r cyd-destun ar gyfer gosod lefel y Dreth wedi'i gyflwyno yn Atodiad 6.

- 5.9 Pe bai aelodau'r Cyngor yn dymuno cynnydd llai na 5.32% yn lefel y Dreth, yna byddai rhaid ymrwymo llai o adnoddau parhaol i ymdrin â'r pwysau ar wasanaethau, darganfod arbedion a thoriadau, neu gyfuniad o'r ddau.
- 5.10 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a lefel rhesymol o drethiant o hyd yn un anodd. Ar gyfer 2026/27 disgwylir bydd y cynnig gerbron i godi'r dreth 5.32% er mwyn diwallu'r pwysau ar wasanaethau wrth osod cyllideb gytbwys yn lefel tebyg i fwyafrif yr awdurdodau yng ngogledd Cymru.

6. CASGLIADAU / CYLLIDEB 2026/27

- 6.1 Mae'r adroddiad yma a'r atodiadau yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2026/27 a bydd rhaid parhau i gynaeafu arbedion a chodi lefel y dreth er mwyn gosod cyllideb gytbwys.
- 6.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £380.1m, wedi ychwanegu £23.3m, sy'n cynnwys darparu £9.9m er mwyn cyfarch y galw am wasanaethau.
- 6.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £264m, dibynnu ar £254k o arbedion. Bydd angen i lefel y Dreth Cyngor gynyddu 5.32% i gynhyrchu £115.9m o incwm er mwyn cau bwlch ariannu 2026/27.

Cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27	
	£
Gofynion Gwario 2026/27 cyn Arbedion	380,120,190
Cyfanswm Arbedion 2026/27	<u>(254,140)</u>
Cyllideb 2026/27	<u>379,866,050</u>
I'w ariannu drwy -	
Incwm Grant	264,009,390
Treth Cyngor (cynnyrch ar ôl codi 5.32%)	<u>115,856,660</u>
Cyllideb 2026/27	<u>379,866,050</u>

- 6.4 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o **£379,866,050**. Rhoddir dadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 1.

7. CYFALAF

- 7.1 Sefydlwyd strategaeth asedau o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Ar 11 Gorffennaf 2024 diweddarwyd y strategaeth gan y Cyngor gyda'r cyfnod wedi ei ymestyn hyd at 2033/34. Fe'i hymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf, ac rydym yn ychwanegu at hwnnw erbyn 2026/27. Ceir manylion y rhaglen gyfalaf presennol yn Atodiad 4.
- 7.2 Mae'r ddau dabl a welir yn Atodiad 4 yn adlewyrchu'r gofynion cyfalaf, ynghyd â'r ariannu, ar gyfer gosod cyllideb cyfalaf 2026/27 i 2028/29, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan werth £40,179,430 yn 2026/27, i'w ariannu o'r ffynonellau sydd wedi'u dadansoddi yn Atodiad 4.
- 7.3 Yn y tabl yn Atodiad 4 nodir bod £500k ar gael yn flynyddol ar gyfer cyllido bidiau cyfalaf. Ar gyfer 2026/27, mae gwerth £840k o bidiau cyfalaf i'w cyllido (manyion yn Atodiad 2b), gan ddefnyddio adnodd sydd heb ei ymrwymo ar gyfer cyllido'r gwahaniaeth.

8. STRATEGAETH TYMOR HIRACH

- 8.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi dod i gytundeb efo Plaid Cymru er mwyn gosod cyllideb ar gyfer 2026/27. Mae etholiadau'r Senedd yn Mai 2026 gan nad ydym yn gwybod pwy fydd yn ffurfio llywodraeth wedi hynny, nid oes gennym ragolygon ar gyfer setliad llywodraeth leol ar gyfer y blynyddoedd dilynol.
- 8.2 Wrth ystyried y galw cynyddol am wasanaethau sydd ar y Cyngor, yn wyneb darpariaeth sy'n crebachu yn sgil toriadau, bydd angen ystyriaeth sylfaenol, buan am yr hyn y gall y Cyngor ei ddarparu a sut. Fel gwelir yn Atodiad 3, mae cynlluniau arbed a thoriadau eisoes wedi eu rhaglennu ar gyfer 2026/27 ond bydd gwaith yn cychwyn yn syth ar ôl gosod y gyllideb ar gyfer 2026/27 ar ddiweddarau Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cydnabod y sefyllfa fel y'i rhagwelir.

9. YSTYRIAETHAU ERAILL AC AMRYWIOL ASESIADAU

- 9.1 Mae'r lefel gyfredol o falansau cyffredinol y Cyngor yn £7.9m. O ystyried y pwysau cynyddol a ddisgwylir ar gyllidebau'r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf, ystyrir bydd lefel y balansau hyn yn briodol i'w gadw ar gyfer llif arian ymarferol a gwariant annisgwyl. Cyflwynir gwybodaeth am y balansau a chronfeydd wrth gefn yn Atodiad 7.
- 9.2 Mae Atodiad 5, 'Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2026/27', yn egluro sefyllfa cyllideb ysgolion Gwynedd.
- 9.3 Wrth benderfynu ar gyllideb, rhaid i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Atodiad 8 yn ymdrin yn benodol â'r ddyletswydd, gan gynnwys sylwadau'r swyddog cyllid statudol ar y Gyllideb gyfan o safbwynt cydraddoldeb. Mae'r asesiad yn cadarnhau fod effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u hariannu i'r lefel galw ychwanegol, ac ni chredir y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn sylweddol.
- 9.4 Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ac wedi eu datblygu yn unol â'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor dan Adran 3 i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Yn unol â'r drefn arferol, rhoddir gwybodaeth fanylach am y Ddeddf Llesiant a chasgliadau perthnasol yn Atodiad 9.
- 9.5 Mae rhaid i'r swyddog cyllid statudol fynegi barn am gadernid yr amcangyfrifon. Cyflwynir asesiad o risgiau a chadarnhad priodol yn Atodiad 10.
-

Barn yr aelod lleol

Dim yn fater lleol

Barn y swyddogion statudol

Swyddog Monitro:

Er mai mater i'r Cyngor llawn ydi penderfynu yn derfynol ar y Gyllideb a'r Dreth Cyngor cyfrifoldeb y Cabinet ydi argymhell hyn. Mae'n bwysig fod y Cabinet yn rhoi argymhelliad clir ynglŷn â'i gynlluniau gwario a'r gyllideb ddrafft ac mae'r adroddiad hwn yn cyflawni hynny. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cytuno ar y ffynonellau cyllido, yna'r Cabinet fydd yn gyfrifol am y gwariant a'r blaenoriaethu oddi fewn i'r gyllideb honno.

Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys. Wedi ystyried yr holl risgiau amlinellir yn Atodiad 10 i'r adroddiad, a'r camau lliniaru, rwyf o'r farn fod Cyllideb y Cyngor am 2026/27 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

ATODIADAU

- 1 Cyllidebau Arfaethedig
- 2 Crynodeb Bidiau
- 2a Bidiau Refeniw Parhaol
- 2b Bidiau Cyfalaf
- 3 Arbedion a Thoriadau
- 4 Cyfalaf
- 5 Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2026/27
- 6 Treth Cyngor
- 7 Balansau
- 8 Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol
- 9 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- 10 Datganiad y Swyddog Cyllid Statudol ar Gadernid yr Amcangyfrifon

CYLLIDEBAU ARFAETHEDIG 2026/27 FESUL GWASANAETH												
	Cyllideb Sylfaenol 2025/26	Chwyddiant Cyflogau, YG a Phensiynau	Chwyddiant Arall	Demograffi	Trosglwyddiad Setliad	Addasiad Targed Incwm Grant YG	Pwysau ar Wasanaethau	Rhyddhau Llawr Setliad 2025/26	Arbedion Presennol	Cynnydd Premiwm Cartrefi Gwag Hir Dymor	Addasiadau Amrywiol	Cyllideb Sylfaenol 2026/27
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
ADRANNAU												
Addysg Canolog	20,908	103	293	0	0	0	2,114	0	(99)	0	(110)	23,209
Cyllideb Ysgotïon	100,846	3,158	612	(846)	0	0	0	0	0	0	50	103,820
Economi a Chymuned	4,909	92	80	0	0	0	0	0	0	0	(6)	5,075
Oedolion, Iechyd a Llesiant	82,365	355	2,839	0	0	0	3,326	0	(143)	0	136	88,878
Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	3,133	30	14	0	0	0	0	0	0	0	(18)	3,159
Plant a Chefnogi Teuluoedd	25,984	300	370	0	0	0	791	0	0	0	0	27,445
Prifffyrdd, Peirianneg ac YGC	17,676	201	(82)	0	0	0	180	0	(91)	0	(100)	17,784
Amgylchedd	18,028	146	96	0	0	0	152	0	(200)	0	7	18,229
Tai ac Eiddo	9,727	105	279	0	0	0	2,000	0	0	0	(12)	12,099
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,831	20	4	0	0	0	619	0	0	0	(5)	3,469
Gwasanaethau Corfforaethol	8,085	167	(6)	0	0	0	439	0	(50)	0	21	8,656
Cyllid	9,167	96	19	0	0	0	221	0	0	0	(2)	9,501
CYFANSWM ADRANNAU	303,659	4,773	4,518	(846)	0	0	9,842	0	(583)	0	(39)	321,324
Materïon Corfforaethol a Chyfalaf	56,944	162	2,086		164	3,633	68	(1,572)	(14)	894	(379)	61,986
CYFANSWM GROS	360,603	4,935	6,604	(846)	164	3,633	9,910	(1,572)	(597)	894	(418)	383,310
Llai Praesept Cynghorau Cymuned	(3,444)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	(3,444)
CYFANSWM GWARIANT GROS	357,159	4,935	6,604	(846)	164	3,633	9,910	(1,572)	(597)	894	(418)	379,866
Balansau a Reserfau												
Penodol	(343)	0	0	0	0	0	0	0	343	0	0	0
CYFANSWM GWARIANT NET =	356,816	4,935	6,604	(846)	164	3,633	9,910	(1,572)	(254)	894	(418)	379,866
Ariannwyd Drwy:-												
Grant	248,390											264,009
Treth Cyngor	108,426											115,857
Cyfanswm Incwm	356,816											379,866

ATODIAD 2 - CRYNODEB BIDIAU

Bidiau		Parhaol (£)	Cyfalaf (£)
Grŵp A	Adnoddau ychwanegol i gyfarch y gwir gost o ddarparu gwasanaethau presennol gan ddelio gyda gorwariant hanesyddol tu hwnt i allu'r adran i'w ddatrys a/neu pwysau ychwanegol yn 2026/27 oherwydd cynnydd mewn costau a chynnydd yn y galw	7,554,920	
Grŵp B	Materion mae'r Cabinet eisoes wedi gwneud penderfyniad i'w cefnogi yn ystod y flwyddyn ac felly wedi rhagdybio'r broses bidio	1,302,840	
Grŵp C	Materion newydd ar gyfer 2026/27	1,052,820	
Cyfalaf 1	Ysgol y Faenol - cyllid i gynyddu gofod parcio at ddefnydd yr ysgol a'r ganolfan gymunedol		300,000
Cyfalaf 2	Cronfa Cefnogi Cymunedau (Cist Gwynedd)		150,000
Cyfalaf 3	Adeiladu wal amddiffyn llifogydd ar hyd yr Afon Beuno, Bontnewydd. Cyfraniad 15% tuag at grant (cynllun £2.5m)		70,000
Cyfalaf 4	Cyllid i ariannu addasiadau i Bencadlys y Cyngor er mwyn cydymffurfio â gofynion ym maes llesiant a chydaddoldeb		90,000
Cyfalaf 5	Bwrdd Trawsnewid Digidol – cyfrifon digidol i'r gweithlu - Gwariant un tro ar offer digidol		230,010
		9,910,580	840,010

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL 2026/27

Grŵp	Teitl y Bid	Swm Parhaol a argymhellir (£)
A	Adnoddau ychwanegol i gyfarch y gwir gost o ddarparu gwasanaethau presennol gan ddelio gyda gorwariant hanesyddol tu hwnt i allu'r adran i'w ddatrys a/neu pwysau ychwanegol yn 2026/27 oherwydd cynnydd mewn costau a chynnydd yn y galw.	
1A	Cynnydd yng nghostau cludiant ysgolion (bysus ysgol)	664,000
2A	Brecwast am ddim – Cynradd	90,000
3A	Digolledu yn sgil lleihau Grant Cymorth Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn gwarchod y ddarpariaeth bresennol	66,090
4A	Cynnydd yng nghost Systemau TG (Cynllunio, y cwmwl a llinell gymorth arbenigol)	112,430
5A	Ariannu swydd Pennaeth Cynorthwyol Trafnidiaeth gan fod arian dros dro wedi dod i ben	101,810
6A	Costau ynghlwm â derbyn incwm drwy daliadau cerdyn	191,450
7A	Ariannu costau swyddi yn ymwneud â systemau ffeilio yn barhaol ar ôl i arian dros dro ddod i ben	69,390
8A	Cynnydd yn y niferoedd achosion pobl hŷn (ThG, Diogelu, Asesu risg)	161,060
9A	Cynyddu cyllideb gofal preswyl Iechyd Meddwl o ganlyniad i gynnydd yn y galw	1,126,850
10A	Cynyddu cyllideb Llety Cefnogol i Oedolion gydag Anableddau i fyw yn annibynnol– nifer uwch o unigolion angen cefnogaeth	1,092,350
11A	Cefnogi a gofalu am fwy o unigolion gydag anableddau dysgu wrth iddynt droi yn 18	277,000
12A	Cynnydd mewn adnoddau staffio ar draws yr holl Gartrefi Gofal i ymateb i safonau gofal cenedlaethol	464,000
13A	Lleihau mewn incwm o gynlluniau Aberthu Cyflog	15,000
14A	Swyddog e-ddysgu i arwain ar fodiwlau hyfforddiant mandadol gan ei wneud yn barhaol gan fod arian dros dro wedi dod i ben	53,370
15A	Parhau i gyllido swydd Iechyd Galwedigaethol gan fod cyllid dros dro wedi dod i ben	49,510
16A	Cyfrifoldebau ychwanegol ar nifer o swyddi yn sgil gofynion statudol newydd yn y maes plant	70,790
17A	Gweithwyr ychwanegol yn sgil derbyn Ceiswyr Lloches Heb Rieni fel rhan o'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol	120,000
18A	Cefnogaeth i Deuluoedd – plant mewn gofal sy'n parhau i fod adref efo'u teuluoedd (statud newydd)	320,000
19A	Ariannu cynnydd mewn cyfraniadau tuag at gostau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru	60,000
20A	Cyfraniadau i achosion ar y cyd rhwng Derwen a'r Bwrdd Iechyd a chostau am wasanaethau arbennigol meddygol a chyfreithiol yn ymwneud ag achosion yn y maes Plant	250,000
21A	Cynnal Tiroedd - cynnydd costau agor beddi oherwydd gofynion iechyd diogelwch statudol newydd a cholled incwm o golli contractau allanol dros sawl blwyddyn	180,000
22A	Cynyddu amser y Crwner i 3.5 diwrnod yr wythnos	19,820
23A	Gwaith Cynnal a Chadw hanfodol i adeiladau'r Cyngor megis ysgolion, cartrefi gofal, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden	2,000,000
		7,554,920
B	Materion mae'r Cabinet eisoes wedi gwneud penderfyniad i'w cefnogi yn ystod y flwyddyn ac felly wedi rhagdybio'r broses bidio	
1B	Sefydlu gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Gwynedd a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion – Ailstrwythuro'r gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	437,430
2B	Swydd Hyrwyddwr Diogelu	49,510
3B	Cynnydd ffioedd gofal mudiadau trydydd sector i gefnogi unigolion ag Anableddau Dysgu	231,400
4B	Costau ychwanegol yn y maes diogelu yn sgil Cynllun Ymateb Cyfiawnder trwy ein Dewrder	584,500
		1,302,840

C Materion newydd ar gyfer 2026/27		
1C	Cynyddu'r Gyllideb Ysgolion Arbennig i gyd-fynd â'n dyletswyddau statudol	252,000
2C	Cynyddu'r Gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol ysgolion prif lif	563,000
3C	Cydlynnydd Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Gwynedd - ariannu yn llawn amser yn hytrach na rhan amser fel yn bresennol	41,840
4C	Gweinyddu profion ar hap (alcohol a chyffuriau)	10,000
5C	Swyddog Cynnwys Cyfryngau Cymdeithasol i hyrwyddo prif negeseuon a rhannu gwybodaeth amserol gyda'r cyhoedd	56,990
6C	Swyddog Craffu / Y Gymraeg i ymdopi â'r cynnydd yn y rhaglenni gwaith	45,830
7C	Cyfrifon digidol i'r gweithlu rheng flaen allan yn y maes	68,160
8C	Parhau i ariannu cyfraniad tuag at gostau Mantell Gwynedd ar ôl i gyllideb dros dro ddirwyn i ben	15,000
		1,052,820
		Cyfanswm
		9,910,580

ATODIAD 2b - BIDIAU CYFALAF

BIDIAU CYFALAF 2026/27		
Bid	Teitl y Bid	Swm a argymhellir (£)
Cyfalaf 1	Ysgol y Faenol - cyllid i gynyddu gofod parcio at ddefnydd yr ysgol a defnyddwyr Canolfan Penrhosgarnedd i liniaru risgiau diogelwch yn dilyn cynyddu capasiti'r ysgol	300,000
Cyfalaf 2	Cronfa Cefnogi Cymunedau (Cist Gwynedd) o fewn Adran Economi a Chymuned er mwyn cefnogi grwpiau gwirfoddol i ddatblygu prosiectau mewn cymunedau lleol	150,000
Cyfalaf 3	Cyllid i'r Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC er mwyn adeiladu wal amddiffyn llifogydd ar hyd yr Afon Beuno, Bontnewydd. Mae'r arian yn gyfraniad o 15% tuag at grant sydd yn ran o gynllun gwerth £2.5m. Bydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at liniaru risg o lifogydd ar hyd Dol Beuno a'r stadau cyfagos.	70,000
Cyfalaf 4	Cyllid i ariannu addasiadau i Bencadlys y Cyngor. Bydd yr addasiadau yn galluogi'r Cyngor i ymateb i ofynion ym maes llesiant a chydaddoldeb a chydymffurfio a rheoliadau'r gweithle megis Iechyd, Diogelwch a Llesiant (1992) a Deddf Cydraddoldeb (2010)	90,000
Cyfalaf 5	Bwrdd Trawsnewid Digidol – Bydd y gwariant un tro ar offer digidol yn ymateb i rwystrau gweithredol sy'n codi yn ddyddiol a sicrhau mynediad i gyfrifon digidol megis systemau a hyfforddiant digidol i weithlu'r Cyngor a lleihau'r ddibyniaeth ar brosesau 'papur'	230,010
		840,010

ATODIAD 3

ARBEDION A THORIADAU

1. Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu £47m o gynlluniau arbedion ers 2015/16.
2. Unwaith eto eleni fel mewn blynyddoedd blaenorol nid oedd y grant gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, a gan fod y pwysau mewn amrywiol feysydd megis gofal, gwastraff, a digartrefedd yn parhau, rydym wedi gorfod darganfod arbedion sylweddol.
3. Mae dau gynllun arbedion gwerth £91,000 gan yr Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC, un cynllun gwerth £98,500 gan yr Adran Addysg ac un cynllun gwerth £50,000 gan yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol, sydd yn deillio o raglenni blaenorol o arbedion ond sydd yn berthnasol i 2026/27. Yn ychwanegol i hyn mae gwerth £81,000 o gynlluniau arbedion sydd wedi eu cymeradwyo yn 2025/26 ac wedi eu proffilio i 2026/27.

Mae'r cynlluniau eisoes wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor, ac felly nid ydynt yn destun penderfyniad eleni. Maent hefyd wedi dilyn proses statudol priodol, gweler isod er gwybodaeth.

Arbediad	Cyfanswm £
Cyfuno'r gwaith carthffosiaeth a draeniau preifat gyda gwasanaeth arall o fewn yr Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC	56,000
Lleihau'r adnodd Gwasanaeth Fflyd o fewn yr Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC	35,000
Lleihau darpariaeth yn dilyn diddymu GwE	98,500
Lleihau adnodd yn yr Argraffdy	50,000
Cynlluniau arbedion wedi eu cymeradwyo yn 2025/26 wedi ei broffilio i 2026/27	81,000
CYFANSWM	320,500

4. Ar 20 Chwefror 2024, bu i'r Cabinet gymeradwyo gwerth £5.2m o arbedion a thoriadau ar gyfer cyllideb 2024/25 ymlaen, a ddaeth i rym yn unol â'r proffil isod, gyda gwerth £343,090 wedi eu proffilio ar gyfer 2026/27. Gweithredwyd y £5.2m yn ei gyfanrwydd wrth osod cyllideb yn 2024/25 ac felly nid yw arbedion 2025/26 a 2026/27 yn cynorthwyo i leihau'r bwlch ariannol yn y blynyddoedd hynny.

PROFFIL CYNLLUNIAU ARBEDION A THORIADAU 2024/25 YMLAEN

	2024/25 £	2025/26 £	2026/27 £	Cyfanswm £
Proffil arbedion a thoriadau	1,965,760	2,860,300	343,090	5,169,000

5. Yn sgil yr hinsawdd economaidd bresennol, mae'n anrnod fod rhaid i Awdurdodau Lleol barhau i edrych ar arbedion a thoriadau i gynorthwyo'r sefyllfa ariannol. Yn dilyn cyhoeddiad y setliad ariannol ar gyfer 2026/27, mae'r rhagolygon bellach yn llai argyfyngus na'r hyn oedd wedi ei ragweld yn wreiddiol. Er mai Gwynedd sydd yn y safle 20 o'r 22 o Gynghorau, mae'r cyhoeddiad bod llawr o 4.1% yn golygu nad oes angen brysio i weithredu arbedion ar gyfer 2026/27, ond bydd angen parhau i adnabod arbedion ar gyfer blynnyddoedd dilynol sydd yn debygol o fod yn llawer fwy heriol. Bydd yr arbedion yn destun adroddiad yn ystod 2026/27.

6. Felly, i grynhoi, yr arbedion a thoriadau canlynol sydd wedi eu proffilio i'w gwireddu yn 2026/27:

	£
Arbedion 25/26 wedi eu proffilio i 26/27	320,500
Arbedion a thoriadau 24/25 wedi eu proffilio i 26/27	343,090
CYFANSWM	663,590

CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.
2. Gosodir isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

RHAGLEN GYFALAF			
	2026/27 £'000	2027/28 £'000	2028/29 £'000
Cynlluniau'r Cyngor :			
Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy	8,218	3,451	0
Unedau Diwydiannol	1,407	122	0
Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro a Chyffredin	4,917	708	0
Cynlluniau Morwrol a Hamdden	2,322	1,215	1,650
Cartrefi/ Canolfannau Oedolion a Phlant	3,464	700	0
Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol	3,641	1,300	1,006
Atal Llifogydd Arfordirol	760	2,998	0
Cynlluniau Amgylchedd a Gwastraff	1,911	60	60
Cynlluniau/Strategaeth Tai	4,967	3,860	3,860
Cynlluniau Eiddo	244	194	194
Cerbydau Adrannol	6,532	1,879	244
Cyfarpar Digidol	785	1,249	976
Cynlluniau Eraill	511	712	362
Bidiau Cyfalaf (Heb ddosrannu)	500	500	500
CYFANSWM Y RHAGLEN	40,179	18,948	8,852

3. Bydd y rhaglen yn cael ei ariannu fel a ganlyn:

ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF			
	2026/27 £'000	2027/28 £'000	2028/29 £'000
Benthyca Gyda Chefnogaeth	4,063	4,063	4,063
Benthyca Arall	5,123	362	362
Grantiau a Chyfraniadau	14,410	4,878	2,547
Derbyniadau Cyfalaf	0	0	0
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	0	0	0
Cronfa Cyfalaf	9,076	4,350	-670
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	7,507	5,295	2,550
CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN	40,179	18,948	8,852

4. Sefydlwyd strategaeth asedau o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Ar 11 Gorffennaf 2024 fe sefydlwyd strategaeth wedi ei ddiweddarau gan y Cyngor llawn gyda'r cyfnod wedi ei ymestyn hyd at 2033/34. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.

5. Sefydlwyd proffiliau i'r Cynlluniau gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad gyda'r Penaethiaid Adrannau ac yn ddibynnol ar ofynion y cynlluniau a'r adnoddau ar gael.
6. Mae'r tablau uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf a'r ariannu ar gyfer gosod cyllideb 2026/27 i 2028/29, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2024/25 hyd 2033/34.
7. Mae'r ffigwr Benthycu Gyda Chefnogaeth a'r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn fwy yn 2026/27 na'r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu'r strategaeth asedau ac mae'r rhaglen wedi ei addasu i gyd-fynd.
8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £40,179,430 ar gyfer 2026/27, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl yn rhan 3 uchod.

ATODIAD 5

YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2026/27

1. **Cefndir:** Y bydd cynnydd arferol yn y cwantwm ysgolion Gwynedd eleni, gan fod y Cyngor (yn wahanol i rai awdurdodau lleol) yn ariannu chwyddiant, incrementau cyflog, a demograffi.
2. **Chwyddiant Cyflogau:** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu **£3.4m** ar gyfer cynnydd chwyddiant cyflogau tâl. Bydd hyn yn cyfarch cynnydd costau cyflogau athrawon o 4% am y 5 mis Ebrill – Awst, sef effaith blwyddyn lawn cytundeb tâl Medi 2025, a hefyd cost cynnydd pellach o 3% amcangyfrifir ar gyfer cytundeb tâl Medi 2026 (am y 7 mis Medi 2026 – Mawrth 2027). Mae cynnydd cyflog staff ategol Ebrill 2025 hefyd wedi'i gynnwys ac amcan pellach o 3% Ebrill 2026.
3. **Chwyddiant Arall:** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu **£599k** ar gyfer cynnydd chwyddiant cyffredinol eraill, yn bennaf a'r gostau ynni.
4. **Pensiwn Staff Ategol:** Bydd lleihad yn y gyfradd cyfraniad cyflogwr ar pensiwn staff ategol o 3% o Ebrill 2026, yn arwain at leihad cost o (£455k).
5. **Incrementau Cyflog Staff:** Ychwanegir £562k i gyllideb ar gyfer 2026/27 i ymdrin ag incrementau a lleihad trosiant staff o (£340k).
6. **Demograffi (niferoedd disgyblion):** Bydd y gyllideb ysgolion yn lleihau eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau mewn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2025 i gyfrifo dyraniadau 2026/27. Mae'r sefyllfa yn amrywio o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith lleihad niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn lleihau (£846k), sy'n cynnwys lleihad (£637k) i'r sector Gynradd, lleihad (£659k) i'r sector Uwchradd, a chynnydd o £450k yn yr ysgolion arbennig. Bydd ysgolion unigol yn disgwyl cynnydd / gostyngiad yn eu dyraniadau yn gymesur â'r newid mewn niferoedd disgyblion yn yr ysgolion.
7. **Bidiau Argymhellir eu Cymeradwyo:** Gweler yn y rhan bidiau (Atodiad 2) o'r adroddiad hwn fod argymhelliad i gytuno i ariannu 'bidiau' parhaol 2026/27 i'r Adran Addysg gwerth cyfanswm o **£2,158k**, gan gynnwys tuag at gludiant ysgolion ac anghenion dysgu ychwanegol ac integreiddio.
8. **Arbedion a Thoriadau:** Ar ôl gweithredu toriadau â cyfanswm o £1.966m yn 2023/24 a 2024/25, nid oes bwriad gweithredu arbedion pellach ar ysgolion yn 2025/26 na 2026/27.

9. **Grantiau Penodol Addysg:** Ymddengys y bydd grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru yn parhau ym maes Addysg yn 2026/27 gan ddilyn yr un sail dyrannu â 2025/26.
10. **Casgliad Cyffredinol:** Wedi cymryd yr holl ffactorau uchod i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion yn uwch yn 2026/27 o'i gymharu gyda 2025/26.

ATODIAD 6

TRETH CYNGOR

1. Mae'n benderfyniad allweddol i aelodau'r Cyngor Llawn ei wneud, yn sgil yr ystyriaethau a gyflwynir yn yr adroddiad yma, i sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2026/27. Yr allwedd i hyn yw cael balans priodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd treth sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.
2. Yn y tybiaethau hanesyddol a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 5% fel amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r lefel bu'n rhaid ei godi yn amrywio'n flynyddol, a hynny i raddau helaeth i adlewyrchu'r bwlch oedd yn bodoli yn sgil setliad grant Llywodraeth Cymru.
3. Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd, a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru, ers 2016/17:

Blwyddyn	Cyngor	
	Gwynedd	Cymru
2025/26	8.66%	7.1%
2024/25	9.54%	7.8%
2023/24	4.95%	5.5%
2022/23	2.95%	2.2%
2021/22	3.7%	3.6%
2020/21	3.9%	4.6%
2019/20	5.8%	6.2%
2018/19	4.8%	4.9%
2017/18	2.8%	3.0%
2016/17	4.0%	3.6%

Yn 2025/26 roedd lefel Treth Cyngor Band D Cyngor Gwynedd yn £1,907 tra roedd lefel treth gyfartalog siroedd Cymru yn £1,747.

Ceir mwy o fanylion yn y ddogfen yma (sydd ar gael yn Saesneg yn unig): [Council Tax levels: April 2025 to March 2026 | GOV.WALES](#)

4. Eleni, argymhellir codi'r dreth 5.32% ar gyfer 2026/27. Byddai hynny'n cynhyrchu £115m o dreth (o'i gymharu â £108m yn 2025/26), sy'n cynnwys £9.9m o gynnyrch Premiwm. Byddai hynny'n gyfystyr â chynnydd yn y Dreth Cyngor o £101.48 i eiddo mewn Band D, neu £1.95 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 7.01% ar gyfer 2026/27) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.

5. Mae dros 8,335 o dai yn derbyn elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor trwy'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor, ac mae dros 61% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D. Yn ogystal â hynny, mae ystod eang o eithriadau a disgowntiau statudol yn bodoli, sy'n berthnasol i statws yr eiddo.
6. Ni wyddom yn union eto beth fydd y cynnydd cyfartalog ar draws Cymru yn 2026/27, ond yr wybodaeth ddiweddaraf yw y bydd amrediad eithaf eang ar draws Cymru. Mae'r cynnig gerbron i godi'r dreth 5.32% yn gyson â'r sefyllfa ar draws y gogledd. Byddai pob 1% ychwanegol o dreth yn addasu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £1,100,040. Felly, byddai 3.5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol tua £3,850,150 tra byddai 5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol o tua £5,500,210.
7. Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol. Fodd bynnag, ymhellach i drafodaethau anffurfiol mewn fforymau aelodau, **argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 5.32%, fyddai'n gynnydd wythnosol o £1.95 neu £101.48 yn flynyddol, gyda threth Band D o £2,008.97 am 2026/27.**

CYNNYRCH PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI

8. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 4 Rhagfyr 2025, penderfynwyd parhau gyda'r premiwm o 150% ar ail gartrefi ac i gynyddu'r premiwm ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy o 100% i 150% ar gyfer 2026/27. Amcangyfrifir y bydd y Cyngor yn derbyn £9.9m o incwm yn 2026/27 trwy'r premiwm, sy'n gynnydd o £0.9m. Mae £6.9m o'r arian wedi ei neilltuo i gronfa er mwyn gweithredu'r Cynllun Gweithredu Tai, fydd yn anelu i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ein cymunedau, a £3m i'r gyllideb digartrefedd.
9. Rhaid ymgorffori'r holl incwm a chyfarch gwariant perthnasol yng nghyllideb 2026/27.

ATODIAD 7

BALANSAU

1. Mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o 'gyfalaf gweithredol' i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Rhagwelir y bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o tua £7.9m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.3% o wariant refeniw gros y Cyngor.
2. Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin â phroblemau a allai godi.
3. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma, galw am wasanaethau gofal, digartrefedd a gwastraff yn parhau sydd yn golygu fod y risg yn parhau. Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol dal yn berthnasol.
4. **Mae gan y Cyngor nifer o reserfau penodol** sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi'u craffu yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i'r reserfau penodol gan y Cabinet ar 13 Mai 2025 a gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 22 Mai 2025, pan gymeradwywyd i drosglwyddo £3.775 miliwn o gronfeydd amrywiol i'r Gronfa Trawsffurfio, gan hefyd dad ymrwymo gwerth £375,000 o'r Gronfa Trawsffurfio ac hynny ar gyfer ariannu blaenoriaethau'r Cyngor a chyllido bidiau un-tro i'r dyfodol. Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, a **bwriedir cynnal adolygiad eto erbyn Mai 2026**, i ystyried faint o le fydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau y tu mewn i'r reserfau yma.
5. Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru" (2014), mae **Archwilio Cymru wedi datgan** (ym mharagraff 1.8):

*"Gall cyngorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwysu eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwyledig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, **ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn**. Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."*

6. Ategwyd y neges yma ymhellach gan Archwilio Cymru, sydd wedi adrodd yn Hydref 2020 ar gynaliadwyedd ariannol awdurdodau lleol Cymru. Tra mae cronfeydd wrth gefn

defnyddiadwy Cyngor Gwynedd ymysg chwartel uchaf yr amrediad o awdurdodau lleol Cymru (yn nhermau maint eu cronfeydd defnyddiadwy), **barn Archwilio Cymru yw:**

*“(9) fod rhai cynghorau mewn sefyllfa well o lawer na’i gilydd i ddod drwy her ariannol fel y pandemig. Enghreifftir hyn yn fwyaf amlwg gan y lefelau amrywiol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd yn cael eu dal gan gynghorau”, a (18) **bod “lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd ar gael i gyngor yn un o ddangosyddion allweddol cydnherthedd a chynaliadwyedd ariannol”.***

Mae copi o’r adroddiad i’w gael yma:

Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i’r Pandemig COVID-19 | Audit Wales

Yn fwy diweddar ym Medi 2025, yn eu hadroddiad “Rheolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth Gefn” ar reolaeth strategol ar falansau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor. Barn Archwilio Cymru oedd fod y Cyngor gyda trefniadau llywodraethu clir a strwythuredig ar gyfer rheoli ei gronfeydd wrth gefn. Ac mai cryfder allweddol yw’r broses "gynaeafu" barhaus, sy'n adolygu cronfeydd wrth gefn ar sawl adeg drwy gydol y flwyddyn.

Mae copi o’r adroddiad i’w gael yma:

Cyngor Gwynedd – Rheolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth Gefn | Audit Wales

7. Rwy’n argyhoeddedig fod defnydd y Cyngor o falansau yn weithred gwbl briodol.
8. Mae balansau’r Cyngor wedi bod yn arf allweddol. Gan y bydd y Cyngor â balansau o tua £7.9 miliwn, byddwn wedi cadw’r swmp o’r balansau wrth gefn eto, fel eu bod ar gael i ‘bontio’r’ sefyllfa ariannol os bydd angen.

ATODIAD 8

Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd warchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

I) Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2026/27.

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae gosod cyllideb flynyddol yn ofyn statudol ar y Cyngor, yn ogystal â bod yn gam allweddol yn y drefn o gynnal stiwardiaeth ariannol dda.

I.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid.

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Mawrth 2025, wrth ystyried rhagolygon ariannol y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2026/27 hyd 2028/29 yn syth ar ôl sefydlu Cyllideb 2025/26.

Cymeradwywyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor gan y Cabinet ar 16 Medi 2025 – roedd y cynllun hwn yn adnabod bwlch sylweddol fyddai angen ei lenwi trwy gyfuniad o gynnydd Treth Cyngor a thoriadau petai'r setliad yn aros heb fawr o gynnydd, fel oedd yn cael ei awgrymu ar y pryd.

Mae'r gwaith manwl wedi cychwyn ar 24 Tachwedd 2025, sef dyddiad cyhoeddi setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2026 i 2027.

Yn dilyn cyhoeddiad y setliad ariannol ar gyfer 2026/27, mae'r rhagolygon bellach yn llai argyfyngus na'r hyn oedd wedi ei ragweld yn wreiddiol. Er mai Gwynedd sydd yn y safle 20 o'r 22 o Gyngorau, mae'r cyhoeddiad bod llawr o 4.1% yn golygu nad oes angen brysio i weithredu arbedion ar gyfer 2026/27, ond bydd angen parhau i adnabod arbedion ar gyfer blyneddodedd dilynol sydd yn debygol o fod yn llawer fwy heriol. Bydd pob un o'r cynlluniau arbed unigol yn destun asesiad effaith cydraddoldeb.

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Mae nifer o gamau gweithredu wedi eu cymryd wrth baratoi'r gyllideb yma:

- Trafodaethau rhwng cyfrifwyr gwasanaeth ac uwch swyddogion yr adrannau i ystyried bidiau a chynlluniau arbed.
- Holl aelodau'r Cyngor wedi cael eu gwahodd i seminar cyllideb ar 27 Ionawr 2026.
- Cydweithio agos rhwng y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol, a swyddogion cyllid wrth ystyried bidiau.
- Aelodau'r Cabinet wedi cael cyfle i fynegi barn ar yr asesiad o'r bidiau.
- Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael cyfle i graffu'r gyllideb ar 3 Chwefror.
- Y Cabinet i ystyried y gyllideb ddrafft ar 10 Chwefror a gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn.
- Y Cyngor Llawn i osod y gyllideb ar gyfer 2026/27 a phennu cyfradd Treth Cyngor ar 5 Mawrth.

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Mae'r gyllideb a amlinellir yma yn ceisio parhau i ddarparu deilliannau priodol i holl drigolion y sir. Nid yw'r cynnydd yng ngrant y Llywodraeth eleni yn ddigonol i gwrdd â'r galw am

wasanaethau yn ogystal â chwyddiant, felly er mwyn sefydlu cyllideb gytbwys rhaid codi'r dreth cyngor a chwilio am arbedion ariannol.

Mae pob cynllun arbedion sydd yn y rhaglen i'w weithredu wedi bod yn destun asesiad ariannol ac asesiad cyfreithiol Effaith Cydraddoldeb ar yr adeg y cafodd ei gyflwyno. Mae cydnabyddiaeth fod posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchodedig, ond lle'n bosib mae'r adrannau sy'n berchen ar yr arbedion wedi cynnig cynlluniau arbedion effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau. Hefyd, mae'r cynlluniau arbedion unigol wedi bod yn destun asesiadau effaith priodol sy'n cefnogi'r penderfyniadau ariannol gerbron yma.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Ni fu proses ymgynghori.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae cyllideb 2026/27 wedi ei lunio ar egwyddor “gynyddol”. Hynny yw, defnyddir cyllideb 2025/26 fel cyllideb sylfaenol, gan wneud nifer o addasiadau cyn dod at gyllideb ddrafft ar gyfer 2026/27:

- Chwyddiant Cyflogau Staff
- Chwyddiant Arall (cyflenwyr)
- Cynnydd mewn ardollau
- Addasiadau i adlewyrchu newidiadau mewn demograffi
- Bidiau ariannol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau
- Addasiadau technegol i'r gyllideb
- Cynnydd neu ostyngiad mewn costau benthyca a llog ar falansau
- Gwireddu arbedion sydd eisoes wedi cael eu cytuno
- Adnabod arbedion pellach sy'n rhaid eu cyflwyno

Mae pob un o'r bidiau ariannol a chynlluniau arbed wedi bod yn destun asesiadau effaith cydraddoldeb eu hunain.

Wrth gynllunio ein cyllidebau ar gyfer parhad gwasanaethau'r Cyngor, mae ein cyfrifwyr wedi rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol. Yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol, mae penaethiaid adrannau'r Cyngor wedi dadansoddi effaith cynlluniau ar wasanaethau, a monitro'r effaith yn briodol.

Yn ogystal â chwrdd â phwysau chwyddiant, mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd “pwysau ar wasanaethau” yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 2 ac fe welir fod rhan sylweddol o'r cyfanswm bidiau refeniw parhaol yn mynd i'r maes gofal cymdeithasol.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Na

3) Adnabod yr Effaith

- 3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl efo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd.
Anabledd	Positif	Mae'r drefn bidiau sydd wedi ei fanylu yn Atodiad 2 yn cynnwys gwariant ychwanegol ar y gwasanaethau cymdeithasol, ac yn oedi neu ddileu arbedion yn y maes yma.
Rhyw	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd.
Oedran	Positif	Mae'r gyllideb a argymhellir yn cynnwys cynnydd arwyddocaol yng nghyllideb yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant.
Cyfeiriadedd rhywiol	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd.
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd.
Ailbennu rhywedd	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd.
Priodas a phartneriaeth sifil	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd.

Yr iaith Gymraeg	Positif	Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys sicrhau fod adnoddau wedi cael eu rhoi yn eu lle i gefnogi gwasanaethau dwyieithog llwyr. Cynllun Corfforaethol y Cyngor yw prif ddogfen polisi'r Cyngor ac mae'n cynnwys nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r gyllideb yn cael ei llunio er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw. Wrth lunio'r gyllideb rhoddwyd sylw penodol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys y saith nod llesiant. Mae hynny'n cynnwys rhoi sylw i'r chweched nod sef 'Diwylliant a'r Gymraeg'.
Anfantais Economaidd-Gymdeithasol	Positif	Mae natur gwasanaethau'r Cyngor yn golygu fod y pwysau ar wasanaethau yn diwallu anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol gan fod y mesurau a argymhellir i ymdrin â phwysau ar wasanaethau yn cymryd hyn i ystyriaeth. Mae cyllidebau'r Cyngor, ac yn enwedig y bidiau llwyddiannus, wedi eu llunio i sicrhau fod yr awdurdod yn gallu parhau i gyfeirio adnoddau i leihau gwahaniaethu ar sail anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae unrhyw gynnydd yn y gyfradd Treth Cyngor yn bwysau ariannol ar bobl Gwynedd, ond mae dros 8,100 yn derbyn peth cymorth tuag at eu Treth Cyngor drwy'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor. Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng cynnydd yn y Dreth Cyngor a'r angen i ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd.

- 3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	Ni chredir bydd unrhyw effaith a soniwyd amdano yn 3.1 yn arwain at gamwahaniaethu, aflonyddu, nac erledigaeth.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Positif	Mae'r gwaith o osod y gyllideb yn seiliedig ar waith sylweddol dros nifer o flynyddoedd o sicrhau fod cyllideb yn ei le sydd yn adlewyrchu anghenion a gofynion pobl Gwynedd.
Meithrin perthnasau da	Niwtral	Mae'r gwaith o osod cyllideb yn cael ei wneud o fewn ffiniau clir, ac mae'r balans o fidiau llwyddiannus ac arbedion yn ymateb i'r gwir bwysau sydd ar wasanaethau.

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Cynllun y Cyngor yw prif ddogfen polisi'r Cyngor ac mae'n cynnwys nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Cafodd Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ar 2 Mawrth 2023 a'i adolygu ym Mawrth 2024 ac ym Mawrth 2025. Mae'r gyllideb yn cael ei llunio er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw.

Eleni, wrth lunio Cyllideb 2026/27, bu'n rhaid i'r Cyngor ystyried ymarferoldeb yr arbedion oedd wedi cael eu hadnabod yn flaenorol fel rhai i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau ac oedd eisoes wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd y prosesau statudol yn cynnwys cwblhau asesiad cydraddoldeb sy'n cynnwys cwestiwn am effaith ar yr iaith Gymraeg. Wrth drin penderfyniadau am arbedion yn adroddiad Cyllideb 2020/21, casglwyd fod **dim effaith** wedi ei ganfod ar yr iaith Gymraeg ond fod angen cadw golwg wrth weithredu.

Wrth baratoi adroddiadau Cyllideb yn flynyddol ers 2021/2022 rhoddir ystyriaeth ar effaith arfaethedig y cyllidebau hyn ar y Gymraeg. Yn unol â'r arfer cwblhawyd asesiad cydraddoldeb sy'n cynnwys cwestiwn am yr effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae'r drefn yma yn parhau ar gyfer 2026/27.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Polisi ariannol yw hwn, a chredwn fod y polisi cyfredol yn mynd hyd eithaf ein gallu cyfreithiol a statudol yn hynny o beth o safbwynt cael effaith bositif ar yr iaith.

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Mae'r drefn o sefydlu cyllideb y Cyngor yn ganlyniad i gamau penodol sy'n ystyried cyllideb sylfaenol y flwyddyn flaenorol a'r camau sydd angen eu cymryd wedyn i adlewyrchu addasiadau sydd angen eu hystyried i ymdrin â phwysau ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Yn ychwanegol i hynny mae sefyllfa gyllidebol holl wasanaethau'r Cyngor yn destun adolygiad manwl dair gwaith y flwyddyn, er mwyn adnabod unrhyw feysydd lle mae angen gweithredu i ymdrin â thanwariant neu orwariant – yn enwedig os nad ydi cyllidebau yn ddigonol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau. Mae natur gwasanaethau'r Cyngor yn golygu fod y pwysau ar wasanaethau yn lleihau anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol gan fod y mesurau i ymdrin â phwysau ar wasanaethau yn cymryd hyn i ystyriaeth.

Mae rhai o'r bidiau yr argymhellir eu hariannu yn cynnwys nifer sydd wedi eu cynllunio yn benodol i leihau anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r rhain wedi eu manylu yn Atodiad 2.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Mae'r ceisiadau am wariant ychwanegol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau ("bidiau") wedi bod yn destun asesiadau manwl gan nifer o swyddogion ac aelodau ac felly rydym yn hyderus fod pob cam sy'n ymarferol bosib i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol wrth lunio'r gyllideb wedi cael eu cymryd.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Bydd effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u hariannu i'r lefel galw ychwanegol.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae unrhyw gynnydd mewn Treth Cyngor am gael effaith ar sefyllfa ariannol pobl Gwynedd, ac argymhellir cynnydd uwch na'r arfer, sydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	✓
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

4.4 Os yn parhau efo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd yr adrannau yn gweithio i sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng cynnydd yn y Dreth Cyngor a'r angen i ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd rhaid cael penderfyniad y Cyngor Llawn yn flynyddol ar osod y gyllideb a chyfradd y dreth.

Bydd yr arbedion yn cael eu herio yn y Cyfarfodydd Herio Perfformiad dair gwaith y flwyddyn ac yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol fel rhan o adroddiadau perfformiad yr Aelodau Cabinet unigol. Hefyd, bydd adroddiad Trosolwg Arbedion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dair gwaith y flwyddyn.

ATODIAD 9

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

1. Mae'r gwaith o gynllunio a pharatoi'r argymhellion wedi digwydd yng nghyd-destun gofynion y Ddeddf uchod. Er bod yr argymhellion yn deillio o ddewisiadau ariannol anodd, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar seiliau'r egwyddor o weithredu mewn modd sydd yn cyfarch y ddyletswydd statudol yn Adran 3 i ymgymryd â datblygu cynaliadwy a chyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae hyn yn cael ei gyfarch wrth adnabod a chloriannu'r dewisiadau o ran arbedion, ond hefyd wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau o safbwynt darparu adnoddau digonol er mwyn cynnal lefel briodol o wasanaethau.
2. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r pum ffordd ganlynol o weithio y mae'r Cyngor yn eu hystyried wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy.
 - Edrych i'r tymor hir – Mae'r gyllideb yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan adnabod anghenion a galw am wasanaethau yn y dyfodol, nid ar gyfer 2026/27 yn unig, ac yn cymryd agwedd strategol i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy.
 - Deall problemau a'u hatal - Mae'r broses gyllidebu yn hwyluso dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol, fel y gellir mynd i'r afael â gwreiddiau materion. Hefyd, mae'r Seminar Cyllideb ar gyfer Aelodau wedi hwyluso eu dealltwriaeth o'r strategaeth ariannol.
 - Cymryd agwedd integredig – Mae polisiâu ac arferion cyllidebu Cyngor Gwynedd, a'r cynigion cyllideb eleni, wedi'u hystyried o safbwynt yr holl nodau llesiant.
 - Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol - Lle gellir darparu gwasanaethau gwell trwy gydweithredu, a gweithio gyda phartneriaid, mae'r broses gyllidebol a'r strategaeth arbedion yn annog hyn, yn fewnol ac allanol, lle mae hynny'n fwy cynaliadwy.
 - Cynnwys y boblogaeth mewn penderfyniadau - Mae rhan o'r broses gyllidebu wedi cynnwys ymgysylltu â thrigolion, cwsmeriaid a phartneriaid.
3. Prif gasgliadau am gyllideb 2026/27 ynglŷn â'r 7 nod llesiant:
 - Llewyrchus – Niwtral (ychwanegu at adnoddau gwasanaethau sy'n rhoi diwedd ar dlodi)
 - Cydnerth - Positif (agwedd ddarbodus, hir-dymor at ariannu gwasanaethau a galluogi Cynllun y Cyngor)
 - Iachach – Positif (ariannu gofynion ychwanegol gwasanaethau 'gofal')
 - Mwy Cyfartal – Positif (trethu er mwyn ariannu gwasanaethau 'lles')
 - Cymunedau Cydlynus – Niwtral (parhau i ariannu gwasanaethau sy'n cadw pobl yn ddiogel)
 - Diwylliant a'r Gymraeg – Positif (drwy ariannu gwasanaethau dwyieithog)

- Byd-eang Gyfrifol – Niwtral (parhau i ariannu prosiectau digidol, amgylcheddol, cydweithredol)
4. Ynglŷn â chynlluniau arbedion ariannol penodol, fel rhan o'r gyfundrefn arbedion corfforaethol ac adrannol mewn blynyddoedd blaenorol pan gymeradwywyd y cynlluniau arbedion, lle'n briodol bu asesiad llesiant penodol fesul cynllun unigol.
 5. Yn gyffredinol, wedi'i gyplysu gyda Chynllun y Cyngor a'r Amcanion Llesiant, mae'r gyllideb yma'n cefnogi'r Cyngor i wireddu amcanion strategol.

ATODIAD 10

DATGANIAD Y SWYDDOG CYLLID STATUDOL AR GADERNID YR AMCANGYFRIFON

1. Darperir y datganiad hwn yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Brif Swyddog Ariannol y Cyngor adrodd i'r Aelodau ar:
 - Gadernid yr amcangyfrifon a wnaed at ddibenion cyfrifiadau cyllideb y Cyngor.
 - Ddigonolrwydd y cronfeydd ariannol arfaethedig.
2. Mae'n ofynnol i'r Aelodau roi sylw i'r adroddiad hwn wrth ystyried y gyllideb a'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.
3. Mae Atodiad 7 yn amlinellu sefyllfa'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn, tra bod y datganiad hwn yn cadarnhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol sy'n sail i'r gyllideb.
4. Mae'r amcangyfrifon cyllideb yn seiliedig ar ragdybiaethau am wariant ac incwm yn y dyfodol ac yn anochel yn cynnwys elfen o risg o ragdybiaethau. Gellir lliniaru effaith y risg hon trwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn, a chronfeydd wrth gefn ariannol.

Cyd-destun economaidd

5. Mabwysiadwyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) diwygiedig gan y Cabinet ar 16 Medi 2025, sy'n nodi'r rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2026. Roedd yr amcangyfrifon o fewn yr CATC yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf sydd ar gael ar y newid mewn incwm y bydd y Cyngor yn ei dderbyn dros y cyfnod (trwy Grant y Llywodraeth a Treth Cyngor), a'r gofynion gwariant ychwanegol dros yr un cyfnod.
6. Wrth fabwysiadu'r CATC diwygiedig, roedd diffyg eglurder ynglŷn â'r cynnydd mewn Cyllid Allanol Cyfun ("setliad") ar gyfer 2026/27. Ar y naill law, nodwyd bod ychwanegiad at gyllideb y sector cyhoeddus gan lywodraeth San Steffan y llynedd yn gam cyntaf tuag at fynd i'r afael ag effaith tanfuddsoddi dros ddegawd neu fwy. Ar y llaw arall, cyhoeddwyd rhybudd na all y Llywodraeth yng Nghaerdydd gynyddu gwariant cyhoeddus o dan yr amgylchiadau economaidd presennol.

7. Fodd bynnag, yn dilyn cytundeb cyllidebol rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cynnydd o 4.1% yn ei setliad ar gyfer 2026/27 ar ôl i'r sylfaen ar gyfer 2025/26 gael ei haddasu wrth lunio'r setliad. Felly, mae'r Cyngor mewn sefyllfa gryfach yn 2026/27 nag a ragwelwyd yn wreiddiol, er mai'r cynnydd mewn setliadau fel canran yw'r ail isaf yng Nghymru cyn ystyried y llawr cyllido a roddwyd ar waith.
8. Mae etholiadau i'r Senedd ym mis Mai 2026 ac mae ansicrwydd sylweddol o hyd ynglŷn â chyllid Llywodraeth Cymru yn y dyfodol y tu hwnt i 2026/27.

Hanes rheoli ariannol

9. Dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, nid yw'r Cyngor wedi gallu cadw o fewn ei gyllideb. Roedd adolygiad y gyllideb refeniw ar ddiwedd mis Tachwedd 2025 yn rhagweld y byddai adrannau'r Cyngor yn gorwario £5.3 miliwn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2025/26, fel a ganlyn:

Adrannau	£'000
Oedolion, Iechyd a Lles	3,062
Plant a Theuluoedd	1,856
Priffyrdd, Peirianeg ac YGC	492
Amgylchedd	685
Tai ac Eiddo	248
Adrannau Eraill	(1,012)
Cyfanswm Gorwariant a ragwelir ar gyfer 2025/26	5,331

10. Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys rhaglen waith fanwl i fynd i'r afael â'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.
11. Mae'r CATC yn adlewyrchu'r parhad disgwyledig o bwysau a arweinir gan y galw, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol ac atal digartrefedd. Mae'r rhain yn parhau i gael eu modelu gan ddefnyddio data tueddiadau.

12. Yn eu hadroddiad *Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Gwynedd*, nododd Archwilio Cymru " Ar y cyfan canfuom bod cynnydd sylweddol yn y nifer o adrannau'r Cyngor sydd yn gorwario yn y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf, a mae wedi datblygu trefniadau i adolygu ei gyllidebau. Nid yw eto i nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â bylchau cyllid yn y dyfodol."
13. Mae gwaith wedi'i wneud i edrych yn fanwl ar y gorwariant ym meysydd gofal cymdeithasol (sy'n cynrychioli 76% o'r holl orwariant), ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau.
14. Felly, mae'r gyllideb hon yn cael ei chyflwyno mewn cyd-destun lle nad yw'r Cyngor wedi gallu darparu gwasanaethau o fewn ei gyllideb, yn enwedig yn y meysydd y galw mawr.

Cydymffurfio â'r codau a'r safonau

15. Er gwaethaf hyn, mae gan y Cyngor hanes profedig o allu dangos cydymffurfiaeth â safonau a chodau ariannol, gydag adroddiadau prydlon a rheolaethau mewnol cadarn. Fodd bynnag, mae gwaith annibynnol wedi'i wneud gan CIPFA i adolygu gwytnwch ariannol hirdymor y Cyngor yn ogystal â chydymffurfiaeth â Chod Rheoli Ariannol CIPFA.

Cadernid amcangyfrifon

Chwyddiant

16. Mae chwyddiant cyffredinol wedi aros yn uwch na tharged Banc Lloegr o 2% yn ystod 2025/26 ac mae rhagolygon annibynnol a dderbyniwyd yn dangos bod disgwyl i gyfraddau chwyddiant aros felly yn 2026/27. Yn seiliedig ar ragolygon Banc Lloegr a'r cyngor annibynnol a gafwyd gan Arlingclose, ein cyngorwyr rheoli trysorlys annibynnol sydd wedi adolygu rhagdybiaethau'r Banc, credwn y bydd chwyddiant cyffredinol yn aros rhwng 2% a 3% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn.
17. Mae'r rhagolygon cytundeb cyflog sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb yn adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf. Yn seiliedig ar dueddiadau diweddar a'r rhagolygon economaidd, mae cynnydd a ragwelir yn 2026/27 o gytundeb cyflog o 4% i athrawon a 3.4% ar gyfer gweddill y gweithlu wedi'i gynnwys yn y gyllideb. Rwy'n fodlon bod amcangyfrifon darbodus o lefelau chwyddiant wedi'u defnyddio.

Rhagdybiaethau incwm

18. Mae'r gyllideb yn seiliedig ar gyflawni cynnydd penodol mewn incwm o ffioedd sy'n cyfateb i'r cynnydd mewn costau cymwys.
19. Fel arfer, mae chwyddiant wedi'i ychwanegu at y targedau incwm o ffioedd a thaliadau am wasanaethau'r Cyngor ac yn y mwyafrif o achosion disgwylir y bydd y ffioedd unigol yn cael eu cynyddu yn unol â chwyddiant yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Pan nad yw ffioedd yn cynyddu yn unol â chwyddiant, rwy'n fodlon bod trefniadau cadarn ar waith i ddod i gasgliad ar lefel briodol, gan gynnwys ymgynghori â'r Adran Gyllid.
20. Os bydd y galw am wasanaethau'r Cyngor yn gostwng, ac na fydd targedau incwm yn cael eu cyflawni, gall hynny arwain at orwariant ar gyllidebau adrannol. Bydd angen monitro'r sefyllfa gyllideb wirioneddol yn agos yn ystod y flwyddyn ac, os oes angen, torri gwariant i gyd-fynd â'r gostyngiad mewn incwm. Ni fydd hynny'n bosibl gyda rhai cyllidebau corfforaethol mawr, lle mae'n rhaid gosod amcangyfrifon incwm ar lefel ddarbodus.

Rhagdybiaethau grant

21. Mae'r Cyngor yn derbyn ystod o grantiau unigol ac rwy'n fodlon bod trefniadau priodol yn gyffredinol o fewn yr awdurdod i ddelio â grantiau, ond mae archwilyr mewnol y Cyngor wedi mynd i'r afael ag ychydig o feysydd lle mae lle i wella. Os bydd y Cyngor yn derbyn grant setliad ychwanegol yn ystod y flwyddyn, neu ar ôl i'r gyllideb hon gael ei phasio, mae trefniadau llywodraethu priodol ar waith o fewn Cyfansoddiad y Cyngor i ddod i benderfyniad ar ei ddefnydd.
22. Fodd bynnag, mae risgiau sy'n gysylltiedig â'r nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru a chyrrff eraill sy'n cefnogi cyfran o wariant y Cyngor. Rydym wedi derbyn grantiau penodol sylweddol mewn gofal cymdeithasol yn ystod y blynyddoedd ariannol diwethaf, gydag ymrwymadau cysylltiedig, sy'n gwneud cynllunio cyllidol yn anodd. Yn gyffredinol, bydd yn rhaid i'r gwariant cysylltiedig orffen pan fydd grant yn dod i ben, ond gall telerau contract olygu na ellir torri gwariant mor gyflym â'r grant, neu fod costau diswyddo i'w ariannu. Ar ben hynny, gall gweithgarwch a ariennir fod mor bwysig i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ei hun, fel bod y Cyngor yn penderfynu parhau â'r gwariant.

Risg Arbedion

23. Ar 20 Chwefror 2024, cymeradwyodd y Cabinet werth £5.2m o arbedion ar gyfer cyllideb 2024/25 ymlaen. Dangosir proffil y rhaglen yn Atodiad 3 adroddiad y gyllideb, sy'n dangos bod gwerth £343,090 o arbedion wedi'u proffilio ar gyfer 2026/27. Gweithredwyd y £5.2m cyfan yng nghyllideb 2024/25, gydag arbedion y blynyddoedd dilynol yn cael eu pontio o gronfeydd. Felly, nid yw arbedion 2025/26 a 2026/27 yn helpu i leihau'r bwlch ariannol yn y blynyddoedd hynny.
24. Mae dau gynllun arbedion gwerth £91,000 gan yr Adran Prifffyrdd, Peirianeg a YGC, un cynllun gwerth £98,500 gan yr Adran Addysg ac un cynllun gwerth £50,000 gan yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol, sydd yn deillio o raglenni blaenorol o arbedion ond sydd yn berthnasol i 2026/27.
25. Yn ychwanegol i hyn mae gwerth £81,000 o gynlluniau arbedion sydd wedi eu cymeradwyo yn 2025/26 ac wedi eu proffilio i 2026/27.
26. Mae gan rai o adrannau'r Cyngor hanes o anallu i gyflawni eu cynlluniau arbed ac mae hynny'n cyflwyno risg sylweddol i gynaliadwyedd ariannol hirdymor. Rwy'n credu mai dyma'r risg fwyaf wrth osod y gyllideb hon. Yn unol â'r weithdrefn arferol, byddwn yn lliniaru'r risg trwy sicrhau bod adrannau ac aelodau'r Cabinet yn berchnogaeth o'r cynlluniau arbed, ac yn monitro'r cynnydd perthnasol yn rheolaidd. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys strategaeth o ddarparu 10% o werth cynlluniau arbed newydd dros oes y rhaglen i ddelio â sefyllfaoedd lle mae llithriad mewn rhaglenni arbed.

Risgiau Cyfradd Llog

27. Gall cyfraddau llog effeithio ar y gyllideb refeniw trwy log a enillir – h.y. byddai cynnydd yn y gyfradd llog yn golygu mwy o incwm. Yn unol â Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor, nid yw'r gyllideb yn dibynnu ar enillion rhy uchel. Disgwylir i gyfraddau llog barhau i ostwng yn raddol ym mlwyddyn ariannol 2026/27. Fodd bynnag, oherwydd ffactorau fel cyfraddau llog yn newid a'r arian sydd ar gael ar gyfer buddsoddi, rydym yn rhagweld derbyn dros £89k yn fwy o log yn 2026/27 nag yn 2025/26.

Digonolrwydd cronfeydd wrth gefn

28. Dangosodd y Datganiad Cyfrifon archwiliedig diweddaraf ar gyfer Cyngor Gwynedd mai lefel gyffredinol y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar ddyddiad y fantolen (31 Mawrth 2025) oedd £110.8 miliwn, i fyny o £101.8 miliwn ar 31 Mawrth 2024. Mae'r cronfeydd wrth gefn yn cynnwys Cronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor sydd ar waith i fod ar gael i ddelio â gorwariant o fewn adrannau. Rhagwelir y bydd tua £18 miliwn yn y gronfa hon ar 1 Ebrill 2026, ac rwy'n credu ei bod yn lefel ddigonol ar gyfer 2026/27.
29. Ymhellach, mae gan Gyngor Gwynedd £7.9 miliwn o falansau cyffredinol ar gyfer sefyllfaoedd argyfwng go iawn. Rwy'n credu bod y lefel hon yn ddigonol ar gyfer cynhyrchu cyllideb 2026/27 ond bydd y lefel yn cael ei hadolygu ymhellach yn gynnar yn y flwyddyn ariannol.
30. Cyhoeddodd Archwilio Cymru eu hadroddiad *Rheoli Balansau a Chronfeydd Wrth Gefn Strategol – Cyngor Gwynedd* ym mis Medi 2025; ystyriwyd yr adroddiad gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ar 11 Medi 2025.
31. Roedd y gwaith wedi'i gwblhau yn ystod mis Mai a Mehefin 2025 yn manylu ar ffigurau diwedd blwyddyn ar gyfer 2024/25. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod gan “Gyngor Gwynedd drefniadau llywodraethu clir a strwythuredig ar gyfer rheoli ei gronfeydd wrth gefn. Mae Prif Swyddog Cyllid y Cyngor yn cynghori aelodau a swyddogion yn rheolaidd ar lefelau a defnydd cronfeydd wrth gefn. Cryfder allweddol yw proses "gynaeafu" barhaus y Cyngor, sy'n adolygu cronfeydd wrth gefn ar sawl adeg drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, nid oes strategaeth na fframwaith ffurfiol i arwain penderfyniadau ar lefelau cronfeydd wrth gefn, a allai helpu i sicrhau bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n effeithiol a rhoi sicrwydd eu bod yn gyson yn cyd-fynd ag amcanion y Cyngor”.
32. Mewn ymateb i'r adroddiad, rwyf wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth cronfeydd wrth gefn – i osod cyfeiriad trwy fabwysiadu strategaeth i sicrhau eglurder ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn – erbyn 31 Mawrth 2026.

Barn y Swyddog Cyllid Statudol

Ar ôl ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r lliniaru, rwy'n ystyried bod y cyllidebau yn gadarn, yn ddigonol ac yn gyraeddadwy.

Eitem 6

CYFARFOD:	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD:	3 CHWEFROR 2026
PWNC:	STRATEGAETH GYFALAF 2026/27 (YN CYNNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYG)
PWRPAS:	EGLURO A CHRAFFU'R STRATEGAETH ARFAETHEDIG AR GYFER 2026/27
GWEITHREDU:	Derbyn gwybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n codi o'r strategaeth cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn i'w derbyn.
PENDERFYNIAD A GEISIR:	Mae rheoliadau cenedlaethol perthnasol yn mynnu perfyniad gan y Cyngor llawn ar y Strategaeth Cyfalaf blynyddol. Ymhellach i'r cyflwyniad gan swyddogion o gwmni Arlingclose, Ymgynhorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn yr adroddiad, nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol, a chefnogi bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r strategaeth i'r Cyngor llawn am gymeradwyaeth.
SWYDDOG CYSWLLT:	DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID
AELOD CABINET:	Y CYNGHORYDD HUW WYN JONES, AELOD CABINET CYLLID

CYFLWYNIAD

1. Mae'r adroddiad strategaeth gyfalaf hwn yn rhoi trosolwg lefel uchel ar y modd y mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheolaeth trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o sut rheolir y risgiau cysylltiedig, a'r goblygiadau i gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Fe'i hysgrifennwyd mewn arddull rwydd er mwyn hwyluso dealltwriaeth aelodau o'r meysydd hyn sy'n dechnegol ar brydiau.
2. Bydd penderfyniadau ar reolaeth cyfalaf a thrysorlys a wneir eleni yn cael effaith ariannol ar y Cyngor am nifer o flynyddoedd i'r dyfodol. Maent felly o dan reolaeth fframwaith cenedlaethol a fframwaith polisi lleol, fel a grynhoir yn yr adroddiad hwn.

GWARIANT CYFALAF A CHYLLIDO

3. Gwariant cyfalaf yw pan mae'r Cyngor yn gwario arian ar asedau, megis eiddo neu gerbydau, a fydd yn cael eu defnyddio am fwy na blwyddyn. Mewn llywodraeth leol mae hyn yn cynnwys gwario ar asedau sy'n eiddo i gyrff eraill, a rhoi benthyciadau a grantiau i gyrff eraill i'w galluogi nhw i brynu asedau.
4. Yn 2026/27, mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud gwariant cyfalaf o £40.2m, fel a grynhoir isod:

Tabl 1: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 2024/25 £m	Amcan 2025/26 £m	Cyllideb 2026/27 £m	Cyllideb 2027/28 £m	Cyllideb 2028/29 £m
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol	85.0	94.1	40.2	18.9	8.9
Prydlesu Cronfa Gyffredinol *	5.3	0.0	0.0	0.0	0.0
CYFANSWM	90.3	94.1	40.2	18.9	8.9

* Daw £5.3m o wariant cyfalaf 2024/25 oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau a nid yw'n cynrychioli gwariant arian parod.

5. Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2026/27 yn cynnwys:
 - Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - £8.2m
 - Cerbydau Adrannol - £6.5m
 - Cynlluniau /Strategaeth Tai - £5.0m
 - Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro/Cyffredin - £4.9m
 - Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol - £3.6m
 - Cartrefi / Canolfannau Oedolion a Phlant- £4.5m
6. **Llywodraethu:** Mae gan y Cyngor Strategaeth Asedau 10 mlynedd, sef cynllun o flaenoriaethau gwariant cyfalaf y Cyngor yn seiliedig ar anghenion yr adrannau. Mae'r strategaeth yn cynnwys cyfran heb ei chlustnodi. O'r gyfran hon, mae modd i adrannau wneud cais yn flynyddol am arian ar gyfer cynlluniau cyfalaf. Yr Adran Gyllid sy'n cydlynu'r ceisiadau. Mae'r Cabinet yn gwerthuso pob cais yn seiliedig ar flaenoriaethau, ac yn gwneud argymhellion. Cyflwynir ceisiadau cyfalaf a strategaeth asedau i'r Cabinet a'r Cyngor llawn yn flynyddol.
 - Am ragor o wybodaeth am raglen gyfalaf y Cyngor, ewch i **Atodiad A**.
7. Rhaid ariannu pob gwariant cyfalaf naill ai o ffynonellau allanol (grantiau gan y llywodraeth a chyfraniadau eraill), adnoddau'r Cyngor (refeniw, cronfeydd a

derbyniadau cyfalaf), neu ddyled (benthycu, prydlesu, a Menter Cyllid Preifat (MCP)). Bwriedir ariannu'r gwariant uchod fel a ganlyn:

Tabl 2: Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 2024/25 £m	Amcan 2025/26 £m	Cyllideb 2026/27 £m	Cyllideb 2027/28 £m	Cyllideb 2028/29 £m
Ffynonellau Allanol	66.5	53.3	14.4	4.9	2.5
Adnoddau ein Hunain	11.5	26.4	16.6	9.6	2.0
Dyled *	12.3	14.4	9.2	4.4	4.4
CYFANSWM	90.3	94.1	40.2	18.9	8.9

* Daw £5.3m o wariant cyfalaf 2024/25 oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau a nid yw'n cynrychioli gwariant arian parod.

8. Cyllid dros dro yn unig yw dyled, gan fod rhaid talu benthyciadau a phrydlesau yn ôl. Mae hwn, felly, yn cael ei ddisodli mewn amser gyda mathau gwahanol o ariannu, fel arfer o refeniw. Gelwir hyn yn ddarpariaeth lleiafswm refeniw (DLIR). Fel arall, gellir defnyddio enillion a ddaw o werthu asedau cyfalaf (a elwir yn dderbyniadau cyfalaf) i ddisodli dyled ariannol. Mae'r defnydd o'r derbyniadau cyfalaf a'r DLIR bwriedig fel a ganlyn:

Tabl 3: Disodli Dyled mewn £ miliynau

	Gwir 2024/25 £m	Amcan 2025/26 £m	Cyllideb 2026/27 £m	Cyllideb 2027/28 £m	Cyllideb 2028/29 £m
Darpariaeth Lleiafswm Refeniw	5.9	6.9	6.8	7.0	6.9

- Ceir Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw cyflawn y Cyngor yn **Atodiad B** y Datganiad Strategaeth Cyfalaf. Mae'r datganiad yma wedi ei addasu ar gyfer 2026/27.
9. Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda DLIR a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled. Disgwylir y bydd y GCC yn cynyddu £2.4m yn ystod 2026/27. Yn seiliedig ar y ffigyrau gwariant ac ariannu uchod, mae GCC amcangyfrifedig y Cyngor fel a ganlyn:

Tabl 4: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 31.3.2025 £m	Amcan 31.3.2026 £m	Cyllideb 31.3.2027 £m	Cyllideb 31.3.2028 £m	Cyllideb 31.3.2029 £m
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol *	179.9	187.4	189.8	187.2	184.7

* Daw £5.3m o gynnydd yn y Gofyn Cyllido Cyfalaf am 2024/25 ac ymlaen oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.

10. **Rheoli Asedau:** Er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn parhau'n ddefnyddiol yn y tymor hir, mae gan y Cyngor strategaeth rheoli asedau. Mae'r Cynllun Asedau ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd o 2024/25 hyd 2033/24 wedi cael ei adolygu a chafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 11/07/2024, gweler Eitem 7 ar y rhaglen:

[Rhaglen ar gyfer Y Cyngor ar Dydd Iau, 11eg Gorffennaf, 2024, 2.00 y.h.](#)

11. **Gwaredu Asedau:** Pan nad oes angen yr ased cyfalaf mwyach, gellir ei werthu er mwyn gwario'r derbyniadau cyfalaf yma ar asedau newydd neu i ad-dalu dyled. Mae ad-dalu grantiau cyfalaf, benthyciadau a buddsoddiadau hefyd yn creu derbyniadau cyfalaf. Bwriad y Cyngor yw derbyn derbyniadau cyfalaf fel a ddengys yn y tabl isod:

Tabl 5: Derbyniadau Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 2024/25 £m	Amcan 2025/26 £m	Cyllideb 2026/27 £m	Cyllideb 2027/28 £m	Cyllideb 2028/29 £m
Gwerthu Asedau	0.3	0.1	0.0	0.1	0.0
Ad-dalu Benthyciad	0.0	0.1	0.1	0.0	0.1
CYFANSWM	0.3	0.2	0.1	0.1	0.1

RHEOLAETH TRYSORLYS

12. Mae rheolaeth trysorlys yn ymwneud â chadw digonedd ond nid gormodedd o arian parod i ddiwallu anghenion gwariant y Cyngor, gan reoli'r risgiau cysylltiedig. Buddsoddir arian dros ben nes bydd galw amdano, ac ymdrinnir â phrinder arian drwy fenthyg, er mwyn sicrhau nad yw'r gweddill credyd na'r gorddrafft yn y cyfrif banc cyfredol yn ormod. Mae'r Cyngor fel arfer yn gyfoethog mewn arian parod yn y tymor byr gan fod incwm referniw'n cael ei dderbyn cyn cael ei wario. Ond yn y tymor hir mae'n ariannol dlawd, gan fod

gwariant cyfalaf yn digwydd cyn canfod yr arian i dalu amdano. Caiff gormodedd arian parod refeniw ei osod yn erbyn diffygion arian parod cyfalaf er mwyn lleihau faint a fenthycir yn gyffredinol.

13. Oherwydd y penderfyniadau a wnaethpwyd yn y gorffennol, ar hyn o bryd mae benthyciadau'r Cyngor yn £75.7m, gyda chyfradd llog cyfartalog o 5.49%, a buddsoddiadau trysorlys o £130.7m ar gyfradd gyfartalog o 4.13%.
14. **Y Strategaeth Fenthycia:** Prif amcanion y Cyngor wrth fenthycio yw canfod cost benthycia sy'n isel ond sy'n benodedig, gan gynnal hyblygrwydd pe bai cynlluniau yn newid yn y dyfodol. Yn aml, mae'r amcanion hyn yn gwrthdaro. Mae'r Cyngor, felly, yn ceisio cael cydbwysedd rhwng benthyciadau rhad, tymor byr a benthyciadau tymor hir ar gyfradd sefydlog lle mae'r gost yn y dyfodol yn hysbys ond yn uwch.

Nid yw'r Cyngor yn benthycio i fuddsoddi ar gyfer y prif bwrpas o ddychweliadau ariannol ac felly gyda mynediad llawn i'r PWLB.

15. Gweler lefelau rhagamcanedig o gyfanswm dyled y Cyngor sy'n weddill (sy'n cynnwys benthyciadau, ymrwymadau MCP a phrydlesau) isod, o'u cymharu â'r gofyn cyllido cyfalaf (gweler uchod).

Tabl 6: Dangosydd Darbodus: Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau

	Gwir 31.3.2025 £m	Amcan 31.3.2026 £m	Cyllideb 31.3.2027 £m	Cyllideb 31.3.2028 £m	Cyllideb 31.3.2029 £m
Dyled (gan gynnwys MCP a phrydlesau)	100.1	79.0	73.4	71.0	70.1
Gofyn Cyllido Cyfalaf	179.9	187.4	189.8	187.2	184.7

16. Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Fel y gwelir yn nhabl 6, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd yn cydymffurfio â hyn yn y tymor canolog.
17. **Meincnod Ymrwymiad:** Er mwyn cymharu faint mae'r Cyngor wedi'i fenthycio mewn gwirionedd yn erbyn strategaeth amgen, mae meincnod ymrwymiad wedi'i gyfrifo sy'n dangos y lefel risg isaf o fenthycio. Mae hyn yn tybio fod balansau arian parod a buddsoddiadau yn cael eu cadw ar o leiaf £21.5m ar ddiwedd pob blwyddyn.

Tabl 7: Benthycia a'r Meincnod Ymrwymiad mewn £ miliynau

	Gwir 31.3.2025 £m	Amcan 31.3.2026 £m	Cyllideb 31.3.2027 £m	Cyllideb 31.3.2028 £m	Cyllideb 31.3.2029 £m
Benthyciadau	94.2	73.9	69.4	68.0	67.8
Meincnod Ymrwymiad	-31.4	59.1	84.4	81.8	79.3

18. Mae'r tabl yn dangos fod y Cyngor yn disgwyl i'w fenthyciadau fod yn uwch na'i feincnod ymrwymiad hyd at 2026. Mae hyn oherwydd bod gan y Cyngor reserfau, ac mae allbynnau arian parod wedi bod yn is na'r disgwyl pan fenthycwyd yr arian.
19. **Terfyn Benthyc Fforddiadwy:** Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthyc fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn dynesu at y terfyn.

Tabl 8: Dangosyddion Darbodus: Y Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Gweithredol ar gyfer Dyledion Allanol mewn £m

	Terfyn 2025/26 £m	Terfyn 2026/27 £m	Terfyn 2027/28 £m	Terfyn 2028/29 £m
Terfyn Awdurdodedig - Cyfanswm Dyledion Allanol	200	200	200	200
Ffin Gweithredol - Cyfanswm Dyledion Allanol	190	190	190	190

- Mae manylion pellach ar fenthyciadau ar gael yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn **Atodiad C**.
20. **Y Strategaeth Fuddsoddi Trysorlys:** Mae buddsoddiadau'r trysorlys yn digwydd drwy dderbyn arian parod cyn iddo gael ei dalu allan eto. Fel arfer, ni ystyrir fod buddsoddiadau a wneir am resymau gwasanaeth neu er elw ariannol yn unig yn rhan o reolaeth y trysorlys.
21. Polisi'r Cyngor ar fuddsoddiadau'r trysorlys yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros gynnyrch; sef, canolbwyntio ar leihau risg yn hytrach nac uchafu enillion. Mae arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y dyfodol agos yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, er enghraifft gyda'r llywodraeth, awdurdodau lleol eraill, neu fanciau ansawdd uchel penodedig, er mwyn lleihau'r perygl o golled. Bydd arian a gedwir yn hwy yn cael ei fuddsoddi'n ehangach, gan gynnwys

mewn bondiau, cyfranddaliadau ac eiddo, er mwyn cydbwysu'r perygl o golled gyda'r perygl o gael enillion sy'n is na chwyddiant. Gellir cadw buddsoddiadau dyfodol agos a thymor hwy mewn cronfeydd wedi'u pwlio, lle mae rheolwr cronfa allanol yn penderfynu pa fuddsoddiadau penodol i'w prynu ac fe all y Cyngor ofyn am ei bres yn ôl ar fyr rybudd.

Tabl 9: Buddsoddiadau Rheolaeth y Trysorlys mewn £ miliynau

	Gwir 31.3.2025 £m	Amcan 31.3.2026 £m	Cyllideb 31.3.2027 £m	Cyllideb 31.3.2028 £m	Cyllideb 31.3.2029 £m
Buddsoddiadau'r Dyfodol Agos	141.0	83.5	55.0	45.0	35.0
Buddsoddiadau'r Tymor Hwy	11.9	13.0	13.0	13.0	13.0
CYFANSWM	152.9	96.5	68.0	58.0	48.0

- Ceir manylion pellach ar fuddsoddiadau'r trysorlys yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn **Atodiad C**.
22. **Rheolaeth Risg:** Mae rheoli a rheoli risg yn effeithiol yn brif amcan gweithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor. Felly mae'r strategaeth rheolaeth trysorlys yn nodi amryw o ddangosyddion a therfynau i gyfyngu ar y risg o golledion annisgwyl ac yn manylu i ba raddau y gellir defnyddio deilliadau ariannol i reoli risgiau trysorlys.
- Mae'r dangosyddion darbodus rheolaeth trysorlys ar dudalennau 5 a 15 i 17 o Strategaeth Rheolaeth Trysorlys yn **Atodiad C**.
23. **Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau ar fuddsoddi a benthyg yn ddyddiol; felly, fe'u dirprwyir i Bennaeth a staff yr Adran Gyllid, sy'n gweithredu yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn. Cyflwynir adroddiadau chwarterol ar weithgaredd rheolaeth trysorlys i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am graffu penderfyniadau rheolaeth trysorlys. Mae aelodau y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Cyngor llawn yn derbyn cyflwyniad mewn seminar blynyddol gan Arlingclose, ein ymgynghorwyr ariannol, gafodd ei gynnal ar y 30ain o Ionawr a 26ain o Chwefror 2026 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27

BUDDSODDIADAU ER DIBENION GWASANAETH

24. Gall y Cyngor wneud buddsoddiadau i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys gwneud benthygiadau i fusnesau bychain er mwyn hyrwyddo twf economaidd a chefnogi'r strategaeth dai. Yn sgil yr amcan

gwasanaeth cyhoeddus, mae'r Cyngor yn fodlon cymryd mwy o risg na gyda buddsoddiadau'r trysorlys. Fodd bynnag, mae'n dal i gynllunio na fydd buddsoddiadau o'r fath yn gwneud colled hyd yn oed ar ôl talu'r holl gostau.

25. **Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau ar fuddsoddiadau gan y Pennaeth Gwasanaeth priodol mewn ymgynghoriaeth â Phennaeth yr Adran Gyllid. Mae mwyafrif y benthyciadau'n rhai gwariant cyfalaf a byddant hefyd yn cael eu cymeradwyo fel rhan o'r rhaglen gyfalaf. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod diwydrwydd dyladwy yn cael ei gwblhau cyn bod buddsoddiad yn cael ei wneud.

YMRWYMIADAU

26. Yn ogystal â'r ddyled y manylir arno uchod, mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i wneud taliadau yn y dyfodol i unioni'r diffyg yn ei gronfa bensiwn fel mae'n codi (gwerth o £0m ar hyn o bryd). Mae hefyd wedi clustnodi £7.5m er mwyn cyflenwi risgiau'r darpariaethau, sy'n ymwneud â Safleoedd Gwastraff. Mae perygl hefyd y gall y Cyngor orfod talu ymrwymadau dibynnol yn ymwneud â chapio a gofynion ôl-ofal ar gyfer Safleoedd Tirlenwi'r Cyngor, a hefyd ymrwymadau yswiriant potensial sy'n ymwneud â threfniadau yswiriant yr awdurdodau a'i rhagflaenodd, a chau Cronfa Yswiriant Municipal Mutual (MMI). Yn unol â'r gofynion cyfrifeg, ni chlustnodwyd unrhyw arian ar gyfer ymrwymadau dibynnol o'r fath.
27. **Llywodraethu:** Penaethiaid Gwasanaethau sy'n gwneud penderfyniadau newydd ar ymrwymadau dewisol mewn ymgynghoriaeth â'r Pennaeth Cyllid. Mae'r Adran Gyllid yn monitro'r perygl y bydd ymrwymadau'n dod yn wir ac y bydd angen taliad. Adroddir ar ymrwymadau materol newydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Ceir manylion pellach yr ymrwymadau ar dudalen 11 Datganiad o'r Cyfrifon 2024/25

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Perfformiad-y-Cyngor/Datganiad-or-cyfrifon-2024-25/Datganiad-or-Cyfrifon-2024-25.pdf>

GOBLYGIADAU CYLLIDEB REFENIW

28. Er nad yw'r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a DLIR yn gost ar refeniw, a'i osod yn erbyn unrhyw incwm buddsoddi a dderbynnir. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

Tabl 10: Dangosydd Darbodus: Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net

	Gwir 2024/25	Amcan 2025/26	Cyllideb 2026/27	Cyllideb 2027/28	Cyllideb 2028/29
Costau Ariannu * (£m)	8.5	10.2	9.9	9.7	9.6
Cyfran y Llif Refeniw Net (%)	2.5%	2.9%	2.6%	2.5%	2.4%

* Mae'r costau ariannu am 2024/25 yn cynnwys £0.9m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau. Adlewyrchir y newid hwn yn y blynyddoedd dilynol hefyd.

- Caiff manylion pellach goblygiadau refeniw gwariant cyfalaf eu cynnwys yng Nghyllideb 2026/27:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/ielistmeetings.aspx?cid=136&year=0&>

29. **Cynaliadwyedd:** Oherwydd natur hirdymor gwariant ac ariannu cyfalaf, bydd goblygiadau cyllideb refeniw'r gwariant a wneir yn y blynyddoedd nesaf yn ymestyn 50 mlynedd a mwy i'r dyfodol. Mae'r Pennaeth Cyllid yn fodlon fod y rhaglen gyfalaf a gynigir yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.

GWYBODAETH A SGILIAU

30. Mae'r Cyngor yn cyflogi staff profiadol mewn swyddi uwch a chanddynt gymwysterau proffesiynol; mae ganddynt gyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau gwariant cyfalaf, benthyca, a buddsoddi. Er enghraifft, mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifydd cymwysiedig gyda blynyddoedd o brofiad, ac mae Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo yn syrfêwr siartredig ac yn aelod o Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig. Mae'r Cyngor efo staff cymwysedig ac yn talu i staff i astudio tuag at gymwysterau proffesiynol perthnasol megis CIPFA, ACCA ac AAT.
31. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn talu cwmni Arlingclose i fod yn ymgynghorwyr rheolaeth y trysorlys. Mae'r ffordd hon yn un fwy cost effeithiol na chyflogi staff o'r fath yn uniongyrchol, ac mae'n sicrhau bod gan y Cyngor fynediad at wybodaeth a sgiliau sy'n gymesur â'i awch am risg.
32. Mae staff perthnasol yn mynychu digwyddiadau hyfforddiant CIPFA ac Arlingclose er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf, a bod gwybodaeth a sgiliau yn gyfredol.

CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.
2. Gosodir isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

RHAGLEN GYFALAF			
	2026/27 £'000	2027/28 £'000	2028/29 £'000
Cynlluniau'r Cyngor :			
Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy	8,218	3,451	0
Unedau Diwydiannol	1,407	122	0
Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro a Chyffredin	4,917	708	0
Cynlluniau Morwrol a Hamdden	2,322	1,215	1,650
Cartrefi/ Canolfannau Oedolion a Phlant	3,464	700	0
Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol	3,641	1,300	1,006
Atal Llifogydd Arfordirol	760	2,998	0
Cynlluniau Amgylchedd a Gwastraff	1,911	60	60
Cynlluniau/Strategaeth Tai	4,967	3,860	3,860
Cynlluniau Eiddo	244	194	194
Cerbydau Adrannol	6,532	1,879	244
Cyfarpar Digidol	785	1,249	976
Cynlluniau Eraill	511	712	362
Bidiau Cyfalaf (Heb ddosrannu)	500	500	500
CYFANSWM Y RHAGLEN	40,179	18,948	8,852

3. Bydd y rhaglen yn cael ei ariannu fel a ganlyn:

ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF			
	2026/27 £'000	2027/28 £'000	2028/29 £'000
Benthyca Gyda Chefnogaeth	4,063	4,063	4,063
Benthyca Arall	5,123	362	362
Grantiau a Chyfraniadau	14,410	4,878	2,547
Derbyniadau Cyfalaf	0	0	0
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	0	0	0
Cronfa Cyfalaf	9,076	4,350	-670
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	7,507	5,295	2,550
CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN	40,179	18,948	8,852

4. Sefydlwyd strategaeth asedau o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Ar 11 Gorffennaf 2024 fe sefydlwyd strategaeth wedi ei ddiweddarau gan y Cyngor llawn gyda'r cyfnod wedi ei ymestyn hyd at 2033/34. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.

5. Sefydlwyd proffiliau i'r Cynlluniau gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaethiaid Adrannau ac yn ddibynnol ar ofynion y cynlluniau a'r adnoddau ar gael.
6. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2026/27 i 2028/29, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2024/25 hyd 2033/34.
7. Mae'r ffigwr Benthycu Gyda Chefnogaeth a'r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn fwy yn 2026/27 na'r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu'r strategaeth asedau ac mae'r rhaglen wedi ei addasu i gydfynd.
8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £40,179,430 ar gyfer 2026/27, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.

DATGANIAD DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW BLYNYDDOL 2026/27

1. Pan fo'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR neu MRP), er nad oes lleiafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor roi ystyriaeth i Ganllaw Llywodraeth Cymru *Canllaw ar y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw* (Canllaw LIC) a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 2018.
2. Nod cyffredinol Canllaw LIC yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthyca gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.
3. Mae Canllaw LIC yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DLIR yn flynyddol, ac yn darparu nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o DLIR, ond nid yw'n atal defnyddio dulliau eraill addas. Mae'r datganiad a ganlyn yn ymgorffori opsiynau a argymhellir yn y Canllaw yn ogystal â dulliau darbodus a benderfynwyd yn lleol.
4. Mae DLIR yn cael ei gyfrifo trwy gyfeirio at y gofyniad cyllido cyfalaf (GCC), sef cyfanswm gwariant cyfalaf y gorffennol sydd eto i'w ariannu'n barhaol. Nodir bod yn rhaid ad-dalu dyled ac felly ffurf ariannu dros dro yn unig ydyw. Cyfrifir y GCC o fantolen y Cyngor yn unol â Chôd Darbodus y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Gwariant Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol, rhifyn 2021.
 - Ar gyfer gwariant cyfalaf a wnaed cyn 1 Ebrill 2008, ac ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a wnaed ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny, caiff y DLIR ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl gwneud y gwariant cyfalaf. Mesur darbodus o oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ystod amrywiol o asedau yw 50 mlynedd ac yn unol â'r rheoliadau blaenorol oedd yn berthnasol ar 31 Mawrth 2008, yn ymgorffori "Addasiad A" o £1.9m.
 - Ar gyfer gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a wnaed ar ôl 31 Mawrth 2008, caiff y DLIR ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol. Caiff DLIR ar dir rhydd-

ddaliadol a brynir ei godi dros 50 mlynedd. Caiff DLIR ar wariant nad yw'n perthyn i asedau sefydlog ond sydd yn wariant cyfalaf yn ôl rheoliadau neu gyfarwyddiadau ei godi dros 20 mlynedd.

- Ar gyfer asedau a geir trwy brydlesau cyllidol neu'r Fenter Gyllid Preifat, pennir bod y DLIR yn hafal i'r elfen o rent neu ffi gaiff ei hysgrifennu yn erbyn yr ymrwymiad ar y fantolen.
 - Ble rhoddir asedau, a oedd yn arfer bod yn brydlesau gweithredol, ar y fantolen oherwydd mabwysiadu SAARh 16, Safon Cyfrifeg Prydlesau, a ble mae gwerth yr asedau hyn wedi eu haddasu i ystyried croniadau, taliadau o flaen llaw, premiwm a/neu gymhelliant, yna addasir y gost DLIR fel bod y tâl ar gyfer DLIR dros oes y brydles yn adlewyrchu gwerth yr ased hawlddefnydd a gydnabyddir ar drosglwyddiad yn hytrach na'r ymrwymiad.
 - Ar gyfer benthyciadau gwariant cyfalaf i drydydd parti, sy'n cael eu hadalu mewn rhandaliadau blyneddol neu amlach, ni fydd y Cyngor yn gwneud DLIR. Yn hytrach bydd yn rhoi derbyniadau cyfalaf sy'n deillio o'r ad-daliadau prifswm o'r neilltu i leihau y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC).
5. Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir yn 2026/27 yn destun ffi DLIR hyd nes 2027/28 neu'n ddiweddarach.
6. Yn seiliedig ar amcangyfrif diweddaraf y Cyngor o'i Ofyn Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2026, mae'r gyllideb ar gyfer DLIR wedi ei bennu fel a ganlyn:

	31.03.2026 Amcan GCC £m	2026/27 Amcan DLIR £m
Gwariant cyfalaf cyn 01.04.2008 a gwariant cyfalaf gyda chefnogaeth wedi 31.03.2008	134.3	2.8
Gwariant cyfalaf heb gefnogaeth wedi 31.03.2008	48.1	3.0
Prydlesau a Menter Cyllid Preifat	5.0	1.0
Cyfanswm Cronfa Gyffredinol	187.4	6.8

7. Derbyniadau Cyfalaf – Mae enillion o werthu asedau cyfalaf yn cael eu dynodi fel derbyniadau cyfalaf, ac yn cael eu defnyddio fel arfer i ariannu gwariant cyfalaf newydd. Yn lle hynny, pan fydd y Cyngor yn penderfynu defnyddio'r

derbyniadau cyfalaf i ad-dalu dyled a thrwy hynny lleihau'r GCC, bydd y cyfrifiad DLIR yn cael ei addasu fel a ganlyn:

- Bydd derbyniadau cyfalaf sy'n codi o dderbyn ad-daliadau prifswm ar fenthyciadau cyfalaf i drydydd parti yn cael eu defnyddio i ostwng y tâl DLIR ar yr un benthyciadau yn y flwyddyn y'u derbynir, os o gwbl.
- Bydd derbyniadau cyfalaf sy'n codi o dderbyn ad-daliadau prifswm ar brydlesau cyllidol sy'n dderbyniadwy yn cael eu defnyddio i ostwng tâl DLIR ar y swm caffael yr ased wedi ei brydlesu yn y flwyddyn y'u derbynir, os o gwbl.
- Bydd derbyniadau cyfalaf sy'n deillio o asedau eraill a adnabyddir fel rhan o gyfrifiad DLIR y Cyngor yn cael eu defnyddio i leihau'r tâl DLIR mewn perthynas â'r un asedau dros gyfnod hyd at oes ddefnyddiol sy'n weddill, gan ddechrau yn y flwyddyn ar ôl cymhwyso'r dderbynneb.
- Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf eraill a gymhwysir i ad-dalu dyled yn cael eu defnyddio i leihau DLIR mewn hyd at 10 rhandaliad cyfartal gan ddechrau yn y flwyddyn ar ôl cymhwyso'r dderbynneb.

Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2026/27

1. Cyflwyniad

- 1.1** Rheolaeth trysorlys yw rheolaeth llif arian, benthyca a buddsoddiadau'r Cyngor a'r risgiau cysylltiol. Mae'r Cyngor wedi benthyg a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli buddsoddiadau a'r effaith refeniw o'r newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae adnabod, monitro a rheoli risg ariannol yn llwyddiannus felly yn ganolog i reolaeth ariannol bwyllog y Cyngor.
- 1.2** Mae rheolaeth risg trysorlys yn y Cyngor yn rhan o fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth *Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer Rhifyn 2021* (Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LIC) gyhoeddi canllaw diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sef y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y Cyngor dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i roi ystyriaeth i'r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LIC.
- 1.3** Yn unol ag Arweiniad LIC, gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys diwygiedig os yw'r tybiaethau sydd yn sail i'r adroddiad hwn yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau llog, newid yn rhaglen gyfalaf y Cyngor neu yn lefel ei balans buddsoddi, neu golled sylweddol yng ngwerth teg buddsoddiad anariannol a nodwyd fel rhan o'r prosesau paratoi ac archwilio cyfrifon diwedd blwyddyn.

2. Y Cyd-destun Allanol

2.1 Cefndir Economaidd

Disgwylir i'r effeithiau mwyaf arwyddocaol ar strategaeth rheoli trysorlys yr Cyngor ar gyfer 2026/27 gynnwys: dylanwad Cyllideb Hydref 2025 y llywodraeth, cyfraddau llog tymor byr is ochr yn ochr â chyfraddau tymor canolig a hirdymor uwch, twf economaidd arafach, ynghyd ag ansicrwydd parhaus ynghylch yr economi fyd-eang, teimlad y farchnad stoc, a materion geopoliticaidd.

Yn ôl y disgwyl, torrodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) y cyfradd Banc i 3.75% yn Rhagfyr 2025. Y bleidlais i dorri oedd 5-4, gyda'r lleiafrif yn hytrach yn ffafrio cadw cyfraddau ar 4.0%. Roedd yr aelodau hynny eisiau toriad

yn barnu bod chwyddiant croes wedi'i sefydlu tra bod y rhai sy'n well ganddynt ddal Cyfradd Banc yn dadlau bod risgiau chwyddiant yn parhau i fod yn ddigon materol i adael cyfraddau heb eu cyffwrdd ar hyn o bryd.

Dangosodd ffigyrau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod economi'r DU wedi ehangu 0.1% yn nhrydydd chwarter y flwyddyn galendr, nid oedd hyn wedi'i adolygu o'r amcangyfrif cychwynnol. Mae'r Adroddiad Polisi Ariannol diweddaraf (Tachwedd) yn rhagweld twf economaidd cymedrol, gyda disgwyl i CMC godi 0.2% yn chwarter olaf calendr 2025. Rhagwelir y bydd twf blynyddol yn lleddfu o 1.4% cyn gwella eto yn ddiweddarach, sy'n adlewyrchu effeithiau oedi cyfraddau llog is, amodau ariannol llac, gweithgaredd byd-eang cryfach, a gwariant defnyddwyr uwch. Adleisiwyd y farn o dwf economaidd cymedrol yn y dyfodol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ei rhagolygon Economaidd a Cyllidol a gyhoeddwyd yn unol â Datganiad yr Hydref a adolygodd ei amcangyfrif o CMC real blynyddol i tua 1.5% ar gyfartaledd rhwng 2025 a 2030.

Roedd chwyddiant CPI yn 3.2% ym mis Tachwedd 2025, i lawr o 3.6% yn y mis blaenorol ac yn is na'r 3.5% a ddisgwylir. Gostyngodd CPI craidd i 3.2% o 3.4%, yn groes i'r rhagolygon o aros ar 3.6%. Wrth edrych ymlaen, mae'r MPC yn parhau i ddisgwyl i chwyddiant ostwng, i oddeutu 3% yn Ch1 calendr 2026, cyn dychwelyd yn raddol i'r targed o 2% erbyn diwedd 2026 neu ddechrau 2027.

Mae'r farchnad lafur yn parhau i leddfu gyda diweithdra cynyddol, lleihad mewn swyddi gwag ac anweithgarwch gwastad. Yn y tri mis hyd at Hydref 2025, cynyddodd y gyfradd ddiweithdra i 5.1%, sydd yn uwch na'r lefel a ddisgwyliwyd yn flaenorol gan Banc Lloegr, tra bod y gyfradd gyflogaeth wedi llithro i 74.9%. Llaciodd twf cyflog ar gyfer yr un cyfnod yn gymedrol, gyda chyfanswm enillion (gan gynnwys taliadau bonws) yn 4.7% ac er bod cyflog rheolaidd yn 4.6%.

Parhaodd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau hefyd i dorri cyfraddau, gan gynnwys lleihau'r ystod darged ar gyfer y Gyfradd Cronfeydd Ffederal 0.25% yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2025, i 3.50%-3.75%, yn unol â'r disgwyliadau. Nododd cofnodion y cyfarfod fod y rhan fwyaf o wneuthurwyr polisi Fed yn barnu y byddai toriadau cyfradd pellach yn debygol yn 2026 os yw chwyddiant yn parhau i leddfu, fodd bynnag, roeddent yn dal i fod wedi'u rhannu yn eu hasesiad o'r risgiau rhwng chwyddiant a diweithdra.

Cadwodd Banc Canolog Ewrop (ECB) ei gyfraddau llog allweddol yn ddigyfnewid ym mis Rhagfyr am bedwerydd cyfarfod yn olynol, gan gynnal y gyfradd adneuo ar 2.0% a'r brif gyfradd ail-ariannu ar 2.15%. Dywedodd yr ECB y bydd penderfyniadau polisi yn y dyfodol yn parhau i fod yn ddibynnol ar ddata, bod chwyddiant yn agos at ei tharged o 2% a bod economi ardal yr ewro yn parhau i ehangu er gwaethaf amgylchedd byd-eang heriol, gan gynnwys risgiau geopolitigol uwch a thensiynau masnach.

2.2 Rhagolygon credyd

Mae prisiau Cyfnewid Diffyg Credyd (CDS), a gynyddodd ym mis Ebrill 2025 yn dilyn cyhoeddiadau tariff 'Diwrnod Rhyddhad' yr Arlywydd Trump, wedi tueddu i

fod yn is ers hynny, gan ddychwelyd i lefelau sy'n gyson yn fras â'u cyfartaledd 2024. Er bod prisiau CDS wedi codi'n gymedrol yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd, mae'r rhagolygon credyd cyffredinol yn parhau i fod yn sefydlog, a disgwylir i amodau credyd aros yn agos at yr ystod a welwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Er y gall cyfraddau llog is bwyso ar elw y banciau, mae sefyllfaoedd cyfalaf cryf, chwyddiant sy'n lleddfu, twf economaidd cyson, diweithdra isel, a chostau benthyca llai i aelwydydd a busnesau i gyd yn cefnogi rhagolygon ffafriol ar gyfer credydrwydd sefydliadau ar rhestr gwrthbartion Arlingclose (ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor). Mae cyngor Arlingclose ar wrthbartion cymeradwy a chyfnodau buddsoddi a argymhellir yn cael ei adolygu'n barhaus a bydd yn parhau i adlewyrchu amodau economaidd a chredyd sy'n bodoli.

2.3 Rhagolygon cyfraddau llog (Rhagfyr 2025)

Ar hyn o bryd mae Arlingclose yn rhagweld y bydd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr yn parhau i leihau Cyfradd y Banc yn 2026, gan gyrraedd tua 3.25%. Mae'r rhagolwg hwn yn adlewyrchu diwygiadau a wnaed yn dilyn Cyllideb yr Hydref ac asesiad o'r mesurau cyllidol a'u goblygiadau'r farchnad, ac yn dilyn cyfarfod BoE MPC a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr.

Disgwylir i enillion gilt tymor hir, ac felly cyfraddau llog sy'n daladwy ar fenthycia tymor hir, aros yn sefydlog ar gyfartaledd yn gyffredinol, er gyda anwadalrwydd parhaus, ac i ddod â'r cyfnod rhagolwg i ben ychydig yn is na'r lefelau presennol. Mae cynnyrch yn debygol o aros yn uwch nag yn yr oes tynhau cyn meintiol, sy'n adlewyrchu gostyngiad mantolen barhaus a bondiau gyda uchel. Disgwylir i amrywiadau tymor byr barhau mewn ymateb i ddatganiadau data economaidd a datblygiadau geopolitigol.

Mae rhagolwg economaidd a chyfraddau llog mwy manwl a ddarparwyd gan Arlingclose i'w weld yn **Atodiad 1**.

- 2.4 Er diben gosod y gyllideb, tybiwyd bod buddsoddiadau rheolaeth trysorlys newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd o 3.0% ar gyfartaledd, ac na fydd angen unrhyw fenthyciadau tymor hir newydd yn 2026/27.

3. Y Cyd-destun Lleol

- 3.1 Ar 31 Rhagfyr 2025, roedd gan y Cyngor fenthyciadau o £75.7m a £130.7m o fuddsoddiadau. Ceir rhagor o fanylder yn **Atodiad 2**. Mae tabl 1 isod yn ddadansoddiad mantolen sy'n dangos y newidiadau a ragwelir i'r symiau hyn.

Tabl 1: Crynodeb mantolen a'r rhagolwg

	31.3.25 Gwir £m	31.3.26 Amcan £m	31.3.27 Rhagolwg £m	31.3.28 Rhagolwg £m	31.3.29 Rhagolwg £m
Gofyn Cyllido Cyfalaf	179.9	187.4	189.8	187.2	184.7
Llai: Ymrwymadau arall *	-6.0	-5.0	-4.1	-3.1	-2.3
Benthyca GCC	173.9	182.4	185.7	184.1	182.4
Llai: Benthyca allanol **	-94.2	-73.9	-69.4	-68.0	-67.8
Benthyca mewnol	79.8	108.4	116.4	116.2	114.6
Llai: Adnoddau mantolen	-232.8	-149.8	-126.9	-126.9	-126.9
Buddsoddiadau Trysorlys (neu fenthyciadau newydd)	153.0	41.4	10.5	10.7	12.3

* ymrwymadau PFI

**yn dangos dim ond benthyciadau y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddynt heb gynnwys ail gyllido dewisol

3.2 Caiff yr angen sylfaenol i fenthyca er dibenion cyfalaf ei fesur gan y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), tra mai'r adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth gyfredol y Cyngor yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol.

3.3 Mae Tabl 1 yn dangos nad oes angen i'r Cyngor fenthyca yn y tymor hir yn ystod y tair blynedd nesaf. Os oes angen, bydd benthyca tymor byr yn cael ei ddefnyddio er mwyn lleihau'r gyfradd llog.

3.4 Mae'r *Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol* gan CIPFA yn argymhell y dylai cyfanswm dyledion y Cyngor fod yn is na'i GCC uchaf posib yn ôl y rhagolygon dros y tair blynedd nesaf. Dengys tabl 1 fod y Cyngor yn disgwyl cydymffurfio â'r argymhelliad hwn yn ystod 2026/27.

4. Meincnod Ymrwymadau

4.1 Er mwyn cymharu gwir fenthyciadau'r Cyngor yn erbyn strategaeth arall, mae meincnod ymrwymadau wedi cael ei chyfrifo sy'n dangos lefel benthyca gyda risg isaf. Mae hyn yn tybio'r un rhagolygon a tabl 1 uchod, ond bod balansau arian a buddsoddiadau yn aros ar lefel isafswm o £21.5m ar ddiwedd bob blwyddyn er mwyn cynnal digon o hylifedd ond lleihau'r risg credyd.


Mae'r meincnod ymrwymadau yn arf pwysig i helpu i sefydlu a yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac felly siapio ei ffocws strategol a'i benderfyniadau. Mae'r meincnod ymrwymadau

ei hun yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronrus y benthycia allanol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddal i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw cyfredol tra'n cadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf sy'n ofynnol i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

Tabl 2: Dangosydd Darbodus: Meincnod Ymrwymadau

	31.3.25 Gwir £m	31.3.26 Amcan £m	31.3.27 Rhagolwg £m	31.3.28 Rhagolwg £m	31.3.29 Rhagolwg £m
GCC	179.9	187.4	189.8	187.2	184.7
Llai: Adnoddau mantolen	-232.8	-149.8	-126.9	-126.9	-126.9
Gofynion benthyciadau net	-52.9	37.6	62.9	60.3	57.8
Ychwanegu: Lwfans hylifedd	21.5	21.5	21.5	21.5	21.5
Meincnod Ymrwymadau	-31.4	59.1	84.4	81.8	79.3

- 4.2** Gan ddilyn o'r rhagolygon tymor canolig yn nhabl 2 uchod, mae'r meincnod tymor hir yn rhagdybio dim gwariant cyfalaf pellach wedi'i ariannu gan fenthyciadau, lleiafswm darpariaeth refeniw ar variant cyfalaf newydd yn seiliedig ar ddull llinell syth dros 50 mlynedd. Dangosir hyn yn y siart canlynol gyda benthyciadau cyfredol y Cyngor:



Mae'r siart yn dangos na fydd angen benthycia yn y tymor hir yn seiliedig ar rhagamcanion cyfredol, ond efallai y bydd gofyn tymor byr ar draws diwedd y flwyddyn.

5. Y Strategaeth Fenthyca

5.1 Mae gan y Cyngor £75.7 miliwn o fenthyciadau ar hyn o bryd fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd cynt. Mae rhagolygon y fantolen yn nhabl 1 yn dangos nad yw'r Cyngor angen benthyca arian tymor hir yn 2026/27 ond efallai y bydd angen benthyg tymor byr oherwydd rhesymau llif arian. Yn y dyfodol, gall y Cyngor hefyd fenthyg symiau ychwanegol i ariannu gofynion y blynyddoedd i ddod ymlaen llaw ar yr amod nad yw hyn yn uwch na'r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthyca.

5.2 Amcanion

Prif amcan y Cyngor wrth fenthyca arian yw cael cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel ac ennill sicrwydd cost dros y cyfnod mae angen yr arian. Yn ail amcan i hyn yw'r hyblygrwydd i ail negodi benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir y Cyngor yn newid.

5.3 Strategaeth

Yn wyneb y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus, ac yn arbennig i'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol, mae strategaeth benthyca'r Cyngor yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwy heb beryglu sefydlogrwydd tymor hir y portffolio dyledion. Mae cyfraddau llog tymor byr wedi gostwng yn y flwyddyn diwethaf, a disgwylir iddynt ddisgyn ychydig ymhellach, ac felly mae'n debygol o fod yn fwy cost effeithiol dros y tymor canolig naill ai i ddefnyddio adnoddau mewnol, neu i fenthyg benthyciadau tymor byr yn lle hynny. Bydd risgiau'r dull hwn yn cael eu rheoli drwy gadw amlygiad cyfradd llog y Cyngor o fewn y terfyn a bennir yn y dangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys, gweler isod.

Drwy wneud hyn, gall y Cyngor leihau costau benthyca net (er yn hepgor yr incwm o fuddsoddiadau) a lleihau'r risg trysorlys cyffredinol. Bydd y buddion o fenthyca mewnol a/neu dymor byr yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial o greu costau ychwanegol trwy ohirio benthyca tan y dyfodol, pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca tymor hir yn codi yn gymedrol. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Cyngor gyda'r 'gost cario' a'r dadansoddiad elw. Gall yr allbwn o hwn bennu p'un a fydd y Cyngor yn benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog hirdymor yn 2026/27 gyda'r bwriad o gadw costau llog y dyfodol yn isel, hyd yn oed os bydd hyn yn creu cost ychwanegol yn y tymor byr.

Yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi codi'r mwyafrif o'i fenthyca tymor hir o'r PWLB ond bydd yn ystyried benthyciadau tymor hir o ffynonellau eraill gan gynnwys banciau, pensiynau ac awdurdodau lleol, a bydd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o

gyflwyno bondiau ac offerynnau tebyg, er mwyn gostwng costau llog a lleihau gorddibyniaeth ar un ffynhonnell cyllid yn unol â Chod CIPFA. Nid yw benthyciadau PWLB bellach ar gael i awdurdodau lleol sy'n bwriadu prynu asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch; mae'r Cyngor yn bwriadu osgoi'r gweithgaredd hwn er mwyn cadw ei fynediad at fenthyciadau PWLB.

Fel arall, gall y Cyngor drefnu benthyciadau sy'n cychwyn yn ei flaen, gyda'r cyfradd llog wedi ei sefydlu ymlaen llaw, ond bod yr arian yn cael ei dderbyn mewn blynnyddoedd i ddod. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd cost heb ddioddef y gost cario yn y cyfamser.

Yn ogystal â hyn, mae'n bosib y bydd y Cyngor yn benthycu benthyciadau tymor byr i gwrdd â diffygion annisgwyl yn y llif arian.

5.4 Ffynonellau benthycu

Dyma'r ffynonellau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer benthyciadau tymor byr a thymor hir:

- Cyfleuster Benthycu PWLB Trysorlys EM (Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus gynt)
- National Wealth Fund Ltd (UK Infrastructure Bank Ltd gynt)
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi (gweler isod)
- unrhyw fanc, cymdeithas adeiladau neu cwmni yswiriant sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu yn y DU
- unrhyw gorff cyhoeddus yn y DU
- cronfeydd pensiwn cyhoeddus a preifat yn y DU (eithrio Cronfa Bensiwn Gwynedd)
- Buddsoddwyr bondiau marchnad cyfalaf
- Buddsoddwyr manwerthu trwy lwyfan '*peer-to-peer*' wedi'i reoleiddio
- Cwmnïau gyda pwrpas arbennig wedi'u creu i alluogi bondiau awdurdodau lleol

5.5 Ffynonellau eraill arian dyled

Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf drwy'r dulliau canlynol sydd ddim yn fenthyciadau, ond y gellir eu cyfrif fel ymrwymadau dyledion eraill:

- Prydlesau
- Hur-bwrcasu
- Menter Cyllid Preifat
- Gwerthu ac adlesu
- Cyllid tebyg yn seiliedig ar asedau

5.6 Benthyciadau tymor byr a chyfradd newidiol

Mae'r benthyciadau yma yn gadael y Cyngor yn agored i'r risg o gynnydd tymor byr yn y gyfradd llog, ac felly yn agored i derfynau amlygiadau cyfradd llog y dangosyddion rheolaeth trysorlys isod. Gellir defnyddio deilliadau ariannol i rheoli y risg cyfradd llog (gweler yr adran isod).

5.7 Aildrefnu dyledion

Mae'r PWLB yn caniatáu i awdurdodau ad-dalu benthyciadau cyn iddynt aeddfedu, ac un ai talu premiwm neu dderbyn disgownt yn unol â fformiwla a osodwyd yn seiliedig ar gyfraddau llog presennol. Hwyrach y bydd rhai benthycwyr yn barod i drafod telerau ad-dalu cynnar. Gall y Cyngor gymryd mantais o hyn ac amnewid rhai benthyciadau am fenthyciadau newydd, neu ad-dalu benthyciadau heb eu hamnewid, lle y disgwylir y bydd hyn yn arwain at arbediad cyffredinol neu leihad cyffredinol mewn risg. Mae'r cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog yn golygu y dylai cyfleoedd mwy ffafriol i aildrefnu dyled godi nag yn y blynyddoedd blaenorol.

6. Y Strategaeth Fuddsoddi Trysorlys

6.1 Mae'r Cyngor wedi buddsoddi arian sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn ei wario ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir ar gyfer y Cyngor, Cronfa Bensiwn Gwynedd a grant UKSPF. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiadau'r Cyngor wedi amrywio rhwng £74.3 a £194.8 miliwn, a disgwylir i'r lefelau fod yn debyg dros y flwyddyn i ddod.

6.2 Amcanion

Mae Cod CIPFA a Chanllaw LIC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd trysorlys yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o golledion drwy buddsoddiadau'n diffygdlu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau. Pan ddisgwylir i falansau cael eu buddsoddi am fwy na blwyddyn, bydd y Cyngor yn anelu i dderbyn dychweliad cyfan sydd yn gyfartal neu'n uwch na chyfradd gyffredinol chwyddiant, er mwyn cynnal grym gwario'r swm a fuddsoddir. Nod y Cyngor yw bod yn fuddsoddwr cyfrifol a bydd yn ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) wrth fuddsoddi.

6.3 Strategaeth

Fel y dangosir gan y meincnod ymrwymïadau uchod, mae'r Cyngor yn disgwyl bod yn fuddsoddwr hirdymor ac felly bydd buddsoddiadau trysorlys yn cynnwys offerynnau risg isel tymor byr i reoli llif arian o ddydd i ddydd ac offerynnau tymor hwy lle derbynnir risg ychwanegol gyfyngedig am incwm buddsoddi uwch i gefnogi gwsanaethau cyhoeddus lleol.

6.4 Ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG)

Mae ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) yn gynyddol yn ffactor ym mhenderfyniadau buddsoddwyr byd-eang, ac mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymiedig i fod yn fuddsoddwr cyfrifol. Bydd y Cyngor yn mynd ati i geisio buddsoddi mewn sefydliadau sy'n lleihau eu heffaith ar y byd wrth ystyried ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu pan yn buddsoddi gyda gwrthbarti presennol neu newydd. Wrth fuddsoddi mewn banciau a chronfeydd, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu banciau sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig a chronfeydd a weithredir gan reolwyr sydd wedi llofnodi Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig, y Gynghrair Rheolwyr Asedau Sero Net a/neu Cod Stiwardiaeth y DU.

6.5 Modelau busnes

O dan y safon IFRS 9 newydd mae'r gyfrifeg ar gyfer buddsoddiadau penodol yn dibynnu ar "model busnes" y Cyngor i'w rheoli. Mae'r Cyngor yn anelu i ennill gwerth gan ei fuddsoddiadau trysorlys sydd yn cael eu rheoli'n fewnol gyda model busnes o gasglu llif arian cytundebol ac felly, ble mae'r meini prawf yn cael ei cwrdd, mae'r buddsoddiadau yn dal i gael eu cyfrifo ar gost wedi ei amorteiddio.

6.6 Gwrthbartïon cymeradwy

Gall y Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd dros ben gyda unrhyw o'r gwrthbartïon yn nhabl 3 isod, yn amodol ar y terfynau arian (fesul gwrthbarti) a'r cyfyngiadau amser a ddangosir.

Tabl 3: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo a'r terfynau

Sector	Terfyn amser**	Terfyn gwrthbarti	Terfyn sector
Llywodraeth y DU	50 mlynedd	Diderfyn	d/b
Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill	25 mlynedd	£10m	Diderfyn
Buddsoddiadau â sicrwydd- cefnogaeth llywodraeth	25 mlynedd	£10m	Diderfyn
Buddsoddiadau â sicrwydd – collateral arall*	25 mlynedd	£10m	Diderfyn
Banciau (ansicredig) *	13 mis	£5m	Diderfyn
Cymdeithasau adeiladu (ansicredig) *	13 mis	£5m	£10m
Darparwyr cofrestredig (ansicredig) *	5 mlynedd	£5m	£25m
Cronfeydd marchnad arian *	d/b	£10m	Diderfyn
Cronfeydd cyfun strategol	d/b	£10m	£50m
Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real	d/b	£10m	£25m
Buddsoddiadau eraill *	5 mlynedd	£5m	£10m

Rhaid darllen y tabl hwn mewn cysylltiad â'r nodiadau canlynol.

***Isafswm Statws Credyd** - Dim ond gydag endidau nad yw eu statws credyd hirdymor cyhoeddedig isaf yn is nag A- y gwneir buddsoddiadau'r Trysorlys yn y sectorau a nodir â *. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth o fuddsoddiad pan fo hwnnw ar gael, ac fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbarti. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi yn cael eu gwneud ar sail statws credyd yn unig, mae'r holl ffactorau perthnasol gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

**** Terfyn amser** – Mae'r rhain yn dechrau ar y cynharaf o'r dyddiad y mae'r Cyngor wedi ymrwmo i wneud y buddsoddiadau a'r dyddiad y trosglwyddir arian parod i'r gwrthbarti

6.7 Llywodraeth DU

Mae buddsoddiadau sterling sydd wedi eu gwarantu gan Llywodraeth y DU gan gynnwys y Swyddfa Rheoli Dyledion, biliau a giltiau'r trysorlys. Ystyrir bod y rhain yn risg credyd sero oherwydd gallu'r llywodraeth i greu arian ychwanegol ac felly gellir buddsoddi gyda nhw mewn symiau ddiderfyn am hyd at 50 mlynedd.

6.8 Awdurdodau lleol a sefydliadau eraill y llywodraeth

Benthyciadau i, a bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warrantir gan lywodraethau cenedlaethol eraill, rhanbarthol, awdurdodau lleol a banciau datblygol amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau yma yn destun '*bail-in*', ac yn gyffredinol bychan iawn yw'r risg o ansolfedd, er nad ydynt yn ddi-risg.

6.9 Buddsoddiadau â Sicrwydd

Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u sicrhau ar asedau'r benthyciwr, sy'n cyfyngu'r colledion potensial petai methdaliad. Bydd maint ac ansawdd y diogelwch yn ffactor allweddol yn y penderfyniad buddsoddi. Mae bondiau gorchuddiedig, adneuon wedi'i diogelu a chytundebau adbrynu o chwith gyda banciau a chymdeithasau adeiladu wedi'u heithrio rhag '*bail-in*'. Lle nad oes statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, ond bod gan y cyfochrog y sicrheir y buddsoddiad arno statws credyd, defnyddir yr uchaf o'r statws credyd cyfochrog a statws credyd y gwrthbarti. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau â sicrwydd a'r buddsoddiadau ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau â sicrwydd. Mae terfyn uwch yn berthnasol ar gyfer buddsoddiadau wedi'u diogelu'n llawn ar *collateral* y DU neu lywodraeth arall.

6.10 Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (ansicredig)

Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau'n agored i risg o golli credyd drwy gyfrwng '*bail-in*' petai'r rheoleiddiwr yn penderfynu bod banc yn methu neu'n debygol o fethu. Gweler isod am drefniadau sy'n ymwneud â chyfrifon banc gweithredol.

6.11 Darparwyr cofrestredig (ansicredig)

Benthyciadau a bondiau a gyhoeddir, neu a warrantir gan, neu sydd wedi'u sicrhau ar asedau darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig, a elwid gynt yn gymdeithasau tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio gan yr Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol (yn Lloegr), Rheoleiddiwr Tai yn yr Alban, Llywodraeth Cymru ac

yr Adran ar gyfer y Gymuned (yn Gogledd Iwerddon). Fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn debygol iawn o barhau i dderbyn cymorth gan y llywodraeth os bydd angen.

6.12 Cronfeydd Marchnad Arian

Cronfeydd cyfun sy'n cynnig hylifedd yr un diwrnod neu fyr rybudd ac anweddolrwydd prisiau isel iawn neu ddim o gwbl trwy fuddsoddi mewn marchnadoedd arian tymor byr. Mae ganddyn nhw'r fantais dros gyfrifon banc o ddarparu gwasgariad ehangach o risgiau buddsoddi, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfa broffesiynol am ffi fach. Er nad oes unrhyw derfyn sector yn berthnasol i gronfeydd marchnad arian, bydd y Cyngor yn cymryd gofal i arallgyfeirio ei fuddsoddiadau hylif dros amrywiaeth o ddarparwyr i sicrhau mynediad at arian parod bob amser.

6.13 Cronfeydd Cyfun Strategol

Cronfeydd bondiau, ecwiti ac eiddo, yn cynnwys cyfnewid arian a fasnachwyd, sy'n cynnig enillion gwell dros y tymor hir ond sy'n fwy anwadal yn y tymor byr. Mae'r rhain yn caniatáu i'r Cyngor ehangu i ddosbarthiadau o asedau ar wahân i arian parod heb yr angen i fod yn berchen ar y buddsoddiadau gwaelodol a'u rheoli. Gan nad oes dyddiad aeddfedu pendant ar gyfer y cronfeydd hyn, ond gellir ei dynnu'n ôl ar ôl cyfnod rhybudd neu ei werthu ar gyfnewidfa, a'u bod ar gael i'w tynnu allan ar ôl cyfnod o rybudd, bydd eu perfformiad a'u haddasrwydd i barhau i gwrdd ag amcanion buddsoddi'r Cyngor yn cael eu monitro'n gyson.

6.14 Ymddiriedolaethau Buddsoddi Ystâd Real

Cyfranddaliadau mewn cwmnïau sy'n buddsoddi'n bennaf mewn ystâd real ac sy'n talu'r mwyafrif o'u hincwm rhent i fuddsoddwyr mewn modd tebyg i gronfeydd eiddo cyfun. Yn yr un modd â chronfeydd eiddo, mae ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real yn cynnig enillion gwell dros y tymor hir, ond maent yn fwy anwadal yn enwedig gan fod pris y cyfranddaliadau yn adlewyrchu'r galw newidiol am y cyfranddaliadau ynghyd â newidiadau yng ngwerth yr eiddo sylfaenol.

6.15 Buddsoddiadau eraill

Mae'r categori yma yn cynnwys buddsoddiadau trysorlys nad ydynt wedi'u rhestru uchod, er enghraifft bondiau corfforaethol ansicredig a benthyciadau cwmni a benthyciadau ansicredig i gwmnïau neu prifysgolion. Nid yw cwmnïau heblaw banciau yn destun '*bail-in*' ond gallent fynd yn fethdalwr gan roi buddsoddiad y Cyngor mewn perygl.

6.16 Cyfrifon banc gweithredol

Gall y Cyngor ddelio gydag unrhyw fanc yn y DU gyda statws credyd dim is na BBB - a chydag asedau mwy na £25 biliwn, a hynny, er enghraifft, drwy gyfrifon cyfredol, cyfrifon casglu a gwasanaethau caffael masnachwyr. Nid yw'r rhain yn cael eu cyfrif fel buddsoddiadau, ond maent yn parhau yn agored i risgiau '*bail-in*', ac felly bydd y balansau yn cael eu cadw'n is na £900,000 fesul banc. Mae Banc Lloegr wedi datgan petai yna fethiant, y byddai banciau gydag asedau sy'n fwy na £25 biliwn yn fwy tebygol o fod yn destun '*bail-in*' na chael eu gwneud yn fethdalwyr, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddai'r Cyngor yn gallu parhau i weithredu.

6.17 Asesu risg a statws credyd

Mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor yn derbyn ac yn monitro'r graddfeydd credyd, a byddant yn hysbysu unrhyw newid yn y statws wrth iddynt ddigwydd. Mae'r asiantaethau statws credyd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd wedi'u rhestru yn nogfen Arferion Rheolaeth Trysorlys. Pan fo statws credyd endid yn cael ei israddio, ac yn methu â diwallu'r meini prawf ar gyfer buddsoddi:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy'n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws credyd rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn "*rating watch negative*" neu "*credit watch negative*") fel y gall ddisgyn islaw'r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy'n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

6.18 Agweddau ar enw da

Mae'r Cyngor yn ymwybodol y gallai buddsoddi gyda gwrthbartïon penodol, er ei fod yn cael ei ystyried yn ddiogel o safbwynt ariannol yn unig, ei adael yn agored i feirniadaeth, yn ddilys neu fel arall, a allai effeithio ar ei enw da cyhoeddus, ac felly bydd y risg hon yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau buddsoddi.

6.19 Gwybodaeth arall ar ddiogelwch buddsoddiadau

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008, 2020 a 2022, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei adlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y Cyngor yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian y Cyngor, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi i'r enillion ar fuddsoddiadau ostwng, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

6.20 Cyfyngiadau Buddsoddi

Rhagwelir bydd gan y Cyngor £109 miliwn mewn cronfeydd refeniw ar 31 Mawrth 2026 fydd ar gael i dalu am unrhyw golledion buddsoddi. Er mwyn sicrhau nad yw mwy na 9.2% o'r cronfeydd hyn mewn perygl oherwydd diffyg dalu unigol, yr uchafswm gellir ei fenthycu i unrhyw un sefydliad (heblaw Llywodraeth y DU) yw £10 miliwn. O ran y cyfyngiad yma bydd grŵp o endidau o dan yr un perchnogaeth yn cael eu trin fel sefydliad unigol.

Mae datguddiadau risg credyd sy'n deillio o fuddsoddiadau ar wahân i'r trysorlys, deilliadau ariannol a balansau sy'n fwy na £500,000 mewn cyfrifon banc gweithredol yn cyfrif yn erbyn y terfynau buddsoddi perthnasol.

Gosodir terfynau hefyd ar reolwyr cronfeydd, buddsoddiadau mewn cyfrifon enwebai broceriaid a gwledydd tramor fel y nodir isod. Nid yw buddsoddiadau mewn cronfeydd cyfun a banciau datblygu amlochrog yn cyfrif yn erbyn y terfyn ar gyfer unrhyw wlad dramor unigol, gan fod y risg yn amrywio dros lawer o wledydd.

Tabl 4: Terfynau ychwanegol

	Cyfyngiad arian
Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolaeth	£20m fesul rheolwr
Buddsoddiadau mewn cyfrif enwebedig brocer	£20m fesul brocer
Gwledydd tramor	£8m fesul gwlad

6.21 Rheoli hylifedd

Mae'r Cyngor yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus. Caiff y rhagolygon eu llunio ar y sail bod benthyca tymor byr yn cael ei ddefnyddio i gwmpasu ei ymrwymadau ariannol os oes angen. Mae'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau tymor hir yn cael eu gosod ar sail cynllun ariannol tymor canolig a rhagolwg llif arian y Cyngor.

Bydd y Cyngor yn lledaenu ei arian parod hylifol dros o leiaf bedwar darparwr (e.e. cyfrifon banc a chronfeydd marchnad arian), ble bydd o leiaf dau wedi ei leoli yn y DU, i sicrhau bod mynediad at arian parod yn cael ei gynnal os bydd anawsterau gweithredol mewn unrhyw un darparwr.

7. Dangosyddion Darbodus Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

7.1 Diogelwch

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwysoli o ran gwerth ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg ganfyddedig.

Dangosydd risg credyd	Targed
Sgôr credyd cyfartalog y portffolio	6.0

7.2 Hylifedd

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd â thaliadau annisgwyl mewn cyfnod penodol, heb fenthyca ychwanegol.

Dangosydd risg hylifedd	Targed
Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis	£10m

7.3 Datguddiad Cyfraddau Llog

Nod y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad y Cyngor i risg cyfradd llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw dros flwyddyn yn dilyn codiad neu gwymp o 1% ar gyfraddau llog fyddai:

Dangosydd risg cyfradd llog	Cyfyngiad
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn gyda <u>chodiad</u> o 1% yng nghyfraddau llog	£1,105,508
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn gyda <u>chwmp</u> o 1% yng nghyfraddau llog	£1,105,508

Caiff effaith newid mewn cyfraddau llog ei gyfrifo ar y dybiaeth y bydd benthyciadau a buddsoddiadau sy'n aeddfedu yn cael eu hamnewid ar y cyfraddau marchnad newydd.

7.4 Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau

Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau fel a ganlyn:

Dangosydd risg cyfradd ail gyllido	Cyfyngiad Uchaf	Cyfyngiad Isaf
Dan 12 mis	25%	0%
12 mis ac o fewn 24 mis	25%	0%
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	50%	0%
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	75%	0%
10 mlynedd a mwy	100%	0%

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar fenthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

7.5 Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwyl na flwyddyn

Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Y terfynau darbodus ar fuddsoddiadau rheolaeth trysorlys hirdymor fydd:

Dangosydd risg pris	2026/27	2027/28	2028/29	Dim dyddiad penodol
Y terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£40m	£20m	£20m	£20m

Mae buddsoddiadau hirdymor heb ddyddiad aeddfedu penodol yn cynnwys cronfeydd cyfun strategol ac ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real ond nid ydynt yn cynnwys cronfeydd marchnad arian a chyfrifon banc heb ddyddiad aeddfedu penodol gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn rhai tymor byr.

8. Materion Cysylltiedig

8.1 Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, yn ôl CIPFA.

8.2 Cytundebau Deilliadau

Gallai awdurdodau lleol fod wedi defnyddio deilliadau ariannol yn y gorffennol wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau i leihau risg cyfraddau llog (e.e. coleri cyfradd llog a blaendaliadau) ac i leihau costau neu gynyddu incwm ar draul mwy o risg (e.e. benthyciadau LOBO ac adneuron y gellir eu galw). Mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn dileu llawer o'r ansicrwydd ynghylch defnydd awdurdodau lleol o ddeilliadau ariannol annibynnol (h.y. y rhai nad ydynt wedi'u hymgorffori mewn benthyciad neu fuddsoddiad).

Bydd y Cyngor ond yn defnyddio deilliadau ariannol annibynnol (fel cyfnewidiadau, blaensymiau, dyfodol ac opsiynau) lle gellir dangos yn glir eu bod yn leihau lefel gyffredinol y risgiau ariannol y mae'r Cyngor yn agored iddynt. Bydd risgiau ychwanegol a gyflwynir, megis amlygiad credyd i wrthbartion deilliadol, yn cael eu hystyried wrth bennu lefel gyffredinol y risg. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ddeilliadau mewnosodedig, gan gynnwys y rhai sy'n bresennol mewn cronfeydd cyfun a thrafodion sy'n cychwyn ymlaen llaw, er y bydd y risgiau a gyflwynir ganddynt yn cael eu rheoli yn unol â strategaeth gyffredinol rheoli risg y trysorlys.

Gellir trefnu trafodion deilliadol ariannol gydag unrhyw sefydliad sy'n bodloni'r meini prawf buddsoddi cymeradwy, a asesir gan ddefnyddio'r statws credyd priodol ar gyfer datguddiadau deilliadol. Bydd lwfans ar gyfer risg credyd a gyfrifir gan ddefnyddio'r fethodoleg yn y ddogfen Arferion Rheoli'r Trysorlys yn cyfrif yn erbyn y terfyn credyd gwrthbarti a'r terfyn gwlad dramor perthnasol.

Yn unol â Chod CIPFA, bydd y Cyngor yn ceisio cyngor allanol ac yn ystyried y cyngor hwnnw cyn ymrwymo i ddeilliadau ariannol i sicrhau ei fod yn deall y goblygiadau yn llawn.

8.3 Cronfeydd Allanol

Yn gynwysedig ym malansau'r Cyngor mae balansau ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd a Cronfa'r Degwm. Dyrennir yr incwm llog i bob sefydliad yn seiliedig ar falansau dyddiol.

8.4 Cyfarwydddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyngor wedi dewis cael statws cleient proffesiynol gyda'i darparwyr gwasanaethau ariannol, gan gynnwys ymgynghorwyr, banciau, broceriaid a rheolwyr buddsoddi, er mwyn caniatáu mynediad at amrediad mwy o wasanaethau ond heb y diogelwch rheoleiddio uwch sydd ar gael i unigolion a chwmnïau bychan. Oherwydd maint ac ystod gweithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu mai hwn yw'r statws priodol gorau.

9. Arweiniad Llywodraeth Cymru

Mae materion pellach sy'n ofynnol gan ganllawiau Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn **Atodiad 3**.

10. Goblygiadau Ariannol

- 10.1** Y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi yn 2026/27 yw £1.0 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio buddsoddi o £32.6 miliwn ar gyfradd llog o 3.0% ar gyfer adneuon a £13 miliwn o gronfeydd cyfun ar enillion o 3.7%. Y gyllideb ar gyfer y llog ar ddyledion yn 2026/27 yw £4.4 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio dyledion o £73 miliwn ar gyfradd llog cyfartalog o 5.7%. Os bydd lefelau gwirioneddol y buddsoddiadau a'r benthyciadau a'r cyfraddau llog yn wahanol i'r rhagolygon, yna bydd gwahaniaeth cyfatebol yn y perfformiad yn erbyn y gyllideb.

11. Ystyried Opsiynau Eraill

11.1 Nid yw Cod CIPFA yn pennu unrhyw strategaeth rheoli trysorlys penodol i awdurdodau lleol ei fabwysiadu. Ar ôl ymgynghori gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu fod y strategaeth uchod yn cynnig cydbwysedd addas rhwng rheoli risgiau a chost-ffeithiolrwydd. Isod, rhestrir rhai strategaethau eraill, ynghyd â'u hoblygiadau ariannol a rheoli risgiau.

Dewis Arall	Effaith ar incwm a gwariant	Effaith ar reoli risgiau
Buddsoddi mewn amrediad mwy cyfyng o wrthbartïon ac/neu am gyfnodau byrrach	Bydd incwm llog yn is	Llai o berygl o golledion o ganlyniad i ddiffygdlu'n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion yn fwy
Buddsoddi mewn amrediad ehangach o wrthbartïon ac/neu am gyfnodau hirach	Bydd incwm llog yn uwch	Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygdlu'n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion yn llai
Benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau llog sefydlog hirdymor	Bydd costau llog dyledion yn codi; mae'n annhebygol y gellid gwrthbwysu hyn drwy incwm buddsoddi uwch	Balans buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith petai ddiffygdlu; fodd bynnag byddai'r costau llog hirdymor yn fwy sicr
Cymryd benthyciadau byrdymor newidiol yn hytrach na chyfraddau sefydlog hirdymor	Bydd costau llog dyledion yn is i gychwyn	Bydd y cynnydd yn y costau llog ar ddyledion yn cael eu gwrthbwysu i raddau helaeth gan y cynnydd yn yr incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond bydd mwy o ansicrwydd am y costau hirdymor
Lleihau lefel y benthyciadau	Mae'r arbediad ar log y ddyled yn debygol o fod yn fwy na'r incwm buddsoddi a gollir	Balans buddsoddi is yn arwain at lai o effaith petai ddiffygdlu; fodd bynnag byddai'r costau llog hirdymor yn llai sicr

Atodiad 1 – Rhagolygon Economaidd a Chyfraddau Llog Arlingclose, Rhagfyr 2025

Tybiaethau sylfaenol:

- Cyflawnodd Banc Lloegr eu disgwyliadau ar gyfer toriad cyfradd ym mis Rhagfyr, ond, er gwaethaf data economaidd meddalach dros y pythefnos diwethaf, mae'r cofnodion yn tynnu sylw at fwy o rybudd ynghylch y rhagolygon chwyddiant a chyflymder llacio yn y dyfodol. Gyda phleidlais agos o 5-4 o blaid gostyngiad cyfradd, mae hyn yn awgrymu y gallai'r bar ar gyfer llacio ariannol pellach fod yn uwch nag a feddylwyd yn flaenorol er gwaethaf y posibilrwydd y bydd y gyfradd CPI yn gostwng i'r targed yn 2026.
- Bydd polisiâu cyllideb ac effeithiau sylfaenol yn lleihau'r gyfradd CPI yn fecanyddol yn 2026, ar ben y pwysau i lawr sy'n deillio o dwf economaidd meddal a'r farchnad lafur llac. Fodd bynnag, mae llawer o wneuthurwyr polisi yn ymddangos yn pryderu bod chwyddiant aelwydydd a busnesau a disgwyliadau prisio yn profi'n heriol yn dilyn pyliau diweddar o dwf prisiau a chyflog uchel, a allai ganiatáu i bwysau chwyddiant sylfaenol aros yn uchel. Er bod mesur y Banc o ddisgwyliadau aelwydydd yn is ym mis Rhagfyr, mae'n parhau i fod yn uwch na'r lefelau sy'n gyson â'r targed o 2% ar 3.5%.
- Er bod gan wneuthurwyr polisi bryderon dyls, mae'r rhain yn ymddangos braidd yn wahanol i'r amodau presennol; gostyngodd chwyddiant CPI i 3.2% ym mis Tachwedd, parhaodd twf cyflog y sector preifat i leddfu yng nghanol y gyfradd ddiweithdra uchaf ers y pandemig, ac mae'r economi wedi crebachu ym mis Hydref ar ôl twf isel yn Ch3. Dangosodd arolygon busnes weithgarwch ychydig yn gryfach a bwriadau prisio ym mis Rhagfyr ond awgrymodd hefyd nad oedd y sefyllfa cyn y Gyllideb yn un dros dro. Mae'r data hyn yn parhau i gefnogi'r awgrymiad bod amodau economaidd heriol yn bwydo i mewn i osod cyflogau a prisiau.
- Mae risgiau i'r rhagolygon twf a chwyddiant yn isel, a allai yn y pen draw gyflawni Cyfradd Banc is na'n hachos canolog. Fodd bynnag, mae'r cofnodion yn awgrymu bod y lefel i ganiatáu toriadau cyfradd ymhellach na 3.25% yn uwch a bod ac mae'r risgiau i fyny yn y tymor byr i'n rhagolwg Cyfradd Banc wedi cynyddu. Wedi dweud hynny, Credwn y bydd disgwyliadau chwyddiant yn gostwng yn naturiol ochr yn ochr â chyfraddau chwyddiant pennawd.
- Mae'n ymddangos bod buddsoddwyr wedi rhoi rhywfaint o le i lywodraeth y DU yn dilyn y Gyllideb, gyda chynnyrch tymor hir yn parhau i fasnachu ar lefelau ychydig yn is nag ar ddiwedd yr haf / dechrau'r hydref. Hyd yn oed felly, mae benthyca trwm parhaus ar draws economïau datblygedig, y DMO yn symud tuag at gyhoeddi giltiau gyda aeddfedrwydd llai ac amheuan am gynlluniau treth y llywodraeth yn cadw cynnyrch tymor byr a canolig uwchlaw'r lefelau a awgrymir gan ddisgwyliadau cyfradd llog yn unig.

Rhagolygon:

- Yn unol â'n rhagolwg hirsefydlog, cafodd Cyfradd y Banc ei dorri i 3.75% ym mis Rhagfyr.
- Gyda chwyddiant croes, diweithdra cynyddol, twf cyflog llai a hyder isel, awgrymir bydd y polisi ariannol yn parhau i gael ei lacio.
- Mae Arlingclose yn disgwyl i Gyfradd Banc gael ei dorri i 3.25% erbyn canol 2026. Fodd bynnag, mae risgiau tymor byr i'r rhagolygon wedi cynyddu.
- Mae cynnyrch giltiau tymor canolig a tymor hir wedi parhau i gwmpasu premiwm ar gyfer hygrededd llywodraeth y DU, ansicrwydd byd-eang a chyhoeddi sylweddol. Efallai na fydd y materion hyn yn cael eu datrys yn gyflym ac rydym yn disgwyl i gynnwyrch aros yn uwch.

	Current	Mar-26	Jun-26	Sep-26	Dec-26	Mar-27	Jun-27	Sep-27	Dec-27	Mar-28	Jun-28	Sep-28	Dec-28
Official Bank Rate													
Upside risk	0.00	0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Central Case	3.75	3.50	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25
Downside risk	0.00	0.00	-0.25	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50
3-month money market rate													
Upside risk	0.00	0.25	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50
Central Case	3.82	3.55	3.30	3.30	3.30	3.30	3.30	3.30	3.30	3.30	3.35	3.35	3.35
Downside risk	0.00	0.00	-0.25	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50
5yr gilt yield													
Upside risk	0.00	0.40	0.45	0.50	0.55	0.60	0.65	0.70	0.70	0.70	0.70	0.70	0.70
Central Case	3.96	3.85	3.80	3.75	3.75	3.75	3.75	3.75	3.75	3.75	3.80	3.80	3.80
Downside risk	0.00	-0.50	-0.60	-0.70	-0.80	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85
10yr gilt yield													
Upside risk	0.00	0.40	0.45	0.50	0.55	0.60	0.65	0.70	0.70	0.70	0.70	0.70	0.70
Central Case	4.52	4.40	4.35	4.30	4.30	4.30	4.30	4.30	4.30	4.30	4.35	4.35	4.35
Downside risk	0.00	-0.50	-0.60	-0.70	-0.80	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85
20yr gilt yield													
Upside risk	0.00	0.40	0.45	0.50	0.55	0.60	0.65	0.70	0.70	0.70	0.70	0.70	0.70
Central Case	5.16	5.00	4.95	4.90	4.90	4.90	4.90	4.90	4.90	4.90	4.95	4.95	4.95
Downside risk	0.00	-0.50	-0.60	-0.70	-0.80	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85
50yr gilt yield													
Upside risk	0.00	0.40	0.45	0.50	0.55	0.60	0.65	0.70	0.70	0.70	0.70	0.70	0.70
Central Case	4.74	4.65	4.60	4.60	4.60	4.60	4.60	4.60	4.60	4.60	4.65	4.65	4.65
Downside risk	0.00	-0.50	-0.60	-0.70	-0.80	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85	-0.85

PWLB Standard Rate = Gilt yield + 1.00%

PWLB Certainty Rate = Gilt yield + 0.80%

PWLB HRA Rate = Gilt yield + 0.40%

National Wealth Fund (NWF) Rate = Gilt yield + 0.40%

Atodiad 2- Sefyllfa Portffolio Buddsoddi a Dyled Bresennol

	31.12.2025 Gwir Bortffolio £m	31.12.2025 Cyfradd Cyfartalog %
Benthyca Allanol:		
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)	75.7	5.49
Cyfanswm benthyca allanol	75.7	5.49
Ymrwymadau tymor hir arall:		
Prydlesau	1.6	0.00
Cyfanswm ymrwymadau tymor hir arall	1.6	0.00
Cyfanswm dyled gros allanol	77.3	5.49
Buddsoddiadau trysorlys:		
Banciau a Chymdeithasau adeiladu (ansicredig)	1.2	3.15
Llywodraeth DU	39.0	3.80
Awdurdodau Lleol	36.5	4.18
Cronfeydd Marchnad Arian	41.0	3.91
Cronfeydd wedi'u pŵlio	13.0	5.69
Cyfanswm buddsoddiadau trysorlys	130.7	4.13
Buddsoddiadau Net	-53.4	

Atodiad 3- Gofynion ychwanegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) Ganllaw Buddsoddi diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sy'n gosod gofynion adrodd ychwanegol ar awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan annatod o brosesau rheoli trysorlys y Cyngor hwn. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys buddsoddiadau nad ydyn nhw'n rhan o reoli trysorlys, er enghraifft eiddo buddsoddi a benthyciadau i sefydliadau lleol.

Cyfraniad: Mae buddsoddiadau'r Cyngor yn cyfrannu at ei amcanion darparu gwasanaeth a / neu i hyrwyddo lles fel a ganlyn:

- mae buddsoddiadau rheoli trysorlys yn cefnogi gweithgareddau rheoli trysorlys effeithiol,
- mae benthyciadau i sefydliadau lleol yn darparu cymorth ariannol i'r sefydliadau hynny i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol a fyddai fel arall yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan y Cyngor, a
- mae eiddo buddsoddi yn darparu gwarged ariannol net sy'n cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol.

Newid yn yr hinsawdd: Mae penderfyniadau buddsoddi'r Cyngor yn ystyried risgiau hinsawdd tymor hir i gefnogi economi carbon isel i'r graddau, os oes buddsoddiad carbon isel cyfwerth ar gael gyda'r un enillion, yna byddai'n well gan y Cyngor y buddsoddiad carbon isel.

Buddsoddiadau penodedig: Mae Canllawiau LIC yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel y rheini:

- wedi'i enwi mewn punt sterling,
- i fod i gael ei ad-dalu cyn pen 12 mis ar ôl y trefniant oni bai bod y gwrthbarti yn awdurdod lleol,
- heb ei ddiffinio fel gwariant cyfalaf gan ddeddfwriaeth, a
- buddsoddi gydag un o:
 - Llywodraeth y DU,
 - Awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymunedol yn y DU, neu
 - Corff neu gynllun buddsoddi o "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Cyngor yn diffinio sefydliadau a gwarantau "ansawdd credyd uchel" fel y rhai sydd â statws credyd o A- neu uwch sy'n hanu o'r DU neu wlad dramor sydd â sgôr sofran o AA + neu'n uwch. Ar gyfer cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfun eraill, diffinnir "ansawdd credyd uchel" fel y rhai sydd â statws credyd o A- neu uwch.

Benthyciadau: Mae Canllawiau LIC yn diffinio benthyciad fel cytundeb ysgrifenedig neu lafar lle mae'r Cyngor yn trosglwyddo arian dros dro i drydydd parti, menter ar y

cyd, is-gwmni neu aelod cyswllt sy'n cytuno ar enillion yn ôl telerau ac amodau derbyn y benthyciad, ac eithrio pan fydd y trydydd parti yn awdurdod lleol arall.

Gall y Cyngor ddangos bod ei amlygiad ariannol i fenthyciadau i fentrau lleol, elusennau lleol, cwmnïau dan berchnogaeth lwyr a mentrau ar y cyd yn gymesur trwy osod y terfynau yn nhabl 3a. Mae'r rhain yn sicrhau nad yw cyfanswm yr amlygiad yn fwy na 20% o gronfeydd wrth gefn y Cyngor y gellir eu defnyddio. Ar hyn o bryd mae llyfr benthyciadau'r Cyngor o fewn y terfynau hunanasesedig hyn.

Tabl 3a: Terfynau Benthyc

Benthyciwr	Terfyn arian
Mentrau lleol ac elusennau lleol	£3m
Cwmnïau dan berchnogaeth lwyr a mentrau ar y cyd	£3m
Benthyciadau ceir a beics i weithwyr	£3m
Buddsoddiadau rheolaeth trysorlys sy'n cwrdd â'r diffiniad o fenthyciad	Diderfyn

Mae'r Cyngor yn defnyddio model 'colled credyd disgwylidig' a ganiateir ar gyfer benthyciadau a symiau derbyniadwy fel y nodir yn Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 9: Offerynnau Ariannol fel y'i mabwysiadwyd gan arferion priodol i fesur risg credyd ei bortffolio benthyciadau. Rhoddir ystyriaeth briodol i reolau cymorth gwladwriaethol a chyfraith cystadleuaeth. Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli credyd priodol i adennill ad-daliadau hwyr.

Buddsoddiadau amhenodol: Mae unrhyw fuddsoddiad ariannol nad yw'n cwrdd â'r diffiniad o fuddsoddiad neu fenthyciad penodol yn cael ei ddosbarthu fel un amhenodol. O ystyried y diffiniad eang o fenthyciad, mae'r categori hwn yn berthnasol i unedau mewn cronfeydd cyfun a chyfranddaliadau mewn cwmnïau yn unig. Dangosir cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodol yn nhabl 3b; mae'r Cyngor yn cadarnhau bod ei fuddsoddiadau amhenodol cyfredol yn aros o fewn y terfynau hyn.

Tabl 3b: Terfynau buddsoddiadau amhenodol

	Terfyn arian
Unedau mewn cronfeydd cyfun heb statws credyd neu wedi'u graddio islaw A-	£20m
Cyfranddaliadau mewn ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real	£10m
Cyfanswm buddsoddiadau amhenodol	£30m

Buddsoddiadau anariannol: Mae'r categori hwn yn cynnwys asedau anariannol a ddelir yn bennaf neu'n rhannol i gynhyrchu elw, eiddo buddsoddi yn bennaf. Penderfynir ar ddiogelwch trwy gymharu pris prynu pob ased â'i werth teg gan ddefnyddio'r model yn Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 40: Eiddo Buddsoddi fel y'i haddaswyd gan arferion

priodol. Ar asesiad ar 31 Mawrth 2024, mae'r Cyngor o'r farn nad yw graddfa ei fuddsoddiadau anariannol yn sylweddol.

Hylifedd: Ar gyfer buddsoddiadau ariannol nad ydynt yn fuddsoddiadau neu fenthyciadau rheoli trysorlys, mae gan y Cyngor weithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod y cronfeydd yn cael eu hymrwymo'n ddarbodus am y cyfnod hiraf o amser.

Ymgynghorwyr Buddsoddi: Mae'r Cyngor wedi penodi Arlingclose fel ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys ac yn derbyn cyngor penodol ar faterion buddsoddi, dyled a chyllid cyfalaf. Mae ansawdd y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro gan y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn rheolaidd.

Benthyg cyn yr angen: Canllawiau Llywodraeth Cymru yw na ddylai awdurdodau lleol fenthycu mwy na blaen eu hanghenion er mwyn elwa o fuddsoddiad y symiau ychwanegol a fenthycwyd. Mae'r Cyngor, ar ôl ystyried y canllawiau, wedi penderfynu gwyro oddi wrth ddarpariaeth benodol.

Trefniant masnachol: Os bydd trefniant masnachol, mae'r unigolion sy'n gwneud y fargen yn ymwybodol o egwyddorion craidd y fframwaith darbodus a'r drefn reoleiddio y mae'r Cyngor yn gweithredu oddi mewn iddi.

Capasiti, sgiliau a llywodraethu corfforaethol: Gwahoddwyd aelodau etholedig a swyddogion i gyflwyniad gan Arlingclose ym mis Chwefror a Mawrth 2025. Mae'r wybodaeth a'r drafodaeth yn y cyflwyniad yn sicrhau bod gan yr aelodau'r sgiliau a'r wybodaeth briodol i'w galluogi i:

- Wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ddylid ymrwymo i fuddsoddiad penodol.
- Asesu asesiadau unigol yng nghyd-destun amcanion strategol a phroffil risg y Cyngor.
- Deall sut mae cwantwm y penderfyniadau hyn wedi newid amlygiad risg cyffredinol yr awdurdod lleol.

Mae swyddogion hefyd yn mynychu cyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau a ddarperir gan Arlingclose a CIPFA yn rheolaidd. Anogir staff perthnasol hefyd i astudio cymwysterau proffesiynol gan CIPFA, ACA a sefydliadau priodol eraill.

PWYLLGOR	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	3 CHWEFROR 2026
TEITL	CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL
PWRPAS YR ADRODDIAD	AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 25 IONAWR 2026
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, Safon 11.3, Cyfathrebu Canlyniadau, yn nodi bod *"yn rhaid i'r prif weithredwr archwilio gyfathrebu canlyniadau gwasanaethau archwilio mewnol i'r bwrdd a'r uwch reolwyr o bryd i'w gilydd ac ar gyfer pob archwiliad fel y bo'n briodol."*
- 1.2 Ymhellach, nodir yn Safon 15.1, Cyfathrebu Ymgysylltiad Terfynol *"rhaid i'r prif weithredwr archwilio rannu'r cyfathrebu terfynol i bartïon a all sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu hystyried yn briodol."*
- 1.3 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 29 Medi 2025 hyd 25 Ionawr 2026.

2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

- 2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol o gynllun yn y cyfnod o 29 Medi 2025 hyd 25 Ionawr 2026:

Disgrifiad	Nifer
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol 2025-26	21

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod o 29 Medi 2025 hyd 25 Ionawr 2026, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Casglu Gwastraff Masnachol	`Amgylchedd	Casglu Gwastraff	Cyfyngedig	Atodiad 1
Dilyniant Trefniadau Dosbarthu Biniau	Amgylchedd	Casglu Gwastraff	Cyfyngedig	Atodiad 2
Iechyd Anifeiliaid	Amgylchedd	Safonau Masnach	Digonol	Atodiad 3
Dilyniant – Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth	Corfforaethol	-	Digonol	Atodiad 4
Incwm – Trefniadau Adennill	Cyllid	Incwm / Dyledwyr	Cyfyngedig	Atodiad 5
Praeseptau	Cyllid	Cyfrifeg	Uchel	Atodiad 6
Amgueddfa Lloyd George	Economi a Chymuned	Amgueddfeydd a'r Celfyddydau	Uchel	Atodiad 7
Tan y Marian	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Anableddau Dysgu	Cyfyngedig	Atodiad 8
Y Frondeg	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Anableddau Dysgu	Digonol	Atodiad 9
Dilyniant – Plas Pengwaith	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Preswyl a Dydd	Cyfyngedig	Atodiad 10
Dilyniant – Llys Cadfan	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Preswyl a Dydd	Digonol	Atodiad 11
Dilyniant – Plas Hafan	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Preswyl a Dydd	Digonol	Atodiad 12

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Taliadau Uniongyrchol	Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol Oedolion, Iechyd a Llesiant	Gwasanaeth Busnes a Comisiynu Gofal	Digonol	Atodiad 13
Cegin Arfon	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Anableddau Dysgu	Cyfyngedig	Atodiad 14
Siop Galwch Acw	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Anableddau Dysgu	Cyfyngedig	Atodiad 15
Canolfan y Gwystl	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Anableddau Dysgu	Cyfyngedig	Atodiad 16
Cynllun Olyniaeth YGC	Priffyrdd, Peirianeg a YGC	YGC	Digonol	Atodiad 17
Cynllun Parhad Gwasanaeth	Priffyrdd, Peirianeg a YGC	Ar draws yr Adran	Digonol	Atodiad 18
Coed yn Syrthio	Priffyrdd, Peirianeg a YGC	Uned Reoli	Cyfyngedig	Atodiad 19
Grant Atal Digartrefedd	Tai ac Eiddo	Tai	Cyfyngedig	Atodiad 20
Grant Cymorth Tai	Tai ac Eiddo	Tai	Digonol	Atodiad 21

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

LEFEL SICRWYDD	UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
	CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
	DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 25 Ionawr 2026:

- Addysg Tu Allan i'r Ysgol (*Addysg*)
- Dilyniant Cludiant Ysgolion (*Addysg/Amgylchedd*)
- Dilyniant Clybiau Brecwast (*Addysg*)
- Dilyniant Trafnidiaeth Ysgolion (*Amgylchedd*)
- Rheolaeth Adeiladu (*Amgylchedd*)
- Hyfforddiant Mandadol (*Gwasanaethau Corfforaethol*)
- Trefniadau Tân (*Gwasanaethau Corfforaethol*)
- Rheoli Gwybodaeth a Diogelu Data (*Corfforaethol*)
- Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi Diogelu (*Corfforaethol*)
- CoLS/LPS (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Taliadau All-Sirol (*Plant a Chefnogi Teuluoedd*)
- Amlogfa (*Priffyrdd, Peirianeg a YGC*)
- Rheolaeth Fflyd (*Priffyrdd, Peirianeg a YGC*)
- Dilyniant – Rheolaeth Categori Amgylchedd (*Priffyrdd, Peirianeg a YGC*)
- Costau Llety Argyfwng (*Tai ac Eiddo*)
- Amlogfa (*Priffyrdd, Peirianeg a YGC*)

4. ARGYMHELLIAD

- 4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 29 Medi 2025 hyd 25 Ionawr 2026, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

CASGLU GWASTRAFF MASNACHOL**1. Cefndir**

- 1.1 Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff masnachol i oddeutu 2,000 o fusnesau ar hyd a lled Gwynedd. Ym mis Ebrill 2024 daeth cyfraith ailgylchu newydd i rym. Mae'n golygu bod rhaid i bob gweithle, fel busnesau, y sector gyhoeddus, ac elusennau, wahanu eu heitemau ailgylchu yn ôl eu math cyn eu bod yn cael eu casglu. Roedd goblygiadau'r ddeddf yn golygu fod Cyngor Gwynedd fel gweithredwr casglu hefyd yn gorfod casglu deunyddiau gwastraff ac ailgylchu ar wahân.
- 1.2 Mae sicrhau ffynhonnell o incwm gwastraff masnachol a thai gwyliau yn greiddiol i'r gwasanaeth ac wedi ei adnabod fel un o'n prif risgiau ar gofrestr risg yr Adran.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol digonol ac effeithiol mewn lle ar gyfer rheoli a gweinyddu gwasanaeth casglu gwastraff masnachol y Cyngor. Gan fod y Gwasanaeth yn y broses o drosglwyddo i system newydd, nid oedd yr archwiliad yn cwmpasu'r rheolaethau mewnol oddi fewn y system gyfredol ond yn hytrach yn cwmpasu cynnal trafodaethau gyda staff perthnasol er mwyn adnabod unrhyw rwystredigaethau i gyflawni eu gwaith yn effeithiol, a bod y system newydd yn cwrdd â'r gwendidau yma.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	2
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Ar amser yr archwiliad, mae'r Gwasanaeth Gwastraff Masnachol yn y broses o symud tuag at system weinyddol a rheoli newydd, Bartec. I'r perwyl yma, ni chynhaliwyd profion archwilio ar y system gyfredol, gyda'r bwriad gwreiddiol o wirio priodoldeb Bartec a sut bydd nodweddion y system newydd yn effeithio a hwyluso trefniadau gwaith, a lliniaru risgiau i'r gwasanaeth. Mae Bartec eisoes yn cael ei defnyddio gan y gwasanaeth gwastraff domestig, ond yn anffodus o safbwynt yr archwiliad, mae amserlen mabwysiadu'r system ar gyfer gwastraff masnachol wedi llithro, a disgwylir y bydd yn weithredol rhywbryd yn 2026/27. Nid oedd yn ymarferol cynnal archwiliad o'r system newydd felly, ond disgwylir bydd hyn yn destun archwiliad mewnol pellach unwaith mae'n weithredol.
- 5.2 Mae Bartec yn cynnig mwy na'r system gyfredol o fasdata syml Microsoft Access sy'n cofnodi manylion y busnesau, ac sy'n gofyn i'r timau casglu argraffu rhestr casglu ddyddiol oddi arno. Bwriad Bartec yw hwyluso a symleiddio casglu gwastraff drwy optimeiddio llwybrau casglu, rheoli biniau a chytundebau, olrhain cerbydau casglu, a darparu diweddariadau amser real i staff a chwsmeriaid. Gall Bartec hefyd hwyluso trefniadau ariannol, megis anfonebu. Mae'r Gwasanaeth yn manteisio ar y cyfle yma i adolygu eu trefn gweithio, ac mae gweithdy Ffordd Gwynedd gynhaliwyd ddiwedd 2024 wedi amlygu safbwyntiau gwahanol a rhwystrau yn y trefniadau cyfredol sydd angen i'w goresgyn.
- 5.3 Mae effeithiolrwydd unrhyw system yn dibynnu yn llwyr ar ansawdd y data sydd ynddo. Ymddengys bod y data yn system gyfredol y gwasanaeth gwastraff masnachol yn annibynadwy, gall arwain at gyflwyno rhestrau casglu anghywir i'r timau casglu a codi biliau anghywir ar gwsmeriaid. Golygai hyn nad oedd yn briodol trosglwyddo y data yn uniongyrchol i Bartec, ac mae hyn wedi cyfrannu yn sylweddol at yr oedi cyn ei fabwysiadu. Mae bwriad i swyddogion ymuno â'r timau casglu a dogfennu o'r newydd pa finiau sydd gan bob busnes, a chynhyrchu basdata newydd yn deillio o hynny. Nid yw'r biniau gyda sticeri swyddogol sy'n nodi eu perchennog fel y drefn gwastraff gardd domestig, gall greu rhwystrau i'r swyddogion. Mae'n hanfodol wedyn i gael trefn sy'n sicrhau bod y data yn aros yn gywir ar ôl yr ymarferiad yma.
- 5.4 Mae'r data annibynadwy yn creu risg bod casglwyr biniau wedi casglu mwy, neu lai, na'r hyn mae'r busnesau wedi talu amdano, a felly bod biliau anghywir wedi ei godi ar gwsmeriaid. Bydd creu basdata newydd sy'n seiliedig ar yr union nifer o finiau gwahanol sydd gan fusnesau yn debygol o newid lefelau incwm y gwasanaeth.
- 5.5 Mae rôl y swyddfa gefn yn y broses gyfredol yn cynnwys gweinyddu, cynghori cwsmeriaid a chefnogi timau casgliadau gwastraff masnachol. Ar hyn o bryd mae pob cais, ymholiad neu gŵyn yn dod drwy'r swyddfa, neu yn uniongyrchol i'r tîm casglu, ond nid oes sicrwydd bod y trefniadau cyfathrebu cyfredol yn galluogi pob achos i dderbyn y sylw a'r gweithrediad priodol.

Er bydd y drefn yma yn parhau gyda'r system newydd, bydd Bartec yn galluogi'r cwsmer i gyflwyno ceisiadau am wasanaeth drwyddo, gan leihau'r baich gweinyddol ar y swyddfa gefn, a diweddarau'r basadata o fewn y system yn syth.

- 5.6 Gall Bartec hefyd ymateb i ambell gwynion gan ddefnyddio ei ddata byw, megis petai oediadau gyda'r lori. Bydd disgwyl i'r timau casglu gofnodi pob casgliad yn Bartec drwy iPads, gan nodi unrhyw reswm dros beidio casglu (bin heb ei gyflwyno, gwastraff ailgylchu wedi'i gymysgu neu wedi'i lygredu ayb).
- 5.7 Yn sgil y gyllideb, mae disgwyl i'r gwasanaeth gwastraff masnachol gynhyrchu elw i'r Cyngor. Gwiriwyd trefniadau ar gyfer hysbysebu'r gwasanaeth, ond darganfuwyd nad oes marchnata rhagweithiol yn cael ei wneud. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu eu bod wedi cychwyn gwaith ar hyn llynedd gan gydweithio gyda arbenigwyr 'Partneriaethau Lleol', sef corff cyhoeddus sy'n cefnogi awdurdodau lleol gyda agweddau gwahanol, megis marchnata, ond nid oes unrhyw waith pellach wedi ei wneud. Bwriedir hefyd adolygu ffioedd yn sgil y gystadleuaeth â'r sector breifat.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Cynhyrchu basdata gwastraff masnachol o'r newydd drwy ymuno â'r timau casglu, dogfennu pa finiau gaiff eu casglu a sicrhau bod y data yn aros yn gywir a chyfredol.**
- **Bwriedir ailstrwythuro y Gwasanaeth Gwastraff Masnachol yn 2026**
- **Hyrwyddo'r gwasanaeth drwy farchnata rhagweithiol ac adolygu ffioedd.**

DILYNIANT TREFNIADAU DOSBARTHU BINIAU**1. Cefndir**

- 1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Trefniadau Dosbarthu Biniau fel rhan o gynllun 2024/25, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer dosbarthu biniau i drigolion a busnesau Gwynedd, gan ystyried y costau ymglymedig. Rhoddwyd lefel sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad, hynny yw, er bod rheolaethau mewn lle, roedd angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau a adnabuwyd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion a dogfennaeth gefnogol, yn ogystal â chynnal ymweliad safle.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	2
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 O'r 8 gweithrediad a gytunwyd o'r archwiliad gwreiddiol, gwelwyd mai 2 yn unig sydd wedi eu gweithredu, adroddir y casgliadau isod.

- 5.2 Cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd fod y gwasanaeth yn wynebu cynllun arbedion o £200,000. Un o'r ystyriaethau i gyrraedd yr arbediad yw i adleoli'r Gwasanaeth Dosbarthu Biniau. O'r herwydd, ni fydd unrhyw wario ar wella cyflwr y warws. Yn ystod ymweliad â Llwyn Isaf ar 2il o Hydref, 2025, gwelwyd fod glaw yn casglu mewn mannau yn yr adeilad oherwydd fod y to yn gollwng, gyda boscsys cardfwrdd sy'n dal yr offer wedi pydru. Fodd bynnag, roedd y cyfarpar oddi fewn mewn cyflwr derbyniol, ac y warws yn daclus a threfnus. Nodwyd, ers yr archwiliad llawn, fod y warws yn cael ei glanhau a'i threfnu yn rheolaidd.
- 5.3 Nodir, er fod clo ar giatiau'r depo, fod gan pob aelod staff, yn ogystal â staff cwmni 'Biogen' (sydd yn rhannu'r safle) allwedd.
- 5.4 Ers Mehefin 2025, cwmni 'Contenur UK Limited' sydd yn ailgylchu hen finiau ar ran y Cyngor, gan dalu £250 y tunnell. Er fod 3 casgliad wedi bod ers hynny, ni welwyd fod anfoneb wedi ei godi. Yn ogystal, nid oes anfoneb wedi ei godi ar gyfer casgliadau a wnaethpwyd gan gwmni 'Indigo Environmental' am y cyfnod 07/02/25-20/06/25, gwerth £1,701.00. Eglurodd Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu – Sicrwydd Ansawdd y byddai anfonebau yn cael eu codi yn fuan, a bod bwriad yn y dyfodol i anfonebu pob 6 mis.
- 5.5 Nid oes unrhyw fonitro o lefelau stoc, na gwiriadau stoc yn cael eu cynnal. Cadarnhawyd fod y gwasanaeth yn y broses o gaffael system newydd ('Bartec'), byddai'n galluogi nid yn unig monitro stoc yn effeithiol, ond hefyd i optimeiddio teithiau, gyda'r gobaith o allu lleihau'r defnydd o gerbydau hurio. Fodd bynnag, cadarnhawyd fod yr amserlen wedi llithro, ac nad oes disgwyl i'r system fod yn weithredol ar gyfer Gwasanaeth Dosbarthu Biniau hyd nes Chwefror 2026.
- 5.6 Gwelwyd fod y gwasanaeth yn ystyried opsiynau amgen i alluogi staff llaw, sydd heb fynediad i'r Porth E-ddysgu na'r Ganolfan Bolisi, i gwblhau modiwlau a pholisïau mandadol y Cyngor.

6. Camau Gweithredu

Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Bod gwiriadau stoc yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn effeithiol.**
- **Bod incwm o werthu hen finiau yn cael ei hawlio yn brydlon.**
- **Bod pob gyrrwr yn cwblhau modiwlau E-ddysgu mandadol y Cyngor .**
- **Bod pob gyrrwr yn derbyn polisïau mandadol, megis Diogelu.**

IECHYD ANIFEILIAID**1. Cefndir**

- 1.1 Mae gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru ddyletswyddau statudol i weithio gyda cymunedau lleol i'w helpu i gydymffurfio â'r gyfraith sydd wedi'i chyflwyno i ddiogelu lles anifeiliaid ac i atal lledaeniad afiechydon anifeiliaid. Mae Awdurdodau Lleol yn helpu ffermwyr a busnesau i gydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2006 ac maent hefyd yn gyfrifol am gymryd camau pan fo'r cyfreithiau yn cael eu torri.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle gan y gwasanaeth i weithredu yn unol â gofynion y Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 a bod safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid yn cael eu cynnal. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu asesu effeithlonrwydd y gwasanaeth ar eu gweithdrefnau monitro ac ymateb i argyfyngau, trefniadau cynllunio ac ymweliadau, hyfforddiant aelodau staff a gwirio'r drefn cwynion.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	2
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Mae gan y Cyngor yr hawl i gymryd meddiant o unrhyw anifail ble mae eu hiechyd a lles yn dioddef poen neu straen diangen ar dir amaethyddol, ac anifeiliaid caiff eu cadw a'u magu mewn amodau sydd ddim yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2006.

Gwelwyd achos diweddar ble roedd yn rhaid i'r Cyngor gymryd meddiant o anifeiliaid gan ffermwr yn yr ardal, oherwydd amodau gwael ac esgeulustod i'r anifeiliaid gan gyflawni troseddau lles anifeiliaid. Roedd disgwyl i'r Cyngor ymateb i'r achos yma o fewn dyddiau a chael hyd i gontractwyr i wneud y gwaith ar frys. Nid oedd unrhyw waith papur ar gael ac nid oedd contract ffurfiol gyda'r contractwyr wedi ei greu na phroses tendro wedi ei dilyn. Eglurodd y Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu bod hyn yn achos o argyfwng, ac nid oes achos tebyg wedi digwydd yn y gorffennol.

- 5.2 Gwelwyd achos arall ble roedd yn rhaid i'r Cyngor gamu fewn i sicrhau bod gan anifeiliaid ar y fferm fwyd a dŵr. Nid cyfrifoldeb swyddogion Safonau Masnach yw bwydo a gwarchod yr anifeiliaid, felly roedd yn rhaid i'r Cyngor gael hyd i rywun ar fyr rybudd i wneud y gwaith. Gwelwyd bod opsiynau yn gyfyngedig yn y sefyllfa yma a roedd pryder am iechyd a lles yr anifeiliaid, felly dim ond cytundeb ar lafar oedd gan y Cyngor gyda'r sawl oedd yn fodlon i wneud y gwaith. Gwelwyd bod pob achos yn wahanol a bod gan y Cyngor gysylltiadau gydag Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), yr Heddlu a milfeddygon i wneud y gwaith.
- 5.3 Derbyniwyd copi o bolisi Safonau Masnach dyddiedig 2011, ac eglurodd y Rheolwr bod y prif egwyddorion yn dal i gael ei dilyn, er ei fod yn bolisi hen. Ni welwyd bod unrhyw fath o ganllawiau clir eraill gan y gwasanaeth yn nodi trefniadau, gweithdrefnau, pwyntiau cyswllt ayb. Cytunodd y Rheolwr bod y polisi angen ei ddiweddarau, a buasai canllawiau a rhestr o gontractwyr yn fuddiol hefyd, ond oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau prin o fewn y gwasanaeth, ei bod hi'n anodd cael amser i wneud hyn gan mai eu blaenoriaeth yw sicrhau iechyd a lles anifeiliaid.
- 5.4 Defnyddir system 'Tascomi' er mwyn cofnodi manylion achosion. Mae dros 720 o gwynion wedi ei gofnodi yn y system, a gwiriwyd sampl o 20 cwyn ar hap. O'r sampl a wiriwyd, roedd 14 cwyn wedi cau, a 6 'ar y gweill'. O'r cwynion sydd wedi cau a'u cwblhau, ar gyfartaledd gwelwyd bod y gwasanaeth yn anfon ymateb gyntaf i'r cwynion o fewn 1.18 diwrnod, ac yn eu datrys o fewn 4.73 diwrnod.
- 5.5 Darganfuwyd nad yw'r gwasanaeth yn derbyn arian ychwanegol os oes angen i'r Cyngor gymryd meddiant o anifeiliaid. Eglurodd y Rheolwr bod consensws genedlaethol fod y Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2006 ddim yn addas i bwrpas bellach, a gwelwyd enghraifft o un Awdurdod wedi gwario dros filiwn yn dilyn gorfod meddiannu anifeiliaid.

6. Camau Gweithredu

Mae'r gwasanaeth Safonau Masnach wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Diweddarau'r polisiâu a gweithdrefnau sydd mewn lle.
- Edrych i sefydlu rhestr o gontractwyr, a chael gweithdrefn mewn lle i sefydlu cytundeb gyda contractwyr mor fuan â phosib ar ôl i'r gwaith gychwyn.

DILYNIANT CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH**1. Cefndir**

- 1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth fel rhan o gynllun 2024/25, er mwyn sicrhau bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu a gweithredu ceisiadau am wybodaeth drwy'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Fel rhan o'r archwiliad gwreiddiol, adolygwyd trefniadau oedd mewn lle ar gyfer derbyn, dosbarthu, casglu ac ymateb i geisiadau o dan y Ddeddf.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn diweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risg. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion neu ddogfennaeth gefnogol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	2
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Cytunwyd ar bump cam gweithredu yn yr archwiliad gwreiddiol ym Medi 2024, a'r cwbl efo sgôr risg o 5. Gwelwyd bod y camau wedi cael eu gweithredu ac adroddir y casgliad isod, ond mae gwaith parhaus mewn lle i annog adrannau a swyddogion i ymateb o fewn yr amserlen statudol, a bod yn rhagweithiol i roi fwy o setiau data ar y wefan (data agored).

- 5.2 Ers i'r archwiliad mewnol gael ei gynnal, comisiynwyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) i gynnal archwiliad allanol ar drefn Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor. Cynhaliwyd yr archwiliad allanol yn ystod mis Ebrill 2025, a chyhoeddwyd yr adroddiad ar y canlyniadau ym mis Mai 2025. Roedd y canlyniadau yn cynnwys sgôr sicrwydd 'Rhesymol' o ran ymatebion i ofynion y Ddeddf, ond bod rhywfaint o le i wella'r trefniadau presennol er mwyn lleihau'r risg o beidio â chydymffurfio a'r Ddeddf.
- 5.3 Un o'r risgiau amlygwyd yn yr archwiliad mewnol gwreiddiol oedd methiant i ddiweddarau'r Cynllun Cyhoeddi yn rheolaidd yn unol ag Adran 19 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r Cynllun bellach wedi cael ei ddiweddarau ar y wefan i gynnwys y wybodaeth gyfredol.
- 5.4 Gwelwyd o'r archwiliad mewnol gwreiddiol bod diffyg trefniadau prosesu ceisiadau yn bodoli ac felly yn achosi methiant i'r Cyngor ymateb i geisiadau o fewn yr amserlen a ganiateir. Roedd perfformiad Gwynedd ychydig is na ystadegau rhyddid gwybodaeth Llywodraeth y DU yn 2023, gyda chyfradd prydlondeb Gwynedd yn 77%, o gymharu â chyfradd o 81% ar draws yr holl gyrff sy'n cael eu monitro. Erbyn hyn, mae cyfradd ymateb Cyngor Gwynedd wedi gwella yn sylweddol yn 2025/26 gan godi i 89% ar gyfer chwarter 1, ac i fyny i 92.1% yn chwarter 2.
- 5.5 Cadarnhaodd yr Uwch Swyddog Statudol Diogelu Data bod rhaglen waith wedi ei chreu sy'n cynnwys argymhellion gan y Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth, ac mae cynnydd ar y rhaglen waith yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac i'r Bwrdd Rhaglen Ymateb.
- 5.6 Gwelwyd bod cyfathrebu wedi gwella gyda cydlynwyr yr adrannau gan fod y tîm cefnogol yn cael sgwrs gyda hwy ar Teams i'w hatgoffa a holi am atebion. Yn ogystal, cynhaliwyd sesiwn hyfforddi i gydlynwyr adrannau ym mis Mehefin 2025 ac mae sesiwn arall yn cael ei gynnal mis Medi er mwyn rhannu arferion da. Er hynny, un o argymhellion gan y Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth oedd y dylai'r Cyngor gyflwyno hyfforddiant gorfodol ar Ryddid Gwybodaeth i holl staff ar draws y Cyngor, a derbyniwyd cadarnhad bod modiwl e-ddysgu newydd wedi ei greu.
- 5.7 Gwelwyd bod yr Uwch Swyddog Statudol Diogelu Data wedi rhannu e-bost i reolwyr y Cyngor sy'n cynnwys ychydig o arweiniad ar geisiadau rhyddid gwybodaeth. Mae bwletin wedi ei gynnwys yn yr e-bost, sef dogfen yn nodi sut i adnabod cais am wybodaeth, linc at dudalen gwefan data agored, sef setiau data sydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor, yn ogystal a linc i'r Polisi Rhyddid Gwybodaeth a'r Cynllun Cyhoeddi. Gwelwyd bod mwy o setiau 'Data Agored' wedi cael eu rhoi ar y wefan ers yr archwiliad gwreiddiol.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Parhau i annog adrannau a swyddogion i ymateb i geisiadau o fewn yr amserlen statudol**
- **Sicrhau bod argymhellion gan y Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth yn derbyn sylw ac yn cael eu cwblhau yn unol â'r amserlen.**

ADENNILL INCWM**1. Cefndir**

- 1.1 Mae'r Cyngor wedi codi dros £9 miliwn o anfonebau drwy'r system dyledwyr (o Chwefror 2025 hyd at Awst 2025) ac mae gwerth £8.7miliwn o ddyledion dros 6 mis oed (cyn 1 Chwefror 2025) yn parhau i sefyll. Mae'r Gwasanaeth Incwm yn gyfrifol am adennill dyledion drwy gydymffurfiaeth â Cyfansoddiad y Cyngor ynghyd â Pholisi Adennill y Cyngor 2024. Adroddwyd yn mis Awst 2025 mai y cyfartaledd cyfradd casglu oedd 68.56% o fewn y mis gyda gweddill y ddyled na ellir ei hadennill yn cronni dros amser.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i gasglu, adennill a dileu dyledion y Cyngor a gwirio cydymffurfiaeth â Pholisi Adennill y Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o ddyledion sydd wedi cael eu codi, adennill a rhai sydd wedi cael eu dileu i sicrhau bod trefniadau priodol ac amserol ar gyfer adnabod a delio â ôl-ddyledion.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	5
ISEL	0

5. Darganfyddiadau

- 5.1 Fel rhan o'r archwiliad, cyflwynodd y Gwasanaeth Incwm ddau adroddiad, sef adroddiad o anfonebau â dyledion cyfan y Cyngor hyd at 31 o Awst 2025 ac adroddiad ar gyfer pob dyledwr er mwyn dadansoddi y nifer o anfonebau a'r ddyled sydd ar y system, ac hefyd y dyledwyr sydd â'r dyledion uchaf.

- 5.2 Gwiriwyd sampl o 40 o anfonebau a godwyd drwy system dyledwyr y Cyngor i sicrhau bod trefniadau adennill wedi cael eu gweithredu yn unol â pholisi Adennill y Cyngor. Yn ogystal gwiriwyd 16 o ddyledwyr sydd â nifer uchel o ddyled wedi cronni yn erbyn eu cyfrif. O'r gwiriadau, cadarnhawyd bod y dyledion wedi cael eu hadennill yn brydlon, yn y camau cyntaf, mewn pob achos h.y. nodyn atgoffa ar ôl 28 diwrnod o'r dyddiad anfoneb dyledus neu bod trefniadau wedi cael eu sefydlu i adennill dyled megis debyd uniongyrchol, cynllun rhandaliadau, ei gyfeirio at swyddog cyfrifol ayb.
- 5.3 Ar gyfer ysgrifennu i ffwrdd dyledion, cadarnhawyd ar gyfer sampl o ddyledion a gyflwynwyd i'r Pennaeth Cyllid i ysgrifennu i ffwrdd yn Mehefin 2025 bod camau priodol wedi'u cymryd yn unol â pholisi Adennill y Cyngor.
- 5.4 Darganfuwyd bod rhai swyddogion o fewn adrannau eraill gyda hawliau ar y system dyledwyr i ganiatáu iddynt sefydlu anfonebau eu hunain. Ymddengys bod trywydd archwilio ar gyfer y gweithrediadau adennill yn bodoli a bod mynediad i'r system yn cael ei reoli gan systemau gweinyddwyr yn briodol gyda hawliau wedi cael eu gosod/cyfyngu ar gyfer pob defnyddiwr.
- 5.5 Fodd bynnag, adnabuwyd methiannau a risgiau mewn sawl gweithrediad neu ble nad oedd trefniadau ffurfiol mewn lle ar gyfer dibenion adennill dyledion y Cyngor fel a nodir isod.
- 5.6 Ni welwyd canllawlyfr yn bodoli i'r Gwasanaeth Incwm, na chyfarwyddiadau i ddefnyddwyr y system ar gyfer sefydlu a chymeradwyo anfonebau. Derbyniwyd yr ymateb bod swyddogion yn hyfforddi o fewn adrannau ei gilydd, yn ogystal â bod cyfarwyddiadau ar gael ar wefan y system os yw swyddogion angen cymorth. Fodd bynnag, gyda trosiant staff uchel, mae risg o ddibyniaeth ar staff sydd â phrofiad a'r arbenigedd i hyfforddi staff newydd, all fod yn heriol yn yr hinsawdd bresennol, gydag adnoddau cyfyngedig.
- 5.7 Darganfuwyd wrth wirio sampl o ddyledion, bod 75% o'r dyledion sef oddeutu £13.4miliwn wedi cael eu hatal am wahanol resymau sydd yn cael ei adnabod ar y system drwy wahanol fflagiau. Dadansoddwyd bod 11% o'r dyledion sydd wedi cael eu hatal, sef £1.7miliwn oherwydd bod y gwasanaethau wedi gofyn i'w hatal neu bod y ddyled wedi cael ei chyfeirio at y gwasanaeth/adran berthnasol (Fflagiau D, E, F). Ymddengys nad oes trefniadau ffurfiol ar gyfer dilyn i fyny ar y dyledion yn golygu bod risg uchel all trefniadau adennill fod yn sefyll am hir dymor heb ymyrraeth bellach gan wasanaethau i'w hadennill sydd yn gohirio'r drefn, yn cynyddu'r posibilrwydd o ddyledion drwg ddim yn cael eu casglu o fewn y cyfnod statudol, ac yn y pen draw yn cael eu hysgrifennu i ffwrdd. Mae 1% o'r cyfrifon yma sydd angen eu ysgrifennu i ffwrdd yn bodoli ar y system (sef gwerth oddeutu £89,600).
- 5.8 Yn ogystal â hyn gwelwyd achosion wedi'u cyfeirio at y Gwasanaeth Cyfreithiol gan y Gwasanaeth Incwm ym mis Mai 2025 ond ni dderbyniwyd cydnabyddiaeth gan Gyfreithiol hyd 8fed o Hydref 2025 sydd yn oedi'r cyfle i adennill yn brydlon.

- 5.9 Nid oes cytundeb gwasanaeth/canllawiau sydd yn dynodi cyfrifoldebau rhwng y gwasanaethau a'r Gwasanaeth Incwm, sydd yn golygu bod diffyg atebolrwydd yn y Gwasanaethau i sicrhau bod camau adennill yn cael eu gweithredu'n brydlon.
- 5.10 Gwelwyd o'r sampl a wiriwyd bod rhai dyledwyr wedi derbyn gwasanaeth gan y Cyngor serch bod eisoes dyledion yn bodoli all chwyddo swm y dyledion anadferadwy. Mae hyn yn debygol o ddigwydd yn enwedig pan nad yw gwasanaethau yn gwirio'u dyledion neu heb fynediad i'r system i'w gwirio.
- 5.11 Mae'n bosib nad yw gwasanaethau yn ymwybodol o'r dyledion drwg hyd y bydd y Gwasanaeth Incwm yn gwneud cais i ddileu'r dyled sydd yn cael effaith ar eu gyllideb yn y pendraw. Unwaith mae anfoneb wedi'i chreu, bydd yn ymddangos fel incwm yn y cyfrifon oni bai ei bod yn cael ei dileu neu ei hysgrifennu i ffwrdd, felly nid oes cymhelliad i'r gwasanaethau roi cymorth i gasglu'r ddyled yn brydlon. Golyga hefyd bod risg i wasanaethau allu chwyddo incwm eu cyllideb drwy gyflwyno anfonebau o flaen llaw ar y system. Er mwyn osgoi hyn, adroddodd yr Uwch Swyddog Adennill bod rhai cynghorau yn gwrthdroi'r incwm os nad yw'r incwm wedi cael ei dderbyn/adennill ar ôl 2 neu 3 mis o ddyddiad yr anfoneb.
- 5.12 Mynegodd y Rheolwr Incwm, yn hanesyddol roedd pob adran yn derbyn rhestr o'u dyledion dyledus ond nad yw'r ymarferiad wedi cymryd lle ers tro ond credir y dylid ail gyflwyno'r ymarferiad ar sail chwarterol gyda'r nod bod gwasanaethau yn cymryd sylw ac yn gweithredu.
- 5.13 Yn dilyn cyfarfod gyda'r Rheolwr Incwm a'r Uwch Swyddog Adennill, adroddwyd mai ond un adroddiad a ddefnyddir yn fisol ar gyfer adnabod y dyledion i gyd oddi ar y system dyledwyr ond bod y data yn cael eu echdynnu â llaw yn hytrach na cael ei gynhyrchu ar '*schedule*' o'r system. Yn dilyn ymholiadau pellach, darganfuwyd bod methiannau yn y system yn rhwystro'r Gwasanaeth Incwm allu gweithio yn fwy effeithiol ac effeithlon, megis drwy adnabod a chreu adroddiad o ddyledwyr drwg, y gallu i roi dyddiadur gweithredu ar y system ar waith sydd angen eu dilyn i fyny, atal dyled gyda dyddiad dod i ben fel nad yw'r ddyled wedi'i hatal yn barhaol.
- 5.14 Meddiannwyd yr ystadegau ar gyfer monitro perfformiad y Gwasanaeth Incwm a gwelwyd mai'r mesur perfformiad yw gwerth dyledion amrywiol dros 6 mis oed a chyfradd casglu misol. Fodd bynnag, wrth gynnal yr archwiliad, darganfuwyd nad yw rhai anfonebau yn cael eu hadennill gan y Gwasanaeth Incwm oherwydd bod y rheolaeth allan o'u dwylo ac felly mae y cyfrifoldeb dilysu a mynd ar ôl y dyledion hyn yn disgyn ar adrannau eraill sydd yn ystumio'r data yma. Adnabuwyd y canlynol i fod yn eithriadau ac allan o reolaeth casglu'r Gwasanaeth Incwm:

Dyledwr/Fflag	Balans (31/08/25)	Cyfrifoldeb
Prefix 'i'	£1,471,548.75	Cefnffyrdd
Arwystl Cyfreithiol / ystâd diweddar (S,S1,S2,SL)	£3,629,549.44	Cyllid Gofal
<i>Betsi Cadwaladr University</i>	£2,625,867.33	Oedolion

- 5.15 Serch hynny, deallir nad oes trefniadau adennill wedi'u ffurfioli ar gyfer y gweddill y ddyled (47%), ar gyfer adnabod pwy sydd yn atebol ar gyfer codi, adennill ac adrodd ar gweddill y dyledion. Mae'r diffyg yma yn golygu bod y Gwasanaeth Adennill, yn ddi-ofyn 'default' wedi derbyn y cyfrifoldeb dros y dyledion er nad oes ganddynt reolaeth dros y gweithdrefnau dilysu nac adennill y dyledion.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth Incwm gyda chefnogaeth Uwch Ymgynghorydd Ffordd Gwynedd wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth yn dynodi cyfrifoldebau gwasanaethau ynghyd â chyfrifoldebau Incwm i sicrhau bod y Cyngor yn adennill dyledion yn brydlon.**
- **Edrych ar awtomeiddio prosesau sydd nawr yn cael eu gweithredu ar law e.e. cyflwyno fformat biliau newydd, dosbarthiad y biliau, sefydlu trefniadau derbyn taliadau newydd a chreu adroddiadau i hwyluso'r drefn adennill.**
- **Adolygu anfonebau gyda Gwasanaethau perthnasol i ddilysu dyledion sydd ar y system.**
- **Cais i'r Tîm Rheoli i ystyried newid y drefn cofnodi/adnabod incwm fel bod y Gwasanaeth yn gallu penderfynu i wrthdroi'r incwm os nad yw'r incwm wedi cael ei dderbyn/adennill ar ôl cyfnod penodol o ddyddiad yr anfoneb.**
- **Cais i'r Tîm Rheoli i ail adolygu cyfrifoldebau adrodd ystadegau adennill sydd tu hwnt rheolaeth y Gwasanaeth Adennill.**

PRAESEPTAU**1. Cefndir**

- 1.1 Praesept yw'r dreth sy'n cael ei bennu gan Cyngorau Cymuned a'i godi ar anheddau o fewn eu hardal. Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am gasglu'r dreth yma drwy filiau Treth Cyngor, gan ystyried y nifer o anheddau sydd o fewn y gymuned, a'u band. Trosglwyddir yr arian i'r Cyngorau Cymuned mewn rhandaliadau o fewn y flwyddyn. Defnyddir y praesept i ariannu ystod eang o waith sydd tu hwnt i waith â wneir gan yr Awdurdod Lleol, megis cynnal mynwentydd, atgyweirio llochesi bws neu dorri gwair a chynnal llwybrau.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod praeseptau Cyngorau Tref a Chymuned yn cael eu gweinyddu yn briodol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r drefn o weinyddu'r praeseptau ar gyfer 2025/26, drwy adolygu'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y Cyngorau gan sicrhau bod y system Treth Cyngor yn cynhyrchu biliau cywir.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Detholwyd sampl ar hap o 20 Cyngor Cymuned er mwyn sicrhau eu bod wedi derbyn y praesept y gofynnir amdano, a bod trefniadau mewn lle fel bod Cyngor Gwynedd yn casglu'r dreth cywir oddi wrth yr anheddau, gan ystyried Sylfaen Drethiannol y gymuned.
- 4.2 Gwiriwyd cofnodion yr Uned Gyfrifeg a gwelwyd bod e-byst wedi eu hanfon allan i'r Cyngorau Cymuned cychwyn mis Rhagfyr 2024 gyda cais am ffigwr praesept i'w dychwelyd erbyn diwedd mis Ionawr 2025, ac egluro bydd y praesept yn cael eu dalu mewn dau randaliad. Darganfuwyd nad oedd rhai o'r Cyngorau Cymuned wedi ymateb o fewn yr amserlen dynodedig, ond gwelwyd bod yr Uned Gyfrifeg wedi cysylltu gyda hwy i'w hatgoffa.
- 4.3 Wrth dderbyn y wybodaeth gan y Cyngorau Cymuned, gwelwyd bod gwiriadau annibynnol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau cywirdeb o fewn yr Uned Gyfrifeg yn ogystal a'r Gwasanaeth Refeniw wrth drosglwyddo'r wybodaeth i'r System Treth Cyngor.

- 4.4 Y Sylfaen Drethiannol yw'r nifer damcaniaethol o anheddau y tybir eu bod o fewn Band D sydd mewn Cymuned. Cyfrifir y Sylfaen Drethiannol ar gyfer 2025/26 drwy adnabod y gwir nifer o anheddau ar y system Treth Cyngor ar y 31/10/24 a'i addasu yn unol a rhagamcan o newidiadau dros y 17 mis canlynol, wedi ei addasu eto i ystyried gostyngiadau perthnasol, gan drosi'r bandiau gwahanol i fod yn gyfystyr a Band D. Trafodwyd cyfrifiad y Sylfaen Drethiannol gyda'r Uned Treth Cyngor a dilynwyd sampl o'r ffigyrau yn ôl i'r system, a gwelwyd eu bod yn briodol.
- 4.5 Ar gyfer sampl a ddetholwyd, dilynwyd y praesept gofynnir amdano yn ôl i'r system Treth Cyngor, drwy rannu'r praesept gyda'r Sylfaen Drethiannol. Defnyddiwyd fformiwlâu er mwyn sicrhau bod paramedrau'r bandiau eraill o fewn y system – sy'n gyfraneddol i Band D, yn gywir. Gwiriwyd sampl o filiau Treth Cyngor a gwelwyd bod y ffigyrau yn gywir.

CYFRIFON AMGUEDDFA LLOYD GEORGE**1. Cefndir**

- 1.1 Mae Amgueddfa Lloyd George a cartref ei blentyndod, Highgate, Llanystumdwy, yn olrhain bywyd cyn Brîf Weinidog y DU. Gweinyddir yr amgueddfa, sy'n elusen gofrestredig, gan Gyngor Gwynedd gyda chymorth Cyfeillion yr Amgueddfa sy'n cefnogi a chynorthwyo datblygiad yr Amgueddfa a'i defnydd addysgiadol. Oherwydd bod yr elusen wedi uchafu trothwy incwm o £25,000, rhaid cyflwyno cyfrifon i'r Comisiwn Elusennau am 2024-25, gan gynnwys adroddiad archwiliwr annibynnol o'r cyfrifon.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cwblhau adroddiad archwiliwr annibynnol o gyfrifon yr Amgueddfa am y flwyddyn ariannol 2024-25, gan roi sicrwydd bod yr hyn a gyflwynir i'r Comisiwn Elusennau yn gywir. Gwnaethpwyd hyn drwy eu cysoni gyda chyfrifylfr y Cyngor, gan sicrhau bod yr holl drafodion yn berthnasol i'r Amgueddfa.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Darganfuwyd fod y cyfrifon ar gyfer 2024-25 yn briodol ac felly cwblhawyd adroddiad yr archwiliwr annibynnol er mwyn datgan hynny.

TAN Y MARIAN**1. Cefndir**

- 1.1 Mae Cartref Tan y Marian wedi ei leoli yn nhref Pwllheli ac wedi ei gofrestru i ddarparu gofal preswyl ar gyfer hyd at 9 o breswylwyr dros 18 oed sydd ag anableddau dysgu ac yn ei chael yn anodd byw yn annibynnol o fewn y gymuned, neu sydd wedi eu hasesu fel angen cefnogaeth.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	7
CANOLIG	8
ISEL	1

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Gwiriwyd Cynlluniau Gofal 3 preswlydd yn ystod yr ymweliad. Eglurwyd fod y rhain yn derbyn adolygiad blynyddol gan weithiwr cymdeithasol, yn ogystal ag adolygiadau mewnol yn fisol. Ar gyfer y 3 cynllun gofal a wiriwyd gwelwyd nad oedd adolygiadau misol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, gyda 1 cynllun heb dderbyn adolygiad misol ers 2024.

Nododd y Rheolwr fod cynnwys y cynlluniau yn gyfredol, a'u bod wedi bodloni gofynion y gweithiwr cymdeithasol sydd yn cynnal yr adolygiad blynyddol. Ar gyfer y 3 cynllun a wiriwyd, gwelwyd fod adroddiadau'r adolygiad blynyddol diweddaraf wedi eu dyddio 2024, 2018, ac 2014. Awgrymodd y Rheolwr fod adolygiadau wedi eu cynnal yn ddiweddar, ond nad oedd wedi argraffu'r adroddiadau ar gyfer eu cadw yn y cynlluniau. Cyn rhyddhau'r Adroddiad Drafft derbyniwyd tystiolaeth fod 2 o'r 3 cynllun wedi eu hadolygu o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

- 5.2 Ar un achlysur, gwelwyd nad oedd cofnod o eitemau personol preswylwyr yn bresennol yn eu cynllun gofal, gyda chofnodion dau breswilydd arall yn annigonol.
- 5.3 Gwelwyd nad oedd rhai o asesiadau risg unigol pob preswilydd, megis 'Bathio', 'Gwneud a Thywallt Paned', wedi eu hadolygu ers 2018. Roedd hyn yn wir am 2 allan o'r 3 cynllun gofal a wiriwyd. Anodd hefyd roedd canfod dyddiad yr adolygiad diwethaf, gyda staff y cartref yn llofnodi a dyddio mewn gwahanol fannau ar y ddogfen. Gwelwyd fod asesiadau risg generig y cartref yn gyfredol, wedi eu hadolygu yn y flwyddyn ddiwethaf, ond eto, nad oedd trefn ar ran llofnodi a dyddio.
- 5.4 Ers Hydref 2022 mae'n ofynnol i weithwyr cartrefi gofal oedolion gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Ar gyfer y sampl o 10 aelod staff gwiriwyd eu cofnodion hyfforddiant, ni welwyd fod 2 wedi cofrestru. Daethpwyd a hyn i sylw'r Rheolwr. Cadarnhawyd fod 1 bellach wedi gorffen gweithio oherwydd rhesymau meddygol, gyda'r aelod staff yn weddill wedi cofrestru yn ddiweddar.
- 5.5 O'r 4 aelod staff a ddetholwyd ar gyfer gwirio eu ffeiliau staff, gwelwyd fod 3 wedi eu goruchwyllo yn y mis diwethaf, er na'u gwerthuswyd ers 2024 cyn hynny. Ar gyfer yr aelod staff yn weddill, gwelwyd nad oedd wedi derbyn goruchwyliaeth ers Ebrill 2024, ble mae disgwyl eu cynnal pob tri mis..
- 5.6 Ni wiriwyd Cofrestr Eiddo'r cartref yn dilyn cadarnhad gan y Rheolwr nad oedd wedi ei adolygu ers 3 mlynedd.
- 5.7 Ar gyfer y 4 preswilydd gwiriwyd eu cofnodion arian poced, gwelwyd fod derbynebaw ar gyfer gwariant fan hufen ia ar goll ar sawl achlysur, fodd bynnag, o ystyried cyn lleied y gwariant, ac nad ydi faniau yn rhoi derbynebaw, tybir fod hyn yn dderbyniol.
- 5.8 Gwelwyd fod profion wedi eu cynnal ar y larwm a diffoddwyr tân ar wythnos yr ymweliad, fodd bynnag, roedd sawl prawf wedi ei fethu cyn hynny, gyda phroffion heb eu cynnal o gwbl am y cyfnod 08/05/25-20/06/25. Nodir fod disgwyl eu cynnal yn wythnosol.
- 5.9 Mae'r cartref yn cofnodi hyfforddiant staff yn fewnol ar daenlen bwrrpasol. Er i'r Rheolwr nodi fod y daenlen yn weddol gyfredol, gwelwyd nad oedd unrhyw hyfforddiant wedi eu nodi ar gyfer y Rheolwr na'r Dirprwy, gyda chofnodion gweddill y staff hefyd yn anghyflawn o'u cymharu â thystysgrifau a welwyd yn y cartref, a chofnodion ar System Swyddi Gwynedd. O'r 10 aelod staff a ddetholwyd ar gyfer gwirio eu hyfforddiant Cymorth Cyntaf, gwelwyd nad oedd unrhyw un wedi derbyn hyfforddiant ers 2018, ble mae disgwyl ei adnewyddu pob 3 mlynedd.

- 5.10 Yn yr un modd, cadarnhawyd ar System Swyddi Gwynedd nad oedd unrhyw un o'r 10 aelod staff a ddetholwyd wedi darllen unrhyw un o bolisiau'r Cyngor, gan gynnwys y Polisi Diogelu. Eglurodd y Rheolwr nad oedd gan y staff fynediad at y Ganolfan Bolisi, gyda chopi papur o'r Polisi Diogelu ar gael yn y cartref. Ni welwyd chwaith fod poster Diogelu wedi ei arddangos yn unman yn y cartref
- 5.11 Ymddengys nad yw pob aelod staff sydd yn darparu meddyginiaeth gyda hyfforddiant cyfredol. O'r 10 aelod staff a ddetholwyd ar hap ar gyfer gwirio eu cofnodion hyfforddiant, 7 yn unig sydd yn darparu meddyginiaeth. Er bod y 7 wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol yn y 3 mlynedd diwethaf, gwelwyd nad ydi unrhyw un wedi cwblhau prawf cymhwysedd yn y flwyddyn ddiwethaf.
- 5.12 Nid yw tymheredd yr ystafell feddyginiaeth yn cael ei fonitro yn ddyddiol fel y disgwyl. Gwiriwyd y cofnodion am fis Gorffennaf, ni gofnodwyd tymheredd ar gyfer 25/07/25.
- 5.13 Wrth ddychwelwyd meddyginiaeth, gwelwyd nad ydi'r cartref yn defnyddio ffurflenni 'Return of Medication', gan yn hytrach gofnodi manylion megis enw'r preswilydd, enw'r feddyginiaeth, nifer y feddyginiaeth a'r rheswm am waredu ar bapur A4. Bydd hwn yn cael ei lofnodi gan 2 aelod staff, a threfniadau yn cael eu gwneud i'r fferyllfa leol eu casglu. Gwelwyd nad oedd y fferyllfa yn llofnodi wrth gasglu, ac nad oedd unrhyw ddogfennaeth amgen yn tystio hynny. Nododd y Rheolwr mai dyma ydi'r drefn wedi bod ers blynnyddoedd, ac nad oedd y fferyllfa byth yn llofnodi. Eiliodd Rheolwr Darparu a Datblygol Anableddau Dysgu fod BCUHB hefyd yn fodlon gyda'r trefniadau.
- 5.14 Gwelwyd nad oedd y cartref yn cadw pob cofnod o ddigwyddiadau o ganlyniad i wall gyda meddyginiaeth gyda'i gilydd yn yr ystafell feddyginiaeth, ond yn hytrach yn ffeiliau unigol y preswylwyr perthnasol. Yn dilyn ymholi ar niferoedd y digwyddiadau eleni, ac i weld y cofnodion cyfatebol, cadarnhaodd y Rheolwr nad oedd yn ymwybodol o'r niferoedd, ond bod digwyddiad diweddar, ac y byddai'n dychwelwyd y dogfennau o ffeil y preswilydd, a'u cyflwyno i'r Archwiliwr. Fodd bynnag, ni ellid dod o hyd i'r cofnodion hyn.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Rheolwr wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Trefnu cyfarfod gyda'r staff perthnasol i'w hatgoffa o amllder adolygu cynlluniau gofal, ac i gadw cofnodion priodol, gan gynnal gwiriadau rheolaidd er mwyn darganfod unrhyw danberfformio.**
- **Sicrhau fod adroddiadau'r Adolygiadau Blynnyddol diweddaraf yn cael eu cadw yn y cynlluniau gofal.**
- **Sicrhau fod cofnod cyfredol o eiddo preswylwyr, ar ffurf rhestr neu luniau, yn cael ei gadw yn eu cynlluniau gofal.**
- **Atgoffa'r staff perthnasol o amllder adolygu asesiadau risg unigol, gan sefydlu trefn effeithiol ar gyfer cofnodi adolygiadau.**
- **Cadw cofnodion priodol o ddyddiadau cofrestru staff, gan fonitro'n rheolaidd ac atgoffa staff o bryd mae angen adnewyddu.**

- Llunio rota goruchwyliaeth a gwerthuso, gan sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth bob 3 mis, a gwerthusiad blynyddol.
- Sicrhau fod gan y cartref gofnod cyfredol a'i holl eiddo, gan drefnu adolygiad blynyddol, neu wrth brynu/gwaredu eitemau.
- Trefnu fod cynlluniau gofal preswylwyr yn cael eu cadw mewn man diogel, dan glo.
- Labelu pwrs arian poced pob preswlydd yn glir.
- Diweddarau'r daenlen hyfforddiant i gynnwys gwybodaeth gyfredol, gan sicrhau adnewyddu amserol o unrhyw hyfforddiant wedi dod i ben, yn benodol, Cymorth Cyntaf.
- Trefnu fod pob aelod staff yn darllen y Polisi Diogelu, a bod cofnodion priodol yn cael eu cadw o bawb sydd wedi gwneud.
- Arddangos poster 'Diogelu' mewn man priodol, ble bydd pob aelod staff yn ei weld.
- Sicrhau fod pob aelod staff sy'n darparu meddyginiaeth yn cwblhau hyfforddiant perthnasol mor fuan â phosibl, gan gynnwys profion cymhwysedd, a bod cofnod yn cael ei gadw ar daenlen hyfforddiant y cartref.
- Sicrhau fod pob aelod staff sydd yn gyfrifol am ddarparu meddyginiaeth yn darllen y Polisi Meddyginiaeth yn flynyddol, ac/neu pan fo unrhyw newid, gan gadw cofnodion priodol.
- Atgoffa'r staff perthnasol i gofnodi tymheredd yr ystafell feddyginiaeth yn ddyddiol.
- Sicrhau defnydd o'r ddogfennaeth gywir wrth waredu â meddyginiaeth.
- Creu ffolder pwrpasol ar gyfer cadw cofnodion o ddigwyddiadau, gan addysgu staff o'r trefniadau newydd, er mwyn galluogi gwell monitro ac adnabod patrymau.

Y FRONDEG**1. Cefndir**

- 1.1 Mae Cartref y Frondeg wedi ei leoli yn nhref Caernarfon ac wedi ei gofrestru i ddarparu gofal preswyl ar gyfer hyd at 11 o breswylwyr dros 18 oed sydd ag anableddau dysgu ac yn ei chael yn anodd byw yn annibynnol o fewn y gymuned, neu sydd wedi eu hasesu fel angen cefnogaeth.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	3
CANOLIG	7
ISEL	1

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Gwiriwyd Cynlluniau Gofal 3 preswlydd yn ystod yr ymweliad. Eglurwyd fod y rhain yn derbyn adolygiad misol gan weithwyr allweddol, sy'n cofnodi unrhyw newid i gyflwr neu ymarferion y preswlydd ar 'post-it', gyda'r Rheolwr wedyn yn mewnbynnu'r wybodaeth ar gofnodion electronig, gan argraffu copi cyfredol ar gyfer y cynllun. O'r 3 cynllun a wiriwyd, 1 yn unig roedd wedi ei adolygu yn fisol am 2025, 1 heb ei adolygu ers Mawrth 2025, a'r llall heb unrhyw gofnod iddo gael ei adolygu o gwbl yn 2025.

Nododd Rheolwr Darparu a Datblygol Anabledd Dysgu mai'r gofyniad statudol yw i adolygu'r cynlluniau pob 3 mis, ond fod y cartref yn cynnal diweddariadau misol fel ymarfer da.

- 5.2 Gwelwyd nad oedd rhai o asesiadau risg unigol pob preswlydd, megis 'Allan yn y Gymuned', 'Trafeilio yn y Car', ac 'Diffyg Maeth a Dadhydradiad', wedi eu hadolygu ers 2024, ble mae disgwyl eu hadolygu pob 6 mis. Roedd hyn yn wir am y 3 cynllun gofal a wiriwyd. Yn yr un modd, gwelwyd mai ond 1 o asesiadau risg generig y cartref sy'n gyfredol, gyda'r gweddill heb eu hadolygu ers dros flwyddyn.
- 5.3 O'r 4 aelod staff a ddetholwyd ar gyfer gwirio eu ffeiliau staff, gwelwyd mai ond 1 sydd wedi ei goruchwyllo o fewn y 3 mis diwethaf. Ar gyfer y 3 yn weddill, ni chawsant eu goruchwyllo ers 2024. Mae 1 o'r 4 wedi ei gwerthuso yn y flwyddyn ddiwethaf, gydag 1 arall heb ei gwerthuso ers 2023. Ni welwyd tystiolaeth fod unrhyw un o'r 2 arall erioed wedi eu gwerthuso, er yn gweithio yn y cartref ers rhai blyneddod.
- 5.4 Ar gyfer un sampl o 4 aelod staff, gwiriwyd hefyd fod yr oriau a weithiwyd am fis Gorffennaf yn cytuno gyda'r hyn wedi ei gyflwyno i'r Gwasanaeth Cyflogau. Gwelwyd anghysondebau ar gyfer 2 aelod staff am wythnos yn diweddu 26/07/24, ble bod yr oriau a gyflwynwyd i'r Gwasanaeth Cyflogau yn llai 'na'r hyn weithiwyd, o hanner awr i 1 aelod staff, ac 1.5 awr ar gyfer y llall. Ymchwiliodd y Rheolwr Cynorthwyl i hyn yn fanwl yn ystod yr ymweliad gan ddod i'r canlyniad bod camgymeriad wedi digwydd, a byddai'n trefnu cywiriad yng nghyflogau nesaf yr aelodau staff dan sylw.
- 5.5 Gwelwyd nad oedd Cofrestr Eiddo'r cartref wedi ei adolygu ers 2023.
- 5.6 Detholwyd 4 preswlydd ar hap ar gyfer gwirio eu cofnodion arian poced. Ar bob achlysur roedd swm yr arian oddi fewn y pwrs yn cytuno gyda chofnodion y cartref. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd llawer o drafodion o gwbl. Eglurwyd fod 10 preswlydd yn y cartref ar hyn o bryd, ac mai'r Cyngor sydd â chyfrifoldeb dros arian 7 ohonynt. Gwelwyd fod y cartref yn cadw cofnod o wariant ar y cardiau, cofnod ar wahân ar gyfer pob preswlydd (ffurflenni E11). Fe nodir dyddiad y gwariant a'r cyfanswm, gan atodi'r dderbynneb, gydag aelod staff yn llofnodi.
- 5.7 Gwelwyd nad oedd staff yn llofnodi'r llyfr ymwelwyr ar bob achlysur wrth adael y cartref. Er yn cadarnhau amser gadael, nid oedd llofnod ar sawl achlysur am fis Medi.
- 5.8 Mae'r cartref yn cofnodi hyfforddiant staff yn fewnol ar daenlen bwrpasol. Er i'r Rheolwr nodi fod y daenlen yn gyfredol, gwelwyd nad oedd unrhyw hyfforddiant wedi ei nodi ar gyfer rhai aelodau staff, gydag eraill heb eu cynnwys ar y daenlen o gwbl. O'r 10 aelod staff a ddetholwyd ar gyfer gwirio eu cofnodion hyfforddiant, gwelwyd fod 4 heb hyfforddiant tân cyfredol, a 3 heb hyfforddiant Symud a Thrin, nac hyfforddiant Cymorth Cyntaf cyfredol.

- 5.9 Cadarnhawyd ar System Swyddi Gwynedd nad oedd unrhyw un o'r 10 aelod staff a ddetholwyd wedi darllen unrhyw un o bolisiâu'r Cyngor, gan gynnwys y Polisi Diogelu. Eglurodd y Rheolwr nad oedd gan y staff fynediad at y Ganolfan Bolisi, gyda chopi papur o'r Polisi Diogelu ar gael yn y cartref. Nodwyd fod gan staff fynediad at hunanwasanaeth, ac felly'r Porth E-ddysgu. Gwelwyd fod y 10 aelod staff dan sylw wedi cwblhau sawl un o fodiwlau mandadol y Cyngor.
- 5.10 Nid yw tymheredd yr oergell yn yr ystafell feddyginiaeth yn cael ei gofnodi yn gywir ar bob achlysur. Nodwyd yn Archwiliad Allanol Meddyginiaethau GIG ar 25/06/25 nad oedd yr isafswm nac uchafswm tymheredd yn cael ei gofnodi. Gwelwyd fod y cartref wedi prynu thermomedr newydd ers hynny, sy'n cyfrifo'r gwahanol dymheredd. Bellach, mae thermomedr newydd, symlach wedi ei osod.
- 5.11 Er yn cadw cofnodion priodol o ddigwyddiadau o ganlyniad i wall meddyginiaeth, mae'r cofnodion yn cael eu cadw yn electronig yn unig, ar ffeiliau personol y preswylwyr felly roedd yn anodd cadarnhau sawl achos sydd wedi bod yn 2025.
- 5.12 Gwelwyd fod gan y Cartref Ddatganiad o Ddiben cynhwysfawr, ond nad ydyw wedi ei gyflwyno i'r safon a ddisgwylir gan yr Awdurdod.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Rheolwr wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Trefnu cyfarfod gyda'r staff perthnasol i'w hatgoffa o amllder adolygu cynlluniau gofal, ac i gadw cofnodion priodol, gan gynnal gwiriadau rheolaidd er mwyn darganfod unrhyw danberfformio.
- Diweddarau cynlluniau gofal yn rheolaidd i osgoi gwybodaeth yn cael ei golli.
- Atgoffa'r staff perthnasol o amllder adolygu asesiadau risg generig ac unigol.
- Ymdrechu i gadw at y rota goruchwyliaeth a gwerthuso, gan sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth bob 3 mis, a gwerthusiad blynyddol.
- Parhau i hyfforddi Gofalwr Uwch i'w galluogi i gynnal goruchwyliaeth.
- Sicrhau cywirdeb wrth gyflwyno'r oriau a weithiwyd i'r Gwasanaeth Cyflogau.
- Sicrhau fod gan y cartref gofnod cyfredol o'i holl eiddo, gan drefnu adolygiad blynyddol, neu wrth brynu/gwaredu eitemau.
- Gwirio balansau banc ar-lein yn rheolaidd, gan gynnal cysoniadau gyda'r derbynebau gwariant.
- Trefnu fod poster yn cael ei roi wrth y llyfr ymwelwyr yn atgoffa pawb i arwyddo a chadarnhau amser wrth adael.
- Sicrhau fod yr aelodau staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant Cymorth Cyntaf, a Symud a Thrin mor fuan â phosibl.
- Trefnu fod pob aelod staff yn darllen y Polisi Diogelu, a bod cofnodion priodol yn cael eu cadw o bawb sydd wedi gwneud.
- Creu ffolder pwrpasol ar gyfer cadw cofnodion o ddigwyddiadau, gan addysgu staff o'r trefniadau newydd, er mwyn galluogi gwell monitro ac adnabod patrymau.
- Adolygu safon cyflwyno Datganiad o Ddiben.

DILYNIANT PLAS PENGWAITH**1. Cefndir**

- 1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Cartref Plas Pengwaith fel rhan o gynllun 2024/25, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Rhoddwyd lefel sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad, hynny yw, er bod rheolaethau mewn lle, roedd angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau a adnabuwyd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion a dogfennaeth gefnogol, yn ogystal â chynnal ymweliad safle.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	3
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Ymwelwyd â'r cartref 04/09/25. Yn dilyn canu'r gloch wrth y fynedfa, caniatwyd mynediad i'r Archwiliwr gan breswilydd. Er yn dderbyniol yn gyfreithiol, heb unrhyw aelod staff yn bresennol tybir fod risg i unrhyw bersonau anawdurdodedig gael mynediad, ac nad oes cofnod digonol o bawb sydd yn yr adeilad er dibenion tân. Eglurwyd fod cloch y brif fynedfa wedi ei chlywed, ond na aeth y Rheolwr at y drws gan ei bod yn ymwybodol y byddai'r preswilydd yn ei agor.

- 5.2 O'r 5 gweithrediad a gytunwyd o'r archwiliad gwreiddiol, gwelwyd mai un yn unig sydd wedi ei weithredu, adroddir y casgliadau isod.
- 5.3 Cadarnhawyd fod disgwyl i gynnal goruchwyliaeth gydag aelodau staff pob 3 mis, yn ogystal â gwerthusiad blynyddol. Gwelwyd fod y Rheolwr wedi llunio rota pwrpasol ar gyfer trefnu fod pawb yn derbyn sesiynau yn amserol, fodd bynnag, nodwyd ei fod yn anodd rhyddhau staff i allu eu cynnal. O'r 4 aelod staff a ddetholwyd ar gyfer gwirio eu cofnodion, gwelwyd fod 2 heb eu gwerthuso ers dros flwyddyn, heb unrhyw gofnod fod y 2 arall erioed wedi derbyn gwerthusiad. O ran goruchwyliaeth, ni welwyd fod 2 wedi eu goruchwyllo ers 08/11/24 ac 01/03/23. Er bod y 2 yn weddill wedi derbyn goruchwyliaeth o fewn y 3 mis diwethaf, cyn hynny, ni chawsant eu goruchwyllo ers 06/02/24 ac 22/06/23. Roedd hyn eisoes wedi ei amlygu yn yr archwiliad llawn, yn ogystal â gan Sicrwydd Ansawdd yn eu hadroddiadau yn dilyn ymweliadau ar 05/02/24 ac 19/05/25.
- 5.4 Gwelwyd fod y Clerc bellach yn cadw cofnod o dyddiad codi archebion. Ar gyfer y sampl o 10 anfoneb a ddetholwyd rhwng y cyfnod 01/04/25-19/08/25, gwelwyd fod archeb wedi ei godi ar bob achlysur cyn derbyn yr anfoneb, â'r anfonebau oll wedi eu cofnodi yn gywir, a'u talu yn amserol.
- 5.5 Yn dilyn gwirio'r Llyfr Log Tân, gwelwyd nad oedd profion yn cael eu cynnal yn amserol ar bob achlysur. Ni welwyd fod y diffoddwyr tân wedi eu profi ers 26/06/25, ble mae disgwyl eu cynnal yn wythnosol. Yn ogystal, er bod y llwybrau dianc wedi eu gwirio o fewn wythnos i ddyddiad yr ymweliad, gwelwyd fod 7 wythnos wedi eu methu rhwng y cyfnod 13/03/25-04/09/25. Gwelwyd hefyd nad oedd cofnodion yn cael eu dyddio ar bob achlysur, yn ei wneud yn anodd cadarnhau pryd yn union cynhaliwyd y profion.
- 5.6 Cadarnhawyd fod staff nos yn gyfrifol am gynnal gwiriadau stoc ar feddyginiaethau wrth gefn, h.y. meddyginiaethau cyflawn, heb eu hagog, a hynny yn wythnosol. Nodwyd fod aelodau staff yn cadw 'running count' o feddyginiaethau wedi eu hagog/ar ddefnydd, a hynny ar bob achlysur yn dilyn darparu'r feddyginiaeth, gan nodi'r ffigwr ar y ffurflen MAR ('Medication Administration Record'). Gwelwyd fod gwiriadau ar y meddyginiaethau wrth gefn yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn amserol. Fodd bynnag, o'r sampl o 7 gwahanol feddyginiaeth ar ddefnydd a wiriwyd (ar gyfer 5 gwahanol breswlydd), gwelwyd nad oedd 'running count' wedi ei gadw o gwbl ar gyfer 2, ac felly nad oedd cofnodion y cartref yn ddigonol i alluogi cadarnhau fod y nifer cywir o dabledi yn bresennol. Gwelwyd fod hyn yn wir hefyd ar gyfer sawl meddyginiaeth a wiriwyd ar hap, nad oeddynt yn rhan o'r sampl a ddetholwyd. Nododd y Rheolwr ei bod wedi trafod y mater yn ddiweddar yn y cyfarfodydd staff. Cadarnhawyd y byddai ffurflenni MAR newydd yn cael eu paratoi yn syth, a'r nifer o feddyginiaethau yn bresennol yn cael eu cofnodi. Nodir fod Archwiliad Meddyginiaeth allanol wedi ei gynnal 20/06/25 hefyd ble nodwyd nad oedd meddyginiaethau a oedd eisoes wedi eu darparu wedi eu cofnodi ar y ffurflenni MAR.

- 5.7 Gwelwyd fod thermomedr newydd yn yr ystafell feddyginiaeth erbyn hyn, a bod y tymheredd o fewn y graddfeydd cywir ar bron pob achlysur. Fodd bynnag, mae achosion y parhau ble nad ydi tymheredd yr ystafell na'r oergell yn cael eu cofnodi yn ddyddiol fel y disgwyl. Nodwyd hyn hefyd yn Archwiliad Meddyginiaeth allanol 20/06/25.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Rheolwr wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sicrhau fod profion tân yn cael eu cynnal yn amserol, a'u cofnodi yn briodol, gan ystyried dyrannu'r dasg i aelod staff penodol.**
- **Sicrhau fod cofnodion priodol yn cael eu cadw o feddyginiaethau sydd ar ddefnydd, gan atgoffa staff o'r angen i gofnodi'r nifer cywir o feddyginiaethau ar y taflenni MAR ar bob achlysur wrth ddarparu meddyginiaeth.**
- **Atgoffa staff nos i wirio a chofnodi tymheredd yr oergell a'r 'stafell feddyginiaeth yn ddyddiol, gan gynnal gwiriadau rheolaidd.**
- **Ymdrechu i gadw at y rota goruchwyllo a gwerthuso, gan sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn sesiynau yn amserol, a bod unrhyw sesiynau wedi eu methu yn cael eu hail drefnu yn brydlon.**
- **Sicrhau fod unrhyw argymhellion neu ddarganfyddiadau yn deillio o archwiliadau mewnol ac allanol yn derbyn sylw o fewn yr amserlen nodwyd.**

DILYNIANT LLYS CADFAN**1. Cefndir**

- 1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Cartref Llys Cadfan fel rhan o gynllun 2024/25, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Rhoddwyd lefel sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad, hynny yw, er bod rheolaethau mewn lle, roedd angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau a adnabuwyd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu cofnodion a dogfennaeth gefnogol, yn ogystal â chynnal ymweliad safle.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	4
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 O'r 8 gweithrediad a gytunwyd o'r archwiliad gwreiddiol, gwelwyd mai 4 sydd wedi eu gweithredu, adroddir y darganfyddiadau isod.
- 5.2 Gwelwyd fod Datganiadau o Ddiben y cartref, y fersiwn Gymraeg a'r Saesneg, er yn cynnwys yr holl wybodaeth ddisgwyliedig, yn parhau heb ei gyflwyno i'r safon ddisgwyliar gan yr Awdurdod, gyda maint a steil y ffont yn amrywio drwy'r ddogfen, prif lythrennau yng nghanol brawddegau, a phenawdau heb eu hamlygu.

- 5.3 Er i'r Rheolwr gadarnhau fod Cofrestr Eiddo'r cartref yn derbyn adolygiad blynyddol, ni ellid dod o hyd i'r gofrestr yn ystod yr ymweliad ar gyfer ei gyflwyno i'r Archwiliwr.
- 5.4 Gwelwyd nad oedd y llyfr ymwelwyr yn cael ei gwblhau ar pob achlysur. Ar gyfer mis Medi 2025, gwelwyd nifer fawr o achlysuron ble nad oedd staff nac ymwelwyr wedi llofnodi, na chadarnhau amseroedd cyrraedd na gadael. Eglurodd y Rheolwr, yn dilyn yr archwiliad llawn llynedd, ei bod wedi llunio poster a'i arddangos wrth y llyfr yn atgoffa pawb i gwblhau pob adran yn gywir. Fodd bynnag, roedd y poster wedi ei dynnu i lawr yn ddiweddar ar gyfer gwaith addurno.
- 5.5 Mae asesiadau risg generig y cartref yn cael eu cadw yn electroneg, gyda copïau papur hefyd ar gael mewn ffolder er mwyn caniatáu gwell mynediad i staff. Gwelwyd nad oedd nifer o asesiadau, megis 'Meddyginiaeth', 'Llithro, Baglu a Chwyrmpo', a 'Celf a Chrefft', wedi eu hadolygu ers dros flwyddyn.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Rheolwr wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Adolygu safon cyflwyno Datganiad o Ddiben.**
- **Sicrhau fod gan y cartref gofnod cyfredol o'i holl eiddo, gan drefnu adolygiad blynyddol, neu wrth brynu/gwaredu eitemau.**
- **Trefnu fod poster yn cael ei roi wrth y llyfr ymwelwyr yn atgoffa pawb i arwyddo a chadarnhau amseroedd cyrraedd a gadael.**
- **Atgoffa'r staff perthnasol o amllder adolygu asesiadau risg generig, gan gynnal gwiriadau rheolaidd i sicrhau fod adolygiadau wedi eu cwblhau yn amserol.**

DILYNIANT PLAS HAFAN**1. Cefndir**

- 1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Cartref Plas Hafan fel rhan o gynllun 2024/25, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Rhoddwyd lefel sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad, hynny yw, er bod rheolaethau mewn lle, roedd angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau a adnabuwyd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu cofnodion a dogfennaeth gefnogol, yn ogystal â chynnal ymweliad safle.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	2
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 O'r 7 gweithrediad a gytunwyd o'r archwiliad gwreiddiol, gwelwyd mai 5 sydd wedi eu gweithredu, adroddir y casgliadau isod.
- 5.2 Cedwir cynlluniau gofal mewn cypyrddau yn y cyntedd. Ble gynt roedd yr allweddi yn cael eu cadw ar fachyn uwchben, ble roedd gan bob ymwelydd i'r cartref fynediad, erbyn hyn, gwelwyd fod sêff allweddi wedi ei leoli ger pob cwpwrdd, gyda phob aelod staff yn ymwybodol o'r côd. Fodd bynnag, wrth gerdded o amgylch y cartref, gwelwyd fod un cwpwrdd ar agor, gyda'r allweddi yn y clo. Eglurodd y Rheolwr fod staff wrthi'n diweddarau'r cynlluniau yn yr ystafell drws nesaf a rheswm fod drws y cwpwrdd ar agor.

- 5.3 Detholwyd sampl o 4 aelod staff, gan wirio fod yr oriau ar eu cyfer ar y 'rota' waith am gyfnod o 3 wythnos rhwng 06/07/25-26/07/25, yn cytuno gyda'r daenlen a gyflwynwyd i'r Gwasanaeth Gyflogau. Ni ellid cysoni oriau un aelod staff o gwbl, gyda chofnodion y cartref yn cadarnhau oriau cytundeb o 21 awr yr wythnos ar ei chyfer, ond y daenlen yn nodi cytundeb o 14 awr. Eglurwyd fod yr aelod staff dan sylw wedi cwtogi ei horiau o 21 lawr i 14, ond nad oedd hynny'n weithredol hyd 27ain o Orffennaf. Nododd y Rheolwr nad oedd wedi sylweddoli fod yr oriau cytundeb wedi eu newid ar y daenlen cyn hynny, gan ychwanegu mai y Gwasanaeth Cefnogol sydd yn gyfrifol am addasiadau tebyg. Cadarnhaodd y Gwasanaeth Cefnogol eu bod wedi gweithredu'r newid mewn oriau yn unol â chais yr aelod staff, sef ers 27ain o Orffennaf. Gofynnwyd felly pam fod y daenlen ddyddiedig 6ed o Orffennaf yn cadarnhau oriau cytundeb o 14 awr yn hytrach 'na 21 awr. Ni dderbyniwyd ymateb erbyn rhyddhau'r adroddiad drafft. Gwiriwyd slip cyflog yr aelod staff dan sylw ar system CYBORG (system Gyflogau), slip cyflog mis Awst, sef cyflog am yr oriau a weithiwyd am fis Gorffennaf, gyda hwnnw hefyd yn cadarnhau tâl sylfaenol yn seiliedig ar oriau cytundeb o 14 awr. Mae tebygolrwydd nad yw'r aelod staff wedi sylweddoli ar y camgymeriad gan fod ôl-daliad cyflog wedi ei dalu i bob aelod staff y Cyngor y mis hwnnw hefyd. Cyflwynwyd yr holl dystiolaeth i Reolwr y Cartref ar gyfer ymchwilio, gan awgrymu fod unrhyw oriau dyledus yn cael eu talu i'r aelod staff mor fuan â phosibl.
- 5.4 O'r 10 aelod staff a ddetholwyd ar gyfer gwirio eu cofnodion hyfforddiant, gwelwyd fod yr aelodau staff perthnasol oll wedi cwblhau hyfforddiant Tân, Cymorth Cyntaf, Symud a Thrin, a Meddyginiaeth o fewn y 3 mlynedd diwethaf.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Rheolwr wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Atgoffa staff i gloi'r cypyrddau ble cedwir cynlluniau gofal ar bob achlysur, gan gadw'r allwedd yn y sêff.**
- **Ymchwilio i anghysondeb yn yr oriau a dalwyd i un aelod staff, gan ymgynghori gyda'r Gwasanaeth Cefnogol, a sicrhau fod unrhyw oriau dyledus yn cael eu talu mor fuan â phosibl.**

TALIADAU UNIONGYRCHOL

1. Cefndir

- 1.1 Gwnaethpwyd 1,941 o Daliadau Uniongyrchol am y cyfnod Ebrill i Awst 2025 gyda swm cyfwerth â £2.1miliwn. Mae anogaeth i gynyddu'r niferoedd dros y blynyddoedd diwethaf i leihau'r ddibyniaeth ar ofal traddodiadol drwy'r Cyngor. Caiff Taliadau Uniongyrchol (TU) eu talu i berson cymwys drwy cwrdd â meini prawf ac asesiad gan y Gwasanaeth Cymdeithasol. Mae Tîm Taliadau Uniongyrchol yn gweithredu ar geisiadau TU a gyfeiriwyd gan y Gwasanaeth Cymdeithasol ar gyfer Oedolion a Phlant ac yn ddarparu cefnogaeth i'r Gweithwyr Cymdeithasol.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i brosesu Taliadau Uniongyrchol (TU) a gwirio cydymffurfiaeth â'r rheoliadau perthnasol megis Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau prosesu ceisiadau am daliadau uniongyrchol i sicrhau eu bod wedi cael eu prosesu yn amserol ac yn gywir yn erbyn yr asesiad gofal, adolygu trefniadau monitro, cofnodion ariannol a chynlluniau gofal i gefnogi'r taliadau uniongyrchol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Ar sail gweithrediadau hyd yma a'r cynlluniau sydd ar y gweill y disgwylir fydd yn weithredol erbyn Ionawr 2026, mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr interim archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	3
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Cynhaliwyd y cyfarfod cychwynnol ym mis Gorffennaf 2025 a darganfuwyd bod y Gwasanaeth wedi bod drwy trawsnewid dros y blynyddoedd diwethaf ac yn parhau i weithredu ar gynlluniau newydd ers penodiad y Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Ariannol yn Tachwedd 2022. Nodwyd bod llawer o welliannau ar y gweill ac o ganlyniad bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal a'i adrodd mewn dau rhan. Mae rhan un o'r archwiliad yn adrodd ar y risgiau adnabuwyd hyd yma a bydd rhan dau yn adrodd ar y gweithrediadau a rhagwelir fydd yn weithredol / wedi eu cwblhau erbyn diwedd Ionawr 2026 ac unrhyw risgiau pellach fydd angen eu lliniaru, ble maen berthnasol.
- 5.2 Mae cynnydd yn y niferoedd sydd yn derbyn TU ac ymddengys bod gweithwyr cymdeithasol yn rhoi cefnogaeth reolaidd drwy cysylltiad, ymweliadau a sgysiau ar daith. Mae'r gweithrediadau yma yn codi ymwybyddiaeth o daliadau uniongyrchol ac yn galluogi'r gweithwyr cymdeithasol argymhell ble'n briodol, darpariaeth gofal drwy TU i'w cleientiaid, egluro sut mae TU yn gweithio, eu hannog a'u cefnogi yn effeithiol.
- 5.3 Ar gyfer yr archwiliad, detholwyd sampl o daliadau uniongyrchol 'managed' a rhai 'non-managed'. Gwiriwyd y sampl i sicrhau bod y Gwasanaeth TU wedi derbyn cynllun gofal neu gyfarwyddiadau gan y Gweithwyr Cymdeithasol gyda asesiad o'r oriau gofal. O'r sampl a wiriwyd, gwelwyd bod cyfarwyddiadau priodol a bod y taliadau wedi cael eu prosesu'n gywir. Ble gwelwyd bod gwahaniaeth yn y cynllun gofal, eglurodd y Swyddog TU bod cleientiaid wedi methu cyflogi gofalwr ac felly yn hawlio llai o oriau na'r hyn sydd yn deilwng iddynt.
- 5.4 Wrth wirio'r sampl, amlygwyd nad oedd adolygiadau rheolaidd (o leiaf unwaith y flwyddyn) o'r cynlluniau gofal. Mynegodd y Swyddog Taliadau Uniongyrchol nad oedd yn derbyn pob cynllun yn dilyn adolygiad gan y gweithwyr cymdeithasol, ond ar gyfer rhai ble mae newidiadau yn effeithio'r TU er bod posibilrwydd nad yw rhai yn derbyn adolygiad blynyddol. Cadarnhawyd bod gweithdrefn wedi cael ei sefydlu yn ddiweddar ar gyfer adnabod ble mae cyfansymiau uchel o TU wedi'u cronni yng nghyfrifon banc unigolion, sydd yn awgrymu nad yw'r arian yn cael ei ddefnyddio a bod y gweithwyr cymdeithasol yn cynnal adolygiad i gadarnhau y rhesymau/sefyllfa y cleient er mwyn gallu gwneud y penderfyniad i adennill y taliadau. Ar gyfer TU sydd yn cael eu rheoli 'managed' yn unig mae hyn yn weithredol ar hyn o bryd oherwydd hwylustod i wirio'r mantolenni banc drwy'r cwmnïoedd trydydd parti. Ar gyfer y 'non-managed', mae'n ddibynnol ar barodrwydd yr unigolyn sydd yn derbyn y TU i ddarparu'r mantolenni yn brydlon ar gyfer cynnal gwiriadau.
- 5.5 Cyfrifoldeb y Gweithwyr Cymdeithasol yw dilysu ceisiadau gofal a'r Tîm Cyllid Gofal sydd yn cynnal asesiad ariannol ar y client i adnabod os yw'r unigolion angen cyfrannu tuag at eu cynllun gofal. Mae'r gweithwyr cymdeithasol yn cyfeirio unrhyw geisiadau TU i'r Swyddog TU i'w gweithredu a derbynnir taliad ar sail yr oriau a aseswyd. Mae pob taliad yn cael ei dalu yn gros i gyfrifon TU.

Bydd unrhyw addasiadau h.y. os yw'r unigolyn yn gyfrifol am gyfrannu tuag at eu costau gofal, yna mae anfoneb yn cael ei godi gan Tîm Cyllid Gofal yn dilyn prosesu'r taliadau gan y Swyddog TU, sydd yn cael ei cofnodi ar system WCCIS.

- 5.6 Eglurodd y Rheolwr Adnoddau bod y taliadau yn cael eu prosesu pob mis ar rediadau sydd yn cael ei lwytho gan TG a'u rhwngwynebu i system taliadau'r Cyngor. Derbyniwyd mynediad i'r rhediadau misol a gwelwyd bod modd cysoni i brif daenlen gan y Swyddog Taliadau. Gwelwyd mai'r Swyddog TU sydd yn gyfrifol am brosesu'r taliadau gyda'r Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Ariannol yn cymeradwyo'r taliadau.
- 5.7 Nodwyd nad oedd unrhyw cytundeb ffurfiol gyda thermau ac amodau mewn lle i gleientiaid TU cyn derbyn unrhyw daliadau. Mynegodd y Rheolwr Adnoddau bod hyn hefyd yn rhwystr ar gyfer cynnal gwaith monitro defnydd TU, ac o'i herwydd, mae cytundeb wedi cael ei ddrafftio ac yn ganol cael ei adolygu gan y Gwasanaeth Cyfreithiol (Awst 2025).
- 5.8 I hwyluso'r drefn monitro, adroddodd y Rheolwr Adnoddau a Chynllunio Ariannol bod y gwasanaeth wedi penderfynu gweithredu ar 'prepaid cards' yn hytrach na gadael i gleientiaid agor cyfrifon eu hunain yn y dyfodol. Bwriedir i drosglwyddo pob cleient i 'prepaid cards' sydd yn caniatáu i'r Cyngor dderbyn mynediad uniongyrchol at y mantolenni banc i'w archwilio pe bai angen yn y dyfodol.
- 5.9 Ni welwyd unrhyw ddogfennaeth ffurfiol wedi cael ei ddosbarthu i gleientiaid TU sydd yn amlygu cyfrifoldebau'r client a chyfyngiadau gwario. Oherwydd y diffyg yma, mae risg bod cleientiaid TU ddim yn ymwybodol/gweithredu'n briodol.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Dosbarthu cytundeb taliadau uniongyrchol gyda llythyr eglurhad i gleientiaid TU i'w cytuno.**
- **Cyfrifoldebau yn cael eu cyfathrebu drwy lythyr a chytundeb ffurfiol i sicrhau bod cleientiaid yn ymwybodol o ddisgwyliadau rheoli TU.**
- **Sefydlu trefniadau a chynllun ar gyfer monitro gwariant TU yn rheolaidd.**
- **Meddiannu mantolenni banc cleientiaid sydd â balansau uchel TU a chynnal ymholiadau gyda'r gweithwyr cymdeithasol ar gyfer adolygu'r cynlluniau gofal.**
- **Sefydlu trefniadau darparu a throsglwyddo cleientiaid i ddefnyddio 'prepaid cards'.**
- **Cynnal gwiriadau dilysu gwariant TU.**

CEGIN ARFON**1. Cefndir**

- 1.1 Mae gan y Gwasanaeth Anabledd Dysgu nifer o hybiau cymunedol ar draws Gwynedd, yn eu plith, Cegin Arfon. Yn y lleoliad yma, mae unigolion gydag anableddau dysgu yn derbyn cyfleoedd gwaith ac yn dysgu sgiliau newydd mewn ffordd sy'n agored i'r gymuned. Mae'r caffi wedi ei leoli yng Nghanolfan Hamdden Arfon ac yn gwerthu diodydd, cacennau a phrydau ysgafn.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y canolfannau anabledd dysgu yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu ymweld â sampl o ganolfannau a gwirio bod trefniadau yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	2
CANOLIG	4
ISEL	1

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Ymwelwyd â'r caffi ar brynhawn Gwener, 7fed o Dachwedd 2025. Nid oedd defnyddwyr gwasanaeth yn bresennol. Gwelwyd fod y caffi yn lân a threfnus, a staff yn ymgysylltu â chwsmeriaid mewn modd dymunol.

- 5.2 Gwelwyd nad oedd y caffi yn cadw cofrestr o staff na defnyddwyr ar y safle. Eglurodd Arweinydd Gwasanaeth Cefnogol Anabledd Dysgu mai criw bychan iawn o staff a defnyddwyr sydd ar y safle ar unrhyw adeg.
- 5.3 Cadarnhawyd fod disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant Hylendid Bwyd pob 3 mlynedd. Gwiriwyd cofnodion pob aelod staff (4 i gyd), ble gwelwyd nad oedd un wedi cwblhau hyfforddiant ers 2020. Gwelwyd hefyd nad oedd y staff wedi cwblhau llawer o fodiwlau E-ddysgu mandadol y Cyngor, heb unrhyw un wedi derbyn y Polisi Diogelu. Erbyn rhyddhau'r adroddiad drafft, cadarnhawyd fod yr aelod staff perthnasol wedi cychwyn cwrs Hylendid Bwyd, a bod matrices hyfforddiant yn cael ei ddatblygu i alluogi gwell monitro.
- 5.4 Ni welwyd fod Cofrestr Eiddo yn cael ei gadw. Fodd bynnag, gwelwyd fod cofrestr briodol wedi ei greu cyn rhyddhau'r Adroddiad Drafft.
- 5.5 Cyn yr ymweliad, allforiwyd data o'r cyfrifylfr mewn perthynas â gwariant y Gegin, gan ddethol sampl o 10 trafodiad a gofyn i weld yr anfonebau cyfatebol. Daethpwyd yn amlwg yn fuan yn yr archwiliad, oherwydd trafferthion dod o hyd i'r anfonebau, nad oedd trefniadau cofnodi, archebu, na thalu am nwyddau digonol mewn lle. Cytunodd yr Arweinydd fod yr archwiliad wedi bod yn agoriad llygad, ac erbyn yr ymweliad roedd wedi sefydlu system effeithiol o gofnodi a chadw anfonebau gyda'i gilydd yn drefnus. Cadarnhawyd erbyn rhyddhau'r Adroddiad Terfynol fod Clerc ar gael i gefnogi'r Gegin erbyn hyn.
- 5.6 Yn ystod yr ymweliad gofynnwyd i weld cofnodion incwm y Gegin am gyfnod o wythnos ddiwedd mis Hydref 2025. Ar bob achlysur roedd yr arian ac incwm o'r peiriant PDQ yn cytuno gyda derbynebau diwedd dydd o'r til. Fodd bynnag, gwelwyd anghysondeb yn nhrefniadau bancio'r Gegin.
- 5.7 Cadarnhawyd nad oedd staff yn derbyn gwerthusiad blynyddol o gwbl, ac nad oedd yr Arweinydd yn llwyddo i gynnal goruchwyliaeth bob 3 mis fel y disgwyl.

6. Camau Gweithredu

Mae Arweinydd Gwasanaeth Cefnogol Anabledd Dysgu wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Archebu hysbysfwrdd presenoldeb i'w leoli ar wal y gegin.**
- **Creu Cofrestr Eiddo, gan sicrhau fod unrhyw eitemau newydd yn cael eu hychwanegu yn brydlon, ac unrhyw eitemau a waredir yn cael eu dileu.**
- **Trefnu i bob aelod staff gwblhau hyfforddiant Hylendid Bwyd pob 3 mlynedd.**
- **Atgoffa staff o'r angen i gwblhau modiwlau e-ddysgu mandadol y Cyngor.**
- **Sicrhau fod pob aelod staff yn darllen y Polisi Diogelu.**
- **Parhau gyda'r trefniadau newydd o gofnodi a chadw anfonebau yn drefnus, gan ymchwilio pam nad oedd angen codi archebion.**
- **Sicrhau fod arian yn cael ei fancio yn rheolaidd.**
- **Sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau fod staff yn derbyn gwerthusiad blynyddol a goruchwyliaeth bob 3 mis.**

SIOP GALWCH ACW**1. Cefndir**

- 1.1 Mae gan y Gwasanaeth Anabledd Dysgu nifer o hybiau cymunedol ar draws Gwynedd, yn eu plith, Siop Galwch Acw. Mae'r siop wedi ei lleoli yng nghanol tref Caernarfon ac yn helpu i ddatblygu cyfleoedd gwaith a chyfleoedd creadigol i ddefnyddwyr drwy grefftau a chelf.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y canolfannau anabledd dysgu yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu ymweld â sampl o ganolfannau a gwirio bod trefniadau yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	3
ISEL	1

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Ymwelwyd â'r siop ar ddydd Iau, 18fed o Ragfyr 2025 ym mhresenoldeb Arweinydd Gwasanaeth Cefnogol Anabledd Dysgu, y Clerc, a sawl aelod o staff arall. Roedd y staff yn groesawgar ac yn barod i helpu, gyda'r holl ddogfennau gofynnol yn barod ac yn aros i'r Archwiliwr. Ymddengys bod defnyddwyr yn mwynhau eu hunain ac yn cyfathrebu'n rhwydd ac yn hwyliog â staff, wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn ardaloedd glân a diogel.

- 5.2 Serch hynny, gwelwyd nad ydi staff yn derbyn gwerthusiad blynyddol na goruchwyliaeth bob 3 mis ar bob achlysur. O'r 4 aelod staff a ddetholwyd ar gyfer gwirio eu cofnodion, gwelwyd fod pob un wedi eu goruchwyllo ddiwethaf 4 mis cyn dyddiad yr ymweliad. Ni welwyd unrhyw gofnodion gwerthuso. Nodir fod diffyg gwerthuso yn wendid ar draws y gwasanaeth, a'u bod yn edrych ar ffyrdd i'w cynnal yn effeithiol. Erbyn cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol, cadarnhawyd fod amserlen werthuso wedi ei drefnu ar gyfer pob aelod staff.
- 5.3 Ni welwyd fod Cofrestr Eiddo yn cael ei gadw. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol cael cofrestr cyfredol er dibenion yswiriant. Nododd Arweinydd Gwasanaeth Cefnogol Anabledd Dysgu ei bod eisoes wedi cychwyn llunio cofrestr.
- 5.4 Gwelwyd nad oes gan y siop drefniadau effeithiol ar gyfer cofnodi a phrosesu incwm. Gyda'r til yn hen ac yn methu a chreu adroddiadau priodol, mae'n rhaid i staff y siop gofnodi pob gwariant ar bapur gyda llaw. Eglurwyd fod y cofnod gwariant wrth y til yn cael ei ddefnyddio i gysoni'r arian, ond nad ydi'n cysoni ar pob achlysur, gyda staff yn gallu anghofio nodi pob trafodiad. Roedd yr Archwiliwr wedi synnu nad oedd gan y siop lyfr TR34 ar gyfer cofnodi'r incwm a chadarnhau cyfeirebau gwariant. Nodwyd mai'r unig gofnod yn dilyn bancio ydi derbynneb, sydd yn cael ei gadw yn y sêff yn y siop. Nodir, o'r 5 sampl incwm gofynnodd yr Archwiliwr i weld y derbynebau ar eu cyfer, roedd derbynebau ar goll ar gyfer 4 ohonynt.
- 5.5 Gwelwyd nad oedd profion tân yn cael eu cynnal yn amserol ar bob achlysur, gyda phrofion ar ddiffoddwyr a diangfeydd tân heb eu cynnal ers 29/10/25, ble mae disgwyl eu cynnal yn wythnosol.
- 5.6 Ni welwyd fod poster Diogelu wedi ei arddangos yn y siop. Trefnodd yr Archwiliwr fod copi yn cael ei ddarparu. Nodir, er bod diffyg cyfeiriadau e-bost ar gyfer staff yn ei gwneud hi'n anodd cael mynediad at y Polisi Diogelu, gwelwyd fod ymdrechion clodwiw wedi eu gwneud i ymgylfarwyddo staff gyda'r cynnwys.

6. Camau Gweithredu

Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Llunio rota goruchwyliaeth a gwerthuso, gan sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth bob 3 mis, a gwerthusiad blynyddol.**
- **Sicrhau fod gan y siop gofnod cyfredol o'i holl eiddo, gan drefnu adolygiad blynyddol, neu wrth brynu/gwaredu eitemau.**
- **Sefydlu trefniadau effeithiol ac amserlen benodol ar gyfer cysoni a phrosesu incwm, gan sicrhau defnydd o ffurflenni TR34 fel i alluogi trywydd archwilio digonol.**
- **Sicrhau fod profion tân yn cael eu cynnal yn amserol, a chofnodion priodol yn cael eu cadw.**
- **Arddangos poster Diogelu mewn lleoliad amlwg.**

CANOLFAN Y GWYSTL**1. Cefndir**

- 1.1 Mae gan y Gwasanaeth Anabledd Dysgu nifer o hybiau cymunedol ar draws Gwynedd, yn eu plith, Canolfan Y Gwystl. Y Ganolfan yw prif hwb ardal Dwyfor, ac mae'n cynnig cyfleoedd newydd i ddefnyddwyr yn cynnwys gwasanaeth pryd ar clud, cegin Popty Prysor, a salon trin gwallt.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal y canolfannau anabledd dysgu yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu ymweld â sampl o ganolfannau a gwirio bod trefniadau yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	3
CANOLIG	3
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Ymwelwyd â'r ganolfan ar ddydd Mawrth, 11eg o Dachwedd 2025 ym mhresenoldeb Arweinydd Gwasanaeth Cefnogol Anabledd Dysgu a'r Is-Arweinydd. Roedd y staff yn groesawgar ac yn barod i helpu, gyda'r holl ddogfennau gofynnol yn barod ac yn aros i'r Archwiliwr. Ymddengys bod defnyddwyr yn mwynhau eu hunain ac yn cyfathrebu'n rhwydd ac yn hwyliog â staff, wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn ardaloedd glân a diogel.

- 5.2 Er bod ymwelwyr i'r ganolfan yn arwyddo i mewn ac allan yn briodol, gwelwyd nad oedd cofnodion digonol er dibenion tân i'r aelodau staff ar y safle. Mae dogfen ger y Llyfr Ymwelwyr ble mae staff yn gallu marcio eu bod yn bresennol, fodd bynnag, ychydig iawn o staff sydd yn ei ddefnyddio, ac nid oes lle i nodi amseroedd cyrraedd a gadael.
- 5.3 Nid ydi staff yn derbyn gwerthusiad blynyddol na goruchwyliaeth bob 3 mis ar bob achlysur. O'r 4 aelod staff a ddetholwyd ar gyfer gwirio eu cofnodion, ni welwyd unrhyw gofnod fod 1 wedi ei goruchwyllo o gwbl, gyda'r 3 yn weddill wedi eu goruchwyllo yn 2020 ac 2019 ddiwethaf. Cadarnhaodd Rheolwr Darparu a Datblygol Anabledd Dysgu fod diffyg gwerthuso yn wendid ar draws y gwasanaeth, a'u bod yn edrych ar ffyrdd i'w cynnal yn effeithiol.
- 5.4 Cadarnhawyd mai ond ar gyfer staff achlysurol y ganolfan mae taflenni amser yn cael eu paratoi. Eglurwyd fod yr oriau a weithiwyd yn cael eu cofnodi ar 'daflen presenoldeb', gyda hwnnw wedyn yn cael ei ddefnyddio i greu taflen amser i'w gyflwyno i'r Gwasanaeth Cyflogau. Er mai'r Is-Arweinydd sydd yn paratoi'r taflenni, mae aelodau staff yn eu gwirio a'u llofnodi. Penderfynwyd gwirio taflenni amser pob aelod staff am fis Medi 2025, gan gymharu'r oriau hawlir yn erbyn y 'daflen presenoldeb'. Am y cyfnod, 4 aelod staff oedd wedi cyflwyno taflenni amser. O'r 4, gellid cytuno oriau 2. Gwelwyd anghysondebau ar gyfer y 2 yn weddill, ble fod sifftiau cyfan wedi eu cofnodi ar y 'daflen presenoldeb' heb eu cofnodi o gwbl ar y taflenni amser.
- 5.5 Ni welwyd fod Cofrestr Eiddo yn cael ei gadw. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol cael cofrestr gyfredol er dibenion yswiriant.
- 5.6 Detholwyd sampl o 10 aelod staff i wirio eu cofnodion hyfforddiant. O'r 10, nid oedd gan unrhyw un hyfforddiant tân cyfredol, gydag 7 heb hyfforddiant Symud a Thrin cyfredol ychwaith. Mae hyfforddiant Cymorth Cyntaf 4 wedi dod i ben, gydag ond 6 wedi cwblhau modiwl e-ddysgu mandadol Diogelu. Nodir mai ond ar System Swyddi Gwynedd mae hyfforddiant staff wedi ei nodi.
- 5.7 Eglurwyd nad oedd gan y Gweithwyr Cefnogol gyfeiriad e-bost Cyngor, ac felly heb fynediad i'r Ganolfan Bolisi. Eiliodd cofnodion System Swyddi Gwynedd hyn, gan gadarnhau nad oedd unrhyw un o'r 10 aelod staff yn y sampl wedi derbyn y Polisi Diogelu. Nodir fodd bynnag fod yr Arweinydd hefyd ymhlith y sampl, sydd gyda chyfeiriad e-bost. Cadarnhawyd fod pob ymdrech yn cael ei wneud i alluogi mynediad i'r holl staff.
- 5.8 Detholwyd sampl o 5 defnyddiwr ar gyfer gwirio eu hasesiadau risg unigol. Gwelwyd fod sawl asesiad ar gyfer pob defnyddiwr. Er bod rhai o'r asesiadau wedi eu hadolygu yn y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd hefyd fod rhai heb eu hadolygu ers 2017. Awgrymodd yr Arweinydd fod y rhain wedi eu hadolygu, ond nad oeddynt wedi eu llofnodi i ddangos hynny. Nodir fod asesiadau risg generig y ganolfan oll yn gyfredol.

6. Camau Gweithredu

Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Sicrhau fod aelodau staff yn arwyddo i mewn ac allan o'r Ganolfan, gan nodi amseroedd cyrraedd a gadael.
- Llunio rota goruchwyliaeth a gwerthuso, gan sicrhau fod pob aelod staff yn derbyn goruchwyliaeth bob 3 mis, a gwerthusiad blynyddol.
- Ymchwilio i anghysondeb yn yr oriau a dalwyd i ddwy aelod staff, gan sicrhau fod unrhyw oriau dyledus yn cael eu talu yn brydlon.
- Sicrhau cywirdeb wrth lunio taflenni amser, gan annog staff i wirio fod yr oriau yn gywir cyn llofnodi.
- Sicrhau fod gan y ganolfan gofnod cyfredol o'i holl eiddo, gan drefnu adolygiad blynyddol, neu wrth brynu/gwaredu eitemau.
- Ystyried creu taenlen hyfforddiant i alluogi gwell monitro, gan sicrhau adnewyddu amserol o unrhyw hyfforddiant wedi dod i ben, yn benodol, Cymorth Cyntaf, Tân, a Symud a Thrin.
- Atgoffa staff i gwblhau modiwlau E-ddysgu mandadol y Cyngor, gan barhau i ymdrechu i gael mynediad i bawb at y Ganolfan Bolisi.
- Sicrhau fod asesiadau risg unigol defnyddwyr yn derbyn adolygiadau rheolaidd, o leiaf unwaith y flwyddyn.

CYNLLUN OLYNIAETH YGC**1. Cefndir**

- 1.1 Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn endid masnachol o fewn adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC Cyngor Gwynedd sy'n cyflawni gwaith peirianeg sifil ac adeiladu.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod gan YGC drefniadau addas mewn lle ar gyfer cynllunio'r gweithlu am y dyfodol er mwyn parhau i gwrdd â gofynion cleientiaid. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau olyniaeth rolau allweddol, a'r camau mae'r adran yn gymryd i ddatblygu staff i allu camu i fyny pan mae'r cyfle yn codi.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel y ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Mae'n ymarfer da i bob adran gynllunio eu gweithlu ar gyfer y dyfodol, gan adnabod rolau allweddol a rhoi trefniadau mewn lle i geisio sicrhau olyniaeth. Mae 'Mewnrwyd Adnoddau Dynol' yn codi ymwybyddiaeth o'r angen i gynllunio'r gweithlu, yn egluro pam ei fod yn bwysig, ac yn cynnig cefnogaeth ar sut i wneud hynny.
- 5.2 Mae YGC yn gweithredu mewn maes arbenigol, amlddisgyblaethol, ac mae disgwyl i Uwch Swyddogion feddu ar gymwysterau proffesiynol perthnasol, megis RICS, IEng, CEnv a CEng. Mae hyn yn greiddiol i allu ennill gwaith a chreu incwm i'r Cyngor. Mae'r adran eisoes wedi cydnabod y risg o aelodau o'r gweithlu cyfredol yn agosáu at oed ymddeol, a bod angen cynnal gweithlu medrus a chymwys i fodloni anghenion busnes i'r dyfodol.

- 5.3 I'r perwyl hyn, mae YGC wedi paratoi Cynllun Busnes newydd sy'n ymrwymo i fuddsoddi yn natblygiad proffesiynol ei staff a chynllunio dilyniant strategol. I ategu hyn, mae Strategaeth Cynllunio'r Gweithlu yn cael ei lunio, sydd mewn ffurf drafft ar hyn o bryd. Mae cynllunio'r gweithlu a materion olyniaeth wedi ei drafod yn anffurfiol ond y gobaith yw ffurfioli'r drefn yma o fewn y strategaeth newydd. Mae bwriad cynnal cyfarfod i asesu anghenion busnes YGC yn y tymor byr, canolig a thymor hir yn Ionawr 2026, y cyntaf o gyfarfodydd bwriedir eu cynnal ddwywaith y flwyddyn. Bydd y cyfarfodydd yn anelu i sicrhau bod cynllunio'r gweithlu yn cyd-fynd â Chynllun Busnes a nodau strategol YGC.
- 5.4 Gan fod y gwaith yn mynd rhagddo, mae bwriad ail-ymweld a'r archwiliad yn 2026/27 er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn weithredol ac yn dwyn ffrwyth.

6. **Camau Gweithredu**

Mae'r Pennaeth Cynorthwyol YGC wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Bod Strategaeth Cynllunio'r Gweithlu YGC yn cael ei chymeradwyo yn derfynol a bod cynlluniau i gyd-fynd â'r strategaeth yn cael eu rhoi ar waith**

CYNLLUN PARHAD GWASANAETH**1. Cefndir**

- 1.1 Mae Cynllun Parhad Gwasanaeth yn broses cynllunio rhagweithiol sy'n ceisio sicrhau bod gwasanaethau critigol yn parhau i gael eu darparu yn ystod argyfwng. Maent yn manylu ar gynlluniau a gweithrediadau sy'n sicrhau nad yw defnyddwyr yn cael eu gadael heb wasanaeth maent yn ddibynnol arno mewn achosion ble fydd amhariad sylweddol annisgwyl neu fethiant llwyr i ddarparu'r gwasanaeth.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gan yr adran drefniadau addas mewn lle i barhau i ddarparu gwasanaeth yn ystod cyfnod o argyfwng. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu trefniadau parhad busnes, gan gynnwys trefniadau ymateb, rheoli, gwersi a ddysgwyd, log risgiau, hyfforddi a monitro.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	2
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Gwelwyd bod gwaith wedi ei gynnal ar ddatblygu a gwella Cynlluniau Parhad Gwasanaeth yr adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC yn unol â gofynion templed newydd y Fframwaith Rheoli Parhad Busnes Adran Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru. Mae'r adran mewn llawer gwell sefyllfa nag oeddent ychydig o fisoedd yn ôl, ac yn un o'r adrannau cyntaf o fewn y Cyngor i gydweithio gyda arweinydd o Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (GCARCGC) i lunio y ddogfen a lliniaru'r risgiau be byddai argyfwng.

- 5.2 Holwyd ym mhle cedwir y cynllun a cadarnhaodd y Pennaeth bydd copi caled ar gael yn swyddfa Ysgrifenyddes y Pennaeth ym Mhenrallt, Caernarfon. Bydd hefyd copi electronig ar gael ar safle iGwynedd yr adran, ble mae gan holl staff allweddol yr adran fynediad ato.
- 5.3 Mae gan yr adran gofrestr risg sy'n ystyried y prif risgiau all amharu ar weithrediadau dydd i ddydd, a gwelwyd bod y risgiau yma wedi eu cwmpasu yn y Cynllun Parhad. Rhai o'r prif risgiau sydd wedi eu nodi yn y gofrestr risg yw llifogydd, tywydd difrifol, newid hinsawdd, a risgiau diogelwch a TG. Gwelwyd cysylltiad clir rhwng y cynllun parhad a'r gofrestr risg gyda blaenoriaethau gwasanaethau wedi eu rhestru, yn ogystal a datrysiadau a chatau gweithredu parhad busnes ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau e.e. colli staff, colli systemau TG, colli cyfleustodau, colli mynediad i eiddo a mannau gwaith, a cholli prif gyflenwyr.
- 5.4 Gwelwyd bod yr adran wedi dynodi staff mewn swyddi uwch neu arweiniol i weithredu ar y cynllun a sicrhau cydymffurfriad prydlon pe byddai argyfwng. Mae rhan 8 o'r cynllun yn cynnwys rhestr o'r staff hyn gyda'u manylion cyswllt a chyfrifoldebau. Esboniodd y Pennaeth nad oes unrhyw ymarferiadau ar y cynllun wedi digwydd hyd yma, ond pe fyddai angen diweddariad neu rhywbeth yn codi, mae sesiynau 'toolbox talks' yn cael eu cynnal gyda'r gweithle. Nid oedd cofnodion ffurfiol o unrhyw wersi a ddysgwyd nag adroddiadau ôl-ddigwyddiadau ar gael. Mae ymarferiadau senarios a hyfforddiant i brofi y Cynllun yn rhywbeth mae'r adran am ei ystyried. Mae'r Pennaeth yn Gadeirydd ar grŵp tywydd dros Gogledd Cymru, ac mae hefyd grŵp argyfwng ymysg penaethiaid adrannau'r Cyngor sy'n cyfarfod yn chwarterol ers cyfnod y pandemig.
- 5.5 Mae'r Cyngor yn cydweithio gyda cyngorau cyfagos er mwyn cynorthwyo mewn argyfwng. Gall y Cyngor hefyd ofyn i awdurdodau lleol eraill helpu pan fo angen, ac mae rhestr o ddarparwyr wedi ei gynnwys yn y Cynllun Parhad. Er nad yw Cyngor Gwynedd wedi gofyn am gymorth hyd yma, roedd yn llwyddiannus yn rhoi cymorth i awdurdodau eraill e.e. Sir y Fflint yn ddiweddar mewn achos o dân.

6. Camau Gweithredu

Mae'r adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC wedi ymrwymo i weithredu'r canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Cynnal hyfforddiant ar y Cynllun ac ymarferiadau senarios er mwyn profi ei fod yn effeithiol, a gallu yr adran barhau i wasanaethu mewn argyfwng.**
- **Dilyn trefn gywir o gofnodi unrhyw wersi a ddysgwyd a chreu adroddiadau yn dilyn digwyddiadau.**

COED YN SYRTHIO**1. Cefndir**

- 1.1 Mae Cyngor Gwynedd yn berchen ac yn rheoli nifer o ardaloedd lle mae coed a llwyni'n tyfu. Mae llawer o'r ardaloedd hyn yn cynnig rhyw radd o fynediad cyhoeddus, ac felly mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, fod pob coeden ar eu tir yn cael ei chynnal mewn cyflwr derbyniol ac nad ydynt yn peri perygl afresymol i bobl na eiddo.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â dyletswyddau statudol Deddf Priffyrdd 1980, a rheoliadau Gorchmynion Cadw Coed. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r polisi rheoli coed, gwirio amllder archwiliadau, dulliau graddio risg, gweithrediadau ynghyd â threfniadau yswiriant. Gan fod Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC yn gyfrifol am y mwyafrif o stoc coed y Cyngor ac yn gwasanaethu fel y prif wasanaeth ar gyfer materion coed gweithredol, mae'r archwiliad wedi canolbwyntio'n bennaf ar eu trefniadau. Serch hynny, mae'r canfyddiadau'n berthnasol ar draws y Cyngor cyfan.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	2
CANOLIG	2
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rheoli coed sy'n syrthio yn peri risgiau corfforaethol i'r Cyngor, ac fel canlyniad mae wedi cael ei gynnwys ar y gofrestr risg corfforaethol. Nid yn unig mae risgiau amgylcheddol amlwg, ond mae risgiau economaidd ac iechyd a diogelwch o goed neu ganghennau yn disgyn ar unigolion, adeiladau, ffyrdd a cherbydau.
- 5.2 Ar hyn o bryd, mae nifer o dimau bychain yn gyfrifol am wahanol goed ar draws ardaloedd Gwynedd, gyda tîm Onnen penodol wedi ei sefydlu mewn ymateb i glefyd gwywiad yr onnen. Holwyd Peirianwyr Ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd am eu trefniadau hwy o gynnal archwiliadau ar y coed, a darganfuwyd mai gwaith adweithiol yn unig sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd, ble byddant yn torri coed yn ôl yr angen. Nid yw archwiliadau rhagweithiol blynyddol yn cael eu cynnal gan dimau Priffyrdd, ac nid ydynt yn defnyddio system i gofnodi eu gwaith.
- 5.3 Daeth aelod o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol â changen beryglus at sylw'r adran drwy wefan y Cyngor. Roedd y gangen wedi hollti uwchben llwybr cyhoeddus ac ar fin disgyn. Daeth swyddog i weld y gangen o fewn yr awr, a torrwyd y gangen yn ddiogel o fewn tair wythnos. Yn aml bydd y peirianwyr yn defnyddio contractwyr ac yn cysylltu gyda'r Tîm Onnen i holi os oes ganddynt y capasiti i wneud gwaith iddynt.
- 5.4 Detholwyd sampl o goed aseswyd i fod yn risg uchel (gan eithrio coed onnen oedd yn destun archwiliad mewnol penodol) ar draws y dair ardal. Gan nad oedd unrhyw gofnodion ar gael gan y timau Priffyrdd, holwyd Tîm yr Onnen, a detholwyd y sampl oddi ar eu system hwy, sef Ezytreev, oedd hefyd yn cynnwys coed cyffredinol. O'r sampl a detholwyd a'r cofnodion wiriwyd, gwelwyd bod 8 o'r 15 coeden wedi cael eu harchwilio gan Dîm yr Onnen yn y ddwy flynedd diwethaf. Mae rhai o'r coed yn y sampl wedi eu lleoli ar dir neu o gwmpas Ysgol Bontnewydd, Ysgol Glan y Môr, Parc y Dre Caernarfon, Parc Harlech, rhai ger rhannau o'r A499, A497 ac A493. Gwelwyd bod y rhan helaeth o'r coed sydd wedi eu hasesu yn risg uchel yn parhau yn sefyll heb weithrediad pellach er gwaethaf argymhelliad i'w torri. Y gobaith yw y bydd coed yn cael eu harchwilio o leiaf pob dwy flynedd, a choed bregus yn flynyddol tan eu bod wedi eu tocio, ond mae'r diffyg adnoddau yn creu risg o beidio gallu cyflawni hyn. Er y tebygolrwydd cymharol isel o goeden neu gangen yn disgyn a chreu anaf neu farwolaeth, mae'n anodd profi os yw'r drefn archwilio a thorri presennol yn ddigonol.
- 5.5 Fe holwyd Uwch Swyddog Clwyf Gwywiad yr Onnen ynglŷn â'r sampl uchod, a chadarnhaodd bod y coed yn parhau ar y system a heb gael eu torri. Eu harferiad yw gwirio data yr archwiliadau yn flynyddol er mwyn hel gwybodaeth coed onnen at ei gilydd, ac os ydynt yn darganfod coed sydd ddim yn goed onnen, maent yn anfon adroddiad i'r adran gyfrifol i weithredu. Cadarnhaodd eu bod hwy yn parhau i fynd trwy'r data ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac bydd y rhestrau coed yn mynd allan cyn gynted â phosib i'r timau priodol. Mynegodd y Pennaeth Cynorthwyol bod angen cael un tîm coed Corfforaethol ar draws y Cyngor, ond bod hyn yn eithaf pell i ffwrdd ar hyn o bryd.

- 5.6 Oherwydd diffyg adnoddau, mae'r timau yn blaenoriaethu ar sail tebygolrwydd ag effaith digwyddiad, ac felly yn archwilio coed sydd ar, neu'n agos at brif ffyrdd, ysgolion, mynwentydd a mannau agored cyhoeddus eraill. O ganlyniad, mae nifer o ffyrdd a thiroedd tawelach eto i dderbyn archwiliadau cynlluniedig, gyda'r angen i ailymweld â safleoedd risg uchel er mwyn canfod os oes dirywiad yng nghyflwr y coed yn cael blaenoriaeth.
- 5.7 Mae'r diffyg adnoddau yn wybodus i'r Cyngor, ond mae amryw o fidiau am ragor o gyllideb i gyflogi coedyddwyr wedi bod yn aflwyddiannus. Bydd cais llwyddiannus wedi golygu gallu cynnal rhagor o'r rhaglen waith a thorri coed.
- 5.8 Mae Polisi Rheoli Risg Coed wrthi'n cael ei lunio ar amser yr archwiliad. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa adnoddau heriol yn golygu bod risg na fydd y coed yn cael eu harchwilio a'u trin mor aml â'r hyn sydd wedi ei nodi yn y rhaglen gynlluniedig.
- 5.9 Mae Grŵp Coed Corfforaethol wedi'i sefydlu i ddatblygu strategaeth sy'n gosod gweledigaeth hir-dymor ar gyfer coed a choetiroedd y Cyngor. Bydd y strategaeth yn gosod egwyddorion i amddiffyn, cynnal, rheoli risg ac ehangu coed mewn nifer o ffrydiau gwaith. Bydd y strategaeth yn cynnwys polisïau a chynlluniau sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion yma.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Cyhoeddi Polisi Rheoli Risg Coed yn derfynol.**
- **Sicrhau bod trafodaethau pellach o fewn y Grŵp Coed Corfforaethol yn cael eu cynnal er mwyn sefydlu un tîm Corfforaethol ar draws y Cyngor i reoli coed.**
- **Cyflwyno bid am ragor o adnoddau.**
- **Torri'r coed sydd wedi eu dynodi fel rhai risg uchel mewn mannau o flaenoriaeth uchel, o fewn cyfyngiadau adnoddau y Gwasanaeth.**

GRANT ATAL DIGARTREFEDD 2024-25**1. Cefndir**

- 1.1 Dyrannodd Llywodraeth Cymru £895k o grant i Wynedd yn ystod 2024/25 fel rhan o ymgyrch atal digartrefedd, wedi ei rannu i elfen 'Neb heb help' (£663k) i ariannu cymorth megis llety dros dro ac elfennau cefnogol na ellir eu hariannu drwy y Grant Cymorth Tai, £172k i atal digartrefedd yn ôl disgresiwn i'w ddefnyddio'n hyblyg i atal digartrefedd a chefnogi mesurau sy'n lleihau dibyniaeth ar lety dros dro, a £60k i ariannu swydd Cydlynedd Strategol.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb y tystysgrif archwilio ar gyfer 2024/25 drwy wirio'r costau a hawliwyd, yn ogystal â sicrhau bod y Gwasanaeth wedi cydymffurfio ag amodau'r llythyr cynnig grant.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel y ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	0
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Yn unol â gofynion y llythyr cynnig grant, roedd angen cwblhau tystysgrif archwilio ar gyfer grant 2024/25 erbyn 30 Medi 2025. Mae'r tystysgrif archwilio yn cadarnhau, ymysg eraill, cyfanswm y grant ddyrannwyd i'r Awdurdod, y gwariant, a'r grant hawliwyd yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, gwelwyd ni chyflwynwyd hawliadau grant yn ystod y flwyddyn ac felly nid yw'r rhandaliadau wedi eu talu i'r Awdurdod. Penderfynwyd peidio arwyddo'r dystysgrif hyd nes i'r grant gael ei dderbyn. Cafwyd hyn ei godi yn ystod archwiliad mewnol grant 2023/24 yn ogystal.

- 5.2 Mae'r llythyr cynnig grant yn nodi fod angen hawlio'r cyllid mewn rhandaliadau chwarterol yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru, ac maent yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig grant yn ôl petai'r Cyngor ddim yn eu hawlio yn brydlon. Cyflwynwyd hawliad am y flwyddyn gyfan wedi diwedd y flwyddyn ariannol, ond ni chyflwynwyd adroddiad cynnydd, sef un o'r dogfennau gofynnol sydd yn cefnogi hawliad grant cyn i Lywodraeth Cymru ryddhau'r arian. Mae'r Gwasanaeth yn y broses o baratoi yr adroddiad.
- 5.3 Mae'r Grant Atal Digartrefedd bellach wedi dod i ben, ac o 2025/26 ymlaen, mae Llywodraeth Cymru wedi trosglwyddo'r cyllid cyfatebol i'r setliad ariannol craidd.

6. **Camau Gweithredu**

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Cyflwyno adroddiad cynnydd i Lywodraeth Cymru a Phennaeth Cyllid y Cyngor er mwyn gallu hawlio'r Grant Atal Digartrefedd.**

GRANT CYMORTH TAI 2024/25**1. Cefndir**

- 1.1 Rhaglen grant ymyrraeth cynnar yw'r Grant Cymorth Tai, i helpu atal pobl rhag mynd yn ddigartref, sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu helpu unigolion a allai fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety, a'i gadw. Mae'n helpu pobl sy'n agored i niwed i fynd i'r afael â phroblemau megis dyledion, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl. Dyrannwyd hyd at £7.4m o grant i Wynedd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2024/25.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb tystysgrif archwilio 2024/25 y Grant Cymorth Tai, drwy wirio'r costau a hawliwyd, yn ogystal â sicrhau bod y Gwasanaeth wedi cydymffurfio ag amodau'r llythyr cynnig grant.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel y ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Yn unol â gofynion y llythyr cynnig grant, roedd angen cwblhau tystysgrif archwilio ar gyfer y grant erbyn 30 Medi 2025. Mae'r dystysgrif archwilio yn cadarnhau, ymysg eraill, cyfanswm y grant ddyrannwyd i'r Awdurdod, y gwariant, a'r grant hawliwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r dystysgrif hefyd yn gofyn i'r Archwiliwr Mewnol gadarnhau bod y gwariant yn briodol, ac yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y grant, yn unol â gofynion y llythyr cynnig.

- 5.2 Er nad oedd modd arwyddo'r dystysgrif archwilio o fewn yr amserlen, yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod trywydd archwilio i'r ffigyrau a gellir datgan sicrwydd o gywirdeb a phriodoldeb dystysgrif archwilio'r Grant Cymorth Tai ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r holl arian wedi ei hawlio a'i dderbyn yn ystod y flwyddyn.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sicrhau bod dystysgrif archwilio 2025/26 yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â'r amserlen.**

PWYLLGOR	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	3 CHWEFROR 2026
TEITL	CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2025/26
PWRPAS YR ADRODDIAD	DIWEDDARU’R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2025/26
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	ER GWYBODAETH

1.

CYFLWYNIAD
- 1.1

Mae’r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26.
2.

CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN
- 2.1

Mae Cynllun Archwilio 2025/26 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 25 Ionawr 2026 wedi ei nodi. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

Statws yr Archwiliad	Nifer
Wedi ei gynllunio	7
Gwaith Maes ar y gweill	13
Disgwyl Adolygiad	1
Adroddiad Drafft	2
Wedi ei gau	0
Adroddiad Terfynol	27
Cyfanswm	50
Canslwyd	6

- 2.2

Mae’r gwasanaeth yn anelu i gael 95% o archwiliadau’r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2026. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:
- Diwedd chwarter 1

8%
- Diwedd chwarter 2

20%
- Diwedd chwarter 3

50%
- Diwedd chwarter 4

95%

- 2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 25 Ionawr 2026 oedd **54%** - allan o'r **50** archwiliad unigol yng nghynllun diwygiedig 2025/26 roedd **27** wedi eu rhyddhau yn derfynol/cwblhau, neu wedi cau.

3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

- 3.1 Yn wreiddiol, rhagwelwyd bod oddeutu 580 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau Cynllun Archwilio 2025/26. Roedd hyn ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio oedd ar gael, gan gynnwys cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau 'di-gynnyrch' megis gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheolaeth a chyfarfodydd.
- 3.2 Yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes. I'r perwyl hyn, mae'n ofynnol bod y Cynllun Archwilio yn hyblyg a chaiff y cynllun ei adolygu a'i ddiweddarau'n barhaus.
- 3.3 I adlewyrchu'r uchod yn y Cynllun Archwilio, penderfynwyd i addasu neu ganslo/gohirio'r archwiliadau canlynol:

Archwiliad	Dyddiau	Addasiad/Canslo
Cegin Arfon	+6	Ychwanegiad
Siop Galwch Acw	+9	Ychwanegiad
Canolfan y Gwystl	+10	Ychwanegiad
Dilyniant Clybiau Brecwast	+3	Ychwanegiad
Dilyniant Rheolaeth Categori Amgylchedd	+3	Ychwanegiad
Dilyniant Gor-amser Glanhau Stryd	+3	Ychwanegiad
Cyfanswm	+34	
Canolfannau Anabledd Dysgu	-25	Canslo
Dilyniant Cyffredinol	-9	Addasiad
Cyfanswm	-34	

- 3.4 Bydd yn anochel bod unrhyw gynllun archwilio yn hyblyg er gallu gweithredu ar ddatblygiadau a materion risg uchel a ddaw i'r amlwg. Felly, bydd cynnal archwiliadau yn ddibynnol ar asesiad amserol o risgiau/blaenoriaethau ac unrhyw ddatblygiadau neu risgiau newydd a ddaw i'r amlwg.

4. ARGYMHELLIAD

- 4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2025/26, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.

Adran	Archwiliad	Statws yr Archwiliad	Lefel Sicrwydd
Addysg	Addysg Tu Allan i'r Ysgol	Rhaglen a Nodyn Briffio wedi eu cytuno	
	Anghenion Dysgu Ychwanegol	Wedi ei gynllunio	
	Dilyniant Cludiant Ysgolion	Gwaith ar y gweill	
	Dilyniant Clybiau Brecwast	Rhaglen a Nodyn Briffio wedi eu cytuno	
	Darpariaeth Addysg Ôl-16	Adroddiad Terfynol	Uchel
	Ysgolion Cyffredinol	Wedi ei gynllunio	
Amgylchedd	Casglu Gwastraff Masnachol	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig
	Dilyniant Trafnidiaeth Ysgolion	Disgwyl adolygiad	
	Dilyniant Trefniadau Dosbarthu Biniau	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig
	Iechyd Anifeiliaid	Adroddiad Terfynol	Digonol
	Rheolaeth Adeiladu	Gwaith ar y gweill	
Gwasanaethau Corfforaethol	Hyfforddiant Mandadol	Adroddiad Drafft	
	Trefniadau Tân	Gwaith ar y gweill	
Cofforaethol	Cynghori ac Ymgynghoriaeth, Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	Gwaith ar y gweill	
	Dilyniant Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth	Adroddiad Terfynol	Digonol
	Dilyniant Cyffredinol	Wedi ei gynllunio	
	Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol	Gwaith ar y gweill	
	Swyddi Heb Gyllideb	Wedi canslo	
	Rheoli Gwybodaeth a Diogelu Data	Adroddiad Drafft	
	Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi Diogelu	Gwaith ar y gweill	
Cyllid	Archwiliadau TG	Wedi ei gynllunio	
	Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2024-25	Adroddiad Terfynol	Uchel
	Incwm - Trefniadau Adennill	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig
	Praeseptau	Adroddiad Terfynol	Uchel

Adran	Archwiliad	Statws yr Archwiliad	Lefel Sicrwydd
	Rheolaeth Trysorlys	Wedi ei gynllunio	
Economi a Chymuned	Amgueddfa Lloyd George	Adroddiad Terfynol	Uchel
	Cronfa'r Degwm	Adroddiad Terfynol	Uchel
	Cynllun Traethau	Wedi canslo	
	Hafan	Wedi canslo	
Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cartref Plas Hedd	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig
	Cartref Plas Y Don	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig
	Cartref Tan Y Marian	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig
	Cartref y Frondeg	Adroddiad Terfynol	Digonol
	Dilyniant Cartrefi Preswyl	Wedi canslo	
	Dilyniant Cartref Plas Pengwaith	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig
	Dilyniant Cartref Llys Cadfan	Adroddiad Terfynol	Digonol
	Dilyniant Cartref Plas Hafan	Adroddiad Terfynol	Digonol
	DOLS/LPS	Gwaith ar y gweill	
	Taliadau Uniongyrchol	Adroddiad Terfynol	Digonol
	Canolfannau Dydd	Wedi canslo	
	Canolfannau Anabledd Dysgu	Wedi canslo	
	Cegin Arfon	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig
	Siop Galwch Acw	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig
	Canolfan Y Gwystl	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig
Plant a Chefnogi Teuluoedd	Taliadau All-Sirol	Rhaglen a Nodyn Briffio wedi eu cytuno	
Priffyrdd, Peirianeg a YGC	Coed yn Syrthio	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig
	Cynllun Olyniaeth YGC	Adroddiad Terfynol	Digonol
	Cynllun Parhad Gwsanaeth/Cynllun Argyfwng	Adroddiad Terfynol	Digonol
	Amlosgfa Bangor	Gwaith ar y gweill	
	Rheolaeth Fflyd	Gwaith ar y gweill	
	Trefniadau Clefyd Coed Ynn	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig

Adran	Archwiliad	Statws yr Archwiliad	Lefel Sicrwydd
	Dilyniant Rheolaeth Categori - Amgylchedd	Rhaglen a Nodyn Briffio wedi eu cytuno	
	Dilyniant Gor-amser Glanhau Stryd	Wedi ei gynllunio	
Tai ac Eiddo	Costau Llety Argyfwng	Wedi ei gynllunio	
	Grant Atal Digartrefedd 2024-25	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig
	Grant Cymorth Tai	Adroddiad Terfynol	Digonol

PWYLLGOR	LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	3 CHWEFROR 2026
TEITL	SIARTER ARCHWILIO MEWNOL
DIBEN	CYFLWYNO'R MANDAD A'R SIARTER ARCHWILIO MEWNOL I'R PWYLLGOR
AWDUR	LUNED FÔN JONES, RHEOLWR ARCHWILIO
CAMAU GWEITHREDU	CYMERADWYO'R SIARTER

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) wedi penderfynu bod y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) a gyhoeddwyd gan Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol (IIA) yn sail addas ar gyfer ymarfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU, yn ddarostyngedig i ofynion pellach fel y nodir yn y Nodyn Cymhwyso – Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU.
- 1.2 Mae'r Nodyn Cymhwyso yn darparu cynnwys penodol i sector cyhoeddus y DU, dehongliad o ofynion y Safonau (GIAS) yn yr amgylchiadau penodol y disgwylir iddynt fod yn berthnasol ar draws sector cyhoeddus y DU a rhai gofynion ychwanegol y mae'r Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) yn eu hystyried yn hanfodol ar gyfer ymarfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU.
- 1.3 Mae CIPFA wedi datblygu'r Cod Ymarfer ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU (y Cod) i gefnogi awdurdodau i sefydlu eu trefniadau archwilio mewnol a darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth ar gyfer archwilio mewnol. Mae wedi'i anelu at y rhai sy'n gyfrifol am sicrhau trefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer archwilio mewnol. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd â'r cyfrifoldeb hwnnw.
- 1.4 Mae'r Cod yn nodi "mai'r prif weithredwr archwilio"¹ sydd â chyfrifoldeb i baratoi siarter sy'n cydymffurfio â GIAS yn sector cyhoeddus y DU. Dylai'r pwyllgor archwilio² gael ei fodloni ei fod yn cwmpasu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer archwilio mewnol. Rhaid iddo gynnwys y mandad sy'n deillio o'r rheoliadau³, ynghyd ag unrhyw fandad ychwanegol y cytunwyd arno, a chynnwys llinell adrodd archwilio mewnol i'r pwyllgor.
- 1.5 Mae'r mandad archwilio mewnol yn darparu manylion am awdurdod, rôl a chyfrifoldebau swyddogaeth archwilio mewnol.

¹Rheolwr Archwilio

²Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

³Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

1.6 Mae'r siarter archwilio mewnol yn ddogfen ffurfiol sy'n cynnwys mandad swyddogaeth archwilio mewnol, sefyllfa sefydliadol, perthnasoedd adrodd, cwrpas gwaith, mathau o wasanaethau a manylebau eraill.

1.7 Mae'r Siarter yn nodi'r trefniadau sydd eu hangen ar y swyddogaeth archwilio mewnol i gyflawni ei diben. Mae rôl archwilio mewnol yn cynnwys:

- cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion strategol yr awdurdod drwy ddarparu sicrwydd gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol
- hyrwyddo arfer da mewn llywodraethu drwy sicrwydd, cyngor a chyfrannu at adolygiad llywodraethu blynyddol yr awdurdod
- cynghori ar drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar gyfer prosiectau mawr, rhaglenni a newidiadau systemau
- mynediad at fuddiannau'r awdurdod mewn trefniant cydweithredol a hyd braich

1.8 Mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn nodi sawl elfen allweddol y dylid eu cynnwys mewn siarter archwilio mewnol. Mae'r elfennau hyn yn sicrhau bod y swyddogaeth archwilio mewnol wedi'i diffinio'n glir ac yn gweithredu'n effeithiol o fewn sefydliad. Y prif gydrannau yw:

Mandad: sy'n nodi'n glir bwrpas a chenhadaeth y swyddogaeth archwilio mewnol.

Diffiniadau: diffiniad o'r termau 'bwrdd' ac 'uwch reolwyr', at ddibenion y swyddogaeth archwilio mewnol.

Sefyllfa Sefydliadol: yn diffinio sefyllfa archwilio mewnol o fewn y sefydliad, gan sicrhau bod ganddo awdurdod ac annibyniaeth ddigonol sy'n cynnwys mynediad anghyfyngedig i'r uwch reolwyr a'r bwrdd.

Perthnasoedd Adrodd: nodi i bwy mae'r swyddogaeth archwilio mewnol yn adrodd, a pherthynas adrodd swyddogaethol y Prif Weithredwr Archwilio â'r bwrdd.

Sgôp y Gwaith: Amlinellu'r ystod o weithgareddau a gwasanaethau a ddarperir gan y swyddogaeth archwilio mewnol, gan gynnwys gwasanaethau sicrwydd ac ymgynghori.

Mathau o Wasanaethau: Manylu ar y mathau penodol o archwiliadau ac adolygiadau y bydd y swyddogaeth archwilio mewnol yn eu gweithredu.

Awdurdod: Rhoi mynediad i'r swyddogaeth archwilio mewnol i'r holl gofnodion, personél a phriodweddau ffisegol angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol.

Safonau Proffesiynol: Ymrwymo i gadw at safonau a chod moeseg yr IIA.

Sicrwydd Ansawdd a Gwella: Cynnwys darpariaethau ar gyfer rhaglenni sicrwydd ansawdd a gwella parhaus i gynnal safonau uchel o berfformiad.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn a chymeradwyo cynnwys y Mandad a'r Siarter Archwilio Mewnol, i'w gymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol yn ei weithrediadau.



gwynedd.llyw.cymru



Cyngor Gwynedd



Cyngor Gwynedd



Cyngor Gwynedd



SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

Datganiad o Fwriad

Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor ar amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor drwy adrodd yn annibynnol ac yn wrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae archwilio mewnol yn cryfhau gallu'r sefydliad i greu, amddiffyn, gwarchod a chynnal gwerth drwy ddarparu sicrwydd, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad annibynnol, gwrthrychol ac ar sail risg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Rheolwyr.



SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

1. DIBEN

1.1 Mae gwaith Archwilio Mewnol yn cryfhau gallu'r Cyngor i greu, diogelu a chynnal gwerth drwy ddarparu sicrwydd, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad annibynnol, gwrthrychol ac ar sail risg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Rheolwyr.

1.2 Mae Archwilio Mewnol yn cynorthwyo Cyngor Gwynedd i wella:

- Cyflawni ei amcanion yn llwyddiannus.
- Prosesau llywodraethu, rheoli risg, a rheolaethau.
- Gwneud penderfyniadau a goruchwyllo.
- Enw da a hygredded gyda'i randdeiliaid.
- Y gallu i wasanaethu buddiannau'r cyhoedd.

1.3 Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn fwyaf effeithiol pan:

- Mae'n cael ei gyflawni gan weithwyr proffesiynol yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang a'r gofynion ychwanegol fel y nodir yn Nodyn Cymhwyso'r Safonau yn Sector Cyhoeddus y DU, a'r Cod Ymarfer ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU (y Cod) a gynhyrchwyd gan CIPFA.
- Mae'r swyddogaeth archwilio mewnol wedi'i lleoli'n annibynnol gydag atebolrwydd uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Mae archwilwyr mewnol yn rhydd o ddylanwad diangen ac wedi ymrwymo i wneud asesiadau gwrthrychol.

Rôl a Chyfrifoldebau o fewn y Sector Cyhoeddus

1.4 Bydd y swyddogaeth Archwilio Mewnol yn y sector cyhoeddus yn canolbwyntio ar:

- Sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a/neu reoliadau.
- Nodi cyfleoedd i wella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac economi prosesau a rhaglenni.
- Penderfynu a yw adnoddau cyhoeddus yn cael eu diogelu'n ddigonol a'u defnyddio'n briodol i ddarparu gwasanaethau mewn modd teg.
- Asesu a yw perfformiad yn cyd-fynd â'i amcanion a'i nodau strategol.

2. MANDAD ARCHWILIO MEWNOL

- 2.1 Mae'r Mandad Archwilio Mewnol yn cyfeirio at awdurdod, rôl a chyfrifoldebau'r swyddogaeth archwilio mewnol, a roddir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Awdurdod

- 2.2 Mae gofyniad statudol ar gyfer gwasanaeth Archwilio Mewnol mewn Awdurdodau Lleol. Mae hyn ymhlyg yn Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau "wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol a byddant yn sicrhau bod gan un o'u swyddogion gyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny".
- 2.3 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan:
- (1) Rhaid i gorff perthnasol gynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol o'i gofnodion cyfrifyddu a'i system o reoli mewnol.
 - (2) Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod o'r corff hwnnw, os yw'r corff yn ei gwneud yn ofynnol—
 - (a) trefnu bod unrhyw ddogfennau'r corff sy'n ymwneud â'i gofnodion cyfrifyddu a chofnodion eraill ar gael fel y mae'n ymddangos i'r corff hwnnw ei fod yn angenrheidiol at ddibenion yr archwiliad; a
 - (b) rhoi i'r corff y cyfryw wybodaeth ac esboniad y mae'r corff hwnnw'n ystyried eu bod yn angenrheidiol at y diben hwnnw.
 - (3) Rhaid i gorff perthnasol mwy, o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn, gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei archwiliad mewnol.
 - (4) Rhaid ystyried canfyddiadau'r adolygiad y cyfeirir ato ym mharagraff (3), fel rhan o'r ystyriaeth o'r system o reoli mewnol y cyfeirir ati yn rheoliad 5(3), gan y pwyllgor neu'r corff y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw.
- 2.4 Ymhellach, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn ei gwneud yn ofynnol penodi Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i oruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod.
- 2.5 Mae awdurdod y swyddogaeth archwilio mewnol yng Nghyfansoddiad y Cyngor a'r Siarter Archwilio Mewnol. Mae gan y Swyddogaeth Archwilio Mewnol awdurdod i:
- Gael mynediad llawn a digyfnygedig i'r holl swyddogaethau, data, cofnodion, gwybodaeth, eiddo ffisegol a phersonél sy'n berthnasol i gyflawni cyfrifoldebau archwilio mewnol. Mae Archwilwyr Mewnol yn atebol am gyfrinachedd a chofnodion a gwybodaeth diogelu.

- Dyrannu adnoddau, gosod amllder, dewis pynciau, pennu cwmpas gwaith, cymhwyso technegau, a chyfathrebu i gyflawni amcanion y swyddogaeth.
- Cael cymorth gan bersonél angenrheidiol y Cyngor a gwasanaethau arbenigol eraill o'r tu mewn neu'r tu allan i'r Cyngor i gwblhau gwasanaethau archwilio mewnol.

2.6 Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwasanaeth Archwilio Mewnol o fewn yr awdurdod:

16.12 ARCHWILIO MEWNOL	
PWRPAS:	
Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn mynegi'r gofyniad am swyddogaeth archwilio fewnol ac felly swyddogaeth werthuso annibynnol a gwrthrychol yw hi a sefydlwyd gan yr awdurdod er mwyn adolygu'r system reoli fewnol.	
16.12.1	Bydd archwiliad mewnol parhaus, o dan reolaeth a chyfarwyddyd annibynnol y Pennaeth Cyllid, i gyfrifon a gweithgareddau ariannol ac eraill y Cyngor, yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.
16.12.2	Gweithredir y swyddogaeth Archwilio Mewnol hyd ag y bo modd yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang. Y Rheolwr Archwilio yw'r "Prif Weithredwr Archwilio" dynodedig yn unol â'r Safonau.
16.12.3	Paratuir Siarter Archwilio Mewnol a gaiff ei chymeradwyo a'i hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
16.12.4	Fel arfer, bydd y Rheolwr Archwilio yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cyllid. Fodd bynnag, caiff hefyd adrodd i , a chael troi at y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, y Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio os yw hynny'n angenrheidiol yn ei dyb ef/hi mewn amgylchiadau neilltuol.
16.12.5	Bydd gan y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Archwilio, neu eu cynrychiolydd cydnabyddedig, awdurdod:- - i fynd i mewn i unrhyw adeilad, tir neu safle contractio eiddo'r Cyngor ar unrhyw amser rhesymol; - i gael gweld yr holl gofnodion, dogfennau a llythyrau sy'n ymwneud ag unrhyw drafodiad ariannol neu drafodion eraill o eiddo'r Cyngor; - i ofyn am, a derbyn esboniadau sy'n angenrheidiol, yn ei dyb ef/hi, ar unrhyw fater sy'n cael ei archwilio; - i ofyn i unrhyw un sy'n gweithio i'r Cyngor ddangos unrhyw arian parod, nwyddau neu eiddo arall yn perthyn i'r Cyngor sydd yn ei ofal.

16.12.6	Bydd y Pennaeth Cyllid yn cytuno ar y cynlluniau archwilio canoldymor a blynyddol a baratowyd gan y Rheolwr Archwilio ac sy'n ystyried nodweddion a risgiau perthynol y gweithgareddau dan sylw. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo'r cynlluniau.
16.12.7	Bydd pob swyddog priodol yn ystyried ac yn ymateb i ddarganfyddiadau'r adroddiadau archwilio. Bydd Prif Swyddogion yn gofalu bod unrhyw weithgaredd a gytunwyd arno i liniaru'r risgiau a amlygwyd yn yr archwiliad wedi'u gwireddu yn amserol ac effeithlon yn unol â'r cynllun gweithredu a gytunwyd.
16.12.8	Bydd y Rheolwr Archwilio yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: (a) Ar ganlyniadau'r gwaith Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod blaenorol. (b) Am unrhyw wendidau rheolaeth sylweddol a ddarganfuwyd neu a archwiliwyd. (c) Am unrhyw weithrediad cytunedig na wireddwyd o fewn amserlen a gytunwyd, lle byddai methiant i weithredu wedi ymestyn gwendid rheoli sylweddol. (ch) Cynnydd ar gwblhau Cynllunio Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

Annibyniaeth, Sefyllfa a Pherthnasoedd Adrodd

- 2.7 Mae'r Safonau'n cynnwys terminoleg y mae angen ei diffinio'n glir yn y Siarter leol, sef y "Bwrdd", y "Prif Weithredwr Archwilio" a'r "Uwch Reolwyr".

"Bwrdd"

Mae'r Safonau yn diffinio'r Bwrdd fel *"y corff lefel uchaf sy'n gyfrifol am lywodraethu"*.

Yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Cyngor, mae ystyried ac ymateb i adroddiadau gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sydd wedi'i dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

At ddibenion y Siarter Archwilio Mewnol hon, felly, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymgymryd â'r rôl "Bwrdd" yng Nghyngor Gwynedd er mwyn bodloni gofynion y Safonau.

"Prif Weithredwr Archwilio"

Y Rheolwr Archwilio yw'r *"Prif Weithredwr Archwilio"* yn unol â'r derminoleg yn y Safonau.

"Uwch Reolwyr"

Diffinnir "Uwch Reolwyr" fel ***"lefel uchaf o reolaeth weithredol sefydliad sy'n atebol i'r bwrdd yn y pen draw am weithredu penderfyniadau strategol y sefydliad, fel arfer grŵp o bersonau sy'n cynnwys y prif swyddog gweithredol neu bennaeth y sefydliad"***.

- 2.8 Bydd y Rheolwr Archwilio yn cael ei leoli ar lefel yn y sefydliad sy'n galluogi i wasanaethau a chyfrifoldebau archwilio mewnol gael eu cyflawni heb ymyrraeth gan reolwyr, a thrwy hynny sefydlu annibyniaeth y swyddogaeth archwilio mewnol.
- 2.9 Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r swyddog sy'n gyfrifol am "weinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol" yn unol ag adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. O ganlyniad, mae Archwilio Mewnol wedi'i leoli o fewn Cyllid.
- 2.10 Yng nghyd-destun cyfathrebu canlyniadau'r gwaith archwilio mewnol a thrafod y cynllun gwaith, mae'r Rheolwr Archwilio yn atebol i'r Pennaeth Cyllid, ond mae ganddo/ganddi'r rhyddid i adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, y Swyddog Monitro neu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio os yw ef/hi o'r farn bod hyn yn angenrheidiol, ac yn ymarferol, y Rheolwr Archwilio sy'n rhyddhau'r holl adroddiadau i gwsmeriaid Archwilio Mewnol.
- 2.11 Bydd y Rheolwr Archwilio yn cadarnhau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, o leiaf bob blwyddyn, annibyniaeth sefydliadol y swyddogaeth archwilio mewnol. Os nad yw'r strwythur llywodraethu yn cefnogi annibyniaeth sefydliadol, bydd y Rheolwr Archwilio yn dogfennu nodweddion y strwythur llywodraethu sy'n cyfyngu ar annibyniaeth ac unrhyw fesurau diogelu a ddefnyddir i gyflawni'r egwyddor o annibyniaeth.
- 2.12 Bydd y Rheolwr Archwilio yn datgelu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio unrhyw ymyrraeth y mae archwilwyr mewnol yn eu hwynebu mewn perthynas â chwmpas, perfformiad neu gyfathrebu gwaith a chanlyniadau archwilio mewnol. Bydd y datgeliad yn cynnwys cyfathrebu goblygiadau ymyrraeth o'r fath ar effeithiolrwydd a gallu'r swyddogaeth archwilio mewnol i gyflawni ei mandad.
- 2.13 Yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU (2025) ar ran y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, mae'r uwch reolwyr wedi sefydlu a gwneud trefniadau i ddiogelu annibyniaeth archwilio mewnol. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod mynediad archwilio mewnol at staff a chofnodion, fel y nodir yn y rheoliadau a'r siarter, yn gweithredu'n rhydd ac heb unrhyw ymyrraeth i'w gwmpas, cynnal gweithgareddau na chyfathrebu canlyniadau.
- Sicrhau bod y Rheolwr Archwilio yn adrodd ei hun i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar waith archwilio mewnol.
- Darparu cyfleoedd i'r Rheolwr Archwilio gwrdd â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio heb uwch reolwyr yn bresennol. Rhaid cynnal o leiaf un cyfarfod o'r fath bob blwyddyn.
- Pan fydd amhariadau gwirioneddol neu bosibl i annibyniaeth archwilio mewnol, bydd uwch reolwyr yn gweithio gyda'r Rheolwr Archwilio i'w dileu neu eu lleihau neu sicrhau bod mesurau diogelwch yn gweithredu'n effeithiol.
- Cydnabod, os oes gan y Rheolwr Archwilio rolau a chyfrifoldebau ychwanegol y tu hwnt i archwilio mewnol neu os cynigir rolau newydd, y gallai hynny effeithio ar annibyniaeth a pherfformiad archwilio mewnol, y bydd yr effaith yn cael ei thrafod gyda'r Rheolwr Archwilio a cheisir barn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Lle bo angen, rhaid i uwch reolwyr roi mesurau diogelu priodol i amddiffyn annibyniaeth archwilio mewnol a chefnogi cydymffurfiaeth â safonau proffesiynol.

2.14 Mewn llywodraeth leol, bydd uwch reolwyr yn ymgymryd â materion sy'n ymwneud â phenodi, dileu, cydnabyddiaeth ariannol a gwerthuso perfformiad y Rheolwr Archwilio, ond ni ddylid defnyddio'r trefniadau hyn i danseilio annibyniaeth archwilio mewnol. Dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddarparu adborth ar y swydd ddisgrifiad arfaethedig a dylai gwerthusiad perfformiad y Rheolwr Archwilio gynnwys adborth gan gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

2.15 Rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gefnogi annibyniaeth archwilio mewnol drwy adolygu effeithiolrwydd mesurau diogelu o leiaf bob blwyddyn, gan gynnwys unrhyw faterion neu bryderon ynghylch annibyniaeth a godir gan y Rheolwr Archwilio. Rhaid i'r Rheolwr Archwilio gael yr hawl i gael mynediad at gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar unrhyw adeg. Gall y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio godi pryderon am annibyniaeth archwilio mewnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Newidiadau i'r Mandad a'r Siarter Archwilio Mewnol

2.16 Gall amgylchiadau gyfiawnhau trafodaeth ddilynol rhwng y Rheolwr Archwilio, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r uwch reolwyr ar y mandad archwilio mewnol neu agweddau eraill ar y Siarter archwilio mewnol. Gall amgylchiadau o'r fath gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Newid sylweddol yn y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang.
- Ad-drefnu sylweddol o fewn y sefydliad.
- Newidiadau sylweddol i'r Rheolwr Archwilio, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a/neu'r uwch reolwyr.
- Newidiadau sylweddol i strategaethau, amcanion, proffil risg y sefydliad, neu'r amgylchedd y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo.
- Cyfreithiau neu reoliadau newydd a allai effeithio ar natur a/neu gwmpas gwasanaethau archwilio mewnol.

3. Goruchwyliaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

3.1 Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi ei gyfrifoldeb i *“ddarparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar ddigonolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheoli. Mae ei rôl wrth sicrhau bod digon o sicrwydd dros lywodraethu, risg a rheolaeth yn rhoi mwy o hyder i'r Cyngor bod y trefniadau hynny'n effeithiol”*.

3.2 Er mwyn sefydlu, cynnal a sicrhau bod gan swyddogaeth Archwilio Mewnol y Cyngor ddigon o awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau, bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- Trafod gyda'r Rheolwr Archwilio a'r uwch reolwyr, fel y bo'n briodol, awdurdod, rôl, cyfrifoldebau, cwmpas a gwasanaethau (sicrwydd a/neu gyngor) y swyddogaeth Archwilio Mewnol.
- Sicrhau bod gan y Rheolwr Archwilio fynediad digyfnygedig i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yn rhyngweithio â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan gynnwys mewn cyfarfod preifat heb uwch reolwyr yn bresennol.
- Trafod gyda'r Rheolwr Archwilio a'r uwch reolwyr pynciau eraill y dylid eu cynnwys yn y Siarter Archwilio Mewnol.
- Cymeradwyo siarter y swyddogaeth archwilio mewnol, sy'n cynnwys y mandad archwilio mewnol a chwmpas a mathau o wasanaethau archwilio mewnol.
- Adolygu'r siarter archwilio mewnol o bryd i'w gilydd gyda'r Rheolwr Archwilio i ystyried newidiadau sy'n effeithio ar y sefydliad, megis cyflogi prif weithredwr archwilio newydd (rheolwr archwilio) neu newidiadau yn y math, difrifoldeb a rhyng-ddibyniaeth risgiau i'r sefydliad; a chymeradwyo'r siarter archwilio mewnol.
- Cymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg.

- Ystyried digonolrwydd adnoddau archwilio mewnol.
- Cydweithio ag uwch reolwyr ar y cymwysterau a'r cymwyseddau a ddisgwylir gan y Rheolwr Archwilio i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, Nodyn Cymhwyso'r Safonau yn Sector Cyhoeddus y DU, a Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU.
- Rhoi mewnbwn i'r uwch reolwyr ar werthuso perfformiad y Rheolwr Archwilio.
- Derbyn cyfathrebiadau gan y Rheolwr Archwilio am y swyddogaeth archwilio mewnol gan gynnwys ei berfformiad mewn perthynas â'i gynllun.
- Sicrhau bod rhaglen sicrhau ansawdd a gwella wedi'i sefydlu a'i hadolygu'n flynyddol.
- Gwneud ymholiadau priodol i'r uwch reolwyr a'r Rheolwr Archwilio i benderfynu a yw cwmpas neu gyfyngiadau adnoddau yn amhriodol.
- Trafod gyda'r Rheolwr Archwilio a'r uwch reolwyr yr "amodau hanfodol" a ddisgrifir yn y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang.

4. Cyfrifoldebau Rheolwr Archwilio

Moeseg a Phroffesiynoldeb

4.1 Bydd y Rheolwr Archwilio yn sicrhau bod archwilydwr mewnol yn:

- Cydymffurfio â'r Safonau Byd-eang, y Nodyn Cymhwyso a'r Cod Ymarfer gan gynnwys egwyddorion Moeseg a Phroffesiynoldeb: uniondeb, gwrthrychedd, cymhwysedd, gofal proffesiynol dyledus, a chyfrinachedd. (Gweler Atodiad A).
- Cydymffurfio â Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan), (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth).
- Bydd yn ofynnol i bob archwilydd mewnol lofnodi Datganiad Annibyniaeth Archwilydd bob blwyddyn sy'n ymgorffori'r ddyletswydd i gadw at y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus.
- Deall, parchu, cwrdd a chyfrannu at ddisgwyliadau cyfreithlon a moesegol y sefydliad a gallu cydnabod ymddygiad sy'n groes i'r disgwyliadau hynny.
- Annog a hyrwyddo diwylliant sy'n seiliedig ar foeseg yn y sefydliad.
- Adrodd ymddygiad sefydliadol sy'n anghyson â disgwyliadau moesegol y sefydliad, fel y disgrifir mewn polisïau a gweithdrefnau perthnasol.

Gwrthrychedd

4.2 Bydd y Rheolwr Archwilio yn sicrhau bod y swyddogaeth archwilio mewnol yn parhau i fod yn rhydd o bob amodau sy'n bygwth gallu archwilydwr mewnol i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn modd diduedd, gan gynnwys materion dewis ymgysylltu, cwmpas, gweithdrefnau, amllder, amseru, a chyfathrebu.

- 4.3 Os yw'r Rheolwr Archwilio yn penderfynu y gall gwrthrychedd gael ei amharu mewn gwirionedd neu ymddangosiad, bydd manylion yr amhariad yn cael eu datgelu i bartïon priodol.
- 4.4 Bydd archwilwyr mewnol yn cynnal agwedd feddyliol ddi-dduedd sy'n caniatáu iddynt gyflawni ymrwymadau yn wrthrychol fel eu bod yn credu yn eu cynnyrch gwaith, nad ydynt yn peryglu ansawdd, ac nad ydynt yn darostwng eu barn ar faterion archwilio i eraill, naill ai mewn gwirionedd neu ymddangosiad.
- 4.5 Ni fydd gan archwilwyr mewnol unrhyw gyfrifoldeb gweithredol uniongyrchol nac awdurdod dros unrhyw un o'r gweithgareddau y maent yn eu hadolygu. Yn unol â hynny, ni fydd archwilwyr mewnol yn gweithredu rheolaethau mewnol, yn datblygu gweithdrefnau, yn gosod systemau, nac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau eraill a allai amharu ar eu barn, gan gynnwys:
- Asesu gweithrediadau penodol yr oedd ganddynt gyfrifoldeb amdanynt yn ystod y flwyddyn flaenorol.
 - Cyflawni dyletswyddau gweithredol i'r Cyngor neu ei gysylltiedigion.
 - Cychwyn neu gymeradwyo trafodion allanol i'r swyddogaeth archwilio mewnol.
 - Cyfarwyddo gweithgareddau unrhyw weithiwr y Cyngor nad yw'n cael ei gyflogi gan y swyddogaeth archwilio mewnol, ac eithrio lle mae gweithwyr o'r fath wedi'u neilltuo'n briodol i dimau archwilio mewnol neu i gynorthwyo archwilwyr mewnol.
- 4.6 Bydd archwilwyr mewnol yn:
- Datgelu amhariadau annibyniaeth neu wrthrychedd, mewn gwirionedd neu ymddangosiad i bartïon priodol pob blwyddyn o leiaf, i'r Rheolwr Archwilio, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y rheolwyr neu eraill.
 - Arddangos gwrthrychedd proffesiynol wrth gasglu, gwerthuso a chyfathrebu gwybodaeth.
 - Gwneud asesiadau cytbwys o'r holl ffeithiau ac amgylchiadau sydd ar gael ac yn berthnasol.
 - Cymryd rhagofalon angenrheidiol i osgoi gwrthdaro buddiannau, rhagfarn, a dylanwad gormodol.

Rheoli'r Swyddogaeth Archwilio Mewnol

4.7 Mae gan y Rheolwr Archwilio gyfrifoldeb i:

- Ddatblygu cynllun archwilio mewnol, bob blwyddyn o leiaf, sy'n seiliedig ar risg sy'n ystyried mewnbwn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r uwch reolwyr. Trafod y cynllun gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r uwch reolwyr a chyflwyno'r cynllun i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w adolygu a'i gymeradwyo.
- Cyfathrebu effaith cyfyngiadau adnoddau ar y cynllun archwilio mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r uwch reolwyr.
- Adolygu ac addasu'r cynllun archwilio mewnol, yn ôl yr angen, mewn ymateb i newidiadau ym musnes, risgiau, gweithrediadau, rhaglenni, systemau a rheolaethau'r Cyngor.
- Cyfathrebu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r uwch reolwyr os oes newidiadau interim sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol.
- Sicrhau bod ymrwymïadau archwilio mewnol yn cael eu cyflawni, eu dogfennu a'u cyfathrebu yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang a chyfreithiau a/neu reoliadau.
- Dilyn canfyddiadau ymgysylltu a chadarnhau gweithrediad argymhellion neu gynlluniau gweithredu a chyfathrebu canlyniadau'r gwasanaethau archwilio mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr o bryd i'w gilydd ac ar gyfer pob ymgysylltiad fel bo'n briodol.
- Sicrhau bod y swyddogaeth archwilio mewnol gyda'i gilydd yn meddu ar neu'n cael y wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau a'r cymwysterau eraill sydd eu hangen i fodloni gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang a chyflawni'r mandad archwilio mewnol.
- Adnabod ac ystyried tueddiadau a materion sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar y Cyngor a chyfathrebu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr fel bo'n briodol.
- Ystyried tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac arferion llwyddiannus mewn archwilio mewnol.
- Sefydlu a sicrhau cadw at fethodolegau sydd wedi'u cynllunio i lywio'r swyddogaeth archwilio mewnol.
- Sicrhau cadw at bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor oni bai bod polisïau a gweithdrefnau o'r fath yn gwrthdaro â'r siarter archwilio mewnol neu'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang. Bydd unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael eu datrys neu eu dogfennu a'u cyfathrebu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r uwch reolwyr.

- Cydlynu gweithgareddau ac ystyried dibynnu ar waith darparwyr mewnol ac allanol eraill o wasanaethau sicrwydd a chynghori. Os nad yw'r Rheolwr Archwilio yn gallu cyflawni lefel briodol o gydlynu, rhaid cyfathrebu'r mater i'r uwch reolwyr ac os oes angen ei gyfeirio i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

4.8 Er mwyn hwyluso gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, bydd y Rheolwr Archwilio yn:

- Mynychu cyfarfod y pwyllgor a chyfrannu at y rhaglen
- Cymryd rhan yn adolygiad y pwyllgor o'i gylch gwaith a'i effeithiolrwydd ei hun
- Ceisio sicrhau bod y pwyllgor yn derbyn ac yn deall dogfennau sy'n disgrifio sut y bydd archwilio mewnol yn cyflawni ei amcanion (e.e. y cynllun seiliedig ar risg, rhaglenni gwaith blynyddol, adroddiadau cynnydd)

Cyfathrebu

4.9 Bydd y Rheolwr Archwilio yn adrodd yn rheolaidd (ar gyfnodau y cytunwyd arnynt) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r uwch reolwyr ynglŷn â:

- Mandad y swyddogaeth archwilio mewnol a Siarter Archwilio Mewnol.
- Y cynllun archwilio mewnol a pherfformiad mewn perthynas â'i gynllun.
- Diwygiadau sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol.
- Amhariadau posib i annibyniaeth, gan gynnwys datgeliadau perthnasol fel bo'n berthnasol.
- Canlyniadau'r rhaglen sicrwydd a gwella ansawdd, sy'n cynnwys cydymffurfiaeth y swyddogaeth archwilio mewnol â Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yr IIA a chynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â diffygion a chyfleoedd i wella'r swyddogaeth archwilio mewnol.
- Amlygiad risg sylweddol a materion rheoli, gan gynnwys risgiau twyll, materion llywodraethu, a meysydd ffocws eraill ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a allai ymyrryd â chyflawni amcanion strategol y Cyngor.
- Canlyniadau gwasanaethau sicrwydd a chynghori.
- Gofynion adnoddau.
- Ymatebion rheolwyr i risg y mae'r swyddogaeth archwilio mewnol yn pennu ei bod yn annerbyniol neu dderbyn risg sydd y tu hwnt i archwaeth risg y Cyngor
- Casgliad sicrwydd blynyddol i'w ddefnyddio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn yr adroddiad blynyddol i'r Cyngor Llawn.

- 4.10 Bydd adroddiad ffurfiol yn cael ei ysgrifennu ar gyfer y rhan fwyaf o aseiniadau archwilio, ac eithrio rhai archwiliadau bach lle na ddarganfuwyd gwendidau sylweddol a lle nad oedd angen adroddiad archwilio llawn. Yn yr achosion hyn, bydd memoranda yn cael eu hanfon at y swyddogion perthnasol.
- 4.11 Lle'n briodol, bydd pob adroddiad yn cael ei gosod mewn un o bedair lefel sicrwydd. Bydd y lefel sicrwydd a ddarperir yn seiliedig ar werthusiad o'r amgylchedd reolaeth fewnol a nifer y risgiau a adnabuwyd ynghyd â'u sgôr risg.

Bydd y sgôr risg gyfredol yn syrthio i un o bedwar categori risg sef:

LEFEL RISG	SGÔR
UCHEL IAWN	20 – 25
UCHEL	12 – 16
CANOLIG	6 - 10
ISEL	1 - 5

- 4.12 Mae lefelau cyffredinol yr archwiliadau fel y dangosir yn y tabl isod:

LEFEL SICRWYDD	DIFFINIAD
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd priodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau yn eu lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau sydd yn eu lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

Mae'r defnydd o lefelau sicrwydd yn debygol o fod yn llai priodol ar gyfer adroddiadau sydd wedi'u paratoi yn dilyn ymchwiliad arbennig, neu ar gyfer gwaith sy'n cynnwys agweddau "ymgyngori".

- 4.13 Ar ôl cwblhau'r gwaith archwilio, paratwir adroddiad drafft o'r darganfyddiadau yn ogystal ag unrhyw feysydd o risgiau a adnabuwyd ar gyfer y rheolwyr perthnasol fel bod ganddynt gyfle i ystyried y darganfyddiadau a datrysiadau posibl i liniaru risgiau a chywiro unrhyw wallau ffeithiol. Rhoddir cyfnod o 2-3 wythnos i reolwyr ymateb i'r drafft, ond ystyrir cyfnod hirach os derbynnir cais am estyniad. Os na dderbynnir ymateb erbyn y dyddiad penodedig, tybir bod yr adroddiad yn dderbyniol a bydd adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi. Os derbynnir sylwadau, bydd y rhain yn cael eu hystyried (a gellir addasu'r adroddiad drafft neu beidio) cyn rhyddhau'r adroddiad terfynol. Os nad oes cytundeb i liniaru risg(iau), bydd hynny'n derbyn sylw yn yr adroddiad terfynol.

- 4.14 Ar ôl cyfnod priodol, bydd Archwilio Mewnol yn cynnal profion dilynol i sicrhau bod yr hyn y cytunwyd arnynt yn weithredol. Bydd canlyniadau'r gwaith dilynol yn cael eu hadrodd i'r Prif Swyddogion a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

5. Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella

- 5.1 Bydd y Rheolwr Archwilio yn datblygu, gweithredu a chynnal Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella (QAIP) sy'n cwmpasu pob agwedd o'r swyddogaeth archwilio mewnol. Bydd y QAIP yn cynnwys asesiadau allanol a mewnol o gydymffurfiaeth y swyddogaeth archwilio mewnol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang a'r Cod Ymarfer, yn ogystal â mesur perfformiad i asesu cynnydd y swyddogaeth archwilio mewnol tuag at gyflawni ei hamcanion a hyrwyddo gwelliant parhaus.
- 5.2 Bydd y rhaglen hefyd yn asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a/neu reoliadau sy'n berthnasol i archwilio mewnol megis Nodyn Cymhwysyso Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) a Chod Ymarfer CIPFA.
- 5.3 Os yw'n berthnasol, bydd yr asesiad yn cynnwys cynlluniau i fynd i'r afael â diffygion a chyfleoedd gwella'r swyddogaeth archwilio mewnol.
- 5.4 Yn flynyddol, bydd y Rheolwr Archwilio yn cyfathrebu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r uwch reolwyr am Raglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella y swyddogaeth archwilio mewnol, gan gynnwys canlyniadau hunanasesu mewnol (monitro parhaus a hunanasesu cyfnodol) ac asesiadau allanol.
- 5.5 Bydd asesiadau allanol yn cael eu cynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan aseswr neu dîm asesu annibynnol sydd â chymwysterau priodol o'r tu allan i'r Cyngor.

6. Cwmpas a Mathau o Wasanaethau Archwilio Mewnol

- 6.1 Mae cwmpas archwilio mewnol yn cwmpasu holl ehangder y sefydliad, gan gynnwys holl weithgareddau, asedau a phersonél y Cyngor.
- 6.2 Mae cwmpas gweithgareddau archwilio mewnol hefyd yn cwmpasu, ond heb fod yn gyfyngedig i:
- Archwiliad gwrthrychol o dystiolaeth i ddarparu sicrwydd a chyngor annibynnol i'r rheolwyr a'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar reoli risg, llywodraethu a rheolaethau mewnol.
 - Darparu gwasanaeth archwilio o ansawdd, annibynnol a gwrthrychol sy'n diwallu anghenion y Cyngor yn effeithiol, yn ychwanegu gwerth, yn gwella gweithrediadau ac yn helpu i ddiogelu adnoddau cyhoeddus.

- Cynorthwyo i sicrhau bod amcanion y Cyngor yn cael eu cyflawni.
- Darparu cyngor a chefnogaeth i reolwyr er mwyn galluogi i amgylchedd rheoli effeithiol gael ei gynnal.
- Hyrwyddo diwylliant gwrth-dwyll, gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-lygredd o fewn y Cyngor i gynorthwyo i atal a chanfod twyll ac i ymchwilio i honiadau o dwyllo, llwgrwobrwyo, llygredd ac anghysondebau eraill.

6.3 Gall ymrwymïadau archwilio mewnol gynnwys gwerthuso a yw:

- Risgiau sy'n ymwneud â chyflawni amcanion strategol y Cyngor yn cael eu hadnabod a'u rheoli'n briodol.
- Gweithredoedd swyddogion, cyfarwyddwyr, rheolwyr, gweithwyr a chontractwyr y Cyngor neu bartïon perthnasol eraill yn cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau, a chyfreithiau, rheoliadau a safonau llywodraethu cymwys y Cyngor.
- Canlyniadau gweithrediadau a rhaglenni yn gyson â nodau ac amcanion sefydledig.
- Gweithrediadau a rhaglenni yn cael eu cynnal yn effeithiol, yn effeithlon, yn foesegol ac yn deg.
- Prosesau a systemau sefydledig yn galluogi cydymffurfio â'r polisïau, gweithdrefnau, deddfau a rheoliadau a allai effeithio'n sylweddol ar y Cyngor.
- Uniondeb gwybodaeth a'r dulliau a ddefnyddir i adnabod, mesur, dadansoddi, dosbarthu ac adrodd gwybodaeth o'r fath yn ddibynadwy.
- Adnoddau ac asedau yn cael eu caffael yn economaidd, yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn gynaliadwy, a'u diogelu'n ddigonol.

6.4 Yn ogystal â gwaith sicrwydd, gall y swyddogaeth archwilio mewnol hefyd:

- Ddarparu cyngor ariannol i wasanaethau'r Cyngor, yn benodol ar Reolau Gweithdrefn Ariannol, Gorchmynion Sefydlog Contractau a Chaffael, Codau Ymarfer Ariannol a Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-lygredd a Gwrth-lwgrwobrwyo'r Cyngor.
- Cyflawni gwasanaethau cynghori mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau ar yr amod nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cymryd cyfrifoldebau rheoli. Gellir adnabod cyfleoedd i wella effeithlonrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli yn ystod ymrwymïadau cynghori.
- Cynorthwyo rheolwyr gwasanaeth i atal twyll ac ymchwilio i dwyll ar ran y Pennaeth Cyllid, a chynnig cyngor ac arweiniad ar welliannau rheoli er mwyn osgoi digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

- Mae strategaeth gwrth-dwyll, gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-lygredd Cyngor Gwynedd yn nodi bod aelodau a'r cyhoedd yn cael eu hannog i roi gwybod am bryderon am ymddygiad twyllodrus neu lygredig drwy gysylltu â'r Pennaeth Cyllid neu'r Rheolwr Archwilio.
- Darparu gwasanaethau ymgynghori ar brosiectau penodol (os yw'r capasiti yn caniatáu). Ni ddarperir lefel sicrwydd archwilio ar brosiectau o'r fath.

7. CEFNOGAETH AR GYFER ARCHWILIO MEWNOL

7.1 Yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU (2025), mae gweithgareddau archwilio mewnol yn gofyn am fynediad at uwch reolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, a chael cefnogaeth ganddynt. Mae cefnogaeth yn caniatáu i archwilio mewnol gymhwyso eu mandad a'u siarter yn ymarferol a bodloni disgwyliadau.

7.2 Mae cefnogaeth yn golygu:

- Hyrwyddo rôl a gwaith archwilio mewnol i'r staff o fewn yr awdurdod ac i sefydliadau partner y bydd archwilio mewnol yn gweithio gyda nhw.
- Hwyluso mynediad at uwch reolwyr, y Pwyllgor Archwilio ac archwilydd allanol yr awdurdod.
- Cynorthwyo, lle bo hynny'n bosibl, gyda mynediad at sicrwydd darparwr allanol fel rheoleiddwyr, arolygwyr ac ymgynghorwyr.
- Ymgysylltu'n adeiladol â darganfyddiadau, barn a chynghor archwilio mewnol.
- Adeiladu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd llywodraethu da, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar gyfer llwyddiant yr awdurdod, ac o gyfraniadau archwilio mewnol.

7.3 Mae cefnogaeth hefyd yn golygu rhoi amodau yn eu lle i alluogi gwaith archwilio mewnol:

- Pan fydd uwch reolwyr yn cytuno ar strwythurau sefydliadol, rhaid iddynt sicrhau nad yw llinell adrodd uniongyrchol y Rheolwr Archwilio yn is nag aelod o'r uwch dîm rheoli a bod ganddynt fynediad at holl aelodau'r tîm. Dylai'r Rheolwr Archwilio fod yn uwch reolwr, gan roi'r proffil angenrheidiol iddynt gyflawni mandad y swyddogaeth.
- Dylai sefyllfa sefydliadol y Rheolwr Archwilio gael ei gefnogi gan adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

7.4 Gall y pwyllgor archwilio ddangos ei gefnogaeth i archwilio mewnol drwy:

- holi uwch reolwyr a'r Rheolwr Archwilio am unrhyw gyfyngiadau ar gwmpas, mynediad, awdurdod neu adnoddau archwilio mewnol sy'n cyfyngu ar ei allu i gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol.

- ystyried y cynllun archwilio neu'r cwmpas cynllunio a chymeradwyo neu argymhell cymeradwyaeth yn ffurfiol fel bo'n briodol.
- cyfarfod o leiaf bob blwyddyn gyda'r Rheolwr Archwilio mewn sesiynau heb uwch reolwyr yn bresennol.

8. GOFYNION ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

- 8.1 Mae Archwilio Mewnol yn cynnwys y Rheolwr Archwilio a dau Arweinydd Archwilio, a tri Uwch Archwilydd. Os yw'r Rheolwr Archwilio o'r farn nad oes ganddo ef/hi adnoddau digonol i ganiatáu iddo/iddi roi barn ar yr amgylchedd rheoli yn unol â gofynion y Safonau, bydd yn adrodd am hyn i'r Pennaeth Cyllid a hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- 8.2 Mae'r Arweinwyr Archwilio yn gyfrifol am oruchwylio ac adolygu gwaith ac am ddyrannu'r cynllun archwilio fel prosiectau i archwilwyr unigol.
- 8.3 Bydd Tîm Rheoli (sy'n cynnwys y Rheolwr Archwilio a'r Arweinwyr Archwilio) yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro perfformiad a rhannu gwybodaeth. Bydd y Rheolwr Archwilio yn cwrdd â'r Pennaeth Cyllid i drafod perfformiad a chytuno ar gyfeiriad strategol Archwilio Mewnol.
- 8.4 O bryd i'w gilydd, er mwyn adlewyrchu anghenion archwilio, ac yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn caffael arbenigedd allanol i gynorthwyo gyda gwaith archwilio ac er mwyn cynnal lefelau sgiliau staff parhaol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir am faes gwaith archwilio technoleg gwybodaeth, ond nid yw mathau eraill o archwiliadau wedi'u heithrio o'r ddarpariaeth yma.

9. HYFFORDDIANT

- 9.1 Anogir aelodau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i fynychu seminarau a chyrsiau amrywiol i ddysgu gwybodaeth arbenigol mewn meysydd allweddol gan gynnwys twyll, llygredd ac anghysondebau, TG, rheoli prosiectau yn seiliedig ar fethodoleg PRINCE2, caffael a chontractau. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno naill ai'n fewnol neu drwy fynychu cyrsiau allanol a drefnir gan ddarparwyr fel CIPFA.
- 9.2 Nod Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yw parhau i ddatblygu ac atgyfnerthu'r cymysgedd o sgiliau a phrofiad o fewn y Gwasanaeth. Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn parhau â'i nod o sicrhau y bydd o leiaf dau archwilydd (heb gynnwys y Rheolwr Archwilio) yn gymwys gyda chorff CCAB neu'r IIA, yn ogystal â sicrhau y bydd o leiaf un archwilydd yn derbyn hyfforddiant ar gyfer cymhwyster proffesiynol ar unrhyw un adeg.

- 9.3 Er mwyn cydymffurfio â'r cymhwyster CIPFA ac ACCA, mae'n ofynnol i Archwilwyr Mewnol sy'n dal y cymhwyster hwn ymgymryd ag isafswm oriau o ddatblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn.

MOESEG A PHROFFESIYNOLDEB

Mae'n ofynnol i bob archwilydd mewnol gydymffurfio â safonau moeseg a phroffesiynoldeb. Os disgwylir i archwilydd mewnol gydymffurfio â chodau moeseg, ymddygiad neu ymddygiad eraill, fel rhai sefydliad, disgwylir cydymffurfiaeth â'r egwyddorion a'r safonau moeseg a phroffesiynoldeb a gynhwysir yma o hyd. Nid yw'r ffaith nad yw ymddygiad penodol yn cael ei grybwyll yn yr egwyddorion a'r safonau hyn yn ei atal rhag cael ei ystyried yn annerbyniol neu'n anghredadwy.

Er bod archwilydd mewnol yn gyfrifol am eu cydymffurfiaeth eu hunain, disgwylir i'r prif weithredwr archwilio gefnogi a hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r egwyddorion a'r safonau ym maes Moeseg a Phroffesiynoldeb trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ac arweiniad. Gall y prif weithredwr archwilio ddewis dirprwyo cyfrifoldebau penodol ar gyfer rheoli cydymffurfiaeth ond mae'n cadw atebolrwydd am foeseg a phroffesiynoldeb y swyddogaeth archwilio mewnol.

Egwyddor 1 Dangos Uniondeb

Mae archwilydd mewnol yn dangos uniondeb yn eu gwaith a'u hymddygiad.

Mae uniondeb yn ymddygiad a nodweddir drwy gadw at egwyddorion moesol a moesegol, gan gynnwys dangos gonestrwydd a'r dewrder i weithredu yn seiliedig ar ffeithiau perthnasol, hyd yn oed pan fyddwch yn wynebu pwysau i wneud fel arall, neu pan allai gwneud hynny greu canlyniadau personol neu sefydliadol andwyol posib. Yn syml iawn, disgwylir i archwilydd mewnol ddweud y gwir a gwneud y peth iawn, hyd yn oed pan fydd hynny'n anghyfforddus neu'n anodd.

Uniondeb yw sylfaen egwyddorion eraill moeseg a phroffesiynoldeb, gan gynnwys gwrthrychedd, cymhwysedd, gofal proffesiynol dyledus, a chyfrinachedd. Mae uniondeb archwilydd mewnol yn hanfodol i sefydlu ymddiriedaeth ac ennill parch.

Safon 1.1 Gonestrwydd a Dewrder Proffesiynol

Rhaid i archwilydd mewnol gyflawni eu gwaith gyda gonestrwydd a dewrder proffesiynol.

Rhaid i archwilydd mewnol fod yn onest, yn gywir, yn glir, yn agored, ac yn barchus ym mhob perthynas broffesiynol a chyfathrebu, hyd yn oed wrth fynegi amheuaeth neu gynnig safbwynt gwrthwynebol. Rhaid i archwilydd mewnol beidio â gwneud datganiadau ffug, camarweiniol neu dwyllodrus, na chuddio neu hepgor darganfyddiadau neu wybodaeth berthnasol arall o gyfathrebu. Rhaid i archwilydd mewnol ddatgelu'r holl ffeithiau materol sy'n hysbys iddynt a allai, os nad ydynt yn cael eu datgelu, effeithio ar allu'r sefydliad i wneud penderfyniadau gwybodus.

Rhaid i archwilydd mewnol arddangos dewrder proffesiynol trwy gyfathrebu'n wirioneddol a chymryd camau priodol, hyd yn oed pan fyddant yn wynebu dilemâu a sefyllfaoedd anodd.

Rhaid i'r prif weithredwr archwilio gynnal amgylchedd gwaith lle mae archwilwyr mewnol yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth fynegi canlyniadau ymgysylltu cyfreithlon, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, boed yn ffafriol neu'n anffafriol.

Safon 1.2 Disgwyliadau Moesegol Sefydliadol

Rhaid i archwilwyr mewnol ddeall, parchu, cwrdd a chyfrannu at ddisgwyliadau cyfreithlon a moesegol y sefydliad a rhaid iddynt allu cydnabod ymddygiad sy'n groes i'r disgwyliadau hynny.

Rhaid i archwilwyr mewnol annog a hyrwyddo diwylliant sy'n seiliedig ar foeseg yn y sefydliad. Os yw archwilwyr mewnol yn adnabod ymddygiad o fewn y sefydliad sy'n anghyson â disgwyliadau moesegol y sefydliad, rhaid iddynt adrodd y pryder yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol.

Safon 1.3 Ymddygiad Cyfreithiol a Moesegol

Rhaid i archwilwyr mewnol beidio â chymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd sy'n anghyfreithlon neu'n anghredadwy i'r sefydliad neu'r proffesiwn archwilio mewnol neu a allai niweidio'r sefydliad neu ei weithwyr.

Rhaid i archwilwyr mewnol ddeall a chydymffurfio â'r deddfau a/neu'r rheoliadau sy'n berthnasol i'r Cyngor, llywodraeth leol a'r awdurdodaethau lle mae'r sefydliad yn gweithredu, gan gynnwys gwneud datgeliadau yn ôl yr angen.

Os yw archwilwyr mewnol yn adnabod toriadau cyfreithiol neu reoleiddiol, rhaid iddynt adrodd digwyddiadau o'r fath i unigolion neu endidau sydd â'r awdurdod i gymryd camau priodol, fel y nodir mewn deddfau, rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol.

Egwyddor 2 Cynnal Gwrthrychedd

Mae archwilwyr mewnol yn cynnal agwedd ddiuedd wrth gyflawni gwasanaethau archwilio mewnol a gwneud penderfyniadau.

Mae gwrthrychedd yn agwedd feddyliol ddiuedd sy'n caniatáu i archwilwyr mewnol wneud penderfyniadau proffesiynol, cyflawni eu cyfrifoldebau, a chyflawni 'Diben archwilio mewnol' heb gyfaddawdu. Mae swyddogaeth archwilio mewnol wedi'i leoli'n annibynnol yn cefnogi gallu archwilwyr mewnol i gynnal gwrthrychedd.

Safon 2.1 Gwrthrychedd Unigol

Rhaid i archwilwyr mewnol gynnal gwrthrychedd proffesiynol wrth gyflawni pob agwedd o wasanaethau archwilio mewnol. Mae gwrthrychedd proffesiynol yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr mewnol gymhwyso meddylfryd diduedd a dod i farn yn seiliedig ar asesiad cytbwys o'r holl amgylchiadau perthnasol.

Rhaid i archwilwyr mewnol fod yn ymwybodol o ragfarnau a'u rheoli.

Safon 2.2 Diogelu Gwrthrychedd

Rhaid i archwilwyr mewnol gydnabod ac osgoi neu liniaru amhariadau gwirioneddol, posib a chanfyddedig i wrthrychedd.

Rhaid i archwilwyr mewnol beidio â derbyn unrhyw eitem ddiriaethol neu anniriaethol, megis rhodd, gwobr, ffafr, a allai amharu ar wrthrychedd neu dybio ei fod yn amharu ar wrthrychedd.

Rhaid i archwilwyr mewnol osgoi gwrthdaro buddiannau ac ni ddylent gael eu dylanwadu'n ormodol gan eu buddiannau eu hunain neu fuddiannau eraill, gan gynnwys uwch reolwyr neu eraill mewn sefyllfa awdurdodol, neu gan yr amgylchedd gwleidyddol neu agweddau eraill ar eu hamgylchoedd.

Wrth gyflawni gwasanaethau archwilio mewnol:

- Rhaid i archwilwyr mewnol ymatal rhag asesu gweithgareddau penodol yr oeddent yn gyfrifol amdanynt yn flaenorol. Tybir bod gwrthrychedd yn cael ei amharu os yw archwilydd yn darparu gwasanaethau sicrwydd ar gyfer gweithgaredd yr oedd gan yr archwilydd mewnol gyfrifoldeb amdano yn ystod y 12 mis blaenorol.
- Os yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn darparu gwasanaethau sicrwydd lle'r oedd yn cyflawni gwasanaethau cynghori o'r blaen, rhaid i'r prif weithredwr archwilio gadarnhau nad yw natur y gwasanaethau cynghori yn amharu ar wrthrychedd a rhaid iddo neilltuo adnoddau fel bod gwrthrychedd unigol yn cael ei reoli. Rhaid i ymrwymïadau sicrwydd ar gyfer swyddogaethau y mae'r prif weithredwr archwilio yn gyfrifol amdanynt gael eu goruchwyllo gan barti annibynnol y tu allan i'r swyddogaeth archwilio mewnol.
- Os bydd archwilwyr mewnol yn darparu gwasanaethau cynghori sy'n ymwneud â gweithgareddau yr oedd ganddynt gyfrifoldebau blaenorol amdanynt, rhaid iddynt ddatgelu amhariadau posib i'r parti sy'n gofyn am y gwasanaethau cyn derbyn yr ymrwymiad.

Rhaid i'r prif weithredwr archwilio sefydlu methodolegau i fynd i'r afael ag amhariadau ar wrthrychedd. Rhaid i archwilwyr mewnol drafod amhariadau a chymryd camau priodol yn ôl methodolegau perthnasol.

Safon 2.3 Datgelu Amhariadau i Wrthrychedd

Os yw gwrthrychedd yn cael ei amharu mewn gwirionedd neu ymddangosiad, rhaid datgelu manylion yr amhariad yn brydlon i'r partïon priodol.

Os bydd archwilwyr mewnol yn dod yn ymwybodol o amhariad a allai effeithio ar eu gwrthrychedd, rhaid iddynt ddatgelu'r amhariad i'r prif weithredwr archwilio neu oruchwyliwr dynodedig. Os yw'r prif weithredwr archwilio yn penderfynu bod amhariad yn effeithio ar allu archwilydd mewnol i gyflawni dyletswyddau'n wrthrychol, rhaid i'r prif weithredwr archwilio drafod yr amhariad gyda rheolwyr y gweithgaredd dan adolygiad, bwrdd a/neu uwch reolwyr a phenderfynu ar y camau priodol i ddatrys y sefyllfa.

Os darganfyddir amhariad sy'n effeithio ar ddibynadwyedd neu ddibynadwyedd canfyddedig darganfyddiadau, argymhellion a/neu gasgliadau ymgysylltu ar ôl cwblhau ymgysylltiad, rhaid i'r prif weithredwr archwilio drafod y pryderon gyda rheolwyr y gweithgaredd dan adolygiad, y bwrdd, yr uwch reolwyr, a/neu randdeiliaid eraill yr effeithir arnynt a phenderfynu ar y camau priodol i ddatrys y sefyllfaoedd. (Gweler hefyd Safon 11.4 Gwallau a Hepgoriadau.)

Os yw gwrthrychedd y prif weithredwr archwilio yn cael ei amharu mewn gwirionedd neu ymddangosiad, rhaid i'r prif weithredwr archwilio ddatgelu'r amhariad i'r bwrdd. (Gweler hefyd Safon 7.1 Annibyniaeth Sefydliadol.)

Egwyddor 3 Dangos Cymhwysedd

Mae archwilwyr mewnol yn cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a galluoedd i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llwyddiannus.

Mae dangos cymhwysedd yn gofyn am ddatblygu a chymhwyso'r wybodaeth, y sgiliau a'r galluoedd i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol. Oherwydd bod archwilwyr mewnol yn darparu ystod amrywiol o wasanaethau, mae'r cymwyseddau sydd eu hangen ar bob archwilydd mewnol yn amrywio. Yn ogystal â meddu ar neu gael y cymwyseddau sydd eu hangen i gyflawni gwasanaethau, mae archwilwyr mewnol yn gwella effeithiolrwydd ac ansawdd gwasanaethau trwy fynd ar drywydd datblygiad proffesiynol.

Safon 3.1 Cymhwysedd

Rhaid i archwilwyr mewnol feddu ar neu gael y cymwyseddau i gyflawni eu cyfrifoldebau yn llwyddiannus. Mae'r cymwyseddau gofynnol yn cynnwys y wybodaeth, y sgiliau a'r galluoedd sy'n addas ar gyfer swydd a chyfrifoldebau sy'n gymesur â'u lefel o brofiad. Rhaid i archwilwyr mewnol feddu ar neu ddatblygu gwybodaeth am Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yr IIA.

Rhaid i archwilwyr mewnol gymryd rhan yn y gwasanaethau hynny y mae ganddynt neu y gallant gyflawni'r cymwyseddau angenrheidiol ar eu cyfer.

Mae pob archwilydd mewnol yn gyfrifol am ddatblygu a chymhwyso'r cymwyseddau angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau proffesiynol yn barhaus. Yn ogystal, rhaid i'r prif weithredwr archwilio sicrhau bod y swyddogaeth archwilio mewnol gyda'i gilydd yn meddu ar y cymwyseddau i gyflawni'r gwasanaethau archwilio mewnol a ddisgrifir yn y siarter archwilio mewnol neu raid iddo gael y cymwyseddau angenrheidiol. (Gweler hefyd Safonau 7.2 Cymwysterau Prif Weithredwr Archwilio a 10.2 Rheoli Adnoddau Dynol.)

Safon 3.2 Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Rhaid i archwilwyr mewnol gynnal a datblygu eu cymwyseddau yn barhaus i wella effeithiolrwydd ac ansawdd gwasanaethau archwilio mewnol. Rhaid i archwilwyr mewnol fynd ar drywydd datblygiad proffesiynol parhaus gan gynnwys addysg a hyfforddiant. Rhaid i archwilwyr mewnol ymarferol sydd wedi ennill ardystiad archwilio mewnol proffesiynol ddilyn y polisïau addysg broffesiynol barhaus a bodloni'r gofynion sy'n berthnasol i'w hardystiadau.

Egwyddor 4 Ymarfer Gofal Proffesiynol Dyledus

Mae Archwilwyr Mewnol yn cymhwyso gofal proffesiynol dyledus wrth gynllunio a chyflawni gwasanaethau archwilio mewnol.

Mae'r Safonau sy'n ymgorffori gofal proffesiynol priodol yn gofyn am:

- Gydymffurfiaeth â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang.
- Ystyried natur, amgylchiadau a gofynion y gwaith i'w gyflawni.
- Cymhwyso amheuaeth broffesiynol i asesu a gwerthuso gwybodaeth yn feirniadol.

Mae gofal proffesiynol priodol yn gofyn am gynllunio a chyflawni gwasanaethau archwilio mewnol gyda'r diwydrwydd, y farn a'r amheuaeth sydd gan archwilwyr mewnol darbodus a chymwys. Wrth ymarfer gofal proffesiynol dyledus, mae archwilwyr mewnol yn perfformio er budd gorau'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau archwilio mewnol ond nid oes disgwyl iddynt fod yn anffaeledig.

Safon 4.1 Cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang

Rhaid i Archwilwyr Mewnol gynllunio a chyflawni gwasanaethau archwilio mewnol yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang.

Rhaid sefydlu methodolegau'r swyddogaeth archwilio mewnol, eu dogfennu a'u cynnal yn unol â'r Safonau. Rhaid i archwilwyr mewnol ddilyn methodolegau'r Safonau a'r swyddogaeth archwilio mewnol wrth gynllunio a chyflawni gwasanaethau archwilio mewnol a chyfathrebu canlyniadau.

Os defnyddir y Safonau ar y cyd â'r gofynion a gyhoeddir gan gyrff awdurdodol eraill, rhaid i gyfathrebu archwilio mewnol hefyd nodi'r defnydd o'r gofynion eraill, fel bo'n briodol.

Os yw deddfau neu reoliadau yn gwahardd archwilwyr mewnol neu swyddogaethau archwilio mewnol rhag cydymffurfio ag unrhyw ran o'r Safonau, mae angen cydymffurfio â phob rhan arall o'r Safonau a rhaid gwneud datgeliadau priodol.

Pan nad yw archwilwyr mewnol yn gallu cydymffurfio â gofyniad, rhaid i'r prif weithredwr archwilio ddogfennu a chyfathrebu disgrifiad o'r amgylchiadau, camau amgen a gymerwyd, effaith y camau gweithredu, a'r rhesymeg. Disgrifir gofynion sy'n gysylltiedig â datgelu diffyg cydymffurfiaeth â'r Safonau yn Safonau 8.3 Ansawdd, 12.1 Asesiad Ansawdd Mewnol, a 15.1 Cyfathrebiadau Ymgysylltu Terfynol.

Safon 4.2 Gofal Proffesiynol Dyledus

Rhaid i archwilwyr mewnol ymarfer gofal proffesiynol dyledus trwy asesu natur, amgylchiadau a gofynion y gwasanaethau sydd i'w darparu, gan gynnwys:

- Strategaeth ac amcanion y sefydliad.
- Buddiannau'r rhai y darperir gwasanaethau archwilio mewnol ar eu cyfer a buddiannau rhanddeiliaid eraill.
- Digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau.
- Cost mewn perthynas â manteision posib y gwasanaethau archwilio mewnol sydd i'w cyflawni.
- Maint a phrydlondeb y gwaith sydd ei angen i gyflawni amcanion yr ymgysylltu.
- Cymhlethdod cymharol, materoldeb, neu arwyddocâd risgiau i'r gweithgaredd dan adolygiad.
- Tebygolrwydd o wallau sylweddol, twyll, diffyg cydymffurfio, a risgiau eraill a allai effeithio ar amcanion, gweithrediadau ac adnoddau.
- Defnyddio technegau, offer a thechnoleg briodol.

Safon 4.3 Amheuaeth Broffesiynol

Rhaid i archwilwyr mewnol ymarfer amheuaeth broffesiynol wrth gynllunio a chyflawni gwasanaethau archwilio mewnol.

Er mwyn ymarfer amheuaeth broffesiynol, rhaid i archwilwyr mewnol:

- Gynnal agwedd sy'n cynnwys chwilfrydedd.
- Asesu dibynadwyedd gwybodaeth yn feirniadol.
- Bod yn blaen ac onest wrth godi pryderon a gofyn cwestiynau am wybodaeth anghyson.
- Gofyn am dystiolaeth ychwanegol i ddod i farn am wybodaeth a datganiadau a allai fod yn anghyflawn, anghyson, ffug neu gamarweiniol.

Egwyddor 5 Cadw Cyfrinachedd

Mae Archwilwyr Mewnol yn defnyddio ac yn diogelu gwybodaeth yn briodol.

Oherwydd bod gan archwilwyr mewnol fynediad digyfnygedig i'r data, cofnodion a gwybodaeth arall sy'n angenrheidiol i gyflawni'r mandad archwilio mewnol, maent yn aml yn derbyn gwybodaeth sy'n gyfrinachol, perchnogol a/neu bersonol adnabyddadwy. (Gweler hefyd Egwyddor 6 Awdurdodwyd gan y bwrdd a'i safonau.) Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar ffurf ffisegol a digidol yn ogystal â gwybodaeth sy'n deillio o gyfathrebu llafar, megis trafodaethau cyfarfodydd ffurfiol neu anffurfiol. Rhaid i archwilwyr mewnol barchu gwerth a pherchnogaeth gwybodaeth y maent yn ei derbyn trwy ei defnyddio at ddibenion proffesiynol yn unig a'i hamddiffyn rhag mynediad neu ddatgelu anawdurdodedig, yn fewnol ac yn allanol.

Safon 5.1 Defnyddio Gwybodaeth

Rhaid i archwilwyr mewnol ddilyn polisiau, gweithdrefnau, deddfau a rheoliadau perthnasol wrth ddefnyddio gwybodaeth. Ni ddylid defnyddio'r wybodaeth er budd personol neu mewn modd sy'n groes neu'n niweidiol i amcanion cyfreithlon a moesegol y sefydliad.

Safon 5.2 Diogelu Gwybodaeth

Rhaid i archwilwyr mewnol fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau am ddiogelu gwybodaeth a dangos parch at gyfrinachedd, preifatrwydd a pherchnogaeth gwybodaeth a gafwyd wrth gyflawni gwasanaethau archwilio mewnol neu o ganlyniad i berthynas broffesiynol.

Rhaid i archwilwyr mewnol ddeall a chydymffurfio â'r deddfau, rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â chyfrinachedd, preifatrwydd gwybodaeth, a diogelwch gwybodaeth sy'n berthnasol i'r sefydliad a'r swyddogaeth archwilio mewnol.

Mae ystyriaethau sy'n benodol berthnasol i'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cynnwys:

- Dal, cadw a gwaredu cofnodion ymgysylltu.
- Rhyddhau cofnodion ymgysylltu i bartïon mewnol ac allanol.
- Trin gwybodaeth gyfrinachol, mynediad at, neu gopïau o wybodaeth gyfrinachol pan nad oes ei hangen mwyach.

Rhaid i archwilwyr mewnol beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol i bartïon anawdurdodedig oni bai bod cyfrifoldeb cyfreithiol neu broffesiynol i wneud hynny.

Rhaid i archwilwyr mewnol reoli'r risg o ddatgelu gwybodaeth yn anfwriadol.

Rhaid i'r prif weithredwr archwilio sicrhau bod y swyddogaeth archwilio mewnol a'r unigolion sy'n cynorthwyo'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cadw at yr un gofynion diogelu.

Y Nodyn Cymhwyso: Mae Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU yn darparu cyd-destun cyffredinol pellach ar gyfer sector cyhoeddus y DU. Mae'r Safonau yn gyffredinol a Safon 1.2 (Disgwyliadau Moesegol Sefydliad) yn disgrifio'n benodol bwysigrwydd archwilwyr mewnol sy'n annog a hyrwyddo diwylliant sy'n seiliedig ar foeseg ochr yn ochr â chadw at ddisgwyliadau moesegol eu sefydliad eu hunain. Mae'r angen hwn am ymddygiad moesegol yn arbennig o berthnasol yn sector cyhoeddus y DU lle mae'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn weision i'r cyhoedd ac yn stiwardiaid adnoddau cyhoeddus. Mae'r llywodraeth wedi nodi Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (a elwir hefyd yn 'Egwyddorion Nolan') sy'n berthnasol i bob gwas cyhoeddus (gan gynnwys contractwyr sy'n gweithio yn y gwasanaeth cyhoeddus).

Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus

- **Anhunanoldeb:** Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd a hynny'n unig.
- **Uniondeb:** Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus roi eu hunain dan unrhyw ymrwymiad i unigolion neu sefydliadau allanol a allai geisio, yn amhriodol, ddylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn ennill buddion ariannol neu fuddion materol eraill iddyn nhw eu hunain, eu teulu neu eu ffrindiau. Rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a pherthnasoedd.

- **Gwrthrychedd:** Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a chymryd penderfyniadau yn ddi-duedd, yn deg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb gamwahanïaethu na rhagfarn.
- **Atebolrwydd:** Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt gyflwyno eu hunain i'r craffu angenrheidiol i sicrhau hyn.
- **Bod yn agored:** Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylent gadw gwybodaeth rhag y cyhoedd oni bai bod rhesymau amlwg a chyfreithlon dros wneud hynny.
- **Gonestrwydd:** Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn onest.
- **Arweinyddiaeth:** Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad eu hunain a thrin eraill gyda pharch. Dylent hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion yn weithredol a herio ymddygiad gwael lle bynnag y mae'n digwydd.

Rhaid i archwilwyr mewnol sy'n gweithio yn sector cyhoeddus y DU gymhwyso'r rhain ochr yn ochr â'r holl fframweithiau moesegol perthnasol eraill.

PWYLLGOR	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	3 CHWEFOR 2026
TEITL	STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL BLYNYDDOL 2026/2027
DIBEN	CYFLWYNO'R STRATEGAETH A'R CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL BLYNYDDOL I'R PWYLLGOR
AWDUR	LUNED FÔN JONES, RHEOLWR ARCHWILIO
CAMAU GWEITHREDU	CYMERADWYO'R STRATEGAETH A'R CYNLLUN BLYNYDDOL

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer 2026/27 wedi'u hatodi i'w hadolygu a'u hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

2. CEFNDIR

Strategaeth Archwilio Mewnol

- 2.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS), yn benodol Safon 9.2 "Strategaeth Archwilio Mewnol" yn nodi bod rhaid i'r prif weithredwr archwilio¹ ddatblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer y swyddogaeth archwilio mewnol sy'n cefnogi amcanion strategol a llwyddiant y sefydliad. Mae Strategaeth Archwilio Mewnol newydd wedi'i datblygu sy'n alinio'r blaenoriaethau, yr amcanion a'r risgiau strategol allweddol sy'n wynebu'r Cyngor i gyd-fynd â gwaith y swyddogaeth archwilio mewnol dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn helpu i ddarparu cyfeiriad strategol i'r swyddogaeth archwilio mewnol ac yn cefnogi'r Cyngor yn ei ymagwedd at gyflawni ei amcanion allweddol ac yn dyrannu adnoddau archwilio mewnol yn briodol.

- 2.2 Mae'r Safon yn nodi bod yn rhaid i'r strategaeth archwilio mewnol gynnwys gweledigaeth, amcanion strategol, a mentrau cefnogol ar gyfer y swyddogaeth archwilio mewnol. Mae'r strategaeth archwilio mewnol yn helpu i lywio'r swyddogaeth archwilio mewnol tuag at gyflawni'r mandad archwilio mewnol.

Cynllun Archwilio Mewnol

- 2.3 Mae Safon 9.4 "Cynllun Archwilio Mewnol" y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yn nodi bod yn rhaid i'r prif weithredwr archwilio greu cynllun archwilio mewnol sy'n cefnogi cyflawni amcanion y sefydliad.

¹Rheolwr Archwilio

- 2.4 Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn seiliedig ar asesiad o strategaethau, amcanion a risgiau Cyngor Gwynedd.
- 2.2 Mae'r cynllun sy'n seiliedig ar risg yn ystyried y gofyniad i gynhyrchu adroddiad blynyddol, gan gynnwys y casgliad blynyddol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau, a pherfformiad archwilio mewnol yn erbyn ei amcanion. (Y Cod)
- 2.3 Er mwyn i archwilio mewnol barhau i fod yn berthnasol, rhaid iddo addasu i ddisgwyliadau sy'n newid a sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd ag amcanion y Cyngor. Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol yn hanfodol i barhau i fod yn berthnasol – yn chwarae rôl bwysig wrth sicrhau cydbwysedd rhwng cost a gwerth, gan wneud cyfraniadau ystyrlon at lywodraethu cyffredinol, rheoli risg, a rheolaethau mewnol y Cyngor.
- 2.4 Defnyddiwyd proses systematig a strwythuredig i ddatblygu'r cynllun Archwilio Mewnol, gan helpu i alluogi i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gyflawni ei weledigaeth a'i genhadaeth.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn a chymeradwyo cynnwys y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2026/2027, i'w cymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol yn ei weithrediadau.



 gwynedd.llyw.cymru

 Cyngor Gwynedd

 Cyngor Gwynedd

 Cyngor Gwynedd



STRATEGAETH A CHYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2026/27

Datganiad o Fwriad

Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor ar amgylchedd rheoli a threfniadau llywodraethu'r Cyngor drwy adrodd yn annibynnol ac yn wrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae archwilio mewnol yn cryfhau gallu'r sefydliad i greu, diogelu a chynnal gwerth drwy ddarparu sicrwydd, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad annibynnol, gwrthrychol ac ar sail risg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Rheolwyr.



RHOI POBL GWYNEDD YN GANOLOG I BOPETH RYDYM YN EI WNEUD
PUTTING THE PEOPLE OF GWYNEDD AT THE CENTRE OF EVERYTHING WE DO

STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN ARCHWILIO

2026-27

1. ARCHWILIO MEWNOL - EIN DATGANIAD O WELEDIGAETH

- 1.1 *"I fod yn biler dibynadwy mewn llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth, wedi'n cydnabod am ein rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol arloesol, craff a rhagweithiol. Ein nod yw gwella gallu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol yn barhaus, diogelu adnoddau cyhoeddus, a meithrin tryloywder ac atebolrwydd. Drwy ein hymrwymiad i gynnal safonau uchel, cydymffurfio â safonau proffesiynol ac ymroddiad i welliant parhaus, rydym yn ymdrechu i fod yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol ac yn sylfaen i uniondeb a llwyddiant y Cyngor."*

2. DATGANIAD O BWRPAS

- 2.1 Mae archwilio mewnol yn cryfhau gallu'r sefydliad i greu, diogelu a chynnal gwerth drwy ddarparu sicrwydd, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad annibynnol, gwrthrychol ac ar sail risg i'r bwrdd a'r rheolwyr.

Mae archwilio mewnol yn gwella'r sefydliad o ran:

- Cyflawni ei amcanion yn llwyddiannus.
- Prosesau llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth.
- Gwneud penderfyniadau a goruchwyllo.
- Enw da a hygyrdd gyda'i randdeiliaid.
- Y gallu i wasanaethu buddiannau'r cyhoedd.

3. ARCHWILIO MEWNOL A'R BUDD CYHOEDDUS

- 3.1 Mae archwilio mewnol yn chwarae rôl hanfodol wrth wella gallu sefydliad i wasanaethu budd cyhoeddus. Er mai prif swyddogaeth archwilio mewnol yw cryfhau prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, mae ei effeithiau'n ymestyn y tu hwnt i'r sefydliad. Mae archwilio mewnol yn cyfrannu at sefydlogrwydd a chynaliadwyedd cyffredinol sefydliad drwy ddarparu sicrwydd ar ei effeithlonrwydd gweithredol, dibynadwyedd adrodd, cydymffurfiaeth â chyfreithiau a/neu reoliadau, diogelu asedau, a diwylliant moesegol.

4. STRATEGAETH A CHYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL

- 4.1 Wrth ddatblygu strategaeth a chynllun archwilio mewnol, rhoddwyd ystyriaeth i sut y mae Cyngor Gwynedd yn:
- Sefydlu amcanion strategol ac yn gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol.
 - Goruchwyllo rheoli risg a rheolaeth.
 - Hyrwyddo diwylliant moesegol.

- Darparu rheolaeth perfformiad ac atebolrwydd effeithiol.
 - Strwythuro ei swyddogaethau rheoli a gweithredu.
 - Cyfathrebu gwybodaeth risg a rheolaeth drwy gydol y sefydliad.
 - Cydlynu gweithgareddau a chyfathrebu ymhlith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a darparwyr gwasanaethau sicrwydd allanol, e.e. Archwilio Cymru.
- 4.2 Mae'r Strategaeth yn nodi sut y bydd y gwasanaeth yn cael ei gyflawni a'i ddatblygu ac mae'n cael ei ategu gan y Siarter Archwilio Mewnol sy'n cynnwys mandad swyddogaeth archwilio mewnol, safbwynt sefydliadol, perthnasoedd adrodd, awdurdod, cwmpas gwaith, mathau o wasanaethau a manylebau eraill
- 4.3 Mae Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS), yn benodol Safon 9.2 Strategaeth Archwilio Mewnol yn nodi: ***"rhaid i'r prif weithredwr archwilio¹ ddatblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer y swyddogaeth archwilio mewnol sy'n cefnogi amcanion strategol a llwyddiant y sefydliad."***
- 4.4 Mae Safon 9.4 Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yn nodi ***"rhaid i'r prif weithredwr archwilio greu cynllun archwilio mewnol sy'n cefnogi cyflawni amcanion y sefydliad."***
- 4.5 Mae'r cynllun blynyddol sy'n seiliedig ar risg yn ystyried y gofyniad i gynhyrchu casgliad ac adroddiad blynyddol.
- 4.6 Wrth baratoi'r cynllun archwilio mewnol, ystyriodd y Rheolwr Archwilio y canlynol:
- Ymrwymadau sy'n ofynnol gan gyfreithiau neu reoliadau.
 - Ymrwymadau sy'n hanfodol i genhadaeth neu strategaeth y sefydliad.
 - Meysydd a gweithgareddau sydd â lefelau sylweddol o risg.
 - A oes gan bob risg sylweddol sylw digonol gan ddarparwyr sicrwydd.
 - Ceisiadau cynghori ac ad hoc.
 - Yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer pob ymgysylltiad posibl.
 - Manteision posibl pob ymgysylltiad i'r sefydliad, megis potensial yr ymgysylltiad i gyfrannu at wella prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli'r sefydliad.
- 4.7 Er mwyn sicrhau ein bod yn adolygu'r pethau cywir, rhoddwyd ystyriaeth yn gyntaf i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Cynllun Cyngor Gwynedd ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol eraill. Mae hyn er mwyn sicrhau bod rheolaethau allweddol y Cyngor er mwyn delio â'i brif risgiau yn cael eu hystyried.

¹Rheolwr Archwilio

4.8 Ar gyfer pob risg ar y gofrestr, darperir sgôr gyfredol, sef y sgôr yn dilyn asesiad gwrthrychol o'r trefniadau rheoli sydd ar waith ar hyn o bryd. Rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor:

- Effaith y risg pe bai'n cael ei wireddu
- Y tebygolrwydd y bydd yn digwydd.

4.9 Mae'r sgoriau effaith yn amrywio o 1 (Effaith weladwy) i 5 (Effaith drychinebus), a'r sgoriau tebygolrwydd o 1 (annhebygol iawn) i 5 (sy'n digwydd nawr). Mae'r sgôr risg yn cael ei chyfrifo trwy luosi'r sgôr effaith a'r sgôr tebygolrwydd. Mae lefel gymharol y risgiau yn cael ei chyfrifo fel a ganlyn:

Sgôr 20-25	Risg Uchel iawn
Sgôr 12-16	Risg Uchel
Sgôr 6-10	Risg Ganolig
Sgôr 1-5	Risg Isel

4.8 Mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yn nodi gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth:

- **Gwynedd Yfory** - Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc
- **Gwynedd Lewyrchus** - Cryfhau'r economi a chefnogi pobl Gwynedd i ennill cyflog teg
- **Gwynedd Glyd** - Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau
- **Gwynedd Ofalgar** - Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau
- **Gwynedd Gymraeg** - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gymuned.
- **Gwynedd Werdd** - Gwarchod prydferthwch naturiol y sir, ac ymateb yn bositif i'r argyfwng newid hinsawdd.
- **Gwynedd Effeithlon** - Rhoi pobl Gwynedd yn gyntaf a'u trin yn deg a sicrhau bod y Cyngor yn perfformio yn effeithiol ac yn effeithlon.

4.9 Mabwysiadwyd y Cynllun gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2023, ond mae'n ddogfen fyw a fydd yn esblygu dros amser. Mae'r Cynllun yn cael ei adolygu'n flynyddol.

- 4.10 Mae'r cynllun archwilio yn deillio o adolygiad gwrthrychol o'r risgiau a allai effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor, ac ymgynghori â Phenaethiaid Adrannau ac Uwch Swyddogion. Mae Rheol Gweithdrefn Ariannol 16.12.6 Cyngor Gwynedd yn nodi: ***"Bydd y Pennaeth Cyllid yn cytuno ar y cynlluniau archwilio tymor canolig a blyneddol a baratowyd gan y Rheolwr Archwilio sy'n ystyried nodweddion a risgiau cymharol y gweithgareddau dan sylw. Bydd y cynlluniau'n cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio."***
- 4.11 Wrth baratoi'r cynllun archwilio, a ddisgrifir yn Atodiad A, rhoddwyd ystyriaeth i'r hyn y mae angen i'r Gwasanaeth ei wneud er mwyn cyflawni ei bwrpas. Mae'r cynllun archwilio wedi'i groesgyfeirio lle bo'n berthnasol i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a Chynllun Cyngor Gwynedd.
- 4.12 Bydd cynllun Archwilio Mewnol 2026/2027 hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r canlynol:
- Bydd yn ymwybodol bob amser o'r posibilrwydd o dwyll neu lygredd. Byddwn felly yn manteisio ar y Fenter Twyll Genedlaethol ac yn ymgymryd â gwaith atal twyll rhagweithiol.
 - Parhau i fynd i'r afael â grantiau penodol, yn enwedig lle mae amodau'r grant yn disgwyl adolygiad Archwilio Mewnol.
- 4.13 Bydd y cynllun archwilio yn parhau i fod yn hyblyg er mwyn adlewyrchu unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg neu newidiadau i risgiau a blaenoriaethau Cyngor Gwynedd. Bydd unrhyw ddiwygiadau neu addasiadau i'r Cynllun yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn y dull arferol.
- 4.14 Er mwyn sicrhau hyblygrwydd, bydd Archwilio Mewnol yn defnyddio'r fethodoleg AGILE lle bo hynny'n bosibl. Amcanion cymhwyso'r egwyddorion Agile yw:
- Cynyddu ansawdd archwilio
 - Cylchoedd archwilio byr
 - Mwy o ryngweithio â'r sawl sy'n cael ei archwilio
 - Darparu mewnwelediadau
- Mae Agile yn darparu Cynllunio Archwilio Mewnol mwy hyblyg a deinamig o ganlyniad i fonitro risg parhaus.
- 4.15 Rhagwelir y bydd oddeutu 760 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau cynllun archwilio 2026/27. Mae hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r adnoddau staffio sydd ar gael, gan gynnwys lwfansau rhesymol ar gyfer gwaith "digynnyrch" fel gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheoli a chyfarfodydd a darpariaeth ar gyfer gwaith ymatebol a dilynol.

- 4.16 Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn darparu Gwasanaeth Archwilio Mewnol i nifer o gleientiaid allanol gan gynnwys tua 75 o gynghorau tref a chymuned, Parc Cenedlaethol Eryri, Byw'n Iach, a Chyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru. Mae'r diwrnodau hyn eisoes wedi'u hystyried wrth gyfrifo nifer y diwrnodau sydd ar gael i gyflawni Cynllun Cyngor Gwynedd, h.y. 760 diwrnod.
- 4.17 Bydd Cynllun Archwilio 2026/2027 yn gynllun gyda hyblygrwydd i alluogi i'r swyddogaeth archwilio mewnol gefnogi'r Cyngor mewn unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ac i weithredu'n brydlon ar unrhyw risgiau a achosir gan y materion hynny.

5. ADRODD

- 5.1 Bydd y Rheolwr Archwilio yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:
- Ar ganlyniadau gwaith Archwilio Mewnol yn y cyfnod blaenorol.
 - Ar y cynllun archwilio mewnol a pherfformiad mewn perthynas â'i gynllun.
 - Ar ddiwygiadau sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol.
 - Ar unrhyw wendidau rheolaeth sylweddol a ddarganfuwyd neu a archwiliwyd.
 - Ar amlygiad risg sylweddol a materion rheoli, gan gynnwys risgiau twyll, materion llywodraethu, a meysydd ffocws eraill a allai ymyrryd â chyflawni amcanion strategol y Cyngor.
 - Ar unrhyw gamau gweithredu y cytunwyd arnynt na chawsant eu gweithredu o fewn yr amserlen y cytunwyd arni, lle byddai methiant i weithredu ar y camau hynny yn ymestyn gwendid rheoli sylweddol.
 - Ar ymatebion rheolwyr i risg y mae'r swyddogaeth archwilio mewnol yn pennu ei bod yn annerbyniol neu dderbyn risg sydd y tu hwnt i archwaeth risg y Cyngor.
 - Ar gynnydd ar gwblhau'r Cynllun Archwilio Mewnol am y flwyddyn gyfredol.

6. CASGLIAD AC ADRODDIAD BLYNYDDOL

- 6.1 Mae gofynion Parth IV, Safon 11.3 o Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang 2024 (y "Safonau") a'r Cod Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol yn cyfeirio at y gofyniad i'r prif weithredwr archwilio ffurfio barn sicrwydd blynyddol yn seiliedig ar y rhaglen flynyddol o waith archwilio yn ogystal â sicrwydd a gafwyd drwy ddulliau eraill.
- 6.2 Bydd y Rheolwr Archwilio yn paratoi Casgliad Blynyddol ac Adroddiad i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, yn unol â'r Safonau.
- 6.3 Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys yn bennaf:
- Barn flynyddol ar y fframwaith ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

- Crynodeb o'r gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd y mae'r casgliad yn deillio ohono.
- Dadansoddiad o'r defnydd o adnoddau staff.
- Canlyniadau mesurau Cyflawniad Archwilio Mewnol.
- Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella Archwilio Mewnol.

7. DILYNIANT

7.1 Safon 15.2 o'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang: Cadarnhau Gofynion Gweithredu Argymhellion neu Gynlluniau Gweithredu yn nodi:

"Rhaid i archwilwyr mewnol gadarnhau bod rheolwyr wedi gweithredu argymhellion archwilwyr mewnol neu gynlluniau gweithredu rheolwyr yn dilyn methodoleg sefydledig, sy'n cynnwys:

- ***Holi am gynnydd ar y gweithrediad.***
- ***Cynnal asesiadau dilynol gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg.***
- ***Diweddarau statws gweithredoedd rheolwyr mewn system olrhain."***

7.2 I'r perwyl hwn, nodir ym mharagraff 4.14 o'r Siarter Archwilio Mewnol ***"Ar ôl cyfnod priodol, bydd Archwilio Mewnol yn cynnal profion dilynol i sicrhau bod yr hyn y cytunwyd arno yn weithredol. Bydd canlyniadau'r gwaith dilynol yn cael eu hadrodd i'r Prif Swyddogion a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio."***

7.3 Efallai y bydd yn ofynnol i reolwyr nad ydynt yn mynd i'r afael â materion/risgiau sy'n deillio o waith Archwilio Mewnol fynychu'r Gweithgor Gwella Rheolaethau.

8. GOFYNION ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

8.1 Fel y manylir yn y Siarter Archwilio Mewnol, paragraff 8.1 ***"os yw'r Rheolwr Archwilio o'r farn nad oes ganddo/ganddi ddigon o adnoddau i ganiatáu iddo/iddi roi barn ar yr amgylchedd rheoli yn unol â gofynion y Safonau, bydd yn adrodd hyn i'r Pennaeth Cyllid a hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio."***

8.2 O bryd i'w gilydd, er mwyn adlewyrchu anghenion archwilio, ac yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn caffael arbenigedd allanol i gynorthwyo gyda gwaith archwilio ac er mwyn cynnal lefelau sgiliau staff parhaol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir am faes gwaith archwilio technoleg gwybodaeth, ond nid yw mathau eraill o archwiliadau wedi'u heithrio o drefniadau o'r fath.

9. HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD

- 9.1 Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant i sicrhau bod y tîm yn parhau â'u datblygiad proffesiynol ac yn cadw i fyny â risgiau a datblygiadau sy'n dod i'r amlwg. Byddwn hefyd yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant corfforaethol gorfodol, yn ôl yr angen.
- 9.2 Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi ymrwymo i hyfforddi a mentora ei staff, ac i ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol priodol. Adlewyrchir hyn yn y gyfran uchel o staff sydd â chymhwyster cyfrifeg proffesiynol yn ogystal â sawl aelod o'r tîm yn parhau â hyfforddiant proffesiynol yn ystod 2026/27.
- 9.3 Er mwyn cydymffurfio â'r cymhwyster CIPFA ac ACCA, mae'n ofynnol i Archwilwyr Mewnol sy'n dal y cymhwyster hwn ymgymryd ag isafswm oriau o ddatblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn.

10. DANGOSYDDION PERFFORMIAD

- 10.1 Cynhelir cyfarfodydd "Herio Perfformiad" bedair neu bum gwaith y flwyddyn ym mhresenoldeb yr aelod Cabinet Cyllid, y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid. Bydd Arweinydd y Cyngor yn mynychu un cyfarfod y flwyddyn.
- 10.2 Bydd y dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer Archwilio Mewnol yn cael ei adrodd ym mhob Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

11. RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLA

- 11.1 Mae'r rhaglen ansawdd a gwella yn cael ei sefydlu gan y Rheolwr Archwilio i werthuso a sicrhau bod y swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, yn cyflawni amcanion perfformiad ac yn dilyn gwelliant parhaus. Bydd y rhaglen yn cynnwys asesiadau mewnol ac allanol.
- 11.2 Mae'r Safonau yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddogaeth archwilio mewnol gynnal rhaglen sicrhau ansawdd a gwella yn seiliedig ar asesiad mewnol y gellir ei gynnal yn barhaus ac o bryd i'w gilydd, wedi'i ategu o leiaf bob pum mlynedd gan asesiad allanol annibynnol llawn.
- 11.3 Bydd canlyniadau'r rhaglen sicrhau a gwella ansawdd, sy'n cynnwys cydymffurfiaeth y swyddogaeth archwilio mewnol â Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yr IIA a chynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â diffygion a chyfleoedd i wella'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

11.4 Mae Egwyddorion Craidd IIA ar gyfer Archwilio Mewnol yn nodi bod yr egwyddorion canlynol yn sail i wasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol:

- Yn dangos gonestrwydd
- Yn dangos cymhwysedd a gofal proffesiynol dyledus
- Yn wrthrychol ac yn rhydd o ddylanwad diangen (annibynnol)
- Yn cyd-fynd â strategaethau, amcanion a risgiau'r sefydliad
- Wedi'i leoli'n briodol ac yn cael adnoddau digonol
- Yn dangos ansawdd a gwelliant parhaus
- Yn cyfathrebu'n effeithiol
- Yn darparu sicrwydd sy'n seiliedig ar risg
- Yn dreiddgar, yn rhagweithiol, ac yn canolbwyntio ar y dyfodol
- Yn hyrwyddo gwelliant sefydliadol.

CYNLLUN ARCHWILIO 2026-2027

ADRAN	ARCHWILIAD	AMCAN	CYFEIRNOD COFRESTR RISG CORFFORAETHOL	SGOR RISG	CYNLLUN GWYNEDD – BLAENORIAETH AC UCHELGAIS
Corfforaethol	Cynghori ac Ymgynghoriaeth, Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	Cynnig cyngor a chefnogaeth i reolaeth fewnol.	Llywodraethu – Diwylliant L1	12	Gwynedd Effeithlon – Hybu diwylliant gweithio agored a chynhwysol sydd bob amser yn rhoi anghenion pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
Corfforaethol	Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol	Gwaith i'w gynnal er mwyn sicrhau fod trefniadau cadarn yn eu lle i ymdrin â'r risgiau o dwyll a llygredigaeth a'r Fenter Twyll Genedlaethol a gaiff ei rhedeg gan Swyddfa Archwilio Cymru.	D2	4	Gwynedd Effeithlon - Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.
Corfforaethol	Polisi Canu'r Gloch	Adolygiad o'r trefniadau yn sgil mabwysiadu Polisi newydd.	Llywodraethu – Ymddygiad L2	4	Gwynedd Effeithlon - Hybu diwylliant gweithio agored a chynhwysol sydd bob amser yn rhoi anghenion pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
Corfforaethol	Defnydd o Ymgynghorwyr	Adolygu trefniadau penodi a'r gwerth am arian a dderbynnir drwy benodi ymgynghorwyr.			Gwynedd Effeithlon - Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.

ADRAN	ARCHWILIAD	AMCAN	CYFEIRNOD COFRESTR RISG CORFFORAETHOL	SGOR RISG	CYNLLUN GWYNEDD – BLAENORIAETH AC UCHELGAIS
Corfforaethol	Dilyniant Cyffredinol	Cynnal adolygiadau dilynol ar y camau gweithredu y cytunwyd arnynt fel rhan o archwiliadau 2025/26.			
Corfforaethol	Cynllunio Argyfwng a Pharhad Gwasanaeth	Sicrhau bod gan Adrannau Gynlluniau Parhad Busnes wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau y gallent weithredu mewn sefyllfa argyfwng.	M2	10	Gwynedd Effeithlon.
Corfforaethol	Iechyd a Diogelwch - Trefniadau Adrannol	Gwirio bod adrannau yn cynnal fforymau iechyd a diogelwch ar sail realaidd i adnabod unrhyw bryderon mewn perthynas â iechyd a diogelwch y gweithlu.	Llywodraethu - Iechyd, Diogelwch a Llesiant L23	15	Gwynedd Effeithlon – Bod yn sefydliad sy'n gofalu am lesiant ein gweithlu ac yn gwreiddio egwyddorion cydraddoldeb yn naturiol ym mhob rhan o'r sefydliad.
Corfforaethol	Gweithio'n Unig	Risg i weithwyr sydd yn gweithio'n unig o fewn y Cyngor yn cael ei bygwth yn ffisegol, corfforol, meddyliol neu rhywiol wrth geisio cyflawni eu dyletswyddau.	C81	12	Gwynedd Effeithlon – Bod yn sefydliad sy'n gofalu am lesiant ein gweithlu ac yn gwreiddio egwyddorion cydraddoldeb yn naturiol ym mhob rhan o'r sefydliad.
Gwasanaethau Corfforaethol	Caffael - Rheolaeth Categori Pobl	Adolygiad o drefniadau rheolaeth categori a chaffael i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth gyfredol.	C7	9	Gwynedd Effeithlon - Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.

ADRAN	ARCHWILIAD	AMCAN	CYFEIRNOD COFRESTR RISG CORFFORAETHOL	SGOR RISG	CYNLLUN GWYNEDD – BLAENORIAETH AC UCHELGAIS
Gwasanaethau Corfforaethol	Iechyd a Diogelwch - Adrodd ar Ddamweiniau	Ymateb yn sgil mabwysiadu trefniadau newydd.	L23	15	Gwynedd Effeithlon – Bod yn sefydliad sy'n gofalu am lesiant ein gweithlu ac yn gwreiddio egwyddorion cydraddoldeb yn naturiol ym mhob rhan o'r sefydliad.
Addysg	Grant Addysg Ôl-16	Disgwyliad yn yr amodau ariannol.			
Addysg	Anghenion Dysgu Ychwanegol	Bod mynediad i blant a phôl ifanc mewn lleoliadau addysgol at seicolegydd addysgol neu arbenigwr i gefnogi eu datblygiad dysgu a chymdeithasol.	A17	12	Gwynedd Yfory – Cefnogaeth gan wasanaethau proffesiynol wedi eu teilwra i gwrdd ag anghenion dysgu ychwanegol.
Addysg	Ysgolion Cyffredinol	Darpariaeth blyneddol ar gyfer rhoi cyngor ac ymgynghori.			
Addysg	Polisi Diogelu	Bod staff yr ysgolion yn gyfarwydd a pholisi a threfniadau Diogelu yr ysgol.	A42	6	Gwynedd Ofalgar - Diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus neu sy'n agored i niwed.
Addysg	Athrawon Llanw	Gwirio os yw trefniadau penodi athrawon llanw yn cael eu dilyn gan yr ysgolion.	L14	12	Gwynedd Yfory - Y cyfle i ddatblygu i fod yn bobl gyflawn, hapus a hyderus yn y byd.

ADRAN	ARCHWILIAD	AMCAN	CYFEIRNOD COFRESTR RISG CORFFORAETHOL	SGOR RISG	CYNLLUN GWYNEDD – BLAENORIAETH AC UCHELGAIS
Addysg	Cyflogau Penaethiaid ac Arweinyddion	Adolygiad o gyflogau Penaethiaid ac Arweinyddion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, gan sicrhau eu bod yn gyson a'r graddfeydd pwrpasol sydd wedi eu dynodi ar eu cyfer.	L14	12	Gwynedd Lewyrchus – Swyddi o safon.
Amgylchedd	Gweinyddiaeth Gwasanaethau Gwastraff	Adolygiad o System Bartec - sicrhau y ceir gwerth am arian o'r system newydd a'i fod yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial.	B62	10	Gwynedd Effeithlon – Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.
Amgylchedd	Rheolaeth Llygredd	Adolygiad o'r cwynion a dderbynnir gan y Gwasanaeth mewn perthynas â sŵn, mwg, llwch ayb a sicrhau bod ymateb/gweithrediad prydlon.	B69	16	Gwynedd Werdd
Amgylchedd	Gwaith Stryd	Archwiliad i gynnwys diogelwch, incwm, ansawdd y gwaith gan ddarparwyr a trefniadau cyfathrebu gyda'r cyhoedd.	B8	8	
Amgylchedd	Gorfodaeth Rheolaeth Adeiladu	Gwirio bod trefniadau gorfodaeth priodol yn bodoli ac adolygiad o'r costau cysylltiedig.	B67	16	Gwynedd Effeithlon - Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.
Amgylchedd	Trefniadau Anfonebu ac Adennill Rheolaeth Adeiladu	Gwirio trefniadau bilio y Gwasanaeth a sicrhau bod gweithrediad prydlon i adennill ôl-ddyledion.	B47	6	Gwynedd Effeithlon - Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.

ADRAN	ARCHWILIAD	AMCAN	CYFEIRNOD COFRESTR RISG CORFFORAETHOL	SGOR RISG	CYNLLUN GWYNEDD – BLAENORIAETH AC UCHELGAIS
Tai ac Eiddo	Legionella	Derbyn sicrwydd ar y trefniadau i sicrhau eu bod yn cyfarch gofynion statudol.	I47	15	Gwynedd Ofalgar - Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn byw bywydau hapus ac yn cyrraedd eu potensial o ran eu haddysg, eu hiechyd a'u lles.
Tai ac Eiddo	Manddaliadau	Ail-ymweld a maes sydd wedi bod yn broblemus ers sawl blwyddyn.	I30	6	Gwynedd Lewyrchus - Cymunedau cryf a gwydn.
Tai ac Eiddo	Cronfa Premiwm Treth Cyngor	Ar gais y Cyfarwyddwr Corfforaethol – adolygiad o'r trefniadau adrodd.			Gwynedd Glyd - Helpu trigolion Gwynedd i fod yn berchen ar gartref fforddiadwy yn eu cymuned.
Tai ac Eiddo	Grant Cymorth Tai	Disgwyliad yn amodau'r grant a mynegir yn y Gofrestr Risg Corfforaethol mai y risg yw nad yw'r Grant yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial i leihau digartrefedd.	I10	12	Gwynedd Glyd – Sicrhau fod neb yn ddigartref yng Ngwynedd.
Tai ac Eiddo	Grant Cymorth Tai – Trefniadau Comisiynu	Disgwyliad yn amodau'r grant a mynegir yn y Gofrestr Risg Corfforaethol mai y risg yw nad yw'r Grant yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial i leihau digartrefedd.	I10	12	Gwynedd Glyd – Sicrhau fod neb yn ddigartref yng Ngwynedd.
Cyllid	System Cyflogau	Adolygiad o drefniadau rheoli prosiect.	D17	15	Gwynedd Effeithlon - Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.

ADRAN	ARCHWILIAD	AMCAN	CYFEIRNOD COFRESTR RISG CORFFORAETHOL	SGOR RISG	CYNLLUN GWYNEDD – BLAENORIAETH AC UCHELGAIS
Cyllid	Archwiliadau TG	Gwytnwch Seibr ayb – bod gan y Cyngor drefniadau addas i wrthsefyll ac adfer yn briodol petai ymosodiadau seibr a bod mesurau diogelwch i amddiffyn data a systemau.	D8	20	Gwynedd Effeithlon – Cynllun Digidol.
Cyllid	Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2025-26	Mae hwn yn ofyniad statudol.			
Cyllid	Treth Cyngor - Adennill a Dileu Dyledion	Gyda sefyllfa ariannol presennol, angen sicrhau bod trefniadau adennill priodol mewn lle a bod yn cydymffurfio â'r cyfansoddiad ar gyfer ysgrifennu i ffwrdd unrhyw dyledion.	D18	16	Gwynedd Effeithlon – Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.
Cyllid	Rheolaeth Trysorlys	Gwirio bod rheolaethau priodol yn bodoli dros buddsoddiadau a Taliadau CHAPS.	Llywodraethu - Rheolaeth Fewnol L18	4	Gwynedd Effeithlon – Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.
Cyllid	Gwasanaeth Pensiynau	Trefniadau llywodraethu a gweinyddiaeth yn sgil deddfwriaeth newydd			
Economi a Chymuned	Cronfa'r Degwm – Archwiliad Ariannol	Bydd angen gwiriad annibynnol os yw incwm y gronfa dros £25,000.			
Economi a Chymuned	Hybiau Cymunedol	Mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi rhwydwaith o Hybiau Cymunedol ar draws y sir – adolygiad o'r trefniadau.			Gwynedd Lewyrchus - Cymunedau cryf a gwydn

ADRAN	ARCHWILIAD	AMCAN	CYFEIRNOD COFRESTR RISG CORFFORAETHOL	SGOR RISG	CYNLLUN GWYNEDD – BLAENORIAETH AC UCHELGAIS
Economi a Chymuned	Balchder Bro	Grant o £1.5 miliwn wedi ei dderbyn - gwariant o £750k yn 2025/26 a £750k yn 2026/27 – dethol sampl o grantiau i wirio cywirdeb a theilyngdod.			Gwynedd lewyrchus - Cymunedau cryf a gwydn
Economi a Chymuned	Cronfa Cefnogi Cymunedau - Cist Gwynedd	Dethol sampl o grantiau a ddyfarnwyd i sicrhau eu cywirdeb.	E12	8	Gwynedd lewyrchus - Cymunedau cryf a gwydn
Economi a Chymuned	Cynllun Arwyddo	Adolygiad o drefniadau rheoli'r cynllun.			Gwynedd Gymraeg - Sicrhau fod hybu'r Gymraeg yn rhan allweddol o holl waith y Cyngor, ac unrhyw gynlluniau sydd yn effeithio ar bobl Gwynedd.
Economi a Chymuned	Glyn Rhonwy	Trefniadau lechyd a Diogelwch	E60	12	Gwynedd Lewyrchus - Twristiaeth gynaliadwy er budd cymunedau.
Economi a Chymuned	Amgueddfa Lloyd George – Archwiliad Ariannol	Bydd angen gwiriad annibynnol os yw incwm y gronfa dros £25,000.	E30	6	
Economi a Chymuned	Doc Fictoria	Adolygu'r cytundeb gyda'r Ymddiriedolaeth Harbwr.	E56	12	Gwynedd Effeithlon – Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.
Economi a Chymuned	Hafan, Pwllheli	Adolygiad o weithdrefnau gweinyddol ac ariannol Hafan gan gynnwys trefniadau cytundebol.	E19	6	Gwynedd Lewyrchus - Twristiaeth gynaliadwy er budd cymunedau.

ADRAN	ARCHWILIAD	AMCAN	CYFEIRNOD COFRESTR RISG CORFFORAETHOL	SGOR RISG	CYNLLUN GWYNEDD – BLAENORIAETH AC UCHELGAIS
Economi a Chymuned	Cynllun Rheoli Traethau	Gwirio bod Cynllun Rheoli Traethau wedi ei ddatblygu ac yn weithredol er mwyn sicrhau diogelwch pobl lle gall fod peryglon i fywyd.	E17	12	Gwynedd Lewyrchus – Twristiaeth gynaliadwy er budd cymunedau.
Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cefn Rodyn, Hafod Mawddach a Bryn Blodau – Archwiliad au Sefydliad	Sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal y cartref yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Bydd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.	F2	16	Gwynedd Ofalgar – Darparu gofal a chefnogaeth o safon uchel yn y lle iawn ar yr amser iawn
Oedolion, Iechyd a Llesiant	Taliadau Uniongyrchol	Sicrhau bod taliadau uniongyrchol yn cael eu prosesu'n gywir ac cyn belled a bo modd eu bod yn cael eu defnyddio'n gywir i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolion.	F6	15	Gwynedd Ofalgar – Galluogi trigolion Gwynedd i fyw'n annibynnol mewn llety addas a chydag urddas gyhyd ag y bo modd yn eu cymuned
Oedolion, Iechyd a Llesiant	Dilyniant Cartrefi Preswyl	Plas Hedd a Plas y Don – archwiliadau wedi derbyn lefel sicrwydd cyfyngedig yn 2025-2026.	F2	16	Gwynedd Ofalgar – Darparu gofal a chefnogaeth o safon uchel yn y lle iawn ar yr amser iawn.

ADRAN	ARCHWILIAD	AMCAN	CYFEIRNOD COFRESTR RISG CORFFORAETHOL	SGOR RISG	CYNLLUN GWYNEDD – BLAENORIAETH AC UCHELGAIS
Oedolion, lechyd a Llesiant	Dilyniant Canolfannau Anabledd Dysgu	Canolfannau anabledd dysgu wedi derbyn lefel sicrwydd cyfyngedig yn 2025-2026.	F2	16	Gwynedd Ofalgar – Darparu gofal a chefnogaeth o safon uchel yn y lle iawn ar yr amser iawn.
Oedolion, lechyd a Llesiant	Lleoliadau Iechyd Meddwl	Ar gais y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd y cynnydd sylweddol mewn lleoliadau iechyd meddwl a'r costau ymglymedig.	G9 F1	20 20	Gwynedd Ofalgar – Diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus neu sy'n agored i niwed.
Oedolion, lechyd a Llesiant	Costau Staff Asiantaeth	Adolygiad ar y cyd gyda'r Gwasanaethau Darparu (Oedolion) i gostau cyflogi gweithwyr asiantaeth mewn cartrefi preswyl y Cyngor.	F3	12	Gwynedd Effeithlon - Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.
Plant a Chefnogi Teuluoedd	Trefniadau Comisiynau yn sgil Deddfwriaeth Newydd	Ar gais y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.			Gwynedd Effeithlon - Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.
Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	Trefniadau Priso	Ar gais y Cyfarwyddwr Corfforaethol. Adolygiad o drefniadau YGC mewn perthynas a tharged incwm/cyllidebu a threfniadau priso gwaith yn fewnol.	H29	9	Gwynedd Effeithlon - Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.
Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	Toiledau Cyhoeddus	Adolygiad o'r Cynllun Partneriaethau gyda Chynghorau Cymuned a Tref.			Gwynedd Lewyrchus - Cymunedau cryf a gwydn.
Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	Trefniadau Gwaith ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS)	Adolygiad o drefniadau y Tîm Systemau Draenio Cynaliadwy (<i>Sustainable Urban Drainage Systems</i>).			Gwynedd Effeithlon - Darparu adnoddau staffio digonol ac addas ar gyfer cyflwyno gwasanaethau.

ADRAN	ARCHWILIAD	AMCAN	CYFEIRNOD COFRESTR RISG CORFFORAETHOL	SGOR RISG	CYNLLUN GWYNEDD – BLAENORIAETH AC UCHELGAIS
Priffyrdd, Peirianeg a YGC	Gwasanaeth Profedigaeth	Adolygiad o incwm ffioedd claddu yn mynwentydd y Cyngor ac argaeledd tir claddu.	H21	12	
Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol	CareCubed	Ar gais y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. System a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo ffioedd cartref gofal allanol (anabledd a henoed).	F2	16	Gwynedd Ofalgar – Galluogi trigolion Gwynedd i fyw'n annibynnol mewn llety addas a chydag urddas gyhyd ag y bo modd yn eu cymuned.
Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol	Trefniadau Talu Anfonebau	Adolygiad o drefniadau gwirio, awdurdodi a thalu anfonebau gan y tîm Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal.	F6	15	Gwynedd Effeithlon - Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.

Eitem 11

ENW'R PWYLLGOR	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD Y CYFARFOD	5 Chwefror 2026
TEITL YR EITEM	Adroddiad Arolygaethau Estyn a Arolygaeth Gofal Cymru
AMCAN	Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar adroddiad(au) sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Arolygaeth Gofal Cymru ac Estyn – Archwiliad ar y cyd (Tachwedd 2025) ac ar y gwaith a fwriedir ei wneud mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.
AWDUR	Dylan Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

1. CEFNDIR

- 1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff arolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
- 1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt.
- 1.3. Gweler copi o adroddiad ESTYN/AGC wedi'i gynnwys fel **Atodiad 1**. Gweler hefyd [ddolen at y Cynllun Gweithredu mewn ymateb i Adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder](#), a gafodd ei ystyried eisoes gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Ionawr (eitem 6). Mae **Atodiad 2** yn cynnwys tabl sy'n dangos pa argymhellion o'r sydd eisoes yn cael sylw drwy'r Cynllun Gweithredu, ynghyd ag unrhyw rai sydd angen eu hymgorffori neu dderbyn ystyriaeth pellach. Bydd Dylan Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd, yn mynychu'r cyfarfod i ymhelaethu ar yr ymateb, gosod cyd-destun ac ymateb i unrhyw gwestiynau os oes angen.

Arolygiad ar y cyd gyda ffocws ar ddiogelu

Cyngor Gwynedd

Swyddfeydd y Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Dyddiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

ac Arolygiaeth Gofal Cymru

Cyd-destun

Ym Medi 2023 arestiwyd pennaeth Ysgol Friars, Bangor dan amheuaeth o gam-drin rhywiol a chamfanteisio disgybl ysgol. Yn ddiweddarach, ar 15fed o Fai 2024, fe'i cafwyd yn euog o droseddau rhyw yn erbyn 4 dioddef wraig ac fe'i garcharwyd am 17 mlynedd. Mis Hydref 2025, cyhoeddwyd [‘Cyfiawnder Trwy ein Dewrder 2024’](#) sef adroddiad ymarfer plant estynedig a gomisiynwyd gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru. Pwrpas yr arolygiad hwn oedd gwerthuso datblygiadau yn nhrefniadau diogelu Awdurdod Lleol Gwynedd ers Medi 2023.

Bu i'r tîm arolygu ystyried un cwestiwn allweddol, sef:

Pa mor dda y mae plant yn cael eu diogelu rhag unigolion a all beri risg iddynt a phan mae pryderon yn codi am y rhai sy'n gofalu amdanynt neu sy'n gweithio gyda hwy, naill ai mewn rôl gyflogedig neu wirfoddol?

Roedd pedwar ffocws penodol dan ystyriaeth:

- Llais y plentyn
- Cydweithio aml-asiantaethol
- Llywodraethiant ac arweinyddiaeth
- Hyfforddiant a chefnogaeth

Mae'r canfyddiadau sydd o fewn yr adroddiad hwn yn cwmpasu sail dystiolaeth eang ac ystod cynhwysfawr o weithgareddau. Nodir rhain fel a ganlyn:

- Cyfarfod gyda chadeirydd annibynnol Bwrdd Adfer Gwynedd
- Cyfarfod â chyd-gadeiryddion Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru
- Cyfarfod gydag aelodau byrddau craffu addysg a gofal cymdeithasol
- Cyfarfod ag ymarferwyr, staff, swyddogion, rheolwyr, uwch swyddogion, aelodau etholedig, arweinwyr pwyllgorau craffu (cyfanswm o 20 o gyfarfodydd)
- Ymweliadau â 6 ysgol
- Gweithdai gyda phlant a phobl ifanc mewn ysgolion
- Cyfarfod gyda Fforwm Ieuenctid Gwynedd
- Cyfarfod gyda grŵp o lywodraethwyr ysgol
- Cyfarfodydd tracio achosion gydag asiantaethau statudol ac asiantaethau partner
- Gweithdy gyda grŵp o ymarferwyr plant a theuluoedd
- Gweithdy gyda grŵp o reolwyr
- Holiadur staff adran plant a theuluoedd
- Holiadur asiantaethau partner
- Holiadur penaethiaid ysgolion Gwynedd

- Craffu ar ffeiliau sampl (24 achos diogelu plant Adran 3 ac Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru am y cyfnod rhwng 1/09/24 a 30/09/25)
- Craffu ar holl bolisiau perthnasol
- Craffu ar delerau cyfeirio ystod eang o fforymau a phaneli ar bob lefel
- Craffu ar gofnodion cyfarfodydd ar lefel adrannol, lleol, traws-awdurdod a rhanbarthol
- Gwerthuso adnoddau hyfforddi a datblygiad proffesiynol

Meysydd gwella

1. Sefydlu polisi corfforaethol ar lais y plentyn ac unioni trefniadau gwrando ar lais y plentyn dan Weithdrefnau Diogelu Cymru er mwyn sicrhau cysondeb ar draws adrannau addysg a phlant a theuluoedd; defnyddio negeseuon o fforymau plant a phobl ifanc i ddylanwadu'n uniongyrchol ar gynllunio strategol

2. Sefydlu trefniadau sicrhau ansawdd corfforaethol sy'n mesur effaith gwaith diogelu ac amddiffyn plant ar ymarfer ac ar lesiant plant a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau, blaenoriaethu adnoddau a chryfhau llywodraethiant ar bob lefel

3. Cryfhau hyfforddiant diogelu i holl staff a llywodraethwyr, gan sicrhau ei fod yn addas i bwrpas ac yn cynnwys gwybodaeth am gamfanteisio ynghyd â sefydlu prosesau cadarn i werthuso effaith hyfforddiant ar ymarfer

4. Rhaid i'r awdurdod lleol:

- hysbysu'r atgyfeiriwr o fewn saith diwrnod gwaith am ganlyniad atgyfeiriad
- ymgysylltu â'r plentyn pan fo'n datgan risg o niwed/cam-drin/esgeuluso
- cryfhau trefniadau comisiynu a monitro cytundebau gwasanaethau
- sicrhau cyfraniad rheolaidd ymarferwyr allweddol i drafodaethau strategaeth

Prif ganfyddiadau

Llais y plentyn

Mae arweinwyr awdurdod lleol Gwynedd wedi cymryd camau cadarnhaol i gryfhau llais y plentyn, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau plant yn llywio gwaith ar draws ystod o wasanaethau. Ceir tystiolaeth glir o fwriad cadarn ac arweinyddiaeth sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r dull yn dangos ymrwymiad pendant i weld plant a phobl ifanc fel partneriaid gweithredol wrth gynllunio

gwasanaethau. Er bod y sylfeini hyn yn briodol, nid yw'r awdurdod eto'n gallu darparu tystiolaeth glir o effaith strategol y gwaith hwn. Mae'r systemau'n datblygu'n briodol ond nid ydynt wedi cyrraedd y pwynt lle mae barn plant yn dylanwadu'n gyson ar bolisi ac arwain at newidiadau sylweddol.

Mae'r strategaeth "Llais Ni" a'r pecyn gwybodaeth i ysgolion yn enghreifftiau o gynllunio trefnus sy'n hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc ar lefel ysgol, ardal (Arfon, Dwyfor, Meirionnydd) a sirol. Maent yn seiliedig ar fodel addas sy'n darparu fframwaith clir ar gyfer ymgynghori, gweithredu a darparu adborth. O ganlyniad, mae ysgolion yn ymateb yn gadarnhaol ac yn cynnig cyfleoedd mwy ffurfiol i ddisgyblion leisio barn. Serch hynny, nid oes tystiolaeth gyfredol na chyson fod y trefniadau hyn wedi arwain at benderfyniadau gweithredol gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwaith yn parhau i ddatblygu, ond mae'r effaith ar newid polisi neu ddiwylliant o fewn yr awdurdod yn dal yn gyfyngedig.

Mae dull amlasiantaethol yr awdurdod lleol yn annog cydweithio cadarn rhwng gwasanaethau plant a theuluoedd, addysg a'r gwasanaeth ieuenctid. Mae dogfennau fel y Ffurflen Gyfeirio Teuluoedd yn dystiolaeth o ymarfer sy'n rhoi'r plentyn yn ganolog i'r broses asesu, gan ystyried ei brofiadau a'i anghenion mewn ffordd sensitif. Mae dull 'beth sy'n bwysig' yn galluogi ymarferwyr i adnabod cryfderau a heriau teuluol er mwyn creu cynlluniau cymorth mwy perthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws pob tîm. Mae hyn yn arwain at sefyllfaoedd lle nad yw llais y plentyn bob amser yn cael ei gynnwys o'r cychwyn cyntaf.

Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu trefniadau aml-asiantaethol priodol er mwyn cryfhau diogelwch a lles plant, gyda pholisïau ac adnoddau i gefnogi ymarfer diogelu. Cydnabyddir pwysigrwydd datblygiad proffesiynol ac mae arweinwyr wedi rhannu ystod o adnoddau pwrpasol i staff i'w cynorthwyo i sicrhau fod llais y plentyn yn ganolog wrth iddynt weithio a'u bod yn ystyried effaith penderfyniadau ar eu lles. Mae holiaduron i bartneriaid yn dangos bod y rhan fwyaf yn teimlo bod llais y plentyn yn elfen ganolog o ymchwiliadau diogelu. Fodd bynnag, gwelwyd nad oes trefniadau digon safonol a chyson ar gyfer rhoi adborth i blant ar ôl cyfarfodydd neu drafodaethau diogelu, lle byddai'n addas i wneud hynny. Mae hyn yn arwain at brofiadau anghyson i blant.

Yn yr achosion amddiffyn plant a graffwyd, pan mae plant yn cael eu cynnwys yn llawn mewn archwiliadau fel rhan o drefniadau adran 47, mae sylw digonol yn cael ei roi i'w llais. Mae hyn yn cynnwys cofnodion manwl sy'n cynnwys union eiriau'r plentyn ac mae hyn yn ymarfer da. Er bod cydweithio amlasiantaethol fel arfer yn addas, mae bylchau yn y ffordd y mae gwybodaeth ynghylch llais y plentyn yn cael ei rannu rhwng gwasanaethau, yn enwedig mewn cyd-destunau brys neu gymhleth. Mae hyn yn effeithio ar allu'r awdurdod lleol i ffurfio darlun llawn o brofiad a theimladau'r plentyn wrth ymateb i bryder.

Yn ddiweddar, ceir gwelliannau yn y modd y mae ymarferwyr yn cynnwys barn y plentyn mewn adolygiadau adran 5, lle mae honiad yn erbyn person(au) mewn safle o ymddiriedaeth. Yn y mwyafrif o achosion, mae safbwyntiau plant yn fwy amlwg ac yn llywio camau gweithredu. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb yn yr ymarfer cyfredol. Nid yw ymarferwyr bob amser yn cynnwys llais y plentyn pan maent wedi gwneud honiad yn erbyn person mewn safle o ymddiriedaeth, yn enwedig os gwneir penderfyniad i beidio a chynnal trafodaeth strategaeth, neu'n dilyn penderfyniad o beidio a gweithredu mewn trafodaeth strategaeth.

Mae'r Tîm Diogelu a Llesiant (addysg) a ffurfiwyd ym mis Mawrth 2025 yn dangos ymrwymiad cynyddol i sicrhau bod llais y plentyn yn rhan greiddiol o waith diogelu mewn ysgolion. Trwy ymweliadau ysgol rheolaidd, holiaduron blynyddol a chasglu datganiadau gan ddisgyblion yn systematig, mae'r tîm yn casglu gwybodaeth werthfawr am brofiadau ac anghenion dysgwyr. Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn gwaith diogelu a gwell cysondeb ar draws y rhan fwyaf o ysgolion Gwynedd. Mewn achosion lle mae ymchwiliad adran 47, mae cefnogaeth y tîm wedi arwain at well cysondeb wrth gynnwys barn y plentyn ac mae eu safbwyntiau yn fwy amlwg wrth lywio camau gweithredu.

Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy, mae trefniadau cadarn i sicrhau bod llais a barn disgyblion yn cael eu clywed. Gwneir hyn drwy fforymau lles, gwaith y cyngor ysgol, is-baneli a holiaduron mewnol a chenedlaethol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o sut mae eu hysgolion a'u staff yn eu cadw'n ddiogel. O ganlyniad, teimlant yn ddiogel ac maent yn gwybod at bwy i droi am gymorth. Gallant enwi'r aelodau staff diogelu allweddol a'r rhai sydd ar gael i gynnig cefnogaeth iddynt. Mae disgyblion o bob oed yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod pynciau sy'n bwysig iddynt, megis perthnasoedd iach, e-ddiogelwch a rheoli emosiynau. Maent yn ymfalchïo yn y ffaith fod eu hysgol yn hyrwyddo diwylliant o barch a chyfeillgarwch uwchlaw popeth arall. Mewn rhai ysgolion, mae adborth uniongyrchol i'r awdurdod lleol gan ddisgyblion wedi arwain at newidiadau ymarferol, er enghraifft dulliau mwy sensitif o gasglu barn neu greu adnoddau sy'n egluro prosesau diogelu mewn ffordd gliriach i bobl ifanc.

Mae'r awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad i gynnwys llais pobl ifanc drwy fforymau ieuenctid ardal a'r Fforwm Ieuenctid Gwynedd traws-sirol. Mae aelodau'r fforwm yn hyderus wrth gynrychioli barn pobl ifanc ar faterion fel lles, hawliau a chyfleoedd. Mae'r fforwm yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu medrau dylanwadu a chydweithio Gyda'i gilydd a chydag oedolion. Er hynny, nid oes fframwaith ffurfiol sy'n diffinio rolau a chyfrifoldebau na threfniadau digon clir i ddwyn syniadau'r fforwm i sylw arweinwyr nac i bwyllgorau polisi. O ganlyniad, mae dylanwad strategol y fforwm ar waith yr awdurdod lleol yn gyfyngedig ac nid yw ei lais yn cael ei gynnwys yn ddigon systematig o fewn prosesau ffurfiol diogelu'r sir.

O fewn y Gwasanaeth Ieuenctid, mae trefniadau priodol i ddatblygu llais y plentyn ac ymrwymiad clir i sefydlu systemau i wrando ar eu barnau trwy brosiectau thematig gwerthfawr sy'n adlewyrchu lleisiau pobl ifanc. Er enghraifft, ceir cyfleon i roi adborth ar ddiogelwch cymunedol neu brofiadau ar-lein ac mae hyn yn helpu i wella dealltwriaeth yr adran o'r heriau mae pobl ifanc yn eu hwynebu. Mae'r gwasanaeth yn creu cyfleoedd priodol i bobl ifanc leisio barn trwy eu fforymau ysgol a'r fforwm ardal. Serch hynny, nid oes system ffurfiol ar hyn o bryd i gasglu a defnyddio'r wybodaeth hon mewn modd digon systematig ar lefel sirol. Nid yw adborth yn cael ei ddefnyddio'n ddigon cyson i lywio penderfyniadau strategol, ac nid oes tystiolaeth glir eto o effaith uniongyrchol ar flaenoriaethau neu bolisiau gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth Ieuenctid yn dangos ymrwymiad cryf i gefnogi pobl ifanc drwy brosiectau targedig sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol ac addysgol cymhleth. Mae'r gwaith gyda phobl ifanc 11-25 oed yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau bywyd a chysylltiad cymunedol. Fodd bynnag, mae diffyg strwythur strategol eglur i asesu effaith y gwaith hwn. Nid oes prosesau hunanwerthuso na monitro digon systematig ar waith i fesur llwyddiant y prosiectau hyn nac i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn dylanwadu ar benderfyniadau. O ganlyniad, mae yma botensial sylweddol ond heb fframwaith clir i'w wireddu'n llawn.

Ceir enghreifftiau cadarnhaol o arfer lle mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn penderfyniadau allweddol, yn enwedig mewn paneli cyfweld ar gyfer swyddi rheoli yn y Gwasanaeth Ieuenctid a swyddi addysgu mewn ysgolion. Mae hyn yn dangos ymddiriedaeth arweinwyr yn eu gallu i gyfrannu'n ystyrlon, ond nid yw'r arfer wedi'i ehangu'n ddigonol ar draws pob ysgol.

Yn gyffredinol, mae awdurdod lleol Gwynedd wedi gosod sylfaen gadarn ar gyfer hyrwyddo a gwreiddio llais y plentyn yn ei waith. Ceir tystiolaeth o gynllunio trylwyr, dulliau strwythuredig ac ymrwymiad gwirioneddol i hawliau plant. Eto i gyd, nid yw effaith strategol lleisiau plant wedi'i gwbl sefydlu, ac nid oes digon o dystiolaeth eto o newid cynaliadwy. Mae'r awdurdod lleol wedi gosod cyfeiriad clir a sylfeini cadarn ar gyfer sefydlu a chynnal diwylliant cyfranogol, ond mae'n rhy gynnar i weld effaith yr ymdrechion hyn ar drefniadau dydd-i-ddydd, ar brosesau diogelu ac ar ddeilliannau i blant.

Cydweithio aml-asiantaethol

Mae'r awdurdod lleol ym ymrwymiedig i gryfhau cydweithio aml-asiantaethol er budd plant a theuluoedd Gwynedd. Mae diwylliant sefydledig o gydweithio aml-asiantaethol ar sawl lefel ar draws yr adran plant a theuluoedd a'r adran addysg. Mae aelodaeth uwch arweinwyr, swyddogion addysg a gwasanaethau plant mewn ystod eang o fforymau a phaneli aml asiantaethol yr awdurdod lleol yn sicrhau fod gwaith yr adrannau hynny yn dylanwadu'n briodol ar benderfyniadau a pholisiau. Mae'r rhain yn

cynnwys y Panel Rhiantu Corfforaethol a'r Panel Cam-fanteisio ac Ecsbloetio sy'n dod â staff perthnasol ynghyd i adnabod anghenion a chynllunio gwaith penodol. Gwelir gwaith aml-asiantaethol buddiol trwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn lle rhennir gwybodaeth gan yr heddlu ac asiantaethau eraill ar faterion perthnasol megis llinellau cyffuriau, cam-drin domestig, troseddau casineb ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn sgil hyn, cynllunnir ffrydiau gwaith a phrosiectau cymunedol rhagweithiol. Mae rheolwyr a swyddogion yn cyfrannu'n briodol mewn trafodaethau a phrosiectau rhanbarthol megis y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant a Fforwm Swyddogion Diogelu Mewn Addysg Gogledd Cymru.

Ar lefel weithredol, mae perthynas gyffredinol gryf rhwng asiantaethau allanol fel yr heddlu, adrannau o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a sefydliadau trydydd sector. Ar y cyfan, rhennir gwybodaeth yn briodol er enghraifft trwy gyfarfodydd wythnosol asesu risg aml-asiantaethol yr heddlu (MARAC), ac mae hyn yn cyfrannu at gydweithio effeithiol. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau lle mae oedi annerbyniol gan ysgolion ac asiantaethau eraill cyn cyfeirio neu rannu gwybodaeth gyda'r adran plant a theuluoedd. Mae hyn yn rhwystro gweithwyr allweddol rhag ymateb yn amserol i faterion diogelu posib ac yn arwain at ddiffyg hygyrdd yn y cydweithio. Mewn enghreifftiau eraill, nid yw ysgolion bob tro yn derbyn cydnabyddiaeth gan adran gwasanaethau plant a theuluoedd yn dilyn gwneud cyfeiriad, yn enwedig wrth rannu pryder o dan adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae hyn yn arwain at ddryswch am briodoldeb y cyfeiriad, diffyg sicrwydd o ran unrhyw ddilyniant a risg i ddiogelu plant effeithiol.

Mewn holiadur i benaethiaid ysgolion Gwynedd ac mewn trafodaethau wyneb yn wyneb yn ystod yr arolygiad, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn nodi bodlonrwydd o ran gallu cysylltu'n unionyrchol gyda'r gwasanaeth plant a theuluoedd i gael cyngor. Maent yn mynegi'r un bodlonrwydd parthed argaeledd staff i roi arweiniad iddynt ynghylch diogelwch plant. Maent hefyd yn canmol ansawdd ac effaith y cydweithio gyda gweithwyr cymdeithasol pan mae eu disgyblion wedi'u gosod ar y gofrestr amddiffyn plant a lle ceir cynlluniau gofal a chefnogaeth i blant a'u teuluoedd.

Mae swyddogion o fewn y tîm Diogelu a Llesiant (addysg) yn cyfrannu'n fuddiol at rai fforymau perthnasol ac yn cyflawni swyddogaeth o bontio rhwng ysgolion a'r gwasanaethau plant yn briodol. Mae gwaith y tîm hwn yn datblygu'n addas ac wedi arwain at gynnydd yn y gefnogaeth a roir i ysgolion ar faterion diogelu a lesiant. O ganlyniad i'r arweiniad a'r gefnogaeth, mae penaeithiaid a phersonau dynodedig diogelu ysgolion yn nodi fod ganddynt well ddealltwriaeth am faterion diogelu ac yn gallu enghreifftio'n hyderus sut mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hymarfer. Ar y cyfan, ceir cyfathrebu cyson rhwng swyddogion y Tîm Diogelu a Llesiant (addysg) a gweithwyr cymdeithasol ac mae hyn yn caniatáu iddynt rannu gwybodaeth

berthnasol gydag ysgolion pan fo angen. Serch y datblygiad newydd a gwerthfawr hwn, nid yw eu swyddogaeth a'u cyfrifoldebau yn eglur ar draws gwasanaethau ac mae hyn weithiau yn arwain at ddryswch o ran cyfrifoldebau a'r arweiniad neu'r cyngor a roddir.

Mae cryfderau yn y modd y mae adran plant a theuluoedd yn cydymffurfio gyda gweithdrefnau diogelu Cymru (GDC) ond mae elfennau o'r gwaith hwn yn anghyson. Mae trefniadau sgrinio cyfeiriadau am blant a theuluoedd yn gadarn ac amserol. Rhoddir ystyriaeth briodol i les pawb sydd ynghlwm wrth broses ymchwiliad diogelu gan gynnwys y sawl y gwneir honiad yn ei erbyn. Mae adran gwasanaethau plant a theuluoedd yn cynnal trafodaethau strategaeth lle mae consyrn wedi ei fynegi am ddiogelwch plentyn. Fodd bynnag, nid yw hyn pob tro yn digwydd o fewn yr amser statudol. Gan amlaf, dim ond y gwasanaethau plant a'r heddlu sy'n mynychu trafodaethau strategaeth. Dyma'r isafswm o ran disgwyliadau o ran GDC, a disgwylir cyfraniad ymarferwyr allweddol yn y trafodaethau hyn. Ceir enghreifftiau lle byddai cynrychiolaeth o asiantaethau eraill wedi bod yn fuddiol. Yn y mwyafrif o achosion, mae partneriaid allweddol yn mynychu cyfarfodydd strategaeth yn unol ag Adran 5 GDC. Yn ogystal, rhoddir sylw da i'r tair agwedd sydd angen ystyriaeth sef ymddygiad niweidiol a/neu droseddol ac addasrwydd i weithio neu wirfoddoli gyda phlant, neu ofalu amdanynt. Cynhelir trafodaethau addas i drefniadau diogelu a rheoli risg yn ogystal â materion cyflogaeth a chyfreithiol. Mae cofnodion y cyfarfodydd strategaeth yn dangos fod trafodaethau pwrpasol wedi'u cynnal sydd wedi arwain at ganlyniad cytûn yn unol â'r pedwar categori o ddeilliant (wedi ei brofi, heb ei brofi, di-sail neu faleisus).

Mae trefniadau cynnal cynadleddau achos amddiffyn plant yn gadarn. Mae'r cyfnod hysbysu a chasglu gwybodaeth yn amserol ac addas. Ceir cyfraniadau pwrpasol gan ystod o asiantaethau allanol i drafodaethau ac mae hyn yn arwain at gyd-ddealltwriaeth gref o sefyllfa plant a'r heriau sy'n wynebu teuluoedd. Yn ddiweddar, mae cadeirydd annibynnol y cynadleddau hyn wedi cydweithio gyda phennaeth y Tîm Diogelu a Llesiant (addysg) i wella'r ffurflenni casglu gwybodaeth gan ysgolion ac mae hyn yn dechrau arwain at gysondeb o ran ansawdd a defnyddioldeb y wybodaeth sy'n cael ei rhannu.

Ceir trefniadau cydweithio cadarn rhwng ysgolion a phartneriaid aml-asiantaethol er mwyn cefnogi llesiant plant a phobl ifanc ac mae hyn wedi cryfhau dros amser. Yn aml iawn, cynhelir cyfarfodydd grwpiau craidd i gynllunio ac adolygu cymorth i blant ar y gofrestr amddiffyn plant yn yr ysgol ei hun ac mae hyn yn hwyluso trafodaethau yn dda. Nodwedd gref o waith ysgolion yw'r cydweithio gyda phartneriaid allanol i ddarparu ymyraethau, profiadau dysgu a chymorth i ddisgyblion bregus. Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy, mae cysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad emosiynol disgyblion. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth gan staff penodol, ymyraethau

cymdeithasol buddiol, sesiynau gan gwnselwyr ysgol ac arbenigwyr iechyd meddwl allanol a chydweithredu gyda swyddogion y gwasanaeth cynhwysiad 'Ysgol Bro'. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, ceir ardaloedd tawel a llesol lle gall blant fynd i dderbyn gofal, cysur a chefnogaeth pan fo angen.

Llywodraethiant ac arweinyddiaeth

Mae gan uwch arweinwyr weledigaeth glir dros sicrhau gweithdrefnau diogelu cadarn yn yr awdurdod lleol. Maent yn agored i ddysgu ac yn benderfynol o fynd i'r afael â'r gwelliannau angenrheidiol er mwyn gwneud gwahaniaeth. Mae'r Prif Weithredwr, ynghyd ag uwch swyddogion eraill yn gosod meddylfryd pendant ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc, gan atgyfnerthu'r diwylliant o ddiogelu ym mhob agwedd o waith yr awdurdod lleol. Ar y cyfan, mae arweinwyr yn cefnogi eu gweithlu yn sensitif, tra hefyd yn eu hannog i wella ymarfer, ble mae angen, gan eu harfogi i wneud penderfyniadau er mwyn gwella.

Mae aelodau etholedig, gan gynnwys yr arweinydd, arweinyddion portffolio addysg a phortffolio gwasanaethau plant a theuluoedd, ynghyd ag aelodau o fyrddau craffu i gyd yn ymroddedig i fynd i'r afael â'r materion sydd angen eu gwella. Mae strwythur llywodraethu ar draws sawl haen o fewn yr awdurdod lleol, drwy'r Cabinet, y pwyllgorau craffu, Panel Strategol Diogelu a'r Bwrdd Rhaglen, sydd gyda'i gilydd yn sicrhau trefniadau ffurfiol o her ac adrodd priodol. Maent yn gosod diogelu fel blaenoriaeth uchaf yr awdurdod lleol ac yn effro i anelu adnoddau ychwanegol pwrpasol i gryfhau'r ddarpariaeth.

Ar y cyfan, mae arweinyddiaeth a llywodraethiant diogelu'r awdurdod lleol yn symud i gyfeiriad cadarnhaol ac mae'r darlun corfforaethol yn dangos blaenoriaethu clir o ddiogelu ar draws yr awdurdod lleol. Mae Bwrdd Adfer yn ei le sydd yn darparu her annibynnol gredadwy o lywodraethiant diogelu'r awdurdod lleol. Mae'r Bwrdd yn gweithredu gyda phwrpas clir, gan ystyried argymhellion yr Adolygiad Ymarfer Plant. Mae aelodau'r Bwrdd yn craffu ar ddatblygiadau cynllun ymateb yr awdurdod lleol, gan ddisgwyl tystiolaeth o effaith, ac nid gweithgarwch yn unig. Mae'r cadeirydd annibynnol yn gosod disgwyliadau addas o ran atebolrwydd. Mae gwaith y Bwrdd yn ymdrechu i ddwyn arweinwyr i gyfrif wrth symud o olygu cynlluniau at gyflawni a dangos effaith. Er hynny, mae rhai agweddau yn datblygu ar raddfa araf ac mae'r dystiolaeth o effaith gweithgareddau yn denau. Mae hyn yn cyfyngu gallu aelodau'r bwrdd i sicrhau bod y gwelliannau a ragwelir gan y bwrdd yn cael eu gwireddu'n gyson ar lefel ysgol a chorfforaethol.

Mae tystiolaeth o wreiddio dysgu o'r digwyddiadau diweddar, ac mae naws fwy agored i graffu a dysgu ar draws adrannau. Er enghraifft, mae'r awdurdod lleol wedi cynnal awdit mewnol o ymwybyddiaeth staff maes o'r polisi diogelu corfforaethol ac mae adrodd rheolaidd o berfformiad ar draws adrannau yn cynnwys ffocws pendant ar ddiogelu. Mae ystod eang o fforymau a phaneli perthnasol yn caniatáu i arweinwyr rannu a thrafod eu

gwaith. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at gyd-ddealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau ac yn darparu trosolwg o waith yr awdurdod lleol i randdeiliaid yn perthnasol.

Mae gan y Panel Strategol Diogelu gyfrifoldeb corfforaethol dros oruchwylio trefniadau diogelu plant ac oedolion ar lefel yr awdurdod lleol, ac mae'n atebol i'r Cabinet. Bwriad hyn yw ceisio rhoi sicrwydd i'r Aelodau Etholedig ac i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol statudol bod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle. Er hyn, nid oes digon o fesur effaith ac ansawdd trefniadau yn digwydd. Er enghraifft, mae diffyg dadansoddiad systematig o'r cysylltiad rhwng lefel hyfforddiant, perfformiad gweithlu, ac effaith ar brosesau diogelwch. Mae cryn bwyslais ar ddata gweithgarwch, ond mae gwybodaeth canlyniad neu ddysgu o adolygiadau yn brin. Nid yw'r gwasanaeth plant a theuluoedd yn rhannu gwybodaeth atgyfeiriadau diogelu yn rheolaidd â'r adran gomisynu. Mae hyn yn cyfyngu gallu rheolwyr i fonitro effeithiolrwydd gwasanaethau a gomisiynir a chefnogi penderfyniadau yn ymwneud â diogelu a sicrhau ansawdd.

Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud newidiadau pendant. Mae ymweliadau diogelu bellach yn safonedig ar draws pob ysgol ac mae monitro hyfforddiant gorfodol a gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) yn dynnach. Mae tryloywder adrodd wedi cynyddu. Mae'r pwyllgor craffu addysg wedi cynnal ymchwiliad er mwyn asesu a yw trefniadau diogelu mewn ysgolion Gwynedd yn briodol ac yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws y sir. Mae'r ymgais hwn yn adlewyrchu ymrwymiad y pwyllgor i sicrhau gwelliannau yn ogystal â llywodraethiant pendant i'r maes. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes tystiolaeth o ganlyniadau neu ganfyddiadau terfynol y gwaith hwn, ac felly mae'r effaith ar bolisi neu arfer ysgolion yn gyfyng.

Mae'r cydweithio rhwng yr adran addysg a gwasanaethau plant a theuluoedd wedi cryfhau dros amser ac mae'r adnodd ychwanegol yn cynorthwyo ysgolion a'r awdurdod lleol yn helaeth. Mae ychydig o arweinwyr yr adran plant a theuluoedd wedi ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol sylweddol yn ddiweddar, ac mae hyn wedi creu straen a baich ychwanegol. Serch hyn, mae risg i gynnaladwydd y trefniadau dros dro hyn a'r sicrwydd dros y tymor hir a all effeithio ar gyflymder a chysondeb yn safon yr ymarfer. Mae uwch arweinwyr yn ymwybodol o'r heriau hyn, ac wrthi'n cynllunio adnoddau digonol er mwyn lliniaru'r risg yma.

Mae llawer o ysgolion yn arddangos trefniadau diogelu priodol. Mae'r rhain yn cynnwys polisiâu cyfredol, hyfforddiant rheolaidd i bersonél dynodedig a llywodraethwyr, adroddiadau diogelu i gyrrff llywodraethu, a dulliau hunan arfarnu mwy trefnus. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol yn adnabod fod y gallu i graffu'n effeithiol yn amrywio rhwng cyrrff llywodraethu. Mae trefniadau ymweliadau diogelu newydd gan y tîm Diogelu a Llesiant addysg wedi bod yn ddefnyddiol i sefydlu darlun cychwynnol ac i gynorthwyo ysgolion ynglŷn â'u trefniadau diogelu. Er hynny, nid yw'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd yr ymweliadau hynny, na'r modd y mae canfyddiadau'n cael eu bwydo'n ôl i

lywodraethiant ysgol a chorfforaethol, yn ddigon craff. Mae hyn yn cyfyngu gallu ysgolion i wneud newidiadau a gwelliannau i'w trefniadau diogelu.

Mae'r awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad strategol clir i wreiddio llais y plentyn o fewn ymarfer diogelu a datblygu polisïau. Mae'r Strategaeth Llais y Plentyn ddrafft, er enghraifft, yn nodi'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r fframwaith deddfwriaethol, ac mae pecynnau gwybodaeth i bobl ifanc yn egluro eu rôl mewn recriwtio ac wrth lunio polisïau. Er bod ymwybyddiaeth y gweithlu o bwysigrwydd hyrwyddo llais y plentyn yn gryf, nid oes polisi corfforaethol ffurfiol ar lais y plentyn. Yn ogystal, prin yw'r mesur systematig o effaith llais y plentyn ac mae hyn yn cyfyngu ar y sicrwydd bod barn plant yn dylanwadu'n gyson ar benderfyniadau gwasanaethau. Hyd yma, nid yw'n ddigon amlwg fod yr awdurdod lleol yn manteisio ar adnabod arferion da neu ddysgu o arferion cenedlaethol ynghylch llais y plentyn er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ei bolisïau a'i drefniadau lleol.

Mae newidiadau mewn rolau rheoli diweddar wedi effeithio ar gysondeb presenoldeb a chyfraniadau'r awdurdod lleol i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, ond mae'r ymgysylltiad yn fwy cyson ac wedi gwella'n ddiweddar. Mae hyn yn dangos ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth barhaus.

Hyfforddiant a chefnogaeth

Mae awdurdod lleol Gwynedd yn datblygu system gynhwysfawr, gydlynol ac uchelgeisiol o ran hyfforddiant a chefnogaeth i sicrhau diogelwch plant ar draws ei wasanaethau addysg a chymdeithasol. Mae'r model Amddiffyn Plant Effeithiol (Effective Child Protection) wedi ei greu a'i ddatblygu gan uwch arweinydd yn yr adran plant a theuluoedd ac wedi ei ledaenu'n llwyddiannus ar draws yr adran. Mae'r dull gweithredu'n seiliedig ar egwyddorion cenedlaethol ac yn adlewyrchu ymrwymiad cryf i sicrhau bod ymarferwyr yn deall a gallu gweithredu eu cyfrifoldebau statudol. Mae arweinwyr yn dechrau trafod sut i ymestyn yr hyfforddiant Amddiffyn Plant Effeithiol ar draws yr awdurdod lleol a thu hwnt a chyda phersonau dynodedig diogelu mewn ysgolion.

Mae ymarferwyr gwaith cymdeithasol yn mynegi bodlonrwydd am y gefnogaeth dda y maent yn ei dderbyn gan reolwyr a chydweithwyr i'w cynorthwyo i gyflawni eu gwaith. Maent yn gwerthfawrogi argaeledd rheolwyr llinell i gynnig cefnogaeth, arweiniad a goruchwyliaeth rheolaidd. Mae hyn yn helpu sicrhau cyfleoedd cyson i ymarferwyr drafod ac adlewyrchu ar eu hymarfer.

Ceir ystod eang o gyfleoedd dysgu a datblygiad proffesiynol ar wahanol lefelau, gyda rhaglenni hyfforddiant diogelu penodol Grŵp B a Grŵp C (categoriâu gwahanol o hyfforddiant sy'n dibynnu ar lefel o ymarfer) yn cyd-fynd â safonau cenedlaethol dysgu a datblygu Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae'r dull cymysg, sesiynau wyneb yn wyneb ac

e-fodiwlau, yn sicrhau hygrychedd ac yn hybu cyfranogiad eang ar draws y gweithlu. Mae'r hyfforddiant craidd yn cwmpasu egwyddorion cyffredinol diogelu ac yn cynnig gwybodaeth berthnasol am adnabod arwyddion cam-drin corfforol neu emosiynol. Mae'r defnydd o adnoddau ar-lein, fel modiwlau ar Hwb a'r Dashfwrdd Diogelu, yn dangos ymrwymiad i dryloywder ac atebolrwydd. Mae'r system fonitro'n galluogi olrhain cwblhau hyfforddiant, nodi bylchau a sicrhau bod ymarferwyr yn cadw eu cymwysterau'n gyfredol. Mae hyn yn hwyluso darlun clir o gynnydd ac yn cefnogi rheolaeth wybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae cynnwys meysydd fel adnabod cam-drin, deall deddfwriaeth berthnasol, a hyrwyddo'r egwyddor fod diogelu'n gyfrifoldeb pawb, yn dystiolaeth o ymagwedd broffesiynol a chydlynol. Fodd bynnag, nid oes hyfforddiant penodol ar gamfanteisio (grooming). Mae diffyg ffocws ar natur gynnil ac amlweddog cam-fanteisio, yn enwedig pan fo'r ymddygiad yn digwydd ar-lein neu mewn cyd-destunau cymdeithasol cyfarwydd, yn creu risg bosibl i blant ac oedolion. Nid yw pob aelod o staff ysgol, ymarferwr neu lywodraethwr yn teimlo'n hyderus i adnabod arwyddion cynnar o reolaeth seicolegol, dylanwad amhriodol neu berthnasoedd camdriniol sydd wedi'u cuddio o dan ymddangosiad o ofal. O ganlyniad, gallent fethu ag adnabod arwyddion cynnar o gamfanteisio neu ymateb yn brydlon, gan danseilio diwylliant o adrodd ac atebolrwydd. Gallai darparu hyfforddiant arbenigol sicrhau bod pob aelod o'r gweithlu'n deall ac yn ymateb yn hyderus a chywir i risgiau camfanteisio neu risgiau a thueddiadau newydd, gan gryfhau trefniadau diogelu'r awdurdod lleol ymhellach.

Mae adnoddau ychwanegol i lywodraethwyr ac arweinwyr ysgolion yn dangos dull rhagweithiol o gryfhau arweinyddiaeth diogelu ac yn hybu myfyrdod proffesiynol drwy dempledi craffu ac offer hunanwerthuso. Mae hyn yn helpu creu diwylliant o atebolrwydd a disgwyliadau clir ar bob lefel. Yn seiliedig ar ymatebion y llywodraethwyr a gafodd eu holi, mae llywodraethwyr yn ymrwymedig ac yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r hyfforddiant a ddarperir. Maent yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac yn gweithredu trefniadau priodol ar gyfer gwiriadau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chydymffurfio â gofynion diogelu. Mae arferion fel cyfarfodydd rheolaidd rhwng y llywodraethwr diogelu dynodedig a'r person dynodedig diogelu a theithiau dysgu diogelu blynyddol, yn tystio i ddull trefnus o fonitro a gwella. Mae hyn yn rhoi ffocws da ar oruchwyliaeth fewnol er mwyn sicrhau cynnal safonau ar draws ysgolion. Serch hynny, mae lle i gryfhau rhai agweddau. Er bod yr hyfforddiant i lywodraethwyr yn gynhwysfawr ac yn hygrych, nid oes digon o dystiolaeth eto i ddangos i ba raddau y mae'n newid ymarfer nac yn gwella dealltwriaeth ar lawr gwlad. Yn aml, mae gwerthuso effaith yn canolbwyntio ar gyfranogiad neu gwblhau cyrsiau yn hytrach na newid diwylliant neu ymddygiad mewn ysgolion. O ganlyniad, mae'n anodd asesu'r effaith wirioneddol ar ddiogelwch plant. Yn ogystal, mae rhai llywodraethwyr yn parhau i ddangos diffyg hyder i herio arweinwyr ysgolion ar faterion diogelu, gan ddibynnu'n ormodol ar farn unigolion.

Mae'r Tîm Diogelu a Llesiant wedi cryfhau trefniadau hyfforddiant a chefnogaeth drwy wasanaeth hygyrch ac ymatebol i ysgolion. Mae'r gefnogaeth, sy'n cynnwys cynnig arbenigedd prydlon, darparu llinell gymorth bwrpasol a dull systematig o ymdrin â phryderon a honiadau, yn adlewyrchu trefniant cydlynol. Eto i gyd, mae monitro ac adrodd yn dal i ddatblygu, a'r dystiolaeth o effaith ar arfer ysgolion yn gyfyngedig. Mae adroddiadau awdit diogelu'n dangos ansawdd anghyson a phrinder eglurder ynghylch camau gwella. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys sylwadau generig ac ailadroddus, gyda beirniadaeth rhy gyffredinol a heb ganllawiau penodol. Nid oes amserlenni na cherrig milltir ar gyfer monitro cynnydd wedi'u nodi

Er bod polisiâu'r awdurdod lleol yn drylwyr ac yn eang, er enghraifft diogelu, recriwtio diogel, e-ddiogelwch a chwythu'r chwiban, mae diffyg cysylltiad rhwng y dogfennau a dulliau ymarferol o werthuso eu heffaith ar ymarfer. Yn ogystal, nid oes proses ffurfiol ar gyfer adolygiadau diogelu blynyddol. Mae'r diffyg hwn yn llesteirio cynnydd a'r gallu i fesur effaith dros amser.

Er gwaethaf y bylchau hyn, mae'r awdurdod lleol wedi adnabod meysydd hyfforddiant sydd angen eu cryfhau. Mae'r cyfuniad cyfredol o raglenni hyfforddi, adnoddau ar-lein ac offer craffu ar lefel ysgol a llywodraeth yn adlewyrchu dull proffesiynol, strwythuredig ac wedi'i seilio ar egwyddorion cenedlaethol. Mae'r defnydd o fodelau damcaniaethol i gefnogi ymarfer yn dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd myfyrdod proffesiynol ac atebolrwydd. Mae hyn yn cryfhau gallu staff i ddysgu'n barhaus a datblygu diwylliant sefydliadol sy'n canolbwyntio ar ddiogelu ac arweinyddiaeth gyfrifol ond mae'n rhy gynnar i fesur effaith lawn y dull hwn. Mae'r cynlluniau'n addawol ac yn dangos gweledigaeth glir, ond mae systemau gwerthuso'n dal i ddatblygu. Heb fesurau effeithiol o effaith, ceir risg na fydd y gwaith cynlluniedig yn dylanwadu'n ymarferol ar ddiogelwch a lles plant.

Yn gyffredinol, mae cryfderau'r awdurdod lleol yn gorwedd yn ei strwythur, eglurder strategol ac ymrwymiad i sicrhau bod y gweithlu'n hyderus ac yn gymwys i ddiogelu plant. Mae'r dull yn rhagweithiol, cydweithredol ac uchelgeisiol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau gwelliant parhaus ac effaith gynaliadwy, mae angen datblygu prosesau gwerthuso mwy effeithiol ac eglur i fesur newid ar lawr gwlad. Wrth i'r system aeddfedu, bydd monitro tystiolaeth effaith a meithrin hyder y gweithlu yn allweddol i wireddu'r uchelgais strategol ac i sicrhau gwelliannau mesuradwy ym mywydau plant Gwynedd.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Maes Gwella Estyn / AGC	Ydi'r Argymhelliad wedi ei gynnwys yn rhaglen waith y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb?	Cyfrifoldeb Pwy?
1. Sefydlu polisi corfforaethol ar lais y plentyn ac unioni trefniadau gwrandao ar lais y plentyn dan Weithdrefnau Diogelu Cymru er mwyn sicrhau cysondeb ar draws adrannau addysg a phlant a theuluoedd; defnyddio negeseuon o fforymau plant a phobl ifanc i ddylanwadu'n uniongyrchol ar gynllunio strategol	Ydi Thema 1: CPR-1, NEW-1, CPR-6, Thema 2: CPR-11	Gwern ap Rh Dylan Owen
2. Sefydlu trefniadau sicrhau ansawdd corfforaethol sy'n mesur effaith gwaith diogelu ac amddiffyn plant ar ymarfer ac ar lesiant plant a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau, blaenoriaethu adnoddau a chryfhau llywodraethiant ar bob lefel.	Ydi Thema 2: NEW-2, NEW-3, NEW-7, NEW-10 a Fframwaith Sicrwydd Ansawdd	Dylan Owen
3. Cryfhau hyfforddiant diogelu i holl staff a llywodraethwyr, gan sicrhau ei fod yn addas i bwrpas ac yn cynnwys gwybodaeth am gamfanteisio ynghyd â sefydlu prosesau cadarn i werthuso effaith hyfforddiant ar ymarfer.	Ydi Thema 1: CPR-3 Thema 3: CPR-18, RP-C2, RP- B1b, RP- C2d, RP- B1a	Gwern ap Rh Ian Jones
4. Rhaid i'r awdurdod lleol:		
a) hysbysu'r atgyfeiriwr o fewn saith diwrnod gwaith am ganlyniad atgyfeiriad	Ddim yn y Cynllun Ymateb ar hyn o bryd. Cynlluniau ar y gweill i'w ychwanegu at Thema 2.	Dylan Owen
b) ymgysylltu â'r plentyn pan fo'n datgan risg o niwed/cam-drin/esgeuluso	Ydi Thema 1: CPR-6 Thema 2: CPR-11	Dylan Owen
c) cryfhau trefniadau comisiynu a monitro cytundebau gwasanaethau	Heb ei gynnwys yn y Cynllun Ymateb. Bydd hyn yn cael ei weithredu â Gwasanaeth Busnes y Gwasanaethau Cymdeithasol.	Dylan Owen
d) sicrhau cyfraniad rheolaidd ymarferwyr allweddol i drafodaethau strategaeth	Ydi Thema 2: NEW-3, NEW-7	Dylan Owen

ENW'R PWYLLGOR	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD Y CYFARFOD	3 ^{ydd} o Chwefror 2026
TEILTL YR EITEM	Trefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau – Cyngor Gwynedd
AMCAN	Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar adroddiad(au) sydd wedi ei cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru ar drefniadau Comisiynu y Cyngor
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad
AWDUR	Arwel Evans, Rheolwr Caffael

1. CEFNDIR

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt.

1.3. Mae copi o adroddiad **'Trefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau – Cyngor Gwynedd'** wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1** gyda dogfen ymateb sefydliadol wedi ei gynnwys fel **Atodiad 2** sy'n amlinellu'r hyn yr ydym fel Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion o fewn yr adroddiad.

1.4 Ni weler bod yna ddeddfwriaeth penodol ynglŷn a comisiynu tu hwyt i'r ddeddf llesiant sydd yn benodol i'r maes gofal. Mae'r Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod fframwaith cyfreithiol i feysydd cyffredinol ar sut i ddylunio gwasanaethau.

1.5 Nid yw Archwilio Cymru yn darparu ymarfer orau nac yn argymhell canllawiau safonol i'w dilyn ar gyfer y maes Comisiynu.

2. DULL YR ARCHWILIAD

2.1 Nodwyd Archwilio Cymru mae amcan yr archwiliad oedd ceisio darganfod wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio ei adnoddau?

2.2 Defnyddir meini prawf yn Atodiad 1 i ddod i'r casgliad hyn gan adolygu esiamplau gwaith y Cyngor yn y meysydd canlynol:

2.3 Y sampl o feysydd gwasanaeth y gwnaethom eu hadolygu yn y Cyngor oedd:

- Gwasanaeth eirioli i oedolion;
- Rhwydwaith fysiau Sherpa'r Wyddfa; a hefyd
- Canolfannau hamdden Byw'n Iach.

2.4 Nid oedd yr archwiliad hwn yn cynnwys trefniadau caffael na threfniadau rheoli contractau'r Cyngor.

3. CANFYDDIADAU'R ARCHWILIAD

3.1 Ar y cyfan, canfuom yr Archwilydd na all y Cyngor ddangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian fel mater o drefn drwy ei wasanaethau a gomisiynir. Nodwyd crynodeb o'r prif rhesymau isod pam y daethom i'r casgliad hwn:

- Does dim trefn systematig ar draws y Cyngor. (Cyfeirnod 16)
- Ddiffyg ystyriaeth ac asesu opsiynau comisiynu llawn. (Cyfeirnod 17)
- Diffyg defnydd o wybodaeth a data i wneud penderfyniadau. (Cyfeirnod 18)
- Diffyg cynllunio adnoddau i'r hirdymor (Cyfeirnod 19&20)
- Diffyg trefniadau monitro (Cyfeirnod 21)
- Diffyg asesiad effaith ehangach ar wasanaethau eraill (Cyfeirnod 22)
- Ddiffyg cynnwys partneriaid a rhanddeiliaid ehangach (Cyfeirnod 23&24)
- Ddiffyg adolygu dull comisiynu er mwyn gwella a dysgu (Cyfeirnod 25)

4. YMATEB IR ARCHWILIAD

4.1 Cynigwyd yr archwilydd yr argymhellion canlynol:

- Sefydlu trefniadau comisiynu cyson
- Ymgorffori trefniadau ar draws y Cyngor

4.2 Rydym wedi drafftio ffurflen ymateb i'r argymhellion ac atodwyd **Canllawiau Comisiynu Corfforaethol y Cyngor yn Atodiad 3**. Byddwn hefyd yn edrych i adolygu'r asesiad effaith i ymgorffori unrhyw newid sydd yw angen.

Atodiadau

Atodiad 1 - Trefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau – Cyngor Gwynedd

Atodiad 2 – Ffurflen Ymateb Rheolaethol Trefniadau Comisiynu Gwynedd

Atodiad 3 - Canllawiau Comisiynu Corfforaethol y Cyngor

Trefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4973A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cynnwys

Adroddiad cryno	
Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn	4
Ein dyletswyddau archwilio	4
Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn	4
Pam fod comisiynu'n bwysig	4
Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da'n edrych	5
Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni'r archwiliad	5
Yr hyn a ganfuom	6
Ein hargymhellion i'r Cyngor	9
Atodiadau	
Atodiad 1 – cwestiynau a meini prawf archwilio	10

Adroddiad cryno

Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn

Ein dyletswyddau archwilio

- 1 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn dan y dyletswyddau sydd wedi eu cynnwys yn:
 - adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi (neu beidio) bod y Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio ei adnoddau; ac
 - adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.
- 2 Gall yr archwiliad hwn oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004 hefyd.

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

- 3 Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn yw:
 - darparu sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol ar gyfer comisiynu gwasanaethau i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y maent yn defnyddio adnoddau;
 - darparu sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gomisiynu gwasanaethau; ac
 - egluro sut y mae cynghorau'n mynd ati i gomisiynu gwasanaethau ac ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus trwy adnabod a rhannu enghreifftiau o arfer/dulliau nodedig lle y bo'n berthnasol.
- 4 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn ym mhob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

Pam fod comisiynu'n bwysig

- 5 Comisiynu yw'r broses a ddefnyddir gan y Cyngor i ddylunio gwasanaethau y mae'n bwriadu eu darparu. Mae'n dechrau â diffinio'r gwasanaeth a'r allbynnau a deilliannau a ddymunir ac yn diweddu pan fo'r Cyngor yn trefnu ei ddull darparu. Er enghraifft, trwy sefydlu tîm darparu yn fewnol, neu drwy gaffael cyflenwr allanol.
- 6 Gall trefniadau comisiynu helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol. I'r gwrthwyneb, gall gwendidau mewn trefniadau comisiynu leihaus effaith gwasanaethau a'u gwerth am arian, hyd yn oed os yw'r prosesau sy'n dilyn, megis caffael a rheoli contractau, yn gadarn.



Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da'n edrych¹

- 7 Fe wnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer comisiynu gwasanaethau ac yn benodol i ba raddau y mae hyn wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y defnyddir adnoddau'r Cyngor.
- 8 Nid oedd yr archwiliad hwn yn cynnwys trefniadau caffael na threfniadau rheoli contractau'r Cyngor.
- 9 Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol hwn: **Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio ei adnoddau?**
- 10 Fe ddefnyddiom ni'r meini prawf archwilio a nodir yn **Atodiad 1**, sydd hefyd yn dangos y berthynas rhwng y meini prawf a'r cwestiynau archwilio. Goleuwyd hyn gan ein gwybodaeth gronnydd yn ogystal â'r hierarchaeth gwestiynau a dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u datblygu i ategu ein harchwiliadau o gymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.



Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni'r archwiliad

- 11 Mae ein canfyddiadau'n seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau, a chyfweliadau gyda'r uwch swyddog(ion) sy'n gyfrifol am ddatblygu dull comisiynu strategol y Cyngor. Fe wnaethom hefyd gyfweld ag uwch swyddogion â chyfrifoldeb am wasanaethau y mae'r Cyngor wedi'u comisiynu'n allanol.
- 12 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau sydd gan y Cyngor, fe wnaethom brofi sampl o'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u sefydlu i gomisiynu gwasanaethau. I wneud hyn, fe ddewisom ni dri gwasanaeth lle mae'r Cyngor wedi penderfynu comisiynu gwasanaethau'n allanol ac fe archwiliom ni'r trefniadau comisiynu y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith. Y sampl o feysydd gwasanaeth y gwnaethom eu hadolygu yn y Cyngor oedd:
 - Gwasanaeth eirioli i oedolion;
 - Rhwydwaith fysiau Sherpa'r Wyddfa; a hefyd
 - Canolfannau hamdden Byw'n Iach.

¹ Fe'i diffinnir fel 'yr hyn a ddylai fod' yn ôl deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn ôl arfer gorau, neu 'yr hyn a allai fod', pe bai'r amodau'n well.

- 13 Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i defnyddio i oleuo ein canfyddiadau'n gyfyngedig i'r ffynonellau hyn. Fe wnaethom y gwaith hwn yn ystod mis Rhagfyr 2024 a mis Chwefror 2025.
- 14 Rydym yn gwneud y gwaith hwn ym mhob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru ac, yn ogystal ag adrodd yn lleol wrth bob cyngor, rydym hefyd yn bwriadu cynhyrchu adroddiad cenedlaethol.



Yr hyn a ganfuom

- 15 Ar y cyfan, **canfuom na all y Cyngor ddangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian fel mater o drefn drwy ei wasanaethau a gomisiynir**. Rydym yn nodi isod pam y daethom i'r casgliad hwn.
- 16 Canfuwyd gennym fod meysydd gwasanaeth unigol yn diffinio'n glir y gwasanaeth y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gomisiynu a'i ganlyniadau arfaethedig. Gallent hefyd ddisgrifio sut mae'r gwasanaeth a gomisiynir yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod hyn yn digwydd yn systematig ar draws pob maes gwasanaeth. Mae meddu ar ddealltwriaeth glir o pam mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu, yr hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni, a'r gwahanol opsiynau sydd ar gael yn elfennau pwysig o'r trefniadau i sicrhau gwerth am arian.
- 17 Nid yw'r Cyngor yn cynnal arfarniad cynhwysfawr o opsiynau comisiynu fel mater o drefn cyn penderfynu comisiynu gwasanaeth. Canfuom fod y Cyngor yn comisiynu rhai gwasanaethau i ddarparwyr allanol yn seiliedig ar y model cyflawni blaenorol ar gyfer y maes gwasanaeth yn hytrach nag ystyried opsiynau amgen. Nid oes ychwaith ar hyn o bryd unrhyw oruchwyliaeth gorfforaethol o gyfnodau contract ar draws gwahanol feysydd gwasanaeth. Mae hyn yn golygu y gallai cyfleoedd gael eu colli i sicrhau gwerth am arian. Er enghraifft, trwy aliniad gwell rhwng y meysydd gwasanaeth i baratoi arfarniad opsiynau mwy cynhwysfawr; neu drwy nodi cyfleoedd i gomisiynu gwasanaethau ar y cyd ar draws adrannau. Drwy beidio ag ystyried yr ystod lawn o ddulliau cyflawni posibl, ni all y Cyngor fod yn sicr bod yr opsiwn y mae wedi'i ddewis yn rhoi'r gwerth gorau am arian. Gellir cymhwyso graddfa'r asesiadau opsiynau yn gymesur yn ôl, er enghraifft, cost a chymhlethdod y gwasanaeth a gomisiynwyd.
- 18 Mae'r Cyngor yn defnyddio ystod eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu ei ddealltwriaeth o'r ffactorau cyfredol a hirdymor sy'n debygol o effeithio ar wasanaethau a gomisiynir. Mae hefyd wedi nodi ffynonellau gwybodaeth a fydd yn ddefnyddiol wrth wneud penderfyniadau comisiynu nesaf a sut y gallai wella ei ddefnydd o ddata. Er enghraifft, bydd data a gyhoeddir gan Trafnidiaeth Cymru yn berthnasol i'r cylch comisiynu nesaf ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus, yn ogystal â dadansoddi sylwadau defnyddwyr gwasanaeth a gasglwyd eisoes gan y Cyngor i sefydlu achosion sylfaenol y galw am wasanaeth.

- 19 Mae'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio gwasanaethau a gomisiynir yn unigol dros amserlen briodol yn unol ag anghenion y maes gwasanaeth hwnnw. Gall y Cyngor ddisgrifio pam ei fod wedi dewis hyd y contract ar gyfer ei wasanaethau a gomisiynir a sut y bydd y cyfnodau hyn yn diwallu anghenion tymor byr. Fodd bynnag, nid yw mor glir sut mae trefniadau comisiynu'r Cyngor yn sicrhau bod ei wasanaethau a gomisiynir yn diwallu anghenion hirdymor.
- 20 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth gyfyngedig o oblygiadau adnoddau hirdymor wrth gomisiynu gwasanaethau. Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys costau tymor byr ar gyfer ei wasanaethau a gomisiynir ac mae'r Cyngor yn cynnwys cymalau cytundebol sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer rheoli costau ychwanegol yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae'r Cyngor yn ystyried costau oes gyfan gwasanaethau a gomisiynir fel rhan o'i ddull comisiynu. Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y byddai rhai risgiau ariannol yn effeithio ar wasanaethau a gomisiynir ond nid yw wedi modelu effaith ystod o senarios lleihau cyllideb yn y dyfodol. Mae ystyried goblygiadau hirdymor a thymor byr penderfyniadau comisiynu yn lleihau'r risg o beidio â chyflawni gwerth am arian yn y tymor hwy.
- 21 Nid oes gan y Cyngor drefniadau corfforaethol i sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir yn asesu ac yn monitro gwerth am arian yn gyson. Gwelsom enghreifftiau o sut mae gwasanaethau'n nodi sut y bydd gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei fonitro yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Fodd bynnag, mae'r diffyg trefniadau corfforaethol i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn systematig yn ei gwneud yn anodd i'r Cyngor gael arolygiaeth a sicrwydd bod gwerth am arian wedi'i sicrhau drwy ei wasanaethau a gomisiynir.
- 22 Ychydig o ymwybyddiaeth sydd gan y Cyngor o'r effeithiau ehangach y gallai ei wasanaethau a gomisiynir eu cael. Nid yw'r Cyngor bob amser yn ystyried aliniad rhwng ei wasanaethau a gomisiynir a'i amcanion llesiant. Er enghraifft, dim ond un o'r gwasanaethau a gomisiynwyd a adolygwyd gennym a gyfeiriodd atynt. Yn yr un modd, nid yw'r Cyngor yn ystyried yn systematig sut y gall gwasanaethau wneud y mwyaf o'u cyfraniad at amcanion llesiant cyrff eraill yn y sector cyhoeddus. Darparodd y Cyngor dystiolaeth gyfyngedig hefyd o sut y mae'n ystyried yr effaith y gallai ei wasanaethau a gomisiynir ei chael ar y nodau llesiant cenedlaethol. Drwy beidio ag ystyried effaith ehangach gwasanaethau a gomisiynir, mae'r Cyngor mewn perygl o golli cyfleoedd i sicrhau buddion lluosog ac osgoi dyblygu.
- 23 Nid oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau ei fod yn cynnwys y rhai y mae gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio arnynt fel mater o drefn yn y broses o'u cynllunio a'u darparu. O ganlyniad, nid oes gan y Cyngor sicrwydd ei fod yn ystyried yr amrywiaeth barn lawn wrth benderfynu sut i gomisiynu gwasanaethau.
- 24 Nid yw'r Cyngor fel mater o drefn yn nodi'r holl bartneriaid posibl y gallai weithio gyda nhw i gomisiynu gwasanaethau, er enghraifft ar y cyd, neu drwy fodelau partneriaeth eraill. Gwelsom enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth lle mae'r Cyngor wedi nodi a mynd ar drywydd cyfleoedd i wella gwerth am arian drwy gomisiynu gwasanaethau mewn partneriaeth. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn ystyried yr holl gyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar draws pob maes

gwasanaeth fel mater o drefn. Gall gweithio gyda'r bobl a'r partneriaid cywir helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn comisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ei gymunedau, a'i fod yn darparu'r gwasanaethau hynny mewn ffordd sy'n sicrhau'r gwerth gorau am arian.

- 25 Nid yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei ddull comisiynu yn rheolaidd. Nid yw'r Cyngor yn rhannu'n eang nac yn cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o'i ymagwedd at gomisiynu ar draws y sefydliad na gyda phartneriaid. Mae'n bwysig gwerthuso cost ac effeithiolrwydd trefniadau comisiynu er mwyn helpu i nodi meysydd i'w gwella, a rhannu'r hyn a ddysgwyd, ac felly sicrhau gwerth am arian.

Ein hargymhellion i'r Cyngor

Arddangosyn 1: ein hargymhellion i'r Cyngor

Argymhellion

A1 Sefydlu trefniadau comisiynu cyson

Galluogi'r Cyngor i sicrhau ei hun bod ei benderfyniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau yn cael eu siapio'n gyson gan:

- Arfarniad opsiynau cynhwysfawr (paragraff 17);
- cynllunio dros amserlen briodol a chydbwyso anghenion tymor byr a thymor hwy (paragraff 19);
- dealltwriaeth o'r goblygiadau hirdymor o ran adnoddau (paragraff 20);
- nodi sut y bydd yn asesu ac yn monitro gwerth am arian (paragraff 21);
- sicrhau bod effeithiau ehangach gwasanaethau a gomisiynir yn cael eu huchafu (paragraff 22); a
- gweithio gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a darparu'r gwasanaeth (paragraffau 23 a 24).

A2 Ymgorffori trefniadau ar draws y Cyngor

Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar draws y Cyngor yn dysgu o weithgarwch comisiynu, dylai'r Cyngor ymgorffori trefniadau comisiynu drwy:

- codi ymwybyddiaeth o drefniadau comisiynu a disgwyliadau (paragraff 15);
- gwerthuso gwerth am arian ei ddull o gomisiynu gwasanaethau yn systematig (paragraff 25); a
- rhannu'r hyn a ddysgwyd o weithgarwch comisiynu ar draws adrannau a chyda phartneriaid allanol lle bo'n berthnasol (paragraff 25).

Atodiad 1

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiwn cyffredinol: Wrth gomisiynu gwasanaethau a yw'r Cyngor yn sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio ei adnoddau?

Level 2 questions	Cwestiynau Lefel 3	Meini Prawf
A oes gan y Cyngor resymeg eglur dros gomisiynu gwasanaethau?	A yw'r Cyngor yn diffinio'n glir pa wasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu a pham?	• Mae'r Cyngor yn nodi diffiniad clir o'r gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu. • Mae'r Cyngor yn nodi 'pam' fod arno angen comisiynu'r gwasanaethau gan gynnwys: – effaith/deilliannau bwriadedig darparu'r gwasanaeth; ac – a fydd/sut y bydd y gwasanaeth yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol
	A yw'r Cyngor yn cynnal arfarniad cynhwysfawr o'r opsiynau comisiynu cyn penderfynu comisiynu gwasanaeth?	• Mae'r Cyngor yn ystyried yr ystod lawn o opsiynau comisiynu ar gyfer darparu'r gwasanaeth – gallai'r opsiynau gynnwys y canlynol, er enghraifft: – darpariaeth fewnol; – trefniadau partneriaeth neu ddulliau o gomisiynu o fewn ac ar draws sectorau; – allanoli'r gwasanaeth i ddarparwr arall trwy ymddiriedolaeth neu drefniant arall; a – chontractio'r gwasanaeth trwy broses dendro. • Mae'r Cyngor yn ystyried costau a manteision yr opsiynau o safbwynt darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd – gan gynnwys dros y tymor byr, canolig a hir. • Mae'r Cyngor yn cynnwys costau rheoli contract o fewn ei asesiad o opsiynau comisiynu. • Mae'r Cyngor yn cynnwys asesiad o risg ar gyfer pob opsiwn comisiynu fel rhan o asesu costau a manteision. • Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu dealltwriaeth am y ffactorau cyffredol a hirdymor sy'n debygol o effeithio ar wasanaethau a gomisiynir.
A yw'r Cyngor yn cynllunio dros raddfa amser briodol?	A yw'r Cyngor yn ystyried beth mae hirdymor yn ei olygu wrth gomisiynu gwasanaethau?	• Mae'r Cyngor yn ystyried beth mae hirdymor yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull o gomisiynu gwasanaethau – h.y. pa mor bell ymlaen all/ddylai gynllunio a pham. • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd yn taro cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a

Level 2 questions	Cwestiynau Lefel 3	Meini Prawf
		hirdymor wrth gynllunio ar gyfer comisiynu gwasanaethau gan gynnwys, er enghraifft, wrth bennu'r ffrâm amser ar gyfer contractau neu drefniadau comisiynu eraill
	A yw'r Cyngor yn deall y goblygiadau hirdymor o ran adnoddau wrth gomisiynu gwasanaethau?	• Mae'r Cyngor yn meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno dros y tymor canolig a hwy (costau oes gyfan) i ddarparu gwasanaethau a gomisiynir. • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y gellid gweithredu ystod o senarios lleihau cyllideb yn y dyfodol mewn perthynas â gwasanaethau a gomisiynir.
	A yw'r Cyngor yn nodi sut y bydd yn monitro gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir dros y tymor byr, canolig a hir?	• Mae'r Cyngor yn nodi'r trefniadau monitro y bydd yn eu dilyn ar gyfer y gwasanaeth a gomisiynir • Dylai'r Cyngor ddisgrifio sut y bydd gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei asesu a'i fonitro gan gynnwys: – costau a manteision; a – Chynnydd tuag at gerrig milltir a mesurau tymor byr, canolig a hwy
A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai ei wasanaeth a gomisiynir eu cael?	Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gynyddu eu cyfraniad at amcanion llesiant y Cyngor i'r eithaf?	• Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar ei holl amcanion llesiant ei hun i sicrhau manteision lluosog, osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol, e.e. ystyried amcanion tymor hwy, y gadwyn gyflenwi leol, cydnerthedd y farchnad ac effaith hyd contractau, bioamrywiaeth, a lleihau carbon
	Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gwasanaethau gynyddu eu cyfraniad at amcanion llesiant cyrff eraill yn y sector cyhoeddus i'r eithaf?	• Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff eraill yn y sector cyhoeddus i sicrhau manteision lluosog ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol
	Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gwasanaethau gynyddu eu cyfraniad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol i'r eithaf?	• Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar y nodau llesiant cenedlaethol i sicrhau manteision lluosog ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol
A yw'r Cyngor yn gweithio gyda'r bobl a'r partneriaid iawn i ddylunio a darparu ei wasanaethau a gomisiynir?	A yw'r Cyngor wedi adnabod pwy y mae angen iddo eu cynnwys?	• Mae'r Cyngor yn deall pwy fydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol arnynt. Goleuwyd hyn gan ddadansoddiad rhanddeiliaid neu ymarfer tebyg.
	A yw'r Cyngor yn cynnwys amrywiaeth lawn y bobl?	• Mae'r Cyngor yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth benderfynu sut i gomisiynu gwasanaethau.

Level 2 questions	Cwestiynau Lefel 3	Meini Prawf
		Mae'r Cyngor yn defnyddio canlyniadau gweithgarwch cynnwys i oleuo sut y bydd yn comisiynu gwasanaethau, gan gynnwys ei effaith ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig
	A yw'r Cyngor yn cydweithio gyda'r partneriaid cywir?	- Mae'r Cyngor yn deall yn dda pa bartneriaid a pha bartneriaid posibl y gallai weithio gyda hwy i gomisiynu gwasanaethau i wella gwerth am arian. Goleuwyd hyn gan ddadansoddiad cynhwysfawr o bartneriaid posibl a'u blaenoriaethau. - Lle mae cyfleoedd i wella gwerth am arian trwy gomisiynu gwasanaethau mewn partneriaeth yn cael eu hadnabod, mae'r Cyngor yn mynd ar eu trywydd.
A oes gan y Cyngor drefniadau i werthuso gwerth am arian ei ddull comisiynu?	A yw'r Cyngor yn mynd ati fel rhan o'r drefn arferol i werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau comisiynu?	- Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei ddull comisiynu'n rheolaidd gan gynnwys: - I ba raddau y mae gwasanaethau a gomisiynir yn cyflawni'r amcanion y mae'r Cyngor wedi'u pennu; a - Gwerth am arian modelau comisiynu a ddewiswyd gan gynnwys ystyried mewnbynnau, allbynnau a deilliannau.
	A yw'r Cyngor yn mynd ati fel rhan o'r drefn arferol i rannu unrhyw wersi a ddysgwyd i oleuo ymarferion comisiynu yn y dyfodol?	Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgwyd o'i ddull comisiynu yn eang ar draws y sefydliad, a chyda phartneriaid lle y bo'n berthnasol.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Teitl yr Adroddiad: Archwiliad i Drefniadau Comisiynu

Dyddiad cwblhau: Chwefror 2026

Cyfeirnod dogfen: 4973A2025

Cyf	Argymhellriad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)
A1	Sefydlu trefniadau comisiynu cyson Galluogi'r Cyngor i sicrhau ei hun bod ei benderfyniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau yn cael eu siapio'n gyson gan: - Arfarniad opsiynau cynhwysfawr (paragraff 17); - cynllunio dros amserlen briodol a chydbwyso anghenion tymor byr a thymor hwy (paragraff 19); - dealltwriaeth o'r goblygiadau hirdymor o ran adnoddau (paragraff 20); - nodi sut y bydd yn asesu ac yn monitro gwerth am arian (paragraff 21);	Yn unol ac egwyddorion Ffordd Gwynedd wrth sefydlu ac adolygu pwrpas gwasanaethau, dyled Rheolwyr a/neu Pennaeth Gwasanaeth sicrhau bod: - Yr angen wedi diffinio yn glir. - Sicrhau bod arfarniad opsiynau wedi gwblhau. - Cwblhau asesiad effaith (Hirdymor -tymor byr a hir). - Creu cynllun busnes i asesu anghenion adnoddau (costau) gan gynnwys amserlen, proffil gwariant, trefniadau monitro	Yn ystod flwyddyn ariannol 2026/27	Penaethiaid Gwasanaethau

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)
	- sicrhau bod effeithiau ehangach gwasanaethau a gomisiynir yn cael eu huchafu (paragraff 22); a - gweithio gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a darparu'r gwasanaeth (paragraffau 23 a 24).	gwerth am arian ac unrhyw welliant a geisir. Cwblhau asesiad effaith (Cynnwys) a (Cydwethio).		
A2	Ymgorffori trefniadau ar draws y Cyngor Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar draws y Cyngor yn dysgu o weithgarwch comisiynu, dylai'r Cyngor ymgorffori trefniadau comisiynu drwy: - codi ymwybyddiaeth o drefniadau comisiynu a disgwyliadau (paragraff 15); - gwerthuso gwerth am arian ei ddull o gomisiynu gwasanaethau yn systematig (paragraff 25); a - rhannu'r hyn a ddysgwyd o weithgarwch comisiynu ar draws adrannau a chyda phartneriaid allanol lle bo'n berthnasol (paragraff 25).	Bydd y Gwasanaethau Corfforaethol y Cyngor yn: - Yn seiliedig ar egwyddorion Ffordd Gwynedd creu Cynllun Comisiynu/Cynllun Busnes Corfforaethol. - Cynnwys cymal yn y Polisi caffael o'r disgwyliadau cyn cychwyn drefn caffael. Ystyried os modd ymgorffori cymalau perfformiad yn y gytundeb. - Rhannu canfyddiadau'r archwiliad a'r cynllun gweithredu gyda Penaethiaid Gwasanaethau. - Cynnal adolygiad os yw'r hyn a nodwyd yn A1 ac A2 yn cael ei gwblhau gyda'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.	Erbyn Mawrth 2027 Erbyn Mawrth 2027 Erbyn Mawrth 2027 Erbyn Mawrth 2027	Rheolwr Caffael Rheolwr Caffael Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)
		Bydd Gwasanaethau'r Cyngor yn: - Adrodd ar fesurau perfformiad yn rheolaidd gan rhoi sylw penodol os yw'r gwasanaeth yn cyfarch yw pwrpas ac yn cyflawni gwerth am arian. - Rhannu'r hyn a ddysgwyd o weithgarwch comisiynu ar draws adrannau a chyda phartneriaid allanol lle bo'n berthnasol.	Yn ystod cyfarfodydd herio a gwella perfformiad Adrannol Yn ystod cyfarfodydd herio perfformiad, timau rheoli a cyfarfodydd rhanbarthol	Penaethiaid Gwasanaethau Penaethiaid Gwasanaethau

CANLLAWIAU COMISIYNU CYNGOR GWYNEDD

Beth yw Comisiynu

Comisiynu yw'r broses sy'n sefydlu pa wasanaethau sydd eu hangen, nawr ac yn y dyfodol, i ddiwallu anghenion pobl leol, ac i sicrhau eu bod yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd sy'n bodloni unrhyw ddyletswyddau statudol.

Y Cylch Comisiynu

Mae'r cylch comisiynu yn bwysig oherwydd ei fod yn darparu fframwaith systematig i ddeall anghenion, cynllunio gwasanaethau, eu gweithredu'n effeithiol, ac adolygu canlyniadau er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn cyflawni canlyniadau gwell i'r gymuned.

Mae Comisiynu yn annog i ni ystyried yn benodol:

1. Dadansoddi (Deall Anghenion)

- Asesiad Anghenion: Casglu data am anghenion y boblogaeth, tueddiadau galw a bylchau.
- Ymgysylltu â Rhanddeiliaid: Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, cymunedau a phartneriaid yn gynnar.
- Dadansoddi'r Farchnad: Deall capasiti darparwyr, risgiau a chyfleoedd.
- Cydymffurfio â Pholisïau: Sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol (e.e. Deddf Llesiant, cydraddoldeb).

2. Cynllunio (Dylunio'r Gwasanaeth)

- Diffinio Canlyniadau: Canolbwyntio ar welliannau tymor hir, mesuradwy yn hytrach na dim ond allbynnau.
- Cyd gynhyrchu: Dylunio gwasanaethau ar y cyd â defnyddwyr a darparwyr.
- Cynllunio Risg ac Adnoddau: Asesu cynaliadwyedd ariannol a goblygiadau gweithlu.
- Gwerth Cymdeithasol: Ymgorffori egwyddorion atal, cynaliadwyedd a budd cymunedol.

3. Gweithredu (Rhoi ar Waith)

- Dewis Model Gwasanaeth: Penderfynu ar ddull cyflwyno (mewnol, partneriaeth, allanol).
- Dull Contractio: Dewis trefniadau hyblyg sy'n cefnogi arloesi.
- Fframwaith Perfformiad: Gosod dangosyddion sy'n gysylltiedig â chanlyniadau, nid dim ond gweithgaredd.
- Cyfathrebu: Cynnal tryloywder gyda rhanddeiliaid yn ystod gweithredu.

4. Adolygu (Gwerthuso a Gwella)

- Mesur Effaith: Asesu a yw canlyniadau a nodau llesiant wedi'u cyflawni.
- Gwella Parhaus: Defnyddio adborth i fireinio strategaeth comisiynu.
- Datblygu'r Farchnad: Cefnogi darparwyr i addasu ac arloesi.
- Atebolrwydd: Adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion statudol a blaenoriaethau cymunedol.

Dylunio Gwasanaethau

Mae'r Ddeddf Llesiant yn cynnig fframwaith dylunio gwasanaethau yn seiliedig ar y 5 ffordd o weithio.

- **Hirdymor:** pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd
- **Atal:** ystyried sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
- **Integreiddio:** ystyried sut gall amcanion llesiant cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- **Cydweithio:** gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.
- **Cynnwys:** pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

Cynllun Comisiynu

Dyled pob gwasanaeth ddarparu cynllun comisiynu sydd yn cynnwys:

- Arfarniad opsiynau.
- Manylion am y canlyniadau a'r manteision arfaethedig.
- Dadansoddiad o'r cyfraniad y mae'r gwasanaeth yn ei wneud i flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.
- Dadansoddiad o gyfraniad y gwasanaeth at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.
- rhanddeiliaid allweddol.
- Adnoddau sydd eu hangen.
- Risgiau a chyfleoedd.

Dyled bod y cynllun yma yn gyflawn cyn cychwyn unrhyw broses caffael i benodi darparwr

Gwybodaeth bellach

Mae gwybodaeth bellach ar gael yma:

Fframwaith cenedlaethau'r dyfodol ar gyfer dylunio gwasanaethau -

'Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer dylunio gwasanaethau
<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/fframwaith-cenedlaethau%27r-dyfodol-ar-gyfer-dylunio-gwasanaethau.pdf>

Fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth: cod ymarfer -

[Y fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth: cod ymarfer](#)

Eitem 13


ENW'R PWYLLGOR	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD Y CYFARFOD	3 Chwefror 2026
TEITL YR EITEM	Adroddiadau Archwilio Cymru
AMCAN	Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar adroddiad(au) sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru – 'Llety dros dro, argyfwng hirdymor?'
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiadau.
AWDUR	Lora Williams , Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor

1. CEFNDIR

- 1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
- 1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt.
- 1.3. Mae copi o adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ar 'Llety dros dro, argyfwng hirdymor?' wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**. Ceir dogfen ymateb sefydliadol yn **Atodiad 2** sy'n amlinellu'r hyn yr ydym fel Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion perthnasol o fewn yr adroddiad. Bydd **Swyddog o'r Adran Tai ac Eiddo** yn mynychu'r cyfarfod i ymateb i unrhyw gwestiynau os oes angen.

Llety dros dro, argyfwng hirdymor?

Gorffennaf 2025



Paratowyd a chyhoeddwyd yr adroddiad hwn dan adran 41 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y Senedd ac ar lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo hefyd y pŵer i adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau a'r modd y gallent eu defnyddio'n well wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac yn cynnal astudiaethau o werth am arian llywodraeth leol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sydd ill dau'n endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Gallwch aildddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os ydych yn ei aildddefnyddio, rhaid i'ch aildddefnydd fod yn gywir a rhaid iddo beidio â bod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi enwi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildddefnyddio. I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/ neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch hefyd ysgrifennu atom yn Gymraeg neu yn Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Cynnwys

Adroddiad cryno

Cipolwg ar yr archwiliad	4
Ffeithiau a ffigyrau allweddol	6

Ein canfyddiadau

Mae cynghorau'n gwario llawer o arian ar lety dros dro sy'n aml yn peidio â diwallu anghenion pobl	10
Cyfyngedig yw'r cynnydd y mae cynghorau wedi ei wneud gyda gwella'r modd y maent yn atal digartrefedd i gyflawni deilliannau gwell a lleihau costau	18
Ceir dulliau y gallai cynghorau eu defnyddio i wella'r sefyllfa gyfredol	26

Ein hargymhellion

Argymhellion	33
--------------	----

Atodiadau



Adroddiad cryno

Cipolwg ar yr Archwiliad

Pam y cynhaliom ni'r archwiliad

- 1 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i adnabod cyfleoedd i wella gwerth am arian dulliau cynghorau o ymateb i'r galw am lety dros dro. Roeddem hefyd yn amcanu at egluro cost llety dros dro a'r cynnydd yn y galw amdano a chynlluniau cynghorau i ymdrin â'r heriau hyn. Hefyd, roedd arnom eisiau darparu sicrwydd ynghylch sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario i fynd i'r afael â'r angen am lety dros dro a darparu tystiolaeth ynghylch ble y mae angen newid.
- 2 Yn arbennig, fe wnaethom ystyried sut y mae cynghorau'n mesur, ac yn ceisio gwella, gwerth am arian yr hyn y maent yn ei wario ar lety dros dro. Fe wnaethom hefyd ystyried a yw cynghorau'n addasu i ddull ataliol trwy arfogi eu gweithlu yn well, gweithio gyda sefydliadau partner a gwella eu dealltwriaeth am y galw am lety dros dro.

Llety dros dro

- 3 Mae'r galw am lety dros dro wedi cynyddu bron i bum gwaith drosodd yn y degawd diwethaf. Un o'r rhesymau sylweddol dros hyn oedd dull 'neb heb help' Llywodraeth Cymru a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig i sicrhau bod gan bawb fynediad at le diogel i fyw. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol ar gyfer cynghorau i roi'r polisi hwn ar waith. Gan bod y galw uchel a'r costau cynyddol yn parhau, mae cynghorau'n gwario symiau sylweddol o arian yn darparu llety ar gyfer pobl sy'n aml mewn argyfwng.
- 4 Mae lleihau'r galw am lety dros dro'n bwysig ar gyfer cynaliadwyedd ariannol cynghorau yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig i sicrhau eu bod yn gallu rhoi'r cymorth iawn i bobl sy'n aml yn agored i niwed i'w helpu tuag at ddeilliannau gwell.
- 5 Lle mae angen i gynghorau ddarparu llety dros dro, mae'n bwysig bod cynghorau'n deall a ydynt yn sicrhau gwerth am arian ai peidio. Mae hyn yn golygu bod â dealltwriaeth am gost ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae hefyd yn cynnwys deall a ydynt yn darparu lle i fyw sy'n diwallu eu hanghenion ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd, hyd yn oed os mai dim ond cartref dros dro ydyw.

- 6 Hyd yn oed gyda ffocws ar atal, mae'n debygol y bydd ar gynghorau wastad angen cynnig ychydig bach o lety dros dro i bobl sy'n profi digartrefedd. Fodd bynnag, os na fydd cynghorau a'u partneriaid yn lleihau'r galw am lety dros dro, ceir risg o hyd y bydd datrysiadau byrdymor yn dod yn argyfwng hirdymor ar gyfer arian cyhoeddus ac ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd.

Yr hyn a ganfuom

- 7 Canfuom:
- fod cynghorau'n gwario symiau sylweddol o arian ar lety dros dro sydd, mewn llawer o achosion, yn peidio â diwallu anghenion pobl;
 - nad yw cynghorau'n deall a ydynt yn cael gwerth am arian o'u llety dros dro;
 - nad yw cynghorau wedi gwneud rhyw lawer o gynnydd gyda gwella'r modd y maent yn atal digartrefedd i gyflawni deilliannau gwell a lleihau costau;
 - fod cynghorau'n ei chael hi'n anodd darogan y galw am lety dros dro yn y tymor canolig a hir;
 - nad oes gan gynghorau gynlluniau eglur i sicrhau bod eu gweithlu wedi'i arfogi i atal y galw am lety dros dro; a
 - bod cynghorau'n ei chael hi'n anodd gweithio'n dda gyda sefydliadau partner i atal digartrefedd.

Ffocws ein hargymhellion

- 8 I gynorthwyo cynghorau i oresgyn yr heriau hyn, rydym wedi gwneud argymhellion sydd wedi'u bwriadu i wella gwerth am arian llety dros dro a lleihau'r galw trwy atal digartrefedd. Mae'r argymhellion hyn yn cynnwys:
- diffinio a gwerthuso gwerth am arian;
 - cryfhau'r broses o gynllunio i atal digartrefedd trwy ddefnyddio data'n well; a
 - modelu effaith newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth ar anghenion cynghorau o ran y gweithlu.

Ffeithiau a ffigyrau allweddol

- 9 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwasanaethau tai a digartrefedd. Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r gofynion i gynghorau sicrhau llety addas ar gyfer person sy'n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod.
- 10 Mae Adran 68 y Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynghorau ddarparu llety interim ('llety dros dro') os ydynt yn credu bod person yn ddigartref, yn gymwys i gael cynhorthwy a bod ganddynt angen blaenoriaethol am lety.
- 11 Mae llety dros dro yn aml ar ffurf gwely a brecwast, gwestai, hostelau neu lochesi, tra bo cyngor yn cynnal ymchwiliadau i gymhwysra (profion angen blaenoriaethol, bwriad a chysylltiad lleol) neu'n ceisio sicrhau llety addas.
- 12 Mae 'Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026'¹ gan Lywodraeth Cymru yn nodi elfennau allweddol i sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin, byrhoedlog ac na fydd yn cael ei ailadrodd.
- 13 Fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) i'r Senedd ar 19 Mai 2025². Nod y Bil yw 'trawsnewid y system ddigartrefedd yng Nghymru' ac mae'n cynnwys ffocws ar atal a chydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys ehangu cyfrifoldeb am adnabod ac atal digartrefedd.
- 14 Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu buddsoddiad sylweddol i'r maes yma, gan gynnwys dyrannu £219.5 miliwn i Gymorth ac Atal Digartrefedd ar gyfer 2025-26³.
- 15 Mae'r galw am lety dros dro yn cynyddu'n gyflymach o lawer na'r llety sydd ar gael. Dangosir hyn yn **Arddangosyn 1**, sy'n cymharu nifer y bobl mewn llety dros dro mewn mis penodol â nifer y bobl a symudwyd i mewn i lety hirdymor addas yn y mis hwnnw, rhwng mis Awst 2020 a mis Mawrth 2025.


1 Llywodraeth Cymru, [Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026](#)

2 Llywodraeth Cymru, [Bil nodedig yn gosod gweledigaeth feiddgar ar gyfer rhoi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru](#)

3 Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Derfynol 2025 i 2026](#)

Arddangosyn 1: galw am lety dros dro yng Nghymru o'i gymharu ag argaeledd llety hirdymor addas rhwng mis Awst 2020 a mis Mawrth 2025

Mae'r graff isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl ddigartref mewn llety dros dro dros amser o'i gymharu â nifer y bobl a symudwyd i mewn i lety hirdymor addas rhwng mis Awst 2020 a mis Mawrth 2025.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Cyrchwyd 11 Mehefin 2025. Dim ond tan fis Mawrth y mae data yn y gyfres hon ar gael; dyna pam fod y bwlch rhwng y pwynt data yma a'r un blaenorol yn saith mis. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym bod casgliadau data misol wedi cael eu cyflwyno yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19) yn wreiddiol fel Gwybodaeth Reoli. O fis Ionawr 2024, mae'r data hyn wedi bod trwy'r protocolau sicrhau ansawdd priodol ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Yn dilyn cyflwyno'r casgliad hwn, fe weithiodd Llywodraeth Cymru gydag awdurdodau lleol i ddatblygu'r cyhoeddiad trwy gryfhau'r canllawiau casglu data ac i wella ansawdd y data. Yn sgîl y datblygiad hwn, fe wellodd ansawdd y data o fis Ebrill 2023. Efallai na fydd cymariaethau o fis i fis yn ddibynadwy gan y gall fod effeithiau tymhorol ar ddigartrefedd neu resymau eraill dros amrywiadau.

- 16 Ym mis Mawrth 2025, roedd 10,800 o bobl mewn llety dros dro sy'n gynydd o 200% ers dechrau casglu'r set ddata hon ym mis Awst 2020. O'r bobl mewn llety dros dro ym mis Mawrth 2025, roedd 24% yn blant dan un ar bymtheg oed⁴.
- 17 Mae'n beth cyffredin bod pobl yn cael eu lleoli drosodd a throsodd mewn llety dros dro. Ym mis Mawrth 2025, roedd bron i 17% o'r lleoliadau mewn llety dros dro'n ymwneud ag unigolion a oedd wedi cael eu lleoli mewn llety dros dro yn flaenorol o fewn y 12 mis diwethaf⁵.
- 18 Ceir nifer o resymau cymhleth dros y galw uwch am lety dros dro. Dangosir rhai o'r rhain yn **Arddangosyn 2**.

Arddangosyn 2: Rhai o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y galw am lety dros dro

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos rhai o'r rhesymau pam fod y galw am lety dros dro wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

Mwy o alw am lety dros dro



Cyfraddau Lwfans Tai
Lleol islaw cyfradd y
farchnad



Prinder gweithwyr
allweddol i atal
digartrefedd



Pwysau ariannol
cynyddol ar
wasanaethau cyhoeddus



Lefelau tlodi cynyddol
a'r argyfwng costau
byw



Pandemig COVID-19
a dull 'neb heb help'
Llywodraeth Cymru



Nid yw'r cyflenwad o
dai wedi aros gyfuwch
â'r galw

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

⁴ Mae'r wybodaeth am ansawdd data a amlinellir yn y ffynhonnell ar gyfer **Arddangosyn 1** yn berthnasol i'r data yn y paragraff hwn hefyd.

⁵ Mae'r wybodaeth am ansawdd data a amlinellir yn y ffynhonnell ar gyfer **Arddangosyn 1** yn berthnasol i'r data yn y paragraff hwn hefyd.

- 19 Mae'r cynnydd cyflym hwn yn y galw am lety dros dro wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y swm y mae cynghorau'n ei wario ar ddarparu llety dros dro. Yn 2019, fe wariodd cynghorau oddeutu £28 miliwn ar y cyfan, tra bo'r cyfanswm hwn wedi cynyddu yn 2023-24 i bron i £172 miliwn⁶.

6 Ffynhonnell: Data arolwg Archwilio Cymru

Fe ofynnwyd ni i gynghorau ddarparu ffigyrau ar gyfer gwariant refeniw gros ar lety dros dro ym mlynedd ariannol 2019-20 i 2023-24. Fe ofynnwyd ni i gynghorau beidio â chynnwys gwariant ar weithgarwch ataliol. Gall fod amrywiadau o ran sut y mae cynghorau'n rhoi cyfrif am wariant ar lety dros dro ac felly gallai'r ffigyrau hyn gynnwys peth cyllid gan Lywodraeth Cymru.



Ein canfyddiadau

Mae cynghorau'n gwario llawer o arian ar lety dros dro sy'n aml yn peidio â diwallu anghenion pobl

- 20 Mae arosiadau mewn llety dros dro wedi'u bwriadu i fod yn fyr, ond mae cynnydd yn y galw a diffyg llety wedi golygu bod pobl yn byw mewn llety dros dro am gyfnodau hwy.
- 21 Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro mai ei nod yw bod digartrefedd yn rhywbeth prin, byrhoedlog ac na fydd yn cael ei ailadrodd⁷. I gyflawni hyn, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu canolbwyntio ar ddarparu datrysiadau tai hirdymor i osgoi arosiadau maith mewn llety dros dro.
- 22 Mae'n debygol y bydd defnydd parhaus o lefelau cymharol uchel o lety dros dro yn y tymor byr a chanolig, oherwydd y gwahaniaeth rhwng lefelau cyfredol y galw a llety parhaol addas. Mae hyn yn cynnwys pobl yn aros mewn llety dros dro am gyfnodau hwy nes bod llety addas ar gael. Mae hi felly'n bwysig sicrhau bod llety dros dro'n gallu cefnogi anghenion a llesiant pobl.

Mae llety dros dro yn aml yn peidio â diwallu anghenion pobl a gall achosi niwed

- 23 Gall byw mewn llety dros dro gael effaith sylweddol ar iechyd a llesiant pobl. Mae'r ddarpariaeth gyfredol yn aml yn peidio â diwallu anghenion pobl gan gynnwys, yn arbennig, grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn ogystal â phlant a phobl ifanc⁸.
- 24 Mae'r adroddiad gan Sefydliad Bevan a Shelter Cymru 'Unlle i'w alw'n gartref: Deall ein hargyfwng tai. Byw mewn llety dros dro' yn amlygu profiadau pobl sy'n byw mewn llety dros dro. Mae'r adroddiad yn amlinellu bod byw mewn llety dros dro'n gallu gwaethygu iechyd meddwl pobl am ystod o resymau. Mae'r rhain yn cynnwys llety o ansawdd gwael, pryderon ynghylch diogelwch personol, cyfyngiadau, symudiadau dirybudd a chael eu lleoli'n bell i ffwrdd oddi wrth rwydweithiau a gwasanaethau lleol megis ysgolion.

⁷ Llywodraeth Cymru, Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026

⁸ Tai Pawb, Understanding the experiences of homelessness

- 25 Canfu astudiaeth yn 2023 gan The Reach Alliance⁹ fod byw mewn llety dros dro'n rhwystro gallu plant i chwarae trwy, er enghraifft, ddiffyg lle ffisegol a pholisïau llym ynghylch ymwelwyr sy'n golygu nad yw plant yn gallu gwahodd eu ffrindiau draw i chwarae.
- 26 Mae ein gwaith maes yn ategu'r farn bod darpariaeth llety dros dro, mewn nifer o achosion, yn peidio â diwallu anghenion preswylwyr, ei bod yn gallu achosi niwed a'i bod yn aml heb fod yn addas ar gyfer y diben.
- 27 Clywsom am achosion lle'r oedd teuluoedd â phlant bach a phobl a oedd yn mynd trwy adferiad o fod yn gaeth i gyffuriau'n byw mewn llety dros dro heb gymorth ochr yn ochr â phobl a oedd yn gaeth i gyffuriau ac yn dal i'w defnyddio. Clywsom hefyd enghreifftiau o bobl yn dod yn gaeth i sylweddau o ganlyniad i gael eu lleoli mewn llety dros dro.
- 28 Mae pryderon ynghylch llesiant a diogelwch personol wedi bod mor sylweddol i rai pobl fel eu bod wedi dewis dod yn ddigartref yn hytrach nag aros mewn llety dros dro.
- 29 Dywedodd cynghorau wrthym ei bod hi'n anodd sicrhau bod llety dros dro'n gallu diwallu anghenion ystod o bobl oherwydd diffyg llety addas, yn enwedig i'r rhai ag anghenion mwy cymhleth.
- 30 Fodd bynnag, canfuom rai enghreifftiau o gynghorau'n mabwysiadu dull mwy rhagweithiol i ddeall anghenion y rhai sy'n byw mewn llety dros dro ac i ddefnyddio hyn i gynllunio'r ddarpariaeth. Rydym wedi cynnwys nifer o enghreifftiau o arfer o dudalen 25 ymlaen.
- 31 Mae bod â dealltwriaeth well am anghenion preswylwyr a sefydlu gwasanaethau i helpu i ddiwallu'r anghenion hynny'n fwy tebygol o wella deilliannau i breswylwyr a gwella gwerth am arian.

9 The Reach Alliance, A Place to Play: Children's Play Needs in England's Temporary Housing

Nid yw cynghorau'n asesu'r effaith y gall cyfyngiadau a osodir ar breswylwyr ei chael ar eu hansawdd bywyd

- 32 Yn sgîl y diffyg llety addas, dywedodd 19 o gynghorau wrthym eu bod yn aml yn cyflwyno cyfyngiadau i ddiogelu eiddo a'r bobl sy'n byw yno.
- 33 Mae enghreifftiau o gyfyngiadau'n cynnwys
- cyrffw amser, megis preswylwyr yn methu â mynd i mewn i safleoedd neu allan ohonynt ar ôl 10pm bob nos;
 - terfynau o ran nifer yr ymwelwyr y caniateir i breswylwyr eu cael;
 - gwaharddiadau ar ddefnyddio alcohol;
 - peidio â chaniatáu anifeiliaid anwes; a
 - dim caniatâd i breswylwyr aros i ffwrdd, hyd yn oed i dreulio noson gyda theulu.
- 34 Dywedodd y rhan fwyaf o gynghorau wrthym eu bod yn asesu'r effaith y gall y cyfyngiadau hyn ei chael ar ddefnyddwyr. Fodd bynnag, ni chanfuom unrhyw dystiolaeth o gynghorau'n dogfennu asesiadau o'r effaith y gall y cyfyngiadau hyn ei chael.
- 35 Dywedodd mudiadau yn y trydydd sector y siaradom ni gyda hwy wrthym fod y cyfyngiadau a osodir ar bobl yn cael effaith negyddol ar fywydau pobl. Roedd enghreifftiau'n cynnwys anawsterau wrth geisio cael cyflogaeth oherwydd cyfyngiadau amser, a'r teimlad eu bod wedi eu carcharu a'u bod yn cael eu gwylio gan deledu cylch cyfyng. Fe wnaethant hefyd amlygu'r effeithiau sylweddol ar lesiant a datblygiad plant.
- 36 Mae asesu'n llawn pa effaith all cyfyngiadau fod yn ei chael ar lesiant yn rhoi cyfle i gynghorau atal niwed trwy adnabod opsiynau neu drefniadau amgen a all gefnogi llesiant yn well. Mae hyn yn ei dro'n cynnig y potensial i helpu cynghorau i sicrhau gwell gwerth am arian trwy gyflawni deilliannau hirdymor gwell i breswylwyr.

Mae cynghorau'n gwario adnoddau sylweddol ar ddarparu llety dros dro sy'n risg i'w cynaliadwyedd ariannol


- 37 Fe wnaeth cyfanswm y gwariant¹⁰ ar lety dros dro gynyddu 516% rhwng 2019-20 a 2023-24. Mae hyn yn golygu cynnydd o £28 miliwn yn 2019-20 i £172 miliwn erbyn 2023-24, fel y gellir gweld yn **Arddangosyn 3**.

¹⁰ Ffynhonnell: Data arolwg Archwilio Cymru.

Fe ofynnwyd ni i gynghorau ddarparu ffigyrau ar gyfer gwariant refeniw gros ar lety dros dro ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2019-20 i 2023-24. Gallai'r ffigyrau hyn gynnwys peth cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Arddangosyn 3: cyfanswm gwariant (refeniw a chyfalaf) ar gyfer yr holl gynghorau rhwng 2019-20 a 2023-24

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y cynnydd cyfunol mewn gwariant yn nhermau arian parod ar lety dros dro ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru rhwng 2019-20 a 2023-24.



Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru o gynghorau

- 38 Gwariodd cynghorau £356 miliwn o gyllid refeniw a £92 miliwn o gyllid cyfalaf ar lety dros dro rhwng 2019-20 a 2023-24.
- 39 Ceir nifer o resymau pam fod y swm y mae cynghorau'n ei wario ar lety dros dro wedi cynyddu dros y blynedd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o alw, costau cynyddol, faint o amser y mae trigolion yn aros mewn llety a chymhlethdod eu hanghenion.
- 40 Mae ein harolygon ni'n dynodi bod cynghorau'n pryderu nad yw gwariant cyfredol ar lety dros dro'n gynaliadwy dros y tymor canolig a hwy, a'i fod yn achosi risg sylweddol i gynaliadwyedd ariannol cyffredinol eu cyngor.
- 41 Awgryma hyn, oni bai y defnyddir dull gwahanol, gan gynnwys mwy o ffocws ar leihau'r galw, y gallai costau darparu llety dros dro ddod yn anghynaliadwy.

Yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth werth am arian

- 42 Mae a wnelo gwerth am arian â'r cwestiwn a yw arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r deilliannau bwriadedig am y pris gorau. Cyfeirir at hyn weithiau hefyd fel 'cost-ffeithiolrwydd'. Mae gwerth am arian yn gysylltiedig fel arfer â thair elfen, sef darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Rydym wedi crynhoi'r rhain fel
- Darbodaeth – Cael y fargen iawn – sicrhau'r mewnbynnau angenrheidiol, i helpu i gyflawni'r deilliannau bwriadedig, am y gost isaf posibl
 - Effeithlonrwydd – Gwneud y peth iawn – gwneud y gorau o'r mewnbynnau i gynhyrchu allbynnau sydd wedi'u bwriadu i gyflawni'r deilliannau bwriadedig
 - Effeithiolrwydd – Cael y canlyniadau iawn – cyflawni'r deilliannau bwriadedig ar gyfer y tymor byr a hwy
- 43 Felly mae a wnelo gwerth am arian nid dim ond â chostau, ond ag ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir am yr arian a gaiff ei wario. Mae pobl sy'n byw mewn llety dros dro yn aml mewn sefyllfa agored i niwed ac mae arnynt angen cymorth i'w helpu i symud i mewn i lety sefydlog a phriodol.
- 44 Mae dyletswyddau cyfreithiol ar gynghorau mewn perthynas â gwerth am arian. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar gynghorau i adolygu i ba raddau y maent yn defnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol¹¹.
- 45 Mae hi hefyd yn ofynnol i gynghorau weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Fel rhan o hyn mae'n ofynnol iddynt daro cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a hirdymor wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â defnyddio eu hadnoddau. Mae hi felly'n bwysig bod gwerth am arian yn cael ei ystyried dros y tymor hwy hefyd. Er enghraifft, mae'n aml yn gallu bod yn wir mai'r datrysiadau mwyaf cost-ffeithiol yw'r rhai sy'n atal problemau rhag digwydd o gwbl, neu rhag gwaethygu.

11 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau'n cynnal asesiad llawn o werth am arian eu darpariaeth llety dros dro

- 46 Mae cynghorau'n canolbwyntio'n bennaf ar gymharu costau byrdymor i asesu gwerth am arian. Mae ein tystiolaeth ni'n awgrymu bod cynghorau'n meddwl bod ganddynt drefniadau cryf i fonitro gwerth am arian. Fodd bynnag, canfuom fod cynghorau'n canolbwyntio fel rheol ar gost y ddarpariaeth, ond nid ar y deilliannau neu'r gwerth y mae'n eu darparu.
- 47 Hefyd, nid yw llawer o gynghorau wedi meincnodi costau eu darpariaeth llety dros dro. Dywedodd llai na thraean o'r cynghorau wrthym eu bod wedi meincnodi eu costau. Heb feincnodi costau llety dros dro, mae'n anodd i gynghorau wybod a ydynt yn darparu gwerth am arian ac adnabod meysydd lle gallant wella gwerth am arian.
- 48 Ar y cyfan, mae hyn yn awgrymu bod gwendidau yn nhrefniadau cynghorau i asesu a monitro gwerth am arian. Mae hefyd yn awgrymu bod gwahaniaeth rhwng pa mor dda y mae cynghorau'n meddwl eu bod yn asesu gwerth am arian, a pha mor dda y mae hyn yn digwydd yn ymarferol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i gynghorau wybod a yw'r arian y maent yn ei wario'n cael ei ddefnyddio'n gost-effeithiol ac yn cael yr effaith fwriadedig.

Nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau'n cynnal asesiad llawn o ystod o opsiynau ar gyfer llety dros dro

- 49 Mae asesu ystod o opsiynau ar gyfer llety dros dro'n gam pwysig i sicrhau gwerth am arian. Mae hyn yn helpu i roi sicrwydd bod cynghorau wedi dewis yr opsiwn a fydd yn darparu gwerth am arian dros y tymor byr a hir.
- 50 Canfuom nad yw'r rhan fwyaf o gynghorau'n cynnal asesiad llawn o ystod o opsiynau wrth gomisiynu llety dros dro. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau naill ai'n peidio ag asesu unrhyw opsiynau amgen o gwbl neu wedi cymharu costau llety dros dro ar gyfer un neu ddau o opsiynau yn unig.
- 51 Er enghraifft, mae llawer o gynghorau'n ceisio cynyddu llety yn y sector rhentu preifat i'w ddefnyddio fel llety dros dro a pharhaol. Canfuom nad yw cynghorau'n aml ond yn cymharu costau opsiynau yn y sector rhentu preifat â chostau llety dros dro byrdymor mewn gwestai a lleoliadau gwely a brecwast, yn hytrach na'u cymharu ag ystod o opsiynau posibl eraill. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i gynghorau wybod eu bod wedi dewis yr opsiwn/opsiynau sydd fwyaf tebygol o sicrhau gwerth am arian.

- 52 Lle'r oedd rhai cynghorau wedi ystyried opsiynau mewn mwy o fanylder, roeddent yn gallu adnabod opsiynau a oedd yn lleihau costau ac yn gwella ansawdd y ddarpariaeth. Er enghraifft, adnabu Cyngor Sir Gâr y gallai, trwy ddefnyddio adeiladau nad oes mo'u hangen ar y Cyngor mwyach neu sy'n cael eu gwerthu gan landlordiaid preifat, wella ansawdd llety dros dro a dwyn arbedion sylweddol i'r cyngor.
- 53 Dywedodd cynghorau wrthym ei bod hi'n anodd asesu'r holl opsiynau am eu bod yn ymgodymu â mwy o gymhlethdod a lefelau uwch o alw mewn cyd-destun ariannol sy'n gryn her. Mae cynghorau'n rheolaidd yn gorfod gwneud penderfyniadau ar unwaith i ddarparu llety yr un diwrnod ac felly mae'n anodd iddynt asesu ystod o opsiynau.
- 54 Ceir rhwystrau y tu hwnt i reolaeth cynghorau hefyd sy'n gallu ei gwneud hi'n anodd adnabod opsiynau. Clywsom fod heriau o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru'n gallu ei gwneud hi'n anodd creu llety dros dro newydd trwy drosi eiddo presennol. Er enghraifft, clywsom am achos lle nad oedd cyngor yn gallu defnyddio hen dai cyngor ar gyfer llety dros dro am bod un ystafell wely gentimetrau'n rhy fach.
- 55 Clywsom hefyd fod y cyfraddau lwfans tai lleol yn rhwystr i gynghorau am bod eu cyfraddau'n sylweddol is na rhenti tai'r farchnad yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Roedd yr holl gynghorau wedi adnabod bod y bwlch rhwng cyfraddau'r lwfans tai lleol a phrisiau'r farchnad yn broblem, ond nid oedd y rhan fwyaf wedi gwneud gwaith modelu i ddeall goblygiadau posibl gwahanol opsiynau o safbwynt gwerth am arian. Mae'r ychydig o gynghorau sydd wedi defnyddio'r ffactorau hyn i asesu eu hopsiynau wedi canfod ffyrdd o wella eu darpariaeth er gwaethaf y cyfyngiadau hyn.
- 56 Heb asesu ystod o opsiynau, ni all cynghorau fod â sicrwydd eu bod wedi dewis yr opsiwn gorau i sicrhau gwerth am arian.

Nid oes gan gynghorau drefniadau i sicrhau bod y llety dros dro y maent yn ei gomisiynu gan ddarparwyr allanol yn dwyn gwerth am arian

- 57 Nid oes gan y rhan fwyaf o gynghorau sy'n prynu llety dros dro fesul ystafell neu uned (megis gan westai) brosesau i sicrhau eu bod yn sicrhau gwerth am arian. Rhan o'r rheswm dros hyn yw bod cynghorau'n aml yn prynu ystafelloedd ar sail ad hoc trwy 'brynu yn ôl y galw'.
- 58 Mae rhai cynghorau wedi gallu lleihau costau 'prynu yn ôl y galw' yn sylweddol trwy gymharu cyfraddau fesul noson rhwng darparwyr neu sefydlu cyfrifon corfforaethol i gael disgowntiau. Ond disgrifiodd swyddogion cynghorau sefyllfa lle mae cynghorau'n aml ar 'drugaredd' darparwyr lle mae costau ac ansawdd yn y cwestiwn oherwydd diffyg llety ar y cyfan. Ategir hyn gan ein harolygon ni hefyd, a amlygodd bryderon nad yw llety dros dro cynghorau'n darparu gwerth am arian.
- 59 Mae rhai cynghorau'n cyflogi staff â sgiliau masnachol i sefydlu cytundebau bloclogi gyda darparwyr. Diben y cytundebau hyn yw negodi cyfraddau a lleihau'r risg o gostau sy'n amrywio trwy sefydlu contractau tymor hwy. Fodd bynnag, clywsom fod risgiau gyda'r dull hwn, gan bod cynghorau weithiau'n talu am ystafelloedd nad oes mo'u hangen arnynt.
- 60 Er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi'r angen i symud i ffwrdd oddi wrth ddefnyddio gwasanaethau brys, dros dro a hostelaau¹², mae rhai cynghorau'n debygol o barhau i gael llety dros dro gan ddarparwyr i reoli'r galw yn y tymor byr a chanolig. Mae'n bwysig felly bod gan gynghorau drefniadau i wneud yn siŵr y gellir sicrhau gwerth am arian wrth gomisiynu gan ddarparwyr llety dros dro.

Nid oes gan y rhan fwyaf o gynghorau sy'n berchen ar lety dros dro drefniadau cynnal a chadw eglur ac wedi eu cynllunio

- 61 O'r cynghorau hynny sy'n berchen ar lety dros dro, canfuom nad oes gan y rhan fwyaf drefniadau cynnal a chadw eglur i leihau costau atgyweirio a gwella ansawdd.
- 62 Nid yw llety o ansawdd gwael yn dwyn gwerth am arian am ei fod yn effeithio'n negyddol ar iechyd a llesiant pobl ac yn arwain at gostau ychwanegol. Er enghraifft, mae rhai cynghorau wedi cael costau atgyweiriadau drud a chostau am lety amgen lle mae atgyweiriadau wedi arwain at amseroedd trosglwyddo hwy rhwng tenantiaethau.

12 Llywodraeth Cymru, Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026

- 63 Mae gan ychydig o gynghorau gynlluniau cynnal a chadw ar gyfer llety dros dro a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir o fewn y cyngor. Er enghraifft, mae gan Gyngor Caerdydd gynllun trawsnewid stoc, y mae'n ei ddefnyddio i asesu ansawdd ei holl ddarpariaeth llety ac i adnabod y gwaith sy'n ofynnol i'w gwella fel ei bod yn cyrraedd y safon.
- 64 Gall bod â threfniadau i gynnal a chadw llety dros dro helpu i atal digartrefedd ac felly'r costau sy'n deillio o hynny a'r effaith y mae'n ei chael ar ansawdd bywyd preswylwyr.

Cyfyngedig yw'r cynnydd y mae cynghorau wedi ei wneud gyda gwella'r modd y maent yn atal digartrefedd i gyflawni deilliannau gwell a lleihau costau

- 65 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru orchymyn y dylai cynghorau wella gweithgarwch ymyrryd yn gynnar ac atal, yn 'Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel uchel' yn 2021¹³. Roedd hyn yn cynnwys gofyniad i gynghorau ddatblygu cynlluniau pontio ailgartrefu cyflym fel rhan o'u Strategaethau dan y Rhaglen Cymorth Tai erbyn diwedd 2022.
- 66 Canfuom fod cynghorau'n ymwybodol o'r angen i newid o ddull adweithiol i ddull ataliol; fodd bynnag, mae'r cynnydd y maent wedi ei wneud gyda hyn yn hynod amrywiol a chyfyngedig ar y cyfan.

Nid yw cynghorau'n cynllunio'n effeithiol i atal y galw am wasanaethau digartrefedd


- 67 Ceir tair haen wahanol o weithgarwch atal digartrefedd: sylfaenol, eilaidd a thrydyddol. Fel a ddangosir yn **Arddangosyn 4**, atal sylfaenol yw'r math cynharaf o atal, gydag eilaidd yn dilyn wedyn, ac yna trydyddol. Mae 'Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru' yn nodi mai'r 'mesurau atal cynharaf yw'r mwyaf effeithiol, y mwyaf cost-effeithiol, a'r rhai y dylid eu dewis gyntaf bob amser'.

13 Llywodraeth Cymru, Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026

Arddangosyn 4: haenau atal digartrefedd

Mae'r arddangosyn isod yn crynhoi'r tair haen atal digartrefedd ac yn darparu disgrifiad cryno o bob un.

Mwyaf effeithiol



Atal sylfaenol

Atal neu leihau'r risg y bydd problemau'n codi, a hynny fel arfer drwy bolisiâu cyffredinol, e.e. addysg; hybu iechyd; gwaith rheoli tai da a chymorth tenantiaeth

Atal eilaidd

Targedu unigolion neu grwpiau sy'n wynebu risg uchel neu'n dangos arwyddion cynnar o broblem benodol er mwyn ceisio ei hatal rhag digwydd, e.e. atgyfeirio'n gynnar at wasanaethau cymorth i deuluoedd neu gymorth ieuentid

Atal trydyddol

Ymyrryd pan fydd problem wedi codi er mwyn ei hatal rhag gwaethygu ac unioni'r sefyllfa, e.e. dileu ôl-ddyledion rhent er mwyn osgoi achos o droi allan

Lleiaf effeithiol

Ffynhonnell: Graffig Archwilio Cymru gan ddefnyddio testun o 'Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru'

- 68 Canfuom, er bod gan yr holl gynghorau Gynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym, fod ansawdd y cynlluniau hyn yn amrywiol. Dim ond oddeutu hanner y cynghorau sydd â chynlluniau sy'n cynnwys dulliau sylfaenol, eilaidd a thrydyddol i atal y galw am lety dros dro. Mae cynghorau eraill yn cynnwys dulliau eilaidd a thrydyddol yn eu cynlluniau yn bennaf.

- 69 Mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n gwneud defnydd da o ddata i'w helpu i ddeall rhwystrau i atal. Fodd bynnag, dim ond ychydig o gynghorau a'u partneriaid sy'n mynd ati'n rheolaidd i asesu pa mor dda y mae eu dulliau atal yn gweithio. Nid yw rhai cynghorau'n gwneud unrhyw waith gwerthuso o gwbl, ac nid yw'n glir eto yn y rhan fwyaf o gynghorau a yw eu dulliau atal wedi bod yn effeithiol. Trwy beidio â defnyddio'r ystod lawn o ddulliau ataliol, ceir risg bod cynghorau'n colli cyfleoedd i atal yr angen am lety dros dro ar y cyfle cynharaf ac i fynd i'r afael â chostau.
- 70 Er enghraifft, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi defnyddio data i fodelu'r effaith y gallai ei gynlluniau ei chael. Mae Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym y Cyngor yn nodi y gallai buddsoddi £2.54 miliwn mewn blaenoriaethau allweddol, megis gweithredu i leihau'r galw, arbed hyd at £22 miliwn mewn costau gwely a brecwast preifat dros ddeng mlynedd. Byddai hyn yn arbediad o oddeutu £20 miliwn ac yn cyfateb i adenillion o bron i 800% ar fuddsoddiad dros y cyfnod hwnnw. Er mai amcangyfrif yw hwn, mae'n awgrymu bod arbedion sylweddol o ran costau y gallai llawer o gynghorau, os nad pob cyngor, eu cyflawni trwy gynllunio'n fwy effeithiol i atal y galw am lety dros dro.

Mae cynghorau'n ei chael hi'n anodd rhagfynegi'r galw yn y tymor hir ac nid yw llawer yn hyderus y byddant yn gallu ateb y galw hwnnw

- 71 Er mwyn mynd ati'n effeithiol i leihau ac atal y galw am lety dros dro, bydd angen i gynghorau wella eu dealltwriaeth am y galw am wasanaethau digartrefedd, gan gynnwys llety dros dro. Bydd angen iddynt hefyd wella'r ffordd y maent yn adnabod pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.
- 72 Mae gan gynghorau ymwybyddiaeth dda o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y galw am lety dros dro yn y tymor byr, a ategir gan ddefnydd da o ddata. Ond mae cynghorau'n ei chael hi'n anos rhagfynegi'r galw yn y tymor canolig a hir. Ategwyd hyn gan ganlyniadau ein harolwg ni a oedd yn dangos bod cynghorau'n hyderus fel rheol ynglŷn â'u gallu i ragfynegi'r galw am lety dros y tymor byr, ond yn llai hyderus ynglŷn â'u gallu i wneud hynny dros y tymor canolig, ac yn llai hyderus byth ynglŷn â'u gallu i wneud hynny dros y tymor hwy.
- 73 Dywedodd dros hanner y cynghorau wrthym nad oedd ganddynt gynllun cymeradwy wedi'i gostio'n llawn i ddarparu adnoddau ar gyfer y galw a ragfynegir am lety dros dro dros y tair i bum mlynedd nesaf. Dywedodd llawer o gynghorau wrthym eu bod yn ei chael hi'n anodd costio eu cynlluniau ar gyfer llety dros dro yn y tymor byr, canolig a hir. Y rheswm dros hyn oedd nad oeddent yn gallu darogan y galw'n gywir na rhagweld yn gywir beth fydd y costau ar gyfer darparwyr preifat yn y dyfodol.

- 74 Mae cynghorau'n dibynnu'n fawr ar gyllid grant Llywodraeth Cymru er mwyn gweithredu i fynd i'r afael â llety dros dro. Mae hyn yn achosi risg y gall cynghorau ei chael hi'n anodd ariannu costau llety dros dro os caiff y cyllid grant ei dynnu'n ôl.
- 75 Mae rhai cynghorau wedi cynllunio'n fwy manwl. Er enghraifft, o'r wyth cyngor a oedd yn amlwg wedi modelu'r galw yn y dyfodol, roedd y rhan fwyaf wedi modelu dros gyfnod yn y tymor canolig (pum mlynedd). Defnyddiodd Cyngor Sir Ddinbych gyfnod o ddeng mlynedd, ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi rhagfynegi'r galw hyd at 2037.
- 76 Rydym yn cydnabod bod darogan y galw'n gryn her, fel a ddangoswyd gan ddigwyddiadau anrhagweladwy diweddar megis y pandemig a'r argyfwng costau byw. Fodd bynnag, gall defnyddio tystiolaeth a data sydd ar gael i geisio darogan y galw helpu cynghorau i gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor. Gall hefyd helpu cynghorau i wella eu trefniadau cynllunio ariannol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd a newid i ddull mwy ataliol.

Mae llawer o gynghorau heb gynlluniau eglur i sicrhau bod eu gweithlu wedi ei arfogi i atal y galw am lety dros dro

- 77 Mae staff mewn timau digartrefedd yn aml yn gwneud gwaith anodd sy'n gofyn llawer. Mae 'Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel uchel 2021-2026' yn cynnwys cam gweithredu i 'ddatblygu gweithlu cadarn a werthfawrogi, ac a gydnabyddir am ei arbenigedd'. Nod y cam gweithredu hwn yw hyrwyddo'r sector fel gyrfa a symud tuag at 'ddull wedi'i lywio gan seicoleg' mewn gwasanaethau tai. Er mwyn newid o fodel adweithiol i un rhagweithiol, bydd angen i dimau digartrefedd mewn cynghorau weithio mewn ffordd wahanol a gall fod arnynt angen sgiliau newydd.
- 78 Canfu arolwg Llywodraeth Cymru o'r gweithlu tai a digartrefedd yn 2024 fod ymatebion niwtral neu negyddol i'r datganiad 'Rwy'n cael fy ngwerthfawrogi am fy sgiliau a'm profiad' yn fwy cyffredin ymhlith gweithwyr tai rheng flaen mewn cynghorau na gweithwyr rheng flaen mewn sefydliadau eraill¹⁴. Roedd llawer o ymatebwyr i'r arolwg yn teimlo bod llwythi gwaith a disgwyliadau ar staff yn rhy uchel ac fe gododd rhai bryderon ynghylch faint o'r gweithlu oedd â sgiliau priodol i weithredu cymorth sy'n ystyriol o drawma, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn¹⁵.

14 Llywodraeth Cymru, [Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd: Yr Arolwg o'r Gweithlu](#)

15 Llywodraeth Cymru, [Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd: Yr Arolwg o'r Gweithlu](#)


- 79 Mewn ymateb i'n harolwg ni, roedd 95.5% o gynghorau'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod staff yn eu timau digartrefedd dan bwysau sylweddol ac roedd 50% wedi gweld cynnydd mewn absenoldebau oherwydd salwch yn y gwasanaeth digartrefedd yn y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd pwysau llwyth gwaith. Cafodd cam-drin staff, diffyg amser i uwchsgilio a boddhad yn y swydd eu rhoi fel heriau staffio allweddol. Hefyd, dywedodd 45% o gynghorau wrthym eu bod yn ei chael hi'n anodd recriwtio'n effeithiol i'w gwasanaethau digartrefedd ac fe gododd nifer anawsterau gyda recriwtio staff arbenigol.
- 80 Mae'r rhan fwyaf o gynghorau wedi gweithredu mewn rhyw ffordd i arfogi eu gweithlu â'r sgiliau gofynnol a chynyddu capasiti, er enghraifft trwy greu swyddi staff pwrpasol i weithio ar atal a dod â gweithwyr cymdeithasol pwrpasol i mewn i dimau tai. Fodd bynnag, dywedodd hanner y cynghorau wrthym nad oeddent eto wedi modelu effaith newidiadau diweddar a newidiadau a ddisgwylir yn y dyfodol mewn polisi ar y sgiliau a'r capasiti y mae eu hangen yn eu gweithlu, ac nad ydynt wedi adnabod eu hanghenion o ran y gweithlu yn y dyfodol ychwaith.
- 81 Bu cynnydd cyflym yn y galw sydd wedi achosi i gynghorau ganolbwyntio ar ymateb i'r galw hwn yn y tymor byr er mwyn cyflawni eu dyletswyddau statudol. Fodd bynnag, heb ddealltwriaeth glir am y sgiliau a'r capasiti y bydd eu hangen yn y dyfodol, ceir risg y bydd cynghorau'n methu ag arfogi eu gweithlu i weithio'n ataliol a gallu lleihau'r galw am lety dros dro.

Nid yw gweithio mewn partneriaeth i atal digartrefedd wastad yn effeithiol nac yn rhoi gwerth am arian ac nid yw'n cael ei werthuso rhyw lawer

- 82 Mae pobl yn dilyn llawer o lwybrau i gael mynediad at wasanaethau digartrefedd, er enghraifft:
- ar ôl gadael y carchar;
 - ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty;
 - am eu bod wedi cael eu troi allan gan eu landlord.
- 83 Mae **Arddangosyn 5** yn dangos mwy o'r llwybrau hyn.

Arddangosyn 5: rhai o'r llwybrau a ddilynir gan bobl i gael mynediad at wasanaethau digartrefedd

Mae'r diagram isod yn dangos rhai o'r llwybrau a ddilynir gan bobl i gael mynediad at wasanaethau digartrefedd.



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

- 84 Felly, i wella'r modd y maent yn atal digartrefedd, mae angen i gynghorau weithio gyda phartneriaid megis y gwasanaeth carchardai, y GIG a landlordiaid preifat. Mae angen iddynt hefyd weithio gyda mudiadau'r trydydd sector sy'n rhoi cymorth, er enghraifft elusennau camddefnyddio sylweddau.

- 85 Ar y cyfan, nid oes gan gynghorau ddealltwriaeth gynhwysfawr ynghylch pa bartneriaid y gallent weithio gyda hwy i leihau digartrefedd. Mae ymatebion i'n harolygon ni'n dynodi bod cynghorau'n deall gyda pha bartneriaid y dylent gydweithio. Ond mae ein cyfweliadau gyda swyddogion cynghorau a'n hadolygiadau o ddogfennau'n dangos darlun mwy amrywiol. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau wedi mapio rhai agweddau ar eu gwasanaeth digartrefedd megis y llwybr iechyd meddwl. Ond nid yw'n gwbl glir iddynt pwy sy'n gwneud beth o ran atal y galw am lety dros dro.
- 86 Nid yw gweithio mewn partneriaeth wastad yn effeithiol o ran lleihau'r galw am lety dros dro. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n teimlo bod ganddynt drefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid allweddol i fynd i'r afael â'r galw am lety dros dro. Fodd bynnag, mae ein tystiolaeth ni'n awgrymu mai cymysg yw effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth. Mae gan lawer o gynghorau drefniadau gweithio mewn partneriaeth effeithiol ar gyfer rhai llwybrau a/neu bartneriaid, ond anaml y mae hynny'n wir am yr holl llwybrau a/neu bartneriaid. Dywedodd rhai swyddogion mewn cynghorau wrthym hefyd fod pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill yn aml yn golygu eu bod hwy yn y diwedd yn 'llenwi'r bylchau'.
- 87 Os nad yw cynghorau a'u partneriaid yn deall eu priod rolau a chyfrifoldebau'n glir, ceir risg y bydd gwasanaethau'n cael eu dyblygu, a allai wastraffu adnoddau. Neu fe allai fod bylchau mewn gwasanaethau, sy'n golygu y gallai cynghorau a'u partneriaid golli cyfleoedd i adnabod a chefnogi pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.
- 88 Nid yw gweithio mewn partneriaeth i atal y galw am ddigartrefedd yn cael ei werthuso rhyw lawer ychwaith. Dim ond ychydig o gynghorau sy'n gwneud unrhyw waith sylweddol i werthuso ei effeithiolrwydd. Os nad yw cynghorau'n gwerthuso effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth, mae'n anodd iddynt wybod a ydynt yn rhoi gwerth am arian neu adnabod cyfleoedd i wella gwaith i atal digartrefedd.

Mae atal aneffeithiol yn lleihau gwerth am arian mewn cynghorau ac yn y sector cyhoeddus ehangach

- 89 Mae colli cyfleoedd i atal digartrefedd a gwella llesiant ar gyfer y rhai sy'n profi digartrefedd yn effeithio ar fywydau pobl ac yn arwain at gostau uwch i gynghorau. Mae cynghorau'n annhebygol o gyflawni gwerth am arian o'u darpariaeth llety dros dro nes eu bod yn gwella gwaith i atal digartrefedd. Y rheswm dros hyn yw bod atal digartrefedd rhag digwydd, neu rhag ailddigwydd, yn debygol o leihau cost darparu llety dros dro a gwella deilliannau.

- 90 Dywedodd cynghorau wrthym fod anawsterau o ran ymgysylltu â phartneriaid yn y sector cyhoeddus yn rhwystr sylweddol i wella gwaith i atal digartrefedd. Mae hyn nid yn unig yn golygu nad yw cynghorau'n gallu darparu gwerth am arian ar gyfer eu gwariant ar atal digartrefedd ond mae hefyd yn dwyn goblygiadau ariannol ar gyfer y sector cyhoeddus ehangach.
- 91 Fe gomisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad o ymyriadau lle mae digartrefedd yn y cwestiwn a oedd yn cynnwys asesiad o werth am arian¹⁶. Canfu'r asesiad hwn, er bod y costau a'r manteision i'r sector cyhoeddus yn gallu amrywio, fod dull ailgartrefu sy'n cyfuno tai sefydlog ac addas â'r cymorth iawn yn cynnig y potensial i osgoi costau'n sylweddol ar gyfer gwasanaethau iechyd, cyfiawnder troseddol, gofal cymdeithasol a digartrefedd.
- 92 Efallai na fydd manteision ariannol llwyddo i atal y galw am ddigartrefedd a chyflawni deilliannau gwell ar gyfer bywydau pobl yn cael eu gweld mewn un sefydliad bob amser. Mae peidio â gallu gweld ar unwaith neu'n uniongyrchol beth yw effaith arian sy'n cael ei wario'n gallu ei gwneud hi'n anodd i gynghorau a chyrrff cyhoeddus fuddsoddi mewn atal neu ddarparu lefelau uwch o gymorth. Fodd bynnag, ceir potensial i gyrff cyhoeddus sicrhau gwerth gwell am arian trwy gydweithio i sicrhau bod gan bobl dai sefydlog ac addas.
- 93 Fe amlinellodd Llywodraeth Cymru yn 'Rhoi diwedd ar ddigartrefedd' nad yw gwariant aciwt i reoli effaith sefyllfa negyddol tu hwnt yn gwneud rhyw lawer i atal problemau rhag ailddigwydd yn y dyfodol, er enghraifft cost gylchol bosibl tai dros dro i bobl sy'n profi digartrefedd dro ar ôl tro neu gost hirdymor cefnogi plant sydd wedi dioddef Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) o ganlyniad i golli eu cartref.
- 94 Nid yw cost ddynol digartrefedd yn fesuradwy yn yr un ffordd â'r gost ariannol, ond mae'n amlwg yn cael effaith sylweddol. Gall digartrefedd arwain at wahanu teuluoedd ac oedi yn natblygiad plant. Gall hefyd gael effaith negyddol ar iechyd a llesiant. Mae methu â gwella gwaith i atal digartrefedd yn debygol o achosi problemau sylweddol i gynghorau a'u cymunedau, yn y tymor byr a hwy.

Ceir dulliau y gallai cynghorau eu defnyddio i wella'r sefyllfa gyfredol

- 95 Mae heriau ariannol cyfredol a mwy o alw am lety dros dro dros y blynyddoedd diwethaf yn golygu bod llawer o gynghorau'n gweithredu trwy 'ymdrin â heriau wrth iddynt godi'. Mae hyn yn golygu eu bod yn canolbwyntio ar reoli'r galw, cyflawni dyletswyddau statudol a darparu llety yn y tymor byr yn hytrach na gweithio i atal y galw dros y tymor canolig a hwy. Cafodd risgiau'r dull hwn eu hamlygu yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol 'O Ymdrin â Heriau wrth iddynt Godi i Ddiogelu at y Dyfodol – yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru'¹⁷. Rydym wedi crynhoi hyn yn **Arddangosyn 6**.
- 96 Oni bai bod cynghorau'n gallu canolbwyntio'n fwy ar atal, ochr yn ochr â ffocws cryfach ar werth am arian y ddarpariaeth gyfredol, byddant yn parhau i ddarparu gwasanaeth drud gyda risg o beidio â diwallu anghenion pobl.

17 Archwilio Cymru, O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol – yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru

Arddangosyn 6 – o ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol

Mae'r arddangosyn isod yn nodi disgrifiad a nodweddion ar gyfer y gwahanol gamau, sef 'ymdrin â heriau wrth iddynt godi', 'cam pontio' a 'rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith' mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus.



Disgrifiad

Ymdrin â heriau wrth iddynt godi

Cam pontio

Rhoi'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ar Waith

Nodweddion yr arsylwyd arnynt

- Mae penderfyniadau a chynlluniau'n cael eu gwneud ar sail ad hoc a byrdymor.
- Adweithio'n gyson i'r galw sy'n dargyfeirio adnoddau oddi wrth atal.
- Ymdrin â heriau wrth iddynt godi mewn rhai meysydd ond mae cynllunio strategol a hirdymor yn digwydd.
- Mae mentrau i atal y galw'n cael eu rhoi ar waith.
- Cynllunio ar gyfer yr hirdymor yn seiliedig ar ddealltwriaeth am dueddiadau, y galw ac anghenion defnyddwyr.
- Cydweithio gyda phartneriaid i rannu gwersi a darparu gwasanaethau integredig sy'n cefnogi llesiant pobl.
- Cynnwys pobl a phartneriaid yn y broses o ddylunio gwasanaethau, eu gwerthuso a datrys problemau i sicrhau bod y deilliannau bwriadedig yn cael eu cyflawni yn y ffordd iawn.

Ffynhonnell: Diagram Archwilio Cymru wedi'i oleuo gan ffeithlun o ganllaw'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol [Improving Operational Delivery in Government](#)

97 Rydym wedi adnabod enghreifftiau o arfer y gallai cynghorau eu cael yn ddefnyddiol i wella eu dull o ddarparu llety dros dro. Mae'r rhain wedi cael eu grwpio'n bedair thema isod.

Cynllunio a defnyddio data

- 98 Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi gwneud gwaith cynllunio ariannol dros y tymor canolig mewn perthynas â thai a digartrefedd. Mae hyn yn adnabod:
- costau cylchol;
 - codiadau a ragwelir yn y galw gan gynnwys lwfans i blant sy'n pontio i leoliadau oedolion;
 - y buddsoddiad y mae ei angen ar gyfer ei raglenni trawsnewid;
 - cost pwysau digartrefedd;
 - y diffyg a ragfynegir yn y gyllideb i ateb y galw am lety dros dro; ac
 - mae'r defnydd tebygol o gronfeydd wrth gefn yn cael ei nodi ar draws y cyfnod llawn hefyd.
- 99 Mae dadansoddi data hefyd wedi galluogi Cyngor Castell-nedd Port Talbot i adnabod cyfnodau o ddigartrefedd a derbyniadau i'r ysbyty a ailadroddwyd ar gyfer pobl y mae arno ddyletswydd ôl-ofal statudol iddynt oherwydd anghenion iechyd meddwl cymhleth¹⁸. Mae'r Cyngor wedi datblygu cynnig i fynd i'r afael â hyn er mwyn rhoi cymorth gwell a chyflawni deilliannau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau.
- 100 Fe weithiodd y Sefydliad Tai Siartredig yn yr Alban gyda phartneriaid i ddatblygu fframwaith i alluogi dull mwy cyson o fonitro cynlluniau pontio ailgartrefu cyflym¹⁹. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar y nodau bod digartrefedd yn cael ei atal, ei fod yn rhywbeth byrhoedlog ac na fydd yn ailddigwydd, ac mae'n nodi dangosyddion, mesurau a chymau gweithredu y gall cynghorau eu defnyddio i fonitro cynnydd o ran cyrraedd y nodau hyn.
- 101 Mae'r rhaglen Built for Zero²⁰ sy'n cael ei rhedeg gan Crisis yn canolbwyntio ar wella'r defnydd o ddata i ddeall pwy sy'n profi digartrefedd, beth y mae ei angen arnynt i symud i mewn i gartref a sut y mae digartrefedd yn newid dros amser.

18 [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#)

19 [Adroddiad ar Gynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym](#)

20 Crisis UK, [Built for Zero: Together we will end homelessness](#)

Deall ac ymateb i anghenion y rhai sy'n byw mewn llety dros dro

- 102 Mae Cyngor Sir Gâr wedi datblygu cynlluniau ar gyfer canolfan llety a chymorth arhosiad byr yn benodol i bobl ifanc 18 i 25 oed ag anghenion cymhleth. Mae'r ganolfan yn darparu amgylchedd wedi'i ddiogelu lle gall anghenion gael eu cefnogi gan dîm amlasiantaeth am hyd at chwe mis, tra doir o hyd i lety parhaol.
- 103 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi datblygu dau gynllun tai a rennir sy'n rhoi cymorth a llety i bobl sy'n ddigartref ar adeg eu rhyddhau o'r carchar.
- 104 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hefyd wedi lleoli swyddog mewn rhai o'i unedau llety dros dro i roi cymorth i breswylwyr. Mae hyn yn cynnwys help gyda cheisio cyflogaeth a chynghor ynghylch y budd-daliadau sydd ar gael. Clywsom y bu galw uchel am y gwasanaeth hwn, a'i fod wedi arwain at lwyddo i ddileu rhwystrau a oedd yn atal rhai pobl rhag cael cyflogaeth ac, o ganlyniad, llety parhaol.

Partneriaeth

- 105 Mae Homelessness Link wedi creu offeryn hunanasesu partneriaethau²¹. Gall yr offeryn hwn helpu i asesu trefniadau partneriaeth cyfredol ac adnabod camau gweithredu i gryfhau trefniadau lle y bo angen.
- 106 Mae Crisis wedi datblygu Cynghrair Digartrefedd²² mewn partneriaeth gyda Llywodraeth y DU. Gall busnesau lleol ymuno â'r cynghrair trwy lofnodi a gweithredu addunedau sy'n golygu eu bod yn ymrwymo i atal eu cyflogeion rhag dod yn ddigartref. Mae hyn wedi'i fwriadu i annog busnesau lleol i helpu i atal digartrefedd.

Asesu Opsiynau

- 107 Datblygodd Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf a Llywodraeth y DU offeryn dadansoddi costau a manteision²³ i asesu'r gwerth am arian i'r sector cyhoeddus sy'n deillio o wahanol opsiynau ymyrryd nad ydynt yn hawdd i'w cymharu o bosibl. Gall yr offeryn helpu partneriaid i gydweithio i gael dealltwriaeth well am y berthynas rhwng yr arian a gaiff ei wario gan y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd a'r manteision a gyflawnir. Ategir yr offeryn gan ganllawiau a chronfa ddata costau unedau sy'n darparu data ariannol ynghylch ystod o weithgareddau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau tai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Gellir defnyddio'r offeryn i ategu dealltwriaeth well am y gwerth am arian a gynigir gan wahanol opsiynau i ateb ac atal y galw am lety dros dro.

21 Homeless Link, [Partnership self assessment framework](#)

22 Crisis UK, [Sign up to our Homelessness Alliance](#)

23 Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf, [Research: Cost Benefit Analysis](#)

- 108 Mae Local Partnerships wedi datblygu model atal digartrefedd²⁴. Gellir defnyddio'r model i helpu i feintoli costau a manteision rhaglenni atal digartrefedd.
- 109 Mae Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys asesiad manwl o opsiynau dros gyfnod o ddeng mlynedd, gan gynnwys yr effaith ariannol bob blwyddyn. Mae'r cynllun hefyd yn nodi sut y mae dewis ddull y Cyngor o ymdrin â llety dros dro'n cyd-fynd â'i nod i fod â llety y gellir ei ddefnyddio'n hyblyg wrth i'r galw newid dros amser.
- 110 Canfu Cyngor Castell-nedd Port Talbot ei fod yn gweithredu'r rhan fwyaf o'i llety dros dro am golled. Fe wnaeth y Cyngor fodelu ystod o opsiynau ac adnabod y byddai'n fwy cost-ffeithiol prynu'r llety dros dro yr oedd yn ei lesio. Y rheswm dros hyn yw bod y Cyngor wedi adnabod y gallai adennill ei gostau'n llawn o fewn ychydig flynyddoedd ac y byddai wedyn yn gallu ailfuddsoddi incwm a grëwyd o renti yn ôl cyfraddau'r lwfans tai lleol yn y gwasanaeth.
- 111 Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi tynnu ar yr adroddiad The Temporary Housing Dilemma – Strategies for Local Authorities²⁵ a gyhoeddwyd gan Copping Joyce. Mae'r adroddiad yn cynnwys matrices a all helpu cynghorau i asesu goblygiadau gwahanol ddulliau o ddarparu llety dros dro.
- 112 Mae Hertfordshire Growth Board²⁶ wedi noddi adolygiad o opsiynau llety dros dro i gynorthwyo cynghorau i fynd ati'n well i ddiwallu anghenion tai pobl sy'n byw mewn llety dros dro gan hefyd sicrhau gwerth am arian. Mae tri chynnig wedi cael eu hadnabod fel y rhai sydd â'r potensial mwyaf i effeithio ar gyflenwi a rheoli llety digartrefedd:
- datblygu Model Rhagfynegi Llety Dros Dro Swydd Hertford i fynd ati'n well i ddeall a rheoli'r galw yn y dyfodol;
 - datblygu llwybr llety aml-ddosbarth neu ar draws Swydd Hertford gyfan ar gyfer pobl ddigartref ag anghenion cymhleth (gwasanaeth tai yn gyntaf yn wreiddiol);
 - datblygu neu gomisiynu llety cam-i-lawr i bobl sydd wedi bod yn yr ysbyty.
- 113 Bydd llwyddiant yn cael ei fesur trwy'r canlynol:
- gwelliannau mesuradwy yng nghyfleoedd bywyd aelwydydd mewn llety dros dro;
 - mwy o adenillion ar fuddsoddiad ariannol mewn darparu llety dros dro; a
 - mwy o gydweithio a rhannu gwersi o brofiad trwy ddwyn ynghyd yr arbenigedd gofynnol mewn un rhaglen gydgyssylltiedig.

24 Local Partnerships, [Homelessness prevention report and tool](#)

25 Syrfewyr Copping Joyce, [The Temporary Housing Dilemma - Strategies for Local Authorities](#)

26 Y Gymdeithas Llywodraeth Leol, [Joint Review of Temporary Accommodation Provision: how can we improve the availability of appropriate temporary accommodation across the county](#)

- 114 Mae'r dull hwn yn darparu enghraifft o sut y gall partneriaid gydweithio i adnabod opsiynau o ran llety dros dro.

Cynyddu opsiynau o ran llety a gwella ansawdd

- 115 Canfuom enghreifftiau o ddefnyddio datrysiadau arloesol i geisio gwella gwerth am arian llety dros dro a chynyddu'r opsiynau o ran llety:
- Mae Cyngor Caerdydd wedi defnyddio dulliau adeiladu modern i greu llety ar dir llwyd. Mae safle Yr Hafan²⁷ wedi darparu llety dros dro o ansawdd da sy'n defnyddio ynni'n effeithlon gyda chymorth ar y safle'n barhaol ac adeilad cymunedol i ddarparu cyfleusterau hyfforddiant, addysg a crèche i breswylwyr.
 - Mae gan Gyngor Caerdydd gynllun trawsnewid stoc y mae'n ei ddefnyddio i asesu ansawdd ei holl ddarpariaeth llety ac i adnabod y gwaith sy'n ofynnol i'w gwella fel ei bod yn cyrraedd y safon.
 - Mae Cymdeithas Tai Linc Cymru wedi creu cartrefi o ansawdd da sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ar faes parcio nas defnyddir ddigon i bobl a oedd yn byw mewn llety dros dro yng Nghasnewydd²⁸.
 - Fe adnabu Cyngor Sir Gâr y gallai ddarparu llety dros dro o ansawdd gwell i gefnogi llesiant preswylwyr a dwyn arbedion sylweddol i'r Cyngor trwy ddefnyddio adeiladau nad oedd ar y Cyngor mo'u hangen mwyach neu a oedd yn cael eu gwerthu gan landlordiaid preifat.
 - Pan benderfynodd landlord lleol werthu nifer fawr o gartrefi, fe adnabu Cyngor Castell-nedd Port Talbot gyfle i gynyddu'r stoc tai cymdeithasol ac atal digartrefedd trwy weithio gyda LCC lleol i brynu rhai o'r unedau eiddo. Nid yw'r Cyngor yn dal stoc, ond fe wnaeth cydweithio gyda Llywodraeth Cymru alluogi'r Cyngor i gynyddu nifer yr unedau eiddo y mae'n berchen arnynt.

27 Cyngor Caerdydd, [Hafan \(Hen Safle'r Gwaith Nwy\) – Heol y Fferi, Grangetown](#)

28 Zed Pods, [Tŷ Stryd y Bryn](#)

116 Gall fod cyfleoedd i rai cynghorau weithio'n fwy gyda chymunedau a'r trydydd sector i ehangu eu darpariaeth a rhoi cymorth i bobl sy'n byw mewn llety dros dro. Gallai mapio partneriaid posibl helpu cynghorau i adnabod cyfleoedd newydd neu gyfleoedd i weithio'n fwy effeithiol gyda'r trydydd sector. Mae enghreifftiau o fentrau sy'n cael eu rhedeg gan y trydydd sector yn cynnwys:

- Mae nifer o sefydliadau'n cyflawni cynlluniau Tai yn Gyntaf yng Nghymru, gan gynnwys The Wallich a Byddin yr Iachawdwriaeth. Mae timau Tai yn Gyntaf yn cydweithio'n agos gyda chynghorau i ddod o hyd i gartref parhaol yn gyflym ar gyfer pobl ochr yn ochr â chymorth dwys i gadw eu cartref.
- Mae Depaul yn rhedeg Nightstop sy'n galluogi lletywyr sy'n wirfoddolwyr i ddarparu llety dros nos brys ar gyfer pobl ifanc.
- Mae Housing Justice Cymru yn rhedeg rhaglenni megis:
 - Ffydd mewn Tai Fforddiadwy sy'n golygu defnyddio tir ac adeiladau eglwysi unwaith eto fel tai cymdeithasol;
 - Y Prosiect Lletya sy'n cefnogi aelwydydd sy'n gwirfoddoli i letya ffoaduriaid a cheiswyr lloches; a
 - Citadel sy'n brosiect atal digartrefedd a arweinir gan wirfoddolwyr ac sy'n rhoi cymorth i bobl sy'n profi digartrefedd ddod o hyd i denantiaeth a/neu gadw tenantiaeth a sefydlu cartref.



Ein hargymhellion

Arddangosyn 7: argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi eu hadnabod yn dilyn yr astudiaeth hon.

Argymhellion

Gwerth am arian

- A1 Canfuom nad yw cynghorau'n gallu dangos eu bod yn sicrhau gwerth am arian yn eu darpariaeth llety dros dro. I fynd i'r afael â hyn dylai cynghorau:
- sicrhau bod yr ystod lawn o ddulliau ac opsiynau ar gyfer darparu llety dros dro'n cael eu hystyried; a
 - nodi sut y byddant yn asesu ac yn monitro gwerth am arian darpariaeth llety dros dro ar y cyfan, gan gynnwys:
 - y manteision bwriadedig; a hefyd
 - yr wybodaeth y byddant yn ei defnyddio i asesu darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu darpariaeth llety dros dro.

Argymhellion

Cynllunio ar gyfer atal

A2 Canfuom, er bod gan yr holl gynghorau Gynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym, fod ansawdd y rhain yn amrywio. Er mwyn cynllunio'n effeithiol i atal digartrefedd dylai cynghorau:

- sicrhau eu bod yn defnyddio data perthnasol i lunio'r amcangyfrif gorau posibl o'r galw yn y dyfodol am wasanaethau digartrefedd;
- cynnwys ystod o ddulliau sylfaenol, eilaidd a thrydyddol yn eu cynlluniau, gyda'r pwyslais ar atal sylfaenol lle y bo'n bosibl;
- modelu effaith newidiadau polisi ar y sgiliau a'r capasiti y mae eu hangen yn eu gweithlu;
- adnabod y gweithlu y bydd ei angen arnynt i fynd i'r afael â'r galw am lety dros dro yn y dyfodol; a
- nodi sut y byddant yn asesu ac yn monitro darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu dull o atal a lleihau'r galw am lety dros dro.

Gweithio mewn partneriaeth

A3 Canfuom ei bod hi'n aml yn wir nad yw gweithio mewn partneriaeth i atal digartrefedd yn effeithiol. I wella hyn dylai cynghorau:

- weithio gyda'u partneriaid i:
 - adnabod priod rolau a chyfrifoldebau presennol;
 - cytuno sut i fynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau a/neu achosion o ddyblygu gwasanaethau;
- mynd ati'n rheolaidd i werthuso effeithiolrwydd eu trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i atal digartrefedd.



Atodiadau

- 1 Cwmpas, ymagwedd a dull yr archwiliad

1 Cwmpas, ymagwedd a dull yr archwiliad

Cwmpas

Roeddem yn ceisio ateb y cwestiwn ‘A oes cyfleoedd i wella gwerth am arian gwasanaethau llety dros dro?’

I ateb hyn, fe wnaethom fwrw golwg ar yr hyn y mae cynghorau’n ei wneud i wneud yn siŵr eu bod yn sicrhau gwerth am arian yn eu dull cyfredol o ddarparu llety dros dro. Fe wnaethom hefyd ystyried a yw cynghorau’n mynd ati’n effeithiol i atal y galw am wasanaethau llety dros dro.

Fe ddatblygom ni ein meini prawf archwilio yn seiliedig ar wersi o’n harchwiliadau blaenorol o’r galw am wasanaethau Digartrefedd²⁹, Cysgu allan³⁰ a Tlodi³¹. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio ymchwil gan sefydliadau a rhanddeiliaid perthnasol i’r materion allweddol mewn perthynas â llety dros dro i oleuo’r meini prawf hyn.

Ymagwedd

Ein hymagwedd yn yr archwiliad hwn fu deall cost llety dros dro a’r cynnydd yn y galw amdano, a chynlluniau cynghorau i ymdrin â’r heriau hyn. Roeddem yn amcanu at adnabod sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario i fynd i’r afael â’r angen am lety dros dro a darparu tystiolaeth i ddangos ble y mae angen newid. Roeddem hefyd yn amcanu at gefnogi gwelliant trwy amlygu cyfleoedd i wella gwerth am arian a dyfynnu enghreifftiau o arfer da.

Roeddem yn amcanu yn arbennig at ystyried anghenion, a deilliannau, pobl sy’n profi digartrefedd fel rhan o’r gwaith hwn.

²⁹ Archwilio Cymru, Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw – Digartrefedd

³⁰ Archwilio Cymru, Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i bawb; cyfrifoldeb i neb. Archwilio Cymru, Gorffennaf 2020

³¹ Archwilio Cymru, ‘Amser am newid’ – Tlodi yng Nghymru. Archwilio Cymru, Tachwedd 2022

Dulliau

Cwblhawyd ein gwaith maes rhwng mis Medi 2024 a mis Ebrill 2025, gan ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- adolygiad o ddogfennau: fe wnaethom adolygu dogfennau allweddol gan bob un o'r 22 o gynghorau. Roedd y rhain yn cynnwys cynlluniau pontio ailgartrefu cyflym, adroddiadau monitro cynnydd ar gyfer cynlluniau pontio ailgartrefu cyflym, a Chynlluniau Ariannol Tymor Canolig. Fe wnaethom hefyd adolygu cynlluniau'r gweithlu, achosion busnes a dogfennau tendro i ategu'r broses o gomisiynu llety dros dro. Fe wnaethom hefyd adolygu dogfennau a oedd yn dangos tystiolaeth o fodelu a chynllunio ar gyfer y galw hirdymor a chytundebau sy'n tanategu partneriaethau allweddol.
- adolygiad o lenyddiaeth: fe wnaethom adolygu dogfennau polisi ac ymchwil perthnasol allweddol.
- cyfweiliadau lleol: fe wnaethom gwrdd ag uwch swyddogion perthnasol a chynghorwyr o bum cyngor.
- cyfweiliadau cenedlaethol: fe wnaethom gwrdd â Llywodraeth Cymru, sefydliadau ymchwil ac elusennau digartrefedd.
- arolygon: fe gynhaliom ni arolygon o'r swyddogion adran 151 a'r penaethiaid tai ym mhob un o'r 22 o gynghorau. Fe gawsom ymatebion gan bob cyngor i'r ddau arolwg.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.

Ffurflen ymateb rheolwyr



At ddefnydd Archwilio Cymru yn unig	
Corff a archwilir	Cyngor Gwynedd
Enw'r archwiliad	Llety dros dro, argyfwng hirdymor?
Dyddiad cyhoeddi	06/08/2025

Cyf	Argymhelliaid	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)	Archwilio Cymru yn unig
A1	Gwerth am Arian Canfuom nad yw cynghorau'n gallu dangos eu bod yn sicrhau gwerth am arian yn eu darpariaeth llety dros dro. I fynd i'r afael â hyn dylai cynghorau: • sicrhau bod yr ystod lawn o ddulliau ac opsiynau ar gyfer darparu llety dros dro'n cael eu hystyried; a	• Mae'r Gwasanaeth Digartrefedd wedi cynnal archwiliad o bob eiddo a ddefnyddir i letya aelwydydd, gan gynnwys eu cyfleusterau a'r perchenogion ar sail gofynion 'Fit and Proper Person' a ddiffinnir gan y Llywodraeth Yn sgil yr archwiliadau hynny, gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer	Parhaus	Rheolwr Digartrefedd	

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)	Archwilio Cymru yn unig
	- nodi sut y byddant yn asesu ac yn monitro gwerth am arian darpariaeth llety dros dro ar y cyfan, gan gynnwys: - y manteision bwriadedig; a hefyd - yr wybodaeth y byddant yn ei defnyddio i asesu darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu darpariaeth llety dros dro.	gwelliannau i'r eiddo a/neu drefniadau busnes eiddo Bwriedir parhau gyda'r trefniadau i gynnal yr archwiliadau hyn yn rheolaidd. Bydd yr Adolygiad Digartref (i gydymffurfio ag adran 51 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn cael ei gynnal yn ystod 2025/26 a bydd hynny yn siwr o atgyfnerthu'r gwaith sydd eisoes wedi digwydd. - Bydd y Gwasanaeth yn parhau i herio costau yn rheolaidd gan ysgrifennu at berchnogion eiddo yn amlygu sefyllfa costau llety argyfwng a gosod uchafswm cost nosweithiol derbyniol - Yn dilyn creu system fewnol ar gyfer cofnodi a monitro archebion a gwariant llety argyfwng, rydym wedi gweld	Parhaus yn ôl y galw Parhaus	Rheolwr Digartrefedd Rheolwr Digartrefedd	

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)	Archwilio Cymru yn unig
		gwelliant yn effeithlonrwydd ein prosesau, ac mae gennym well trosolwg dros ein gwariant. Byddwn yn parhau gyda'r trefniadau hyn gan gynnwys sefydlu cyfarfodydd wythnosol rhwng ein cyfrifydd, tîm cyllid a Rheolwr Gwasanaeth Digartrefedd i fonitro gwariant er mwyn adnabod patrymau ac chanfod datrysiadau yn rhagweithiol - Mae cyfarfodydd gydag Uned Caffael y Cyngor wedi'u trefnu i drafod y sefyllfa ac opsiynau caffael llety argyfwng gyda'r nod o hwyluso trefniadau a sicrhau gwerth am arian - Wedi ac yn parhau i adnabod eiddo addas i'w brynu ar gyfer dibenion lletya unigolion digartref e.e. Adeilad y Goron, Caernarfon a Thŷ Glyn, Bangor. Ein gobaith yw bydd hyn yn arwain at	Medi 2026 Parhaus	Rheolwr Digartrefedd Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo	

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)	Archwilio Cymru yn unig
		arbedion a gwell safon o lety ar gyfer unigolion digartref			
A2	Cynllunio ar gyfer Atal Canfuom, er bod gan bob cyngor Gynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym ar waith, mae'r rhain o ansawdd amrywiol. Er mwyn cynllunio yn effeithiol i atal digartrefedd, dylai cyngorau: - sicrhau eu bod yn defnyddio data perthnasol i lunio'r amcangyfrif gorau posibl o'r galw yn y dyfodol am wasanaethau digartrefedd; - cynnwys ystod o ddulliau sylfaenol, eilaidd a thrydyddol yn eu	- Nid yw'n eglur a yw hyn yn broblem yng Ngwynedd, ac mae ein Cynllun Ailgartrefu Cyflym wedi derbyn canmoliaeth gan y Llywodraeth. - Gallwn gadarnhau bod Cynllun Gweithredu ein Cynllun Ailgartrefu Cyflym yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac mae cynnydd wedi ei wneud. Fel y cyfeirir ato uchod, rydym yn cychwyn ar Arolygiad Digartrefedd fydd maes o law yn sail ar gyfer ein Strategaeth Digartrefedd. Law yn	Diwedd 2026	Arweinydd Tîm Comisiynu	

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)	Archwilio Cymru yn unig
	cynlluniau, gyda'r pwyslais ar atal sylfaenol lle y bo'n bosibl; • modelu effaith newidiadau polisi ar y sgiliau a'r capasiti y mae eu hangen yn eu gweithlu; • adnabod y gweithlu y bydd ei angen arnynt i fynd i'r afael â'r galw am lety dros dro yn y dyfodol; a • nodi sut y byddant yn asesu ac yn monitro darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu dull o atal a lleihau'r galw am lety dros dro.	llaw â hyn rydym yn cynnal Asesiad o Anghenion fel rhan o'r broses cynllunio'r Grant Cymorth Tai fydd yn sail i'r Strategaeth Cymorth Tai. Yn ôl y disgwyliad diweddaraf gan y Llywodraeth, bydd y ddwy strategaeth yma yn cael eu cyfuno i un Strategaeth Cymorth Tai a Digartrefedd. Er bod amserlen cyflwyno'r strategaethau hyn wedi ymestyn i Ebrill 2027, rydym yn bwriadu cyflwyno ein strategaeth cyn ddiwedd 2026. • Bydd y Strategaeth yma, ar sail yr wybodaeth fydd wedi ei adnabod yn yr Asesiad Anghenion ac Aolygiad Digartrefedd yn ystyried yr holl opsiynau ar gyfer darpariaeth gwasanaethau atal			

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)	Archwilio Cymru yn unig
		digartrefedd, boed nhw'n statudol neu fel arall. • Bydd ethos ailgartrefu cyflym yn cael ei blethu i'r strategaeth er mwyn sicrhau bod y gwerthoedd hynny yn sail i cyfeiriad strategol y strategaeth. • O ran data, mae system cyfrifiadurol newydd yn caniatáu i ni gael gwell trosolwg o sefyllfa a data allweddol. Cafodd y fanyleb ei llunio gydag anghenion data mewn golwg, gan sicrhau bod ein penderfyniadau'n cael eu gyrru gan ddata • Rydym wedi comisiynu gwaith ymchwil gan Uned Ymchwil a Dadansoddeg mewnol y Cyngor er	Mawrth 2026	Rheolwr Digartrefedd	

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)	Archwilio Cymru yn unig
		mwyn edrych ar batrymau cyflwyniadau gyda golwg ar geisio atal achosion yn rhagweithiol - Rydym wedi ac yn parhau i brynu eiddo ar draws y sir er mwyn ceisio atal digartrefedd yn rhagweithiol - Rydym wedi adnabod rolau critigol er mwyn cynllunio'r gweithlu a sicrhau bod gennym staff yn eu lle i ymateb i'r galw - Parhau i adrodd ar lefelau atal digartrefedd trwy gyfundrefn Herio a Chefnogi Perfformiad mewnol y Cyngor. - Wedi sefydlu "Grŵp Digartrefedd" sy'n adrodd i'r Prif Weithredwr a'r Aelod Cabinet. Yn ystod y cyfarfod adroddir ar sefyllfa digartrefedd y	Parhaus Medi 2025 Parhaus Parhaus	Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo Pennaeth Tai ac Eiddo Pennaeth Tai ac Eiddo Pennaeth Tai ac Eiddo	

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)	Archwilio Cymru yn unig
		Cyngor er mwyn amlygu effeithlonrwydd ac adnabod patrymau allweddol, gan gynnwys gwaith ataliol.			
A3	Gweithio mewn Partneriaeth Gwelsom nad yw gweithio mewn partneriaeth i atal digartrefedd yn aml yn effeithiol. Er mwyn gwella hyn dylai cyngorau: • weithio gyda’u partneriaid i: - adnabod priod rolau a chyfrifoldebau presennol; - cytuno sut i fynd i’r afael â bylchau mewn gwasanaethau a/neu achosion o	• Eto, mae’n aneglur a oes tystiolaeth o ddiffyg gweithio mewn partneriaeth yng Ngwynedd, ac mae LIC wedi cydnabod Partneriaeth Tai Gwynedd fel esiampl o arfer dda cydweithio • Fodd bynnag, mae’n wir bod pwysau cynyddol ar bob un maes cyhoeddus yng Nghymru e.e. gwasanaeth prawf, gwasanaeth iechyd, sydd yn ei dro yn ei gwneud hi’n gynyddol anodd i gyrff			

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)	Archwilio Cymru yn unig
	ddyblygu gwasanaethau; • mynd ati'n rheolaidd i werthuso effeithiolrwydd eu trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i atal digartrefedd.	weithio mewn partneriaeth gan fod blaenoriaethau yn gwrthdaro • Rydym wedi gofyn i gynnwys y mater hwn ar agenda cyfarfod rhwng awdurdodau lleol gogledd Cymru a Gweinidog Tai LIC ym mis Hydref 2025 • Parhau i drafod yn yr is-grŵp Dyrannu a Gosodiadau Bwrdd Partneriaeth • Disgwylir gwybodaeth bellach yn dilyn y Bil Digartrefedd newydd yn sgil argymhellion ynddo i wneud gweithio mewn partneriaeth yn statudol. Rydym yn barod i ymateb pan fo hynny'n digwydd • Fel y cyfeirir ato uchod, bydd yr Asesiad Anghenion ac Adolygiad	Hydref 2025 Parhaus Parhaus	Pennaeth Tai ac Eiddo Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo Rheolwr Digartrefedd	

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)	Archwilio Cymru yn unig
		Digartrefedd yn sicrhau y bydd yna ymgysylltu ac ymgynghori cynhwysfawr gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn y maes digartrefedd ac atal digartrefedd. Rhagwelir y bydd y Strategaeth Cymorth Tai a Digartrefedd yn cynnwys themâu o weithio mewn partneriaeth ar draws y maes ac y edrych am gyfleon i wneud hynny er mwyn llinairu effaith digartrefedd. Bydd cynnwys y strategaeth hefyd yn ymgorffori'r newidiadau a ddaw yn sgil dyfodiad Dieddf Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol lle mae pwyslais ar weithio mewn partneriaeth.			

Blaenraglen y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hyd Mawrth 2027

Mai 2026

Ethol Cadeirydd

Ethol Is-Gadeirydd

Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor

Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

Cyfrifon Terfynol 2025/26 – Alldro Refeniw

Rhaglen Gyfalaf 2025/26 – Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2026)

Cynnyrch Archwilio Mewnol

Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2025/26

Siarter Archwilio Mewnol

Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol

Adroddiad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys

Blaenraglen y Pwyllgor

Medi 2026

Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor

Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2025-26

Rhaglen Ddatblygu'r Pwyllgor

Datganiad o Gyfrifon 2025/26 (Amodol ar Archwiliad)

Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwynedd ar Gyfer 2025/26

Rheolaeth Trysorlys 2025/26

Adroddiad Risg Hanner Blwyddyn

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Adroddiadau Archwilio Cymru - Diweddariad Ch1

Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2025/26

Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol

Trefniadau'r Cyngor i Ymdrin â Chwynion

Blaenraglen y Pwyllgor

Hydref 2026

Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor

Cyfrifon Terfynol am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2026 a'r Archwiliad Perthnasol

Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol

Cyllideb Refeniw 2026/27 – Adolygiad Diwedd Awst 2026

Rhaglen Gyfalaf 2026/27 – Adolygiad Diwedd Awst 2026

Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion

Diweddariad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys

Adroddiadau Archwilio Cymru

Blaenraglen y Pwyllgor

Tachwedd 2026

Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor

Rheolaeth Trysorlys 2026-27 Adolygiad Canol Blwyddyn

Cynnyrch Archwilio Mewnol

Cynllun Archwilio Mewnol 2026/27

Adroddiadau Archwilio Cymru

Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol

Blaenraglen y Pwyllgor

Chwefror 2027

Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor

Cyllideb Refeniw 2026/27 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2026

Rhaglen Gyfalaf 2026/27 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2026

Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion

Adroddiadau Archwilio Cymru

Arbedion 2027/28

Strategaeth Gyfalaf 2027/28 (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthlyg)

Cyllideb 2027/28

Diweddariad Canol Blwyddyn ar Risgiau Llywodraethu Cyngor Gwynedd

Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol

Blaenraglen y Pwyllgor

Mawrth 2027

Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor

Adolygu Rhaglen Waith Hunanasesiad y Pwyllgor

Adroddiad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys

Adroddiad Risg Hanner Blwyddyn

Adroddiadau Archwilio Cymru

Cynnyrch Archwilio Mewnol

Cynllun Archwilio Mewnol 2026/27

Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Blynnyddol 2027/28

Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol

Blaenraglen y Pwyllgor